



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 24 Hydref 2006
Tuesday, 24 October 2006**

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
33	Datganiad Busnes Business Statement
39	Datganiad am Fuddsoddi yn Corus yn y Dyfodol Statement on the Future Investment in Corus
53	Datganiad am yr Adolygiad o Bolisi Gwyddoniaeth Statement on the Review of Science Policy
71	Cymeradwyo Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog Rhif 24.25 Approval of Legislation Under Standing Order No. 24.25
75	Cymeradwyo'r Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2006 o dan Reol Sefydlog Rhif 25 adran 3, a Rheolau Sefydlog Rhifau 24.14 a 24.25 Approval of the Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2006 under Standing Order No. 25 section 3, and Standing Orders Nos. 24.14 and 24.25
76	Y Gyllideb Ddrafft The Draft Budget
109	Cynnig Trefniadol Procedural Motion
111	Y Gyllideb Ddrafft: Parhad The Draft Budget: Continued
143	Pwynt o Drefn Point of Order

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Cefnogi Cymunedau Supporting Communities

Q1 Laura Anne Jones: How does the Welsh Assembly Government work with public and private enterprises to encourage them to support communities? OAQ1957(FM)

The First Minister: It is almost a year to the day since the Secretary of State for Wales and I launched Corporate Challenge Wales at a successful event at Gwydyr House in London. I am grateful for the opportunity to draw renewed attention to these plans to increase the levels of support for our communities from businesses in Wales.

Laura Anne Jones: That is important. I was pleased to learn recently that Finsbury Food Group plc, a private company and the largest manufacturing employer in Cardiff, takes on this sort of responsibility. It provides workers and the surrounding community with English lessons, it is involved in a great deal of local charity work, and it supports and sponsors local athletes, particularly in the run-up to the Olympic Games. This company obviously feels a sense of responsibility to engage with the community, and it is a good example of how the private sector is doing that. How are you encouraging the public sector, more forcefully perhaps, to do the same sort of thing?

The First Minister: I am not sure whether my hearing is 100 per cent. Were you referring to Memory Lane Cakes Ltd?

Laura Anne Jones: Yes.

The First Minister: I thought that you were. I commend its efforts in this area. I hope that we will be able to have another Corporate Challenge Wales event in Cardiff soon. I am sure that Memory Lane and many other

C1 Laura Anne Jones: Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda mentrau cyhoeddus a phreifat i'w hannog i gefnogi cymunedau? OAQ1957(FM)

Y Prif Weinidog: Mae bron yn flwyddyn i'r diwrnod ers i Ysgrifennydd Gwladol Cymru a minnau lansio Her Gorfforaethol Cymru mewn digwyddiad llwyddiannus yn Gwydyr House, Llundain. Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i dynnu sylw o'r newydd at y cynlluniau hyn i godi lefelau'r gefnogaeth y mae busnesau yng Nghymru yn ei rhoi i'n cymunedau.

Laura Anne Jones: Mae hynny'n bwysig. Yr oeddwn yn falch o ddeall yn ddiweddar fod Finsbury Food Group plc, cwmni preifat, a'r cyflogwr gweithgynhyrchu mwyaf yng Nghaerdydd, yn ysgwyddo cyfrifoldeb o'r math hwn. Mae'n rhoi gwersi Saesneg i weithwyr ac i'r gymuned yn y cylch, mae'n ymwneud â llawer o waith elusennol lleol, ac yn cefnogi ac yn noddi athletwyr lleol, yn enwedig yn y cyfnod cyn y Gemau Olympaidd. Mae'n amlwg bod y cwmni hwn yn teimlo ei bod yn ddyletswydd arno ymgysylltu â'r gymuned, ac mae'n enghraifft dda o sut y mae'r sector preifat yn gwneud hynny. Sut yr ydych yn annog y sector cyhoeddus, mewn modd mwy grymus efallai, i wneud yr un math o beth?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn sicr a yw fy nghlyw yn hollol iawn. Ai cyfeirio at Memory Lane Cakes Ltd yr oeddech?

Laura Anne Jones: Ie.

Y Prif Weinidog: Yr oeddwn yn meddwl mai at hynny yr oeddech yn cyfeirio. Yr wyf yn cymeradwyo ei ymdrechion yn y maes hwn. Gobeithio y byddwn yn gallu cael digwyddiad Her Gorfforaethol Cymru arall

companies will be invited to that, because we need to spread the message. Some companies are doing this already, while others ignore it. We have to try to get the message across that there is a big corporate social responsibility here, which can take many different forms to suit companies and the needs of society.

Leanne Wood: In a recent letter to me regarding the closure of the Burberry factory at Treorchy, the Minister for Enterprise, Innovation and Networks failed to mention any financial support that he had offered the company. Can you tell us whether any financial offer has been made to keep the 300 Burberry jobs in the Rhondda? Is the answer 'yes' or 'no'?

The First Minister: Burberry is one of those odd companies. It has received regional selective assistance, and so public assistance. It exceeded its job targets, as I recall, but not for very long. Therefore, there is a 'yes' and a 'no' answer. We want companies to achieve their targets, and we are happy for them to exceed them, but not when their factories subsequently close owing to a decision taken from on high in a most regrettable way. As regards any further assistance, it is more a matter of a possible reclaim—I am not sure what the situation is on that. You cannot offer operational aid to try to resist closure; that is not allowed under state aid regulations.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): I know that you are familiar with the findings of the Beecham review, in which it is stated that local government, the private sector, and the voluntary sector have to join up together more. The most high-profile example of failure in this regard is the situation regarding delayed discharges from hospital. In South Wales East, 6 per cent of hospital beds are now blocked in this way. There are 161

yng Nghaerdydd yn fuan. Yr wyf yn sicr y gwahoddir Memory Lane ac amryw o gwmnïau eraill i'r digwyddiad hwnnw, oherwydd y mae angen inni ledaenu'r neges. Mae rhai cwmnïau eisoes yn gwneud hyn, tra bo cwmnïau eraill yn ei anwybyddu. Mae'n rhaid inni geisio rhoi ar ddeall fod yma gyfrifoldeb corfforaethol cymdeithasol mawr, a gall fod ar lawer ffurf wahanol er mwyn gweddu i gwmnïau ac anghenion y gymdeithas.

Leanne Wood: Mewn llythyr diweddar ataf yn ymwneud â chau ffatri Burberry yn Nhreorci, ni soniodd y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau am gymorth ariannol yr oedd wedi ei gynnig i'r cwmni. A allwch ddweud wrthym a oes unrhyw gynnig ariannol wedi'i wneud er mwyn cadw'r 300 o swyddi Burberry yn y Rhondda? Ai 'oes' ynteu 'nac oes' yw'r ateb?

Y Prif Weinidog: Mae Burberry yn un o'r cwmnïau rhyfedd hynny. Mae wedi derbyn cymorth rhanbarthol dewisol, felly mae wedi derbyn cymorth cyhoeddus. Gwnaeth yn well na'r gofyn o ran ei dargedau swyddi, os cofiaf yn iawn, ond ni pharhaodd hynny'n hir iawn. Oherwydd hynny, mae modd ateb 'oes' a 'nac oes'. Yr ydym am i gwmnïau gyrraedd eu targedau, ac yr ydym yn hapus eu bod yn rhagori ar y targedau hynny, ond nid pan fo eu ffatrioedd wedyn yn cau yn sgîl penderfyniad sy'n cael ei wneud gan rywun sy'n uchel yn y cwmni mewn ffordd anffodus iawn. O ran unrhyw gymorth ychwanegol, mae'n fwy o fater o adennill o bosibl—nid wyf yn sicr beth yw'r sefyllfa ynghylch hynny. Ni allwch gynnig cymorth gweithredol i geisio gwrthwynebu cau'r ffatri; ni chaniateir hynny dan reoliadau cymorth gwladwriaethol.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Gwn eich bod yn gyfarwydd â chanfyddiadau adolygiad Beecham. Dywedir ynddo fod rhaid i lywodraeth leol, y sector preifat a'r sector gwirfoddol uno mwy â'i gilydd. Yr enghraifft fwyaf adnabyddus o fethiant yn hyn o beth yw'r sefyllfa sy'n ymwneud ag oedi wrth ryddhau pobl o ysbytai. Yn Nwyrain De Cymru, dyma'r rheswm pam nad yw 6 y cant o welyau ysbytai ar gael yn

people in beds that they no longer need, which means that a further 161 people cannot get into hospital. That is 322 patients who are suffering because different parts of Government, in whatever format, are not working together properly. What do you see as the solution to this matter, using the Beecham proposals?

The First Minister: I am puzzling over what that has to do with Laura Anne's original question. To try to help you out of a hole, Mike, I will refer you to the fact that I saw an interesting advertisement in the *South Wales Echo*—last Wednesday, I think—indicating that a 100-bed nursing home would be opening shortly. It was advertising for a large number of staff. That would ease the position somewhat, because it would mean that a large nursing home would be available in Cardiff. We would all agree with the principle that it is not appropriate for hospitals to be used as nursing homes. They are not built as such, they are expensive to use as such, and they cannot provide the right kind of care. Any method by which we can crack the inappropriate placement of people in hospitals when they should be outside that setting is to be commended, whether that is by the private sector building more nursing homes, or by the local authority using its budget more creatively and making sure that when people are ready to leave hospital, they do so. It cuts the cost in half, and also means far better care.

Michael German: I agree with your diagnosis, but not your prescription, First Minister, because the Beecham report stated that we need to connect these services. This is a growing problem throughout Wales, but the worst example of it is in Torfaen, where 31 people, in what is one of the smallest council areas in Wales, are not able to access care in the community, and are stopping others from accessing secondary care. I was asking about the Beecham proposals, which ask us, and you, how we can bring services together, pool budgets, and make these services work better together. I was asking you for an analysis of this major problem,

awr. Mae 161 o bobl mewn gwelyau nad oes arnynt eu hangen rhagor, sy'n golygu bod 161 o bobl eraill yn methu â mynd i'r ysbyty. Mae hynny'n golygu bod 322 o gleifion yn dioddef oherwydd nad yw rhannau gwahanol o'r Llywodraeth, ym mha ffordd bynnag, yn gweithio'n briodol â'i gilydd. Beth yw'r ateb i'r mater hwn yn eich barn chi, gan ddefnyddio cynigion Beecham?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn ceisio meddwl beth sydd a wnelo hyn â chwestiwn gwreiddiol Laura Anne. I geisio'ch tynnu o dwll, Mike, fe'ch cyfeiriais at y ffaith i mi weld hysbyseb ddiddorol yn y *South Wales Echo*—ddydd Mercher diwethaf, os cofiais yn iawn—yn dweud y bydd cartref preswyl gyda 100 o welyau yn agor yn fuan. Yr oedd yn hysbysebu am nifer helaeth o staff. Byddai hynny'n lleddfu rhywfaint ar y sefyllfa, oherwydd byddai'n golygu bod cartref preswyl mawr ar gael yng Nghaerdydd. Byddai pob un ohonom yn cytuno â'r egwyddor nad yw'n briodol defnyddio ysbytai fel cartrefi preswyl. Nid ydynt wedi cael eu hadeiladu ar gyfer hynny, maent yn rhy ddrud i'w defnyddio at y diben hwnnw, ac ni allant ddarparu'r math iawn o ofal. Rhaid cymeradwyo unrhyw ddull a all fynd i'r afael â'r sefyllfa lle y mae pobl yn cael eu lleoli'n amhriodol mewn ysbytai pan na ddylent fod yno, boed hynny drwy adeiladu mwy o gartrefi preswyl gan y sector preifat, neu wrth i'r awdurdod lleol ddefnyddio'i gyllideb mewn modd mwy creadigol a sicrhau, pan fydd pobl yn barod i adael yr ysbyty, eu bod yn mynd oddi yno. Mae'n haneru'r costau, ac yn golygu gwell gofal o lawer hefyd.

Michael German: Cytunaf â'ch diagnosis, Brif Weinidog, ond nid â'ch presgripsiwn, oherwydd dywedodd adroddiad Beecham fod angen inni gysylltu'r gwasanaethau hynny â'i gilydd. Mae'r broblem hon yn tyfu ledled Cymru, ond yn Nhor-faen y ceir yr enghraifft waethaf ohoni, lle y mae 31 o bobl, yn un o'r ardaloedd lleiaf sydd gan gyngor yng Nghymru, yn methu â chael gofal yn y gymuned, ac yn atal rhai eraill rhag cael gofal eilaidd. Holi yr oeddwn ynghylch cynigion Beecham, sy'n gofyn i ni, ac i chithau, sut y gallwn ddod â gwasanaethau at ei gilydd, cyfuno cyllidebau, a gwneud i'r gwasanaethau hyn weithio'n well gyda'i

which is on the rise again. Apart from opening new nursing homes, what solutions are you preparing with regard to service structure, given the opportunity offered by the Beecham review?

The First Minister: The opportunity existed before the Beecham review. It hardly requires the Beecham review to point out that delayed transfers of care are expensive and provide a poor quality of care to those who are ready to leave hospital, following their operation or the acute phase of their illness. We need to think constructively about what is causing the disputes over who is responsible for what. We have seen letters from professionals working for certain local authorities in Wales, claiming that the local authority is asking them to do something illegal in trying to introduce a one-in, one-out policy. That is pretty astonishing, but, as much as we may want to, we cannot shake that authority by the neck and ask, 'How dare you do this, and ask your own professionals to do something that they know is against the law, and which they have pointed out to the council is against the law?'. That is a very serious situation, and one that exists in some of our local authorities.

Michael German: Perhaps one answer then, First Minister, is to look at pooling NHS and local authority budgets to ensure that the most effective solution is provided. Have you examined that, and are you prepared to say now that that is the direction of travel in which Beecham is driving us?

The First Minister: I am not prepared to say that now, because I still hope that local authorities and the local trust—in the Cardiff and Vale trust, say—can get together and continue down the path of a sharp downward trend in the numbers of beds being blocked through delayed transfers of care. Until recently, the situation was improving dramatically, and the number of bed days lost

gilydd. Gofyn yr oeddwn ichi am ddadansoddiad o'r broblem fawr hon, sydd, unwaith eto, ar gynnydd. Ac eithrio agor cartrefi preswyl newydd, pa atebion yr ydych yn eu paratoi o ran strwythur y gwasanaeth, o ystyried y cyfle a gynigiwyd gan adolygiad Beecham?

Y Prif Weinidog: Yr oedd y cyfle'n bodoli cyn adolygiad Beecham. Prin bod angen adolygiad Beecham i dynnu sylw at y ffaith bod oedi wrth drosglwyddo gofal yn ddud ac yn darparu gwasanaeth gofal o safon isel i'r rhai sy'n barod i adael yr ysbyty, yn sgîl triniaeth neu gyfnod o fod yn ddifrifol wael. Rhaid inni feddwl mewn modd adeiladol ynghylch beth sy'n achosi'r dadlau ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth. Yr ydym wedi gweld llythyrau gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio i rai awdurdodau lleol yng Nghymru, yn honni bod yr awdurdod lleol, wrth geisio cyflwyno polisi sy'n peri bod rhywun yn mynd allan pan fo rhywun yn dod i mewn, yn gofyn iddynt wneud rhywbeth anghyfreithlon. Mae hynny'n syndod gwirioneddol, ond, er y byddem yn dymuno gwneud hynny efallai, ni allwn afael yng ngwar yr awdurdod hwnnw a gofyn, 'Pa hawl sydd gennych i wneud hyn, a gofyn i'ch gweithwyr proffesiynol eich hunain wneud rhywbeth y maent yn gwybod ei fod yn groes i'r gyfraith, a rhywbeth y maent wedi dweud wrth y cyngor ei fod yn groes i'r gyfraith?' Mae hynny'n sefyllfa ddifrifol iawn, ac yn sefyllfa sy'n bodoli yn rhai o'n hawdurdodau lleol.

Michael German: Efallai mai un ateb, felly, Brif Weinidog, yw ystyried cyfuno cyllidebau'r GIG a chyllidebau awdurdodau lleol er mwyn cael yr ateb mwyaf effeithiol. A ydych wedi archwilio hynny, ac a ydych yn barod i ddweud yn awr mai i'r cyfeiriad hwnnw y mae adolygiad Beecham yn ein hannog i fynd?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn barod i ddweud hynny yn awr, gan fy mod yn dal i obeithio y bydd awdurdodau lleol a'r ymddiriedolaeth leol—yn ymddiriedolaeth Caerdydd a'r Fro, dyweder—yn mynd at ei gilydd ac yn dal i ddilyn llwybr sy'n dangos tuedd bendant ar i lawr o ran nifer y gwelyau sy'n cael eu blocio oherwydd yr oedi wrth drosglwyddo gofal. Tan yn ddiweddar, yr

through delayed transfers of care was half that number three or four years ago. There has been a sudden increase in the past three months, and we have to ensure that that ceases and that the downward trend continues.

oedd y sefyllfa'n gwella'n ddramatig, ac yr oedd nifer y diwrnodau pryd nad oedd gwelyau ar gael oherwydd oedi wrth drosglwyddo gofal yn hanner y ffigur dair neu bedair blynedd yn ôl. Bu cynnydd sydyn yn ystod y tri mis diwethaf, ac mae'n rhaid inni sicrhau bod hynny'n dod i ben a bod y duedd ar i lawr yn parhau.

Y Diwydiant Amaeth The Agricultural Industry

C2 Elin Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer y diwydiant amaethyddol? OAQ1946(FM)

Q2 Elin Jones: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities regarding the agricultural industry? OAQ1946(FM)

Y Prif Weinidog: Nid yw'r blaenoriaethau wedi newid dros y pum mlynedd diwethaf—gosodwyd y blaenoriaethau hynny yn 'Ffermio i'r Ddyfodol', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2001. Mae'r egwyddor fod dyfodol ffermio yng Nghymru wedi'i seilio ar y farchnad, ac nid ar gymorthdaliadau, yn parhau i fod yn berthnasol.

The First Minister: The priorities have not changed in the past five years—those priorities were set out in 'Farming for the Future', which was published in November 2001. The principle that the future of farming in Wales is based upon the market, and not on subsidies, remains relevant.

Elin Jones: Yn fy marn i, byddai'n dda pe bai cynllun ar gyfer ffermydd yng Nghymru a fyddai'n rhoi cefnogaeth ymarferol i wneud ffermydd yn hunangynhaliol o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae'r cynllun datblygu gwledig a luniwyd gan eich Gweinidog ar gyfer 2007 ymlaen, sydd ar hyn o bryd ar ffurf ddrafft, yn rhyfeddol o brin o ran cynlluniau i fynd i'r afael â'r problemau sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd.

Elin Jones: In my opinion, it would be good if there were a plan for farms in Wales, which would provide practical support to farms to make them self-sufficient in the production of renewable energy. The rural development plan that your Minister has drawn up for 2007 onwards, which is currently in draft form, is remarkably short on plans to deal with problems arising from climate change.

2.10 p.m.

A fydddech yn cytuno y dylid edrych ar y sector amaethyddol yn benodol er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd, ac er mwyn i ni, fel gwlad, sicrhau ein bod yn fwy hunangynhaliol o ran ynni adnewyddadwy ac o ran cynhyrchu bwyd?

Would you agree that we should look specifically to the agriculture sector for a means of tackling climate change, and for us, as a country, to ensure that we are more self-sufficient in terms of renewable energy and food production?

Y Prif Weinidog: Mewn egwyddor, wrth gwrs, ond ni ellir gwneud hynny oni bai fod gennym dir sydd wedi'i addasu yn dda, yn naturiol, ar gyfer tyfu cynydau ynni. O'm dealltwriaeth i o'r sefyllfa—er nad wyf yn arbenigwr—nid yw ein tir ni yn addas ar gyfer tyfu cynydau ynni. Mae hynny'n drueni mawr, ond felly y mae hi.

The First Minister: In principle, of course, but we cannot do that unless we have land that has been well adapted, naturally, for growing energy crops. From my understanding of the situation—though I am no expert—our land is not suitable for growing energy crops. That is a great pity, but that is how it is.

Brynle Williams: Changing the subject slightly, First Minister, in attempting to cut the Tir Mynydd scheme, your Cabinet colleagues have stated that continuing the scheme in its current form would jeopardise millions of pounds' worth of EU funding. You have cited the 2003 European Court of Auditors report into less favoured area support as the reason for taking this route. Will you provide clarification on that point, as there are no similar plans for premature funding cuts in England, Scotland or Northern Ireland? The auditors' report did not, in any way, recommend cutting LFA support in Wales.

The First Minister: You are right on the Government's position on this. Keeping Tir Mynydd at current levels—not getting rid of it altogether—would risk the loss of some £200 million-worth of EU money for rural Wales. It would also risk losing the opportunity for a total rural development plan spend over seven years of £750 million in Wales.

Mick Bates: Further to that, the last time payments like Tir Mynydd were cut to hill farmers in Wales, the cuts were made by a Tory Government, and, by the way, since then, it has not regained power. Do you not think that cutting Tir Mynydd payments is a losing strategy, which will damage Wales's rural economy?

The First Minister: It is not going to end until at least 2009, and then only if there is an acceptable alternative. We expect to establish a task and finish group to address the situation post 2008. We cannot speculate on that now, but there has to be some return for taxpayers' money, and there has to be some logic. The logic of Tir Mynydd payments is that farmers working in less favoured areas suffer from disadvantages that render them likely to earn lower incomes than those working in lowland areas. However, at the moment, the reverse is true, so the justification has disappeared. We are not

Brynle Williams: Yr wyf am newid y pwnc ryw fymryn, Brif Weinidog. Mae eich cyd-Aelodau yn y Cabinet, wrth geisio torri'r cynllun Tir Mynydd, wedi datgan y byddai dal ati i weithredu'r cynllun fel ag y mae yn awr yn peryglu gwerth miliynau o bunnoedd o nawdd gan yr Undeb Ewropeaidd. Yr ydych wedi dweud mai'r rheswm dros ddilyn y trywydd hwn yw adroddiad Llys Archwilwyr Ewrop 2003 ynghylch cymorth i ardaloedd llai ffafriol. A wnewch roi eglurhad ar y pwynt hwnnw, gan nad oes dim cynlluniau cyffelyb i gwtogo'r cyllid yn gynamserol yn Lloegr, yr Alban na Gogledd Iwerddon? Nid argymhellodd adroddiad yr archwilwyr wneud toriadau yn y cymorth ar gyfer ardaloedd llai ffafriol yng Nghymru o gwbl.

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn llygad eich lle o ran safbwynt y Llywodraeth yn hyn o beth. Wrth gadw Tir Mynydd ar y lefelau cyfredol—nid cael gwared ag ef yn gyfan gwbl—byddai perygl y collid gwerth tua £200 miliwn o arian yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru wledig. Drwy wneud hyn, byddai perygl hefyd y collid cyfle i gael cyfanswm o £750 o wariant ar y cynllun datblygu gwledig yng Nghymru dros saith mlynedd.

Mick Bates: Yn sgîl hynny, y tro diwethaf y cafwyd toriadau mewn taliadau fel Tir Mynydd i ffermwyr mynydd yng Nghymru, y Llywodraeth Geidwadol a wnaeth hynny. Ers hynny, gyda llaw, nid yw'r Llywodraeth Geidwadol wedi adennill grym. Oni chredwch fod gwneud toriadau yn nhaliadau Tir Mynydd yn strategaeth andwyol, a fydd yn niweidio economi wledig Cymru?

Y Prif Weinidog: Nid yw'n mynd i ddod i ben tan 2009 o leiaf, ac ni fydd hynny'n digwydd oni fydd rhywbeth arall derbynol i gymryd ei le. Disgwyliwn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i fynd i'r afael â'r sefyllfa o 2008 ymlaen. Ni allwn ddyfalu ynghylch hynny yn awr, ond rhaid cael rhywfaint o elw yn sgîl arian y trethdalwyr, a rhaid cael rhywfaint o resymeg. Y rhesymeg sydd y tu ôl i'r taliadau Tir Mynydd yw bod ffermwyr sy'n gweithio mewn ardaloedd llai ffafriol yn dioddef anfanteision sy'n golygu ei bod yn debygol y byddant yn ennill llai o incwm na'r rhai sy'n gweithio ar lawr gwlad. Fodd

making Tir Mynydd disappear, but we are anxious to cut it, and use that as a basis for the rural development plan, which will bring in £750 million-worth of EU money.

bynag, ar hyn o bryd, y gwrthwyneb sy'n wir, felly mae'r cyfiawnhad wedi diflannu. Nid ydym yn gwneud i Tir Mynydd ddiflannu, ond yr ydym yn awyddus i'w dorri, a defnyddio hynny'n sail ar gyfer y cynllun datblygu gwledig, a fydd yn dod â gwerth £750 miliwn o arian yr Undeb Ewropeaidd.

Blaenoriaethau ar gyfer y Chwe Mis Nesaf Priorities for the Next Six Months

Q3 Jocelyn Davies: What are the Welsh Assembly Government's priorities for the next six months? OAQ1944(FM)

C3 Jocelyn Davies: Beth yw blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ1944(FM)

The First Minister: Our priorities include the further development of a Welsh approach to the elimination of child poverty, advancing our science and technology strategy, and dealing with the impact of climate change. We will also continue to provide record levels of employment in the Welsh economy, eliminate long waits in the health service and complete the abolition of prescription charges.

Y Prif Weinidog: Mae ein blaenoriaethau'n cynnwys datblygu ymhellach ddull Cymru o fynd ati i ddiddymu tlodi ymhlith plant, bwrw ymlaen â'n strategaeth gwyddoniaeth a thechnoleg, ac ymdrin ag effaith newid yn yr hinsawdd. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu lefelau cyflogaeth nas gwelwyd o'r blaen yn economi Cymru, dileu amseroedd aros hir yn y gwasanaeth iechyd a chyflawni'r gwaith o ddileu taliadau presgripsiynau.

Jocelyn Davies: I am glad that you mentioned child poverty. Last year, when I asked you when child poverty in Wales would end, your answer was that it would be an ambitious target to extinguish child poverty by 2027—30 years on from 1997. You are now claiming that it is achievable for Wales to have the lowest child poverty rate in Europe by 2020. Can you explain what has radically changed since last year that allows you to shave seven years off your estimate, even though you have failed to reach your interim target?

Jocelyn Davies: Yr wyf yn falch eich bod wedi crybwyll tlodi ymhlith plant. Y llynedd, pan ofynnais ichi pryd y byddai tlodi ymhlith plant yn dod i ben yng Nghymru, dywedasoch y byddai'n darged uchelgeisiol cael gwared â thlodi ymhlith plant erbyn 2027—ymhen 30 mlynedd ar ôl 1997. Yr ydych yn honni erbyn hyn ei bod yn bosibl i Gymru gyflawni'r nod o gael y raddfa isaf yn Ewrop o ran tlodi ymhlith plant erbyn 2020. A allwch esbonio beth sydd wedi newid i'r fath raddau ers y llynedd sy'n caniatáu ichi dynnu saith mlynedd oddi ar eich amcangyfrif, er eich bod wedi methu â chyrraedd eich targed interim?

The First Minister: If you read what Huw Lewis, the Deputy Minister, said on this subject yesterday, in setting the milestones and targets for the interim period—2010 and 2015—on the way to elimination by 2020, you will see that these are ambitious. We hope that you will be supporting those targets, not only when making statements but also in how you vote. I hope that you will look to support the implementation of policies that can bring about the elimination

Y Prif Weinidog: Os darllenwch yr hyn a ddywedodd Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog, am y pwnc ddoe, o ran sefydlu cerrig milltir a thargedau ar gyfer y cyfnod interim—2010 a 2015—gyda'r nod o'i ddileu erbyn 2020, fe welwch fod y rhain yn uchelgeisiol. Gobeithiwn y byddwch yn cefnogi'r targedau hynny, nid wrth wneud datganiadau yn unig, ond hefyd o ran sut y byddwch yn pleidleisio. Gobeithiaf y byddwch yn dangos eich cefnogaeth pan fydd

of child poverty by 2020, while accepting that we cannot deliver it alone, as we have to do it in conjunction with our Westminster colleagues.

Jenny Randerson: First Minister, could you make it a priority to sort out the boundaries between commissioners in the NHS, and not just the boundaries between health and social services, as there are plenty of other problems with blockages in the budget in the NHS? For a start, could you look at the blockage leading to brachytherapy being denied to prostate cancer patients in Wales? As I am sure that you know, the money is there, but it is with the local health boards and not with Health Commission Wales, which has responsibility for the service. It is a matter of getting one side to hand it over to the other.

While you are at it, First Minister, could you sort out why it is that Velindre Hospital has been unable to accept a charitable offer of brachytherapy equipment because it has not been given revenue funding to support it?

The First Minister: I am certainly unsighted as to that final point about Velindre Hospital. It sounds an extremely interesting proposition, which I will certainly look into. I will ask Brian Gibbons to reply to you on the revenue consequences of any charitable donation that is, presumably, on the capital side.

On the brachytherapy responsibilities between HCW and local health boards, it is a fairly unusual circumstance. I am not sure whether you are saying that LHBs are claiming that they have the money ready to contribute, but that they are not allowed to do so. If you would clarify your question in a letter to me or to Brian, you will get a detailed reply.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Un peth na ddywedwyd gennych, sydd wedi fy synnu, oedd mai sicrhau cyllideb y Cynulliad oedd un o'ch blaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf. Gwyddoch ein bod wedi codi yn y trafodaethau y llynedd y ffaith bod yr arbedion sy'n cael eu gorfodi ar lywodraeth

y polisïau—a allai ddileu tlodi ymhlith plant erbyn 2020—yn cael eu rhoi ar waith, ac yn derbyn na allwn wireddu hyn ar ein pennau ein hunain gan fod rhaid inni ei wneud ar y cyd â'n cyd-Aelodau yn San Steffan.

Jenny Randerson: Brif Weinidog, a allech roi blaenoriaeth i roi trefn ar y ffiniau rhwng comisiynwyr yn y GIG, ac nid dim ond y ffiniau rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan fod digon o broblemau eraill gyda rhwystrau yn y gyllideb yn y GIG? I ddechrau, a allech edrych ar y rhwystr sy'n arwain at atal cleifion canser y prostad yng Nghymru rhag cael brachytherapi? Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, mae'r arian yno, ond gan y byrddau iechyd lleol y mae ac nid Comisiwn Iechyd Cymru, sydd â chyfrifoldeb am y gwasanaeth. Mater ydyw o gael gan y naill ochr drosglwyddo'r arian i'r llall.

Tra byddwch wrthi, Brif Weinidog, a allech ddarganfod pam mae Ysbyty Felindre wedi methu â derbyn cynnig elusennol a gafodd, sef offer brachytherapi, am nad yw wedi cael arian refeniw i'w gynnal?

Y Prif Weinidog: Yn sicr ni wn ynglŷn â'r pwynt olaf hwnnw am Ysbyty Felindre. Mae'n swnio'n gynnig diddorol dros ben, ac ymchwiliad iddo yn sicr. Gofynnaf i Brian Gibbons roi ateb i hi ynglŷn â chanlyniadau refeniw unrhyw rodd elusennol sydd, gellir tybio, ar yr ochr gyfalaf.

Ynglŷn â'r cyfrifoldebau o ran brachytherapi rhwng Comisiwn Iechyd Cymru a byrddau iechyd lleol, mae'n ddigwyddiad eithaf anarferol. Nid wyf yn siŵr ai dweud yr ydych fod byrddau iechyd lleol yn honni bod yr arian ganddynt yn barod i'w gyfrannu, ond nad ydynt yn cael gwneud hynny. Os eglurwch eich cwestiwn mewn llythyr ataf fi neu Brian, cewch ateb manwl.

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): One thing that you did not say, which surprised me, was that securing the Assembly's budget was one of your priorities for the next six months. You know that we raised in last year's discussions the fact that the savings that are being required of local government mean cuts in schools' delegated

leol bellach yn golygu toriadau yng nghyllidebau datganoledig ysgolion. A ydych yn derbyn, er bod y sefyllfa yn ddrwg eleni, y bydd hi'n waeth y flwyddyn nesaf?

Y Prif Weinidog: Nid ydym yn derbyn eich bod yn gallu osgoi byd addysg ym maes cyllidebau llywodraeth leol o gwbl, am fod addysg yn ffactor mor bwysig. Ni wn yn union faint ydyw, ond mae'n siŵr ei fod yn cyfrif am ryw 20 y cant o gyllideb llywodraeth leol. Ar y llaw arall, nid ydym yn disgwyl i'r toriadau effeithlonrwydd o 1 y cant mewn gwariant arian cyhoeddus gan llywodraeth leol gwympo ar ysgolion.

Ieuan Wyn Jones: Dewch ymlaen, Brif Weinidog, yr ydych yn gwybod yn iawn os ydych yn torri 1 y cant o gyllidebau llywodraeth leol—a gwyddom fod tua hanner cyllidebau llywodraeth leol yn mynd ar addysg—a hynny'n digwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn y diwedd, mae'n siŵr o effeithio ar gyllidebau ysgolion. Ni wn beth yw'r sefyllfa yn eich etholaeth chi, ond, yn fy etholaeth i, mae prifathrawon ysgolion cynradd ac uwchradd yn dweud y bydd toriadau uniongyrchol yng nghyllidebau eu hysgolion y flwyddyn nesaf oherwydd yr arbedion. Onid ydych yn derbyn bod honno'n broblem wirioneddol, a bod yn rhaid ichi, fel Llywodraeth, ei datrys?

Y Prif Weinidog: Ni allaf siarad ar ran Ynys Môn, wrth gwrs, ond gallaf wneud ar ran lleoedd fel Caerdydd, ac ar ran y trafodaethau a fu rhyngom ni—a Sue Essex yn enwedig—a llywodraeth leol yng Nghymru. Bûm yn gofyn am 1 y cant o arbedion—neu 1 y cant o gynnydd mewn effeithlonrwydd—mewn gwariant arian cyhoeddus, ac mae llywodraeth leol wedi dweud wrthym y llwyddwyd i gyrraedd 2 y cant. Mae hynny lawer yn well na'r disgwyl. Felly, nid wyf yn siŵr sut y mae'r darlun yr ydych chi yn ei gyfleu yn dilyn o'r hyn yr ydym wedi'i ofyn, gan ddisgwyl 1 y cant a chael 2 y cant. Pam ddylai hynny effeithio ar ysgolion?

Ieuan Wyn Jones: I am afraid, First Minister, that you have got your priorities totally wrong. You are saying that there will be no cuts in school budgets next year, but I am telling you that there will be. I am asking this Government to shift its priorities, to

budgets. Do you accept that although the situation is bad this year, it will be worse next year?

The First Minister: We do not accept that you can avoid the area of education in local government's budgets, because education is such an important factor. I do not know exactly how much it is, but it probably accounts for some 20 per cent of the local government budget. On the other hand, we do not expect the efficiency savings of 1 per cent in public expenditure by local government to fall on schools.

Ieuan Wyn Jones: Come on, First Minister, you know full well that if you cut 1 per cent from local government's budgets—and we know that around half of local government's budgets go towards education—and that happens year after year, in the end, it is bound to affect schools' budgets. I do not know what the position is in your constituency, but, in mine, primary and secondary school headteachers tell me that there will be direct cuts in their schools' budgets next year as a result of the savings. Do you not accept that that is a genuine problem, and that you, as a Government, must resolve it?

The First Minister: I cannot speak on behalf of Anglesey, of course, but I can do so on behalf of places such as Cardiff, and about the discussions that we have had—and Sue Essex in particular—with local government in Wales. We asked for savings of 1 per cent—or a 1 per cent increase in efficiencies—in public expenditure, and local government tells us that it has achieved 2 per cent. That is far better than expected. Therefore, I am not sure how the picture that you are painting follows from on what we have asked, in expecting 1 per cent and having achieved 2 per cent. Why should that affect schools?

Ieuan Wyn Jones: Mae arnaf ofn, Brif Weinidog, eich bod wedi cawlio'ch blaenoriaethau'n llwyr. Yr ydych yn dweud na fydd dim toriadau yng nghyllidebau ysgolion y flwyddyn nesaf, ond yr wyf fi'n dweud wrthyf y bydd. Yr wyf yn gofyn i'r

make it absolutely clear that front-line services must not be cut as a result of efficiency savings. They were never meant to cut front-line services; they were meant to deal with the centralisation of services and back-room services, but now they are biting on front-line services. You have to ask yourself whether your priority is to continue with these efficiency savings, which will mean that, next year—and I can predict this now—teachers will be sacked. What is your priority: these efficiency savings, or teachers' jobs and children's education?

2.20 p.m.

The First Minister: I do not know why you are pretending to disagree with us, when you are agreeing with us. I agree with everything in the first part of that question, namely that it is not about savings in front-line services, as that is not an efficiency saving. Getting on with the programme of eliminating surplus places in schools is an efficiency saving, because it avoids waste in the spending of public money. However, cutting teachers' jobs is in no way a saving that would fit in with the concept of increased efficiency. I can see that you are trying to imply that, in some way, we are responsible for cutting teachers' jobs. That is a choice that local authorities make. If they cannot decide on how to achieve efficiency savings, including, even in the school sector, the elimination of surplus school places, they—and I stress that it is them, not us—may, because they cannot get to grips with this agenda, end up cutting teachers' jobs. That would be a scandal. However, they tell us that they have already achieved a 2 per cent saving, which is much better than a 1 per cent saving, in improved efficiency.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): As far as I am concerned, the top priority should be the health service and ensuring excellence in our health service. Therefore, would you agree that it is not desirable that administrative staff should be being taken on at a faster rate than medical staff, which is the position at the moment

Llywodraeth hon newid ei blaenoriaethau, a datgan yn gwbl glir na ddylid cwtogi gwasanaethau rheng flaen yn sgîl arbedion effeithlonrwydd. Ni fwriadwyd erioed iddynt gwtogi gwasanaethau rheng flaen; yr oeddent i fod i ddelio â chanoli gwasanaethau a gwasanaethau ystafell gefn, ond yn awr maent yn amharu ar wasanaethau rheng flaen. Rhaid i chi ofyn i chi'ch hun ai parhau gyda'r arbedion effeithlonrwydd hyn yw eich blaenoriaeth, a fydd yn golygu, y flwyddyn nesaf—a gallaf broffwydo hyn yn awr—y caiff athrawon eu diswyddo. Beth yw eich blaenoriaeth: yr arbedion effeithlonrwydd hyn, ynteu swyddi athrawon ac addysg plant?

Y Prif Weinidog: Ni wn pam yr ydych yn cymryd arnoch eich bod yn anghytuno â ni, a chithau'n cytuno â ni. Cytunaf â phopeth yn rhan gyntaf y cwestiwn hwnnw, sef nad oes a wnelo hyn ag arbedion mewn gwasanaethau rheng flaen, ac nad arbediad effeithlonrwydd yw hynny. Mae bwrw ymlaen â'r rhaglen o ddileu lleoedd gwag mewn ysgolion yn arbediad effeithlonrwydd, oherwydd y mae'n arbed gwastraff wrth wario arian cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw cwtogi swyddi athrawon yn arbediad a fyddai'n cyd-fynd â'r cysyniad o gynyddu effeithlonrwydd o gwbl. Gallaf weld eich bod yn ceisio awgrymu ein bod ni rywfodd yn gyfrifol am gwtogi swyddi athrawon. Dewis a wneir gan awdurdodau lleol yw hynny. Os na allant benderfynu sut i wneud arbedion effeithlonrwydd, gan gynnwys, hyd yn oed yn y sector ysgolion, dileu lleoedd gwag mewn ysgolion, gallant—a phwysleisiaf mai nhw sydd yn gwneud hyn, nid ni—gallant, am na allant fynd i'r afael â'r agenda hon, droi at gwtogi swyddi athrawon yn y diwedd. Byddai hynny'n gywilyddus. Fodd bynnag, dywedant wrthym eu bod eisoes wedi cyflawni arbediad o 2 y cant, sydd yn llawer gwell nag arbediad o 1 y cant, o ran gwella effeithlonrwydd.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): O'm safbwynt i, dylai'r brif flaenoriaeth fynd i'r gwasanaeth iechyd a sicrhau rhagoriaeth yn ein gwasanaeth iechyd. Felly, oni chytunech nad peth da yw bod staff gweinyddol yn cael eu cyflogi ar raddfa gyflymach na staff meddygol, sef yr hyn sydd yn digwydd ar hyn o bryd yn ôl

according to your own figures? If you are concerned about that, what are you doing about it?

The First Minister: That is of significance only if you want to make a rather low-level political point, or if it meant that, in some way, the health authorities were not hiring medical and nursing staff—in other words, they were hiring other staff instead of medical or nursing staff. I do not know whether you are alleging that, or what evidence you have for saying it. Otherwise, it is a pretty thin point. I can see that you are getting a lot of help from one of your colleagues. Perhaps Jonathan Morgan is right about one thing: you do not know anything about the health service unless he tells you about it. Let us be clear about this: there has been a record, massive expansion in medical and nursing services in Wales while Labour has been in power, and it will continue to be at record levels while Labour continues in power.

Nick Bourne: The more rattled the First Minister gets, the more obvious it is that he is on the ropes. It is clear that, for example, there are more civil servants in the health department in Cathays than there are nurses working in surgeries throughout Wales. That is a matter of concern to us, even if it is not to you. Your rather flip response will not satisfy the millions of people in Wales who are concerned about their health service.

I would like to ask you about another issue, which is not unrelated and concerns money going into the health service. Does it not send out mixed messages about the future of our excellent district general hospitals, such as Withybush and Bronglais, when additional money is going into them as district general hospitals—which, by the way, I welcome—while, at the same time, the Government is sending out misleading signals that those hospitals may not have a future as district general hospitals?

The First Minister: I do not think that we are sending out any misleading signals. As far as I know, everyone in the Assembly—all four parties, independents and so on—all signed up to the Wanless agenda, which said

eich ffigurau chi eich hun? Os ydych yn poeni am hynny, beth yr ydych yn ei wneud amdano?

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n arwyddocaol dim ond os oes arnoch eisiau gwneud pwynt gwleidyddol salw braidd, neu pe bai'n golygu, rywfodd, nad oedd yr awdurdodau iechyd yn cyflogi staff meddygol a nyrsio—hynny yw, eu bod yn cyflogi staff eraill yn lle staff meddygol neu nyrsio. Ni wn a ydych yn honni hynny, na pha dystiolaeth sydd gennych dros ddweud hynny. Fel arall, mae'n bwynt tila braidd. Gallaf weld eich bod yn cael llawer o gymorth gan un o'ch cyd-Aelodau. Efallai fod Jonathan Morgan yn iawn ynghylch un peth: ni wyddoch ddim am y gwasanaeth iechyd oni bai ei fod ef yn dweud wrthy ch amdano. Gadewch inni fod yn glir yn glân â hyn: cafwyd cynnydd aruthrol, y mwyaf erioed, mewn gwasanaethau meddygol a nyrsio yng Nghymru tra bu Llafur mewn grym, a bydd yn parhau ar y lefelau uchaf erioed tra bydd Llafur yn parhau mewn grym.

Nick Bourne: Po fwyaf rhuslyd yr aiff y Prif Weinidog, mwyaf amlwg y daw ei fod mewn gwendid. Mae'n amlwg, er enghraifft, fod mwy o weision sifil yn yr adran iechyd yn Cathays nag sydd o nyrsys yn gweithio mewn meddygfeydd drwy Gymru gyfan. Mae hynny'n destun pryder i ni, hyd yn oed os nad ydyw i chi. Ni wnaiff eich ateb smala braidd fodloni'r miliynau o bobl yng Nghymru sydd yn pryderu am eu gwasanaeth iechyd.

Hoffwn eich holi am fater arall, nad yw'n anghysylltiedig â hyn ac sy'n ymwneud ag arian sy'n mynd i'r gwasanaeth iechyd. Onid yw'n anfon negeseuon cymysg am ddyfodol ein hysbytai cyffredinol dosbarth, fel Llwynhelyg a Bronglais, pan fo arian ychwanegol yn mynd iddynt fel ysbytai cyffredinol dosbarth—rhywbeth a groesawaf, gyda llaw—tra bo'r Llywodraeth ar yr un pryd yn anfon arwyddion camarweiniol sydd yn dweud efallai nad oes dyfodol i'r ysbytai hynny fel ysbytai cyffredinol dosbarth?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn meddwl ein bod yn anfon arwyddion camarweiniol. Hyd y gwn, yr oedd pawb yn y Cynulliad—y pedair plaid, aelodau annibynnol ac yn y blaen—yn derbyn agenda Wanless, a

that things will not stay the same for ever in the health service and that we have to make our health service fit for purpose for the twenty-first century. However, as soon as any change is made, in order to bring about the Wanless agenda, the placards go up. We understand the reason for that, but I do not think that you can sign up for the Wanless agenda and then say that there must not be any change in our hospitals. It does not make any sense.

Nick Bourne: I do not recall saying that there should not be any change; I was inviting you to endorse the future of Withybush or Bronglais as district general hospitals, which you singularly failed to do. The person whom you want to take over the Labour Party is in favour of more flexibility, more accountability, and more choice. I have invited you previously to endorse that, particularly the element of more choice, so that there is a future for these district general hospitals. Will you endorse that part of his agenda?

The First Minister: Of course; more choice of service is enormously important. That choice can include being treated at home or at a range of hospitals, but, above all, I think that what most people in Wales want is for their local hospital to provide the maximum level of safe care to the latest and highest technology standards. However, that does not mean that there will never be any change. If you, for instance, had said that there must never be any change in the pattern of hospitals in Wales, then Llandough hospital would be a tuberculosis sanatorium today. Fortunately, TB has disappeared, although it is coming back a little now. However, all those sanatorium hospitals, which are frequently among the major hospitals that we have today, would still be TB sanatoria if you said that there should not be change. Therefore, it is important that we realise that the nature of disease and the nature of technology changes, and that what most people want most is to be treated as close as possible to their own homes.

ddywedodd na fydd pethau'n aros yr un fath am byth yn y gwasanaeth iechyd a bod yn rhaid i ni wneud ein gwasanaeth iechyd yn addas i'r diben ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Fodd bynnag, cyn gynted ag y gwneir unrhyw newid, er mwyn gwireddu agenda Wanless, mae'r placardiau'n cael eu codi. Deallwn y rheswm dros hynny, ond nid wyf yn meddwl y gallwch dderbyn agenda Wanless ac yna dweud na ddylai fod dim newid yn ein hysbytai. Nid yw'n gwneud dim synnwyr.

Nick Bourne: Nid wyf yn cofio dweud na ddylai fod dim newid; eich gwahodd yr oeddwn i gadarnhau dyfodol Llwynhelyg neu Fronglais fel ysbytai cyffredinol dosbarth, rhywbeth na wnaethoch mae'n amlwg. Mae'r sawl yr hoffech chi iddo gymryd awenau'r Blaid Lafur yn ffafrio mwy o hyblygrwydd, mwy o atebolrwydd a mwy o ddewis. Yr wyf wedi'ch gwahodd o'r blaen i ategu hynny, yn enwedig yr elfen o fwy o ddewis, fel bod dyfodol i'r ysbytai cyffredinol dosbarth hyn. A wnewch ategu'r rhan honno o'i agenda?

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs; mae mwy o ddewis o wasanaethau'n hynod o bwysig. Gall y dewis hwnnw gynnwys cael eich trin gartref neu mewn amrywiaeth o ysbytai, ond, yn anad dim, yr wyf yn meddwl mai'r hyn y mae ar y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru ei eisiau yw bod eu hysbyty lleol yn darparu'r lefel uchaf posibl o ofal diogel yn ôl y safonau technolegol diweddaraf a gorau. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na fydd newid byth. Pe baech, er enghraifft, wedi dweud na ddylai fod dim newid byth ym mhatrwm ysbytai yng Nghymru, yna byddai ysbyty Llandochau'n sanatoriwm ar gyfer y diciâu heddiw. Yn ffodus, mae'r diciâu wedi diflannu, er ei fod yn dod yn ôl ychydig yn awr. Fodd bynnag, byddai'r holl ysbytai sanatoriwm hynny, sydd yn aml ymhlith y prif ysbytai sydd gennym heddiw, yn sanatoria diciâu o hyd pe baech yn dweud na ddylai fod newid. Felly, mae'n bwysig inni sylweddoli bod natur afiechyd a natur technoleg yn newid, ac mai'r hyn y mae ar y rhan fwyaf o bobl ei eisiau yw cael eu trin cyn agosod ag y bo modd at eu cartrefi eu hunain.

Cysylltiadau Trafnidiaeth Transport Links

Q4 Christine Chapman: Will the First Minister make a statement on the importance of bus services to transport links in Wales? OAQ1958(FM)

The First Minister: Our draft Wales transport strategy sets out our agenda for delivering an integrated and sustainable transport system in Wales, including top-notch local and long distance bus services, which include services that have been stimulated by the free bus travel programme.

Christine Chapman: Thank you, First Minister. Many people in my area are pleased with the free bus passes, because it has made a huge difference to their lives. Bus services are particularly relied upon in areas such as mine, where there are low levels of car ownership. We know that 40 per cent of households in the Valleys do not have a car, and there is also a considerable elderly population.

Bus services are crucial to achieving a fully integrated transport system and that is why I will be meeting Veolia Transport UK, the new owner of Shamrock Travel Services, which provides many bus services in the Cynon Valley, so that we can try to achieve some improvements in the service. Do you agree that it is extremely important that there are good partnerships between local authorities and bus operators? Has any consideration been given to strengthening the public sector role in what is, essentially, a private industry, following deregulation in the 1980s, including the options of quality partnerships and quality contracts between operators and local authorities in Wales?

The First Minister: It is timely that you will be meeting the new owner of Shamrock Travel Services, Veolia Transport UK, which is a big operator in the UK, because there was a performance improvement partnership going on between Rhondda Cynon Taf and Shamrock Travel Services to improve services and reliability, as regards its function as a straight bus operator and its role as a

C4 Christine Chapman: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd gwasanaethau bws i gysylltiadau trafndiaeth yng Nghymru? OAQ1958(FM)

Y Prif Weinidog: Mae ein strategaeth drafndiaeth ddrafft i Gymru'n amlinellu ein hagenda ar gyfer cyflwyno system drafndiaeth integredig a chynaliadwy yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau bysiau lleol a chenedlaethol o'r radd flaenaf, sydd yn cynnwys gwasanaethau a ysgogwyd gan y rhaglen teithiau bws am ddim.

Christine Chapman: Diolch, Brif Weinidog. Mae llawer o bobl yn fy ardal i wedi'u plesio gan y tocynnau bws am ddim, oherwydd y mae wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol i'w bywydau. Dibynnir yn arbennig ar wasanaethau bysiau mewn ardaloedd fel f'un i, lle y ceir lefelau isel o berchenogi ceir. Gwyddom nad oes car gan 40 y cant o aelwydydd yn y Cymoedd, a bod yno boblogaeth oedrannus sylweddol hefyd.

Mae gwasanaethau bysiau yn allweddol i sicrhau system drafndiaeth gwbl integredig a dyna pam y byddaf yn cyfarfod â Veolia Transport UK, sef perchennog newydd Gwasanaethau Teithio Shamrock, sy'n darparu llawer o wasanaethau bysiau yng Nghwm Cynon, fel y gallwn geisio sicrhau gwelliannau yn y gwasanaeth. A gytunwch ei bod yn eithriadol o bwysig cael partneriaethau da rhwng awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau? A roddwyd unrhyw ystyriaeth i gryfhau rôl y sector cyhoeddus mewn diwydiant sydd yn ei hanfod yn breifat, wedi dadreoleiddio yn yr 1980au, gan gynnwys edrych ar bartneriaethau ansawdd a chontractau ansawdd rhwng cwmnïau ac awdurdodau lleol yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Mae'n amserol y byddwch yn cyfarfod â pherchennog newydd Gwasanaethau Teithio Shamrock, Veolia Transport UK, sydd yn gwmni mawr yn y Deyrnas Unedig, oherwydd yr oedd partneriaeth gwella perfformiad ar waith rhwng Rhondda Cynon Taf a Gwasanaethau Teithio Shamrock i wella gwasanaethau a dibynadwyedd, o ran ei swyddogaeth fel

feeder operator, bringing bus-based passengers to the railway system from the Cynon Valley down to Cardiff.

Janet Davies: As Christine Chapman says, bus services are important to many people, particularly those in the Valleys. Since the last election, 16 to 19-year-olds have been waiting expectantly for a concessionary fare scheme to make bus transport more affordable for them. However, this seems to be going to the last fence, therefore, could you tell me how many days before 4 May 2007 you expect to make an announcement on that?

The First Minister: As far as I am aware, there are at least three pilot schemes under way—in Bridgend, Flintshire and Wrexham—and we are awaiting the results. I will have to ask Andrew Davies to write to you with the details. Sorry, it is four areas—Wrexham, Denbighshire, Flintshire and Bridgend. When those experiments have been completed, we will make recommendations on the half-fare scheme.

Lisa Francis: First Minister, you know that it makes sense to get people out of their cars and using the railway wherever and whenever possible. You will be aware that the campaign to allow free passes for pensioners and disabled people to use on railways has been going on for some time. Taith and TRAC have put together a business case for this proposal, but there has been criticism about their having to go down that route in the first place. There is disappointment that your Government has only reached that stage, when all that was needed was for the Minister to give his go-ahead for this scheme to get under way. Will you give the Assembly your assurance that this issue will not be kicked into the long grass, and that a decision will be made soon, now that these plans have been worked up?

The First Minister: I am unsighted on a particular issue that you raised, therefore, I will have to examine the record and write to you on it during the week.

Kirsty Williams: First Minister, your Government has long recognised the

cwmni bysiau pur a'i rôl fel cwmni bwydo, yn dod â theithwyr ar fysiau i'r system reilffordd o Gwm Cynon i lawr i Gaerdydd.

Janet Davies: Fel y dywed Christine Chapman, mae gwasanaethau bysiau'n bwysig i lawer o bobl, yn enwedig yn y Cymoedd. Ers yr etholiad diwethaf, mae pobl ifanc 16 hyd 19 mlwydd oed wedi bod yn disgwyl yn eiddgar am gynllun tocynnau rhatach i wneud cludiant ar y bws yn fwy fforddiadwy iddynt. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod hyn yn mynd i'r pen, felly a allech ddweud wrthyf sawl diwrnod cyn 4 Mai 2007 y disgwyliwch wneud cyhoeddiad ynglŷn â hynny?

Y Prif Weinidog: Hyd y gwn, mae o leiaf dri chynllun peilot ar droed—ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sir y Fflint a Wrecsam—ac yr ydym yn aros am y canlyniadau. Bydd yn rhaid imi ofyn i Andrew Davies ysgrifennu atoch ynghylch y manylion. Mae'n ddrwg gennyf, mae pedair ardal—Wrecsam, sir Ddinbych, sir y Fflint a Phen-y-bont ar Ogwr. Pan fydd yr arbrofion hynny wedi'u cwblhau, gwnawn argymhellion ynglŷn â'r cynllun hanner pris.

Lisa Francis: Brif Weinidog, gwyddoch ei bod yn gwneud synnwyr cael pobl allan o'u ceir a defnyddio'r rheilffyrdd lle bynnag a phryd bynnag y bo modd. Gwyddoch fod yr ymgyrch i ganiatáu tocynnau am ddim i bensynwyr a phobl anabl i'w defnyddio ar y rheilffyrdd yn bod ers tro. Mae Taith a TRAC wedi llunio achos busnes dros y cynnig hwn, ond beirniadwyd y ffaith iddynt orfod dilyn y trywydd hwnnw yn y lle cyntaf. Mae siomedigaeth nad yw eich Llywodraeth ond wedi cyrraedd y cam hwnnw, er mai'r cwbl yr oedd ei angen oedd i'r Gweinidog roi caniatâd i'r cynllun hwn fynd yn ei flaen. A roddwch eich gair i'r Cynulliad na chaiff y mater hwn ei fwrw o'r neilltu, ac y gwneir penderfyniad yn fuan, gan fod y cynlluniau hyn bellach wedi'u llunio?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn y niwl ynglŷn â mater penodol a godwyd gennych, felly bydd yn rhaid imi edrych ar y cofnod ac ysgrifennu atoch yn ei gylch yn ystod yr wythnos.

Kirsty Williams: Brif Weinidog, mae eich Llywodraeth wedi cydnabod ers tro byd yr

principle of allowing pensioners in rural constituencies to use their free bus passes on community transport projects. What progress are you making towards making that a reality for rural pensioners, and what steps is your Government looking to take in order to influence national legislation to help community transport projects to develop their services and become businesses in their own right, helping not only disabled people, but other disadvantaged people in rural communities in getting from place to place?

egwyddor o ganiatáu i bensiynwyr mewn etholaethau gwledig ddefnyddio'u tocynnau bws am ddim ar brosiectau cludiant cymunedol. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd tuag at wireddu hynny i bensiynwyr cefn gwlad, a pha gamau y mae eich Llywodraeth yn ystyried eu cymryd er mwyn dylanwadu ar ddeddfwriaeth genedlaethol i helpu prosiectau cludiant cymunedol i ddatblygu eu gwasanaethau a datblygu'n fusnesau eu hunain, gan helpu pobl eraill dan anfantais, ac nid yr anabl yn unig, mewn cymunedau gwledig i fynd o le i le?

2.30 p.m.

The First Minister: I am not sure that we are yet ready to move forward beyond the pilot scheme. You will be aware of the £3 million that was provided for three years—last year, this year, and next year—to support the 15 demonstration projects testing ways to improve accessibility for severely disabled people on community transport in areas across the Valleys, as well as in rural areas. Therefore, it is probably a matter to come back to in six or eight months' time, to see whether we are then ready to move on with universalising the conclusions that arise from that pilot scheme.

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr a ydym yn barod i symud ymlaen eto y tu hwnt i'r cynllun peilot. Byddwch yn ymwybodol o'r £3 miliwn a ddarparwyd am dair blynedd—y llynedd, eleni, a'r flwyddyn nesaf—i gefnogi'r 15 prosiect arddangos sy'n profi ffyrdd o wella hygyrchedd ar gyfer pobl sydd ag anableddau difrifol ar drafnidiaeth gymunedol mewn ardaloedd ledled y Cymoedd, yn ogystal ag mewn ardaloedd gwledig. Felly, mae'n debyg y dylid dychwelyd at y mater hwn ymhen chwech neu wyth mis, i weld a fyddwn yn barod erbyn hynny i symud ymlaen gyda lledaenu'r canlyniadau yn sgîl y cynllun peilot hwnnw.

Cynlluniau sydd wedi'u Hanelu at Blant a Phobl Ifanc Initiatives Aimed at Children and Young People

Q5 Ann Jones: Will the First Minister make a statement on the delivery of Welsh Assembly Government initiatives aimed at children and young people? OAQ1971(FM)

C5 Ann Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflawni cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc? OAQ1971(FM)

The First Minister: I briefly mentioned earlier that the delivery of our policies made a major leap forward as regards children and young people yesterday, when Huw Lewis, the Deputy Minister, published the targets and milestones document, which will measure progress towards the eradication of child poverty by 2020.

Y Prif Weinidog: Crybwyllais yn gryno yn gynharach ein bod wedi cymryd cam mawr ymlaen dros blant a phobl ifanc ddoe o ran cyflawni ein polisiau, pan gyhoeddodd Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog, y ddogfen ar dargedau a cherrig milltir, a fydd yn mesur y cynnydd tuag at ddileu tlodi ymhlith plant erbyn 2020.

Ann Jones: I welcome the launch of the eradicating child poverty document, and pay tribute to the Deputy Minister for it. That document sets out detailed targets across all the major Assembly departments to cut child

Ann Jones: Croesawaf lansio'r ddogfen ar ddileu tlodi ymhlith plant, a thalaf deyrnged i'r Dirprwy Weinidog am wneud hynny. Mae'r ddogfen honno'n amlinellu targedau manwl ar draws holl brif adrannau'r

poverty and improve the life chances and opportunities of those most disadvantaged and hard-to-reach children. I was particularly pleased to see a reference in that document to dealing with low birth-weight babies. You will know, as will many of your Cabinet colleagues, that I have been working on this issue with people in the west end of Rhyl. I am pleased that many of the recommendations from the 'A Study of Low Birth-weight Babies in Denbighshire' report appear to be addressed in the eradicating child poverty document. Do you agree that this is another indication that it is only we in Welsh Labour who are committed to targeting resources to those who most need them?

The First Minister: I agree. Low birth-weight babies get the worst possible start in life—there are no two ways about that. Good ante-natal care, smoking cessation programmes for mothers, and rehabilitation programmes for drugs, where there are other kind of addiction problems, are all part of the pattern whereby we appreciate that the eradication of child poverty is not simply about parental income. It is about many other aspects relating to health, educational opportunities, and role models, which can result in the child not getting the best opportunity to progress to participate in the Wales that we are trying to create.

Helen Mary Jones: You will be aware that the Youth Justice Board for England and Wales published a report today, indicating that there are far too many children in custody. It highlights the particular problems that Welsh children placed in custody in England may face, including not being able to receive services through the medium of Welsh. Will you ask your Minister for Social Justice and Regeneration, your Minister for Health and Social Services and your Minister with responsibility for children to look urgently at the implications of this report for children in Wales, and your policies for children in Wales? Will you ask them to make a written or oral statement about those implications to the Assembly, or, where appropriate, to committee?

Cynulliad i leihau tlodi ymhlith plant a gwella cyfleoedd bywyd y plant hynny sydd dan fwyaf o anfantais ac anoddaf eu cyrraedd. Yr oeddwn yn arbennig o falch o weld cyfeiriad yn y ddogfen honno at ymdrin â babanod sydd â phwysau geni isel. Gwyddoch, a gŵyr llawer o'ch cyd-Aelodau yn y Cabinet, fy mod wedi bod yn gweithio ar y mater hwn gyda phobl yng ngorllewin y Rhyl. Mae'n bleser gennyf ddweud ei bod yn ymddangos bod llawer o argymhellion yr adroddiad 'A Study of Low Birth-weight Babies in Denbighshire' wedi'u cynnwys yn y ddogfen ar ddileu tlodi ymhlith plant. A ydych yn cytuno bod hyn yn dangos eto mai dim ond ni yn Llafur Cymru sy'n ymroddedig i dargedu adnoddau at y rhai y mae mwyaf o'u hangen arnynt?

Y Prif Weinidog: Cytunaf. Mae babanod sydd â phwysau geni isel yn cael y dechrau gwaethaf posibl mewn bywyd—nid oes dwywaith amdani. Mae gofal cynenedigol da, rhaglenni rhoi'r gorau i ysmegu i famau, a rhaglenni adlsefydlu ar gyfer cyffuriau, lle y bo mathau eraill o broblemau caethiwed, i gyd yn rhan o'r patrwm o sylweddoli nad dim ond mater o incwm rhieni yw dileu tlodi ymhlith plant. Mae llawer o agweddau eraill iddo o ran iechyd, cyfleoedd addysgol, a modelau rôl, a all beri nad yw'r plentyn yn cael y cyfle gorau i wneud cynnydd er mwyn cyfranogi yn y Gymru yr ydym yn ceisio'i chreu.

Helen Mary Jones: Byddwch yn ymwybodol bod Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr wedi cyhoeddi adroddiad heddiw, yn nodi bod llawer gormod o blant yn y ddalfa. Mae'n tynnu sylw at y problemau penodol y gallai plant o Gymru sy'n cael eu lleoli mewn dalfa yn Lloegr eu hwynebu, gan gynnwys nad ydynt yn gallu derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. A ofynnwch i'ch Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, eich Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'ch Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros blant, edrych ar fyrder ar oblygiadau'r adroddiad hwn i blant yng Nghymru, a'ch polisïau ar gyfer plant yng Nghymru? A ofynnwch iddynt wneud datganiad, yn ysgrifenedig neu ar lafar, am y goblygiadau hynny i'r Cynulliad, neu, pan fo'n briodol, i'r pwyllgor?

The First Minister: I am sure that I do not have to ask them to do that—I am sure that it is already on the knitting needles. It is on the stocks that we will be doing that. I heard about half of Rod Morgan's interesting observations on youth justice. He mentioned the rapid filling up of what was spare capacity in the secure accommodation side of youth justice, and avoiding, where possible, the criminalisation of young people at 15 and 16 years of age, in particular avoiding any chance of them being put in adult secure accommodation, so that you avoid creating career criminals out of 15 and 16-year-olds, while at the same time protecting the public from kids who are out of control and causing a real problem to their neighbourhood.

Mark Isherwood: Youth justice and child poverty issues are interlinked. When Huw Lewis announced the new targets yesterday, he rightly stated that we will need a radical rethink of policy on this. However, this will involve devolved and non-devolved Government. How will you address End Child Poverty Network Cymru's concern that, although 27 per cent of children in Wales live in poverty, only 16 per cent are entitled to free school meals and help with their school uniforms? How do you respond to research published this summer from the Joseph Rowntree Foundation, which found that work incentives have weakened since 2000, and that, under present UK Government tax and benefit policies, child poverty across the UK would fall substantially short of meeting Government targets for its reduction?

The First Minister: The honest truth is that there has already been massive progress, over the past seven or eight years, in reducing the proportion and absolute number of children living in what we define as child poverty. There has been massive progress. We in Wales used to be considerably worse in terms of having higher percentages and numbers than the rest of the UK, but that is not now true. That excess of child poverty in Wales has disappeared, I am pleased to say, since the Assembly was set up, so we have a very good track record. However, we know that you can pick the low-hanging fruit fairly

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn siŵr nad oes angen imi ofyn iddynt wneud hynny—yr wyf yn siŵr bod hynny eisoes ar y gweill. Yr ydym eisoes yn bwriadu gwneud hynny. Clywais tua hanner sylwadau diddorol Rod Morgan am gyfiawnder ieuenctid. Crybwyllodd y ffaith bod y lleoedd gwag mewn llety diogel ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yn prysur lenwi, a phan fo hynny'n bosibl, osgoi gwneud pobl ifanc 15 ac 16 oed yn droseddwyr, yn enwedig osgoi eu rhoi mewn llety diogel i oedolion, er mwyn osgoi troi pobl ifanc 15 ac 16 yn droseddwyr o ran gyrfu, ac ar yr un pryd, amddiffyn y cyhoedd rhag plant afreolus sy'n peri problem wirioneddol i'w cymdogaeth.

Mark Isherwood: Mae cysylltiad rhwng cyfiawnder ieuenctid a materion tlodi plant. Pan gyhoeddodd Huw Lewis y targedau newydd ddoe, yr oedd yn gywir wrth ddweud y bydd angen inni lwyr ailystyried y polisi hwn. Fodd bynnag, bydd hyn yn cynnwys Llywodraeth ddatganoledig a Llywodraeth nas datganolwyd. Sut y rhowch sylw i bryder Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, er bod 27 y cant o blant yng Nghymru'n byw mewn tlodi, mai dim ond 16 y cant sy'n cael prydau bwyd am ddim yn yr ysgol a chymorth gyda gwisg ysgol? Sut yr ydych yn ymateb i'r ymchwil a gyhoeddwyd yn yr haf gan Sefydliad Joseph Rowntree, a ganfu fod cymhellion gwaith wedi gwanhau ers 2000, ac, o dan bolisïau treth a budd-daliadau presennol Llywodraeth y DU, y byddid yn methu, o gryn dipyn, â chyrraedd targedau'r Llywodraeth ar gyfer lleihau tlodi plant ledled y DU?

Y Prif Weinidog: Y gwir gonest yw bod cynnydd aruthrol eisoes wedi bod, dros y saith neu wyth mlynedd diwethaf, o ran lleihau cyfran a nifer absoliwt y plant sy'n byw yn yr hyn yr ydym yn ei ddiffinio'n dlodi plant. Mae cynnydd aruthrol wedi bod. Yr oeddem ni yng Nghymru'n arfer bod yn waeth o lawer o ran canrannau a niferoedd uwch na gweddill y DU, ond nid yw hynny'n wir bellach. Mae'r tlodi ychwanegol hwnnw ymhlith plant yng Nghymru wedi diflannu, yr wyf yn falch o ddweud, ers sefydlu'r Cynulliad, felly mae gennym hanes llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, gwyddom

easily and that it is progress after that that becomes more difficult. That was the reason for the importance of publishing the targets and milestones, so that we set ourselves the task, which we can all share, of achieving the ambitious aim to make progress by 2010, 2015 and 2020.

Eleanor Burnham: That is all very well, First Minister, but I had a meeting—as we all have in north Wales—with a broad, ecumenical group called Trefnu Cymunedol Cymru the other day, and I was on the verge of tears listening to a lady who is living on a very low wage. Is it not time that, instead of spending an alleged £236,000 on a shindig to Dublin to the Ryder Cup, you take the issue of low wages seriously, so that we can eradicate child poverty through a much more productive method?

The First Minister: That is an even cheaper point than the one that Nick Bourne was trying to make earlier. When you consider that we went to an event promoting Wales and that we used it for the purpose of helping to create jobs in Wales—one of the consequences has been 300 new jobs, no more than two or three miles from where we are sitting right now—that is a very cheap point. One way of eliminating child poverty is by increasing employment. There are now 131,000 more jobs in Wales than when the Assembly started, although it may have escaped your notice that Labour has been in charge of the administration for that time. We are proud that employment has risen by 11 per cent in Wales, compared with 7 per cent in the UK as a whole, during the seven and a half years' of this administration and the Assembly. Reducing the number of workless households in which children grow up is an extremely important objective. The 300 jobs that were negotiated, in part, at the Ryder Cup form an important further step along the road of increasing employment and, therefore, reducing child poverty in Wales.

ei bod yn weddol hawdd gwneud y gwaith eithaf didrfferth a bod y cynnydd wedi hynny'n anos ei gyflawni. Dyna oedd y rheswm am bwysigrwydd cyhoeddi'r targedau a'r cerrig milltir, fel ein bod yn gosod y dasg i ni'n hunain, y gallwn oll ei rhannu, o gyflawni'r nod uchelgeisiol o wneud cynnydd erbyn 2010, 2015 a 2020.

Eleanor Burnham: Mae hynny i gyd yn ddigon teilwng, Brif Weinidog, ond cynhaliais gyfarfod—fel yr ydym oll yn gwneud yn y gogledd—gyda grŵp eang, ecwmenaidd o'r enw Trefnu Cymunedol Cymru y diwrnod o'r blaen, ac yr oeddwn bron ag wylo wrth wrando ar wraig sy'n byw ar gyflog isel iawn. Yn hytrach na gwario £236,000, fe honnir, ar barti yn Nulyn adeg Cwpan Ryder, onid yw'n hen bryd ichi gymryd mater cyflogau isel o ddifrif, fel y gallwn ddileu tlodi ymhlith plant mewn modd llawer mwy cynhyrchiol?

Y Prif Weinidog: Mae hwnnw'n bwynt gwannach hyd yn oed na'r un yr oedd Nick Bourne yn ceisio'i wneud yn gynharach. Pan ystyriwch ein bod wedi mynd i ddiwyddiad a oedd yn hyrwyddo Cymru a'n bod wedi'i ddefnyddio er mwyn helpu i greu swyddi yng Nghymru—un o'r canlyniadau fu 300 o swyddi newydd, ddwy neu dair milltir o'r fan lle'r ydym yn eistedd yn awr—mae hwnnw'n bwynt siêp iawn. Un ffordd o ddileu tlodi ymhlith plant yw drwy gynyddu cyflogaeth. Mae 131,000 yn fwy o swyddi yng Nghymru heddiw na phan ddechreuodd y Cynulliad, ond efallai na sylwasoch mai Llafur fu'n rhedeg y weinyddiaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Yr ydym yn falch bod cyflogaeth wedi codi 11 y cant yng Nghymru, o'i gymharu â 7 y cant yn y DU yn gyffredinol, yn ystod saith mlynedd a hanner y weinyddiaeth hon a'r Cynulliad. Mae lleihau nifer yr aelwydydd di-waith lle y mae plant yn tyfu'n amcan pwysig dros ben. Mae'r 300 o swyddi a negodwyd, yn rhannol, yng Nghwpan Ryder, yn gam pellach pwysig ar hyd y llwybr o gynyddu cyflogaeth a, thrwy hynny, leihau tlodi ymhlith plant yng Nghymru.

Gwella Adeiladau Ysgolion Improving School Buildings

Q6 Michael German: Will the First Minister **C6 Michael German:** A wnaiff y Prif

make a statement on the improvement of school buildings in South Wales East? OAQ1962(FM)

The First Minister: Some £65.5 million has been allocated through a specific grant for the replacement and improvement of school buildings in the South Wales East region between 2004-05 and 2007-08. This is in addition to the £65.9 million from authorities' own general capital funding and other sources available to them, making a total of £131.4 million allocated.

Michael German: You have always said that your target of getting all schools fit for purpose by 2010 is a real target. Therefore, what do you say to the pupils of Bryngwyn Primary School in Abertillery, where the physical education facilities are far too small for the number of children? What do you say to the children of Caedraw Primary School in Merthyr Tydfil, where the toilets open directly onto a teaching space? What do you say to the children attending high schools at Llantarnam and Croesyceiliog, where the teaching conditions are clearly not fit for purpose? There is no programme to get all this done by 2010; it is not even on the horizon.

The First Minister: We are pleased that the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills will be opening Coedygarn primary school in Blaenau Gwent on Thursday, which I think is costing well over £4 million. It is important that we realise that there is ongoing progress, such as the big new Catholic school in Newport, at a cost of £12 million. The sum of £131 million is not to be sniffed at, but it does not mean that you cannot find examples of schools that need rebuilding. If they were not there, there would be no reason for spending this £131 million.

John Griffiths: I am glad that you mentioned Newport, Rhodri. I am sure that you are aware that Newport City Council has an extensive and ambitious new-build programme for its secondary schools, working in partnership with the Welsh Assembly Government.

Weinidog ddatganiad am wella adeiladau ysgolion yn Nwyrain De Cymru? OAQ1962(FM)

Y Prif Weinidog: Mae tua £65.5 miliwn wedi'i ddyrannu drwy grant penodol ar gyfer adnewyddu a gwella adeiladau ysgolion yn rhanbarth Dwyrain De Cymru rhwng 2004-05 a 2007-08. Mae hyn ar ben y £65.9 miliwn o gyllid cyfalaf cyffredinol yr awdurdodau eu hunain a ffynonellau eraill sydd ar gael iddynt, sy'n golygu bod cyfanswm o £131.4 miliwn wedi'i ddyrannu.

Michael German: Yr ydych wedi dweud erioed fod eich targed o gael pob ysgol yn addas i'w diben erbyn 2010 yn darged gwirioneddol. Felly, beth a ddywedwch wrth ddisgyblion Ysgol Gynradd Bryngwyn yn Abertyleri, lle y mae'r cyfleusterau addysg gorfforol yn rhy fach o lawer ar gyfer nifer y plant? Beth a ddywedwch wrth blant Ysgol Gynradd Caedraw ym Merthyr Tudful, lle y mae'r toiledau'n agor yn uniongyrchol i ystafell dysgu? Beth a ddywedwch wrth y plant sy'n mynychu ysgolion uwchradd yn Llantarnam a Chroesyceiliog, lle y mae'n amlwg nad yw'r amodau dysgu'n addas at y diben? Nid oes rhaglen i gyflawni hyn oll erbyn 2010; nid yw ar y gorwel, hyd yn oed.

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn falch y bydd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn agor ysgol gynradd Coedygarn ym Mlaenau Gwent ddydd Iau, sy'n costio dros £4 miliwn, fe gredaf. Mae'n bwysig inni sylweddoli bod cynnydd yn digwydd yn barhaus, megis yr ysgol Gatholig newydd fawr yng Nghasnewydd, ar gost o £12 miliwn. Ni ddylid bychanu'r swm o £131 miliwn, ond nid yw hynny'n golygu na allwch ganfod enghreifftiau o ysgolion lle y mae angen gwaith ailadeiladu. Oni fyddent yno, ni fyddai dim rheswm dros wario'r £131 miliwn hwn.

John Griffiths: Yr wyf yn falch eich bod wedi crybwyll Casnewydd, Rhodri. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod gan Gyngor Dinas Casnewydd raglen gynhwysfawr ac uchelgeisiol o godi adeiladau newydd ar gyfer ei ysgolion uwchradd, wrth weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

The First Minister: It is not only in partnership with us, but also with the Catholic and Anglican diocese. We are pleased that St Joseph's Roman Catholic High School opened in 2005, with a £12 million grant from us to rebuild the school.

2.40 p.m.

However, there is a long way to go. We think that the estimated backlog is about £100 million, but with a lot of good will and effort, huge progress is being made. For Newport to seek to get its full share of that £131 million is important for pupils in Newport.

William Graham: We welcome the extra money for schools in South Wales East. Will you ensure that the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills looks closely at Monmouth Comprehensive School as a priority? You made particular play about science being so important in our economy, but, in that school, the two demountable classrooms that were previously used as science laboratories are now so damp that science equipment cannot be kept in them.

The First Minister: I guess that that work will be on the list of the investment needed to make buildings fit for purpose in Monmouthshire, the cost of which is put at £96 million. We do not run local authorities' asset management, replacement and school surplus reduction plans; local authorities themselves have to do that. We cannot take over local government and simply say, 'Move over, the Assembly is going to do all this now'. We can incentivise the work, which is what we do, and we can help with huge grant-aid payments to encourage the speed up of the process of making all schools fit for purpose, but it is ultimately a local-authority responsibility or the responsibility of the two types of diocese involved.

Y Prif Weinidog: Nid yn unig mewn partneriaeth gyda ni, ond hefyd gyda'r esgobaethau Catholig ac Anglicanaidd. Yr ydym yn falch bod Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseph wedi agor yn 2005, gyda grant o £12 miliwn gennym ni i ailadeiladu'r ysgol.

Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud. Credwn fod yr ôl-groniad, yn ôl yr amcangyfrif, tua £100 miliwn, ond gyda llawer o ewyllys da ac ymdrech, mae cynnydd enfawr yn cael ei wneud. Mae'n bwysig er mwyn disgyblion Casnewydd i'r ddinas geisio cael ei chyfarn lawn o'r £131 miliwn hwnnw.

William Graham: Yr ydym yn croesawu'r arian ychwanegol i ysgolion yn Nwyrain De Cymru. A wnewch sicrhau bod y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn edrych yn ofalus ar Ysgol Gyfun Trefynwy fel blaenoriaeth? Rhoesoch sylw penodol i bwysigrwydd gwyddoniaeth yn ein heconomi, ond yn yr ysgol honno, mae'r ddwy ystafell ddosbarth symudol a ddefnyddid gynt fel labordai gwyddoniaeth bellach yn rhy laith i gadw cyfarpar gwyddoniaeth ynddynt.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn dyfalu y bydd y gwaith hwnnw ar restr y buddsoddiad sydd ei angen i wneud adeiladau'n addas i'w diben yn sir Fynwy, a dywedir bod y gost ar gyfer hynny yn £96 miliwn. Nid ydym yn rhedeg y cynlluniau sydd gan awdurdodau lleol ar gyfer rheoli ac adnewyddu asedau a lleihau lleoedd dros ben mewn ysgolion; rhaid i'r awdurdodau lleol eu hunain wneud hynny. Ni allwn fynd at lywodraeth leol a dweud, 'Ewch o'r ffordd, mae'r Cynulliad am wneud hyn i gyd yn awr'. Gallwn roi cymhelliad iddynt wneud y gwaith, ac yr ydym yn gwneud hynny, a gallwn gynorthwyo gyda thaliadau cymorth grant enfawr i gyflymu'r broses o wneud yr holl ysgolion yn addas i'w diben, ond yn y pen draw, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol, neu gyfrifoldeb y ddau fath o esgobaeth, yw hyn.

Dyfodol TGAU The Future of GCSEs

Q7 Peter Black: Will the First Minister **C7 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog

make a statement on the future of GCSEs in Wales? OAQ1973(FM)

The First Minister: The GCSE is a robust qualification that is suitable for the majority of 16-year-olds and is well-understood by the public and employers across the UK, not just in Wales. Revised GCSEs, including more rigorous arrangements for coursework, are scheduled for 2009, in line with the review of the national curriculum in Wales.

Peter Black: I agree totally that GCSEs are robust and understood. On the plans to do away with coursework for most GCSEs, what evidence did your Government take in terms of consultation before the decision was made? What provision will be made in future for those children who are bright and able, but are not so good at exams, to help them with the new GCSE exam?

The First Minister: This was done after a great deal of consultation and a lot of work by the curriculum authorities and the authentication and monitoring authorities in the education systems of England, Northern Ireland and Wales, as they acted together. As regards mathematics, that change will take effect from 2007. We have responded quickly to the strong views of mathematics teachers and the mathematics community that the current coursework authentication arrangements are not fit for purpose. On other subjects, we are talking about 2009, in line with the review of the national curriculum. The point that you made about wanting to ensure that the curriculum is relevant to a wide range of youngsters, those who are academic and non-academic, is very important, but that is being dealt with through the 14-19 learning pathways.

Janet Ryder: I appreciate you saying that a lot of detailed work had gone into preparing that statement, yet we were told in committee last week, by your Minister for Education, Lifelong Learning and Skills, that she was notified of this in a phone call on the afternoon that the statement was made at the Labour Party conference, and that she did not know that this announcement was coming, despite the fact that work had been done on

ddatganiad am ddyfodol TGAU yng Nghymru? OAQ1973(FM)

Y Prif Weinidog: Mae TGAU yn gymhwyster cadarn sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o bobl ifanc 16 mlwydd oed ac mae'r cyhoedd a chyflogwyr yn ei ddeall yn dda ledled y DU, ac nid yng Nghymru'n unig. Mae'r TGAU diwygiedig, gan gynnwys trefniadau mwy trwyadl ar gyfer gwaith cwrs, wedi'u trefnu ar gyfer 2009, yn unol â'r adolygiad o gwricwlwm cenedlaethol Cymru.

Peter Black: Cytunaf yn llwyr fod TGAU yn gadarn a bod pobl yn eu deall. O ran y cynlluniau i gael gwared â gwaith cwrs o'r rhan fwyaf o gyrsiau TGAU, pa dystiolaeth a ddefnyddiodd eich Llywodraeth o ran ymgynghori cyn gwneud y penderfyniad? Pa ddarpariaeth a wneir yn y dyfodol ar gyfer y plant hynny sy'n benig a galluog, ond heb fod cystal mewn arholiadau, i'w helpu gyda'r arholiad TGAU newydd?

Y Prif Weinidog: Gwnaed hyn ar ôl llawer iawn o ymgynghori a llawer o waith gan awdurdodau'r cwricwlwm ac awdurdodau dilysu a monitro systemau addysg Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru, gan eu bod wedi gweithio gyda'i gilydd. O ran mathemateg, bydd y newid hwnnw'n dod i rym o 2007 ymlaen. Yr ydym wedi ymateb yn gyflym i farn gref gan athrawon mathemateg a'r gymuned fathemateg nad yw'r trefniadau presennol o ran dilysu gwaith cwrs yn addas i'r diben. Mewn pynciau eraill, yr ydym yn siarad am 2009, yn unol â'r adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r pwynt a wnaed gennych ynghylch dymuno sicrhau bod y cwricwlwm yn berthnasol i ystod eang o bobl ifanc, y rhai academiaidd a'r rhai anacademaidd, yn un pwysig iawn, ond ymdrinnir â hynny drwy'r llwybrau dysgu 14-19.

Janet Ryder: Yr wyf yn sylweddoli eich bod yn dweud bod llawer o waith manwl wedi'i wneud i baratoi'r datganiad hwnnw, ond dywedwyd wrthym yn y pwyllgor yr wythnos diwethaf, gan eich Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, iddi gael gwybod am hyn mewn galwad ffôn y prynhawn y gwnaed y datganiad yng nghynhadledd y Blaid Lafur, ac nad oedd hi'n gwybod bod y datganiad am gael ei

it. That has created a situation: those changes will not be phased in until 2009, so you will have two years of students who now have to go through a coursework system that has been labelled by your Minister as plagiarism and in which there is no public confidence. How are you going to assure those students who have to do that work, because that is the examination system that we have set for them, that the many hours of work that they will put into it are worthwhile and appreciated?

The First Minister: There are safeguards in place for learners prior to the changes in 2009, including guidance to teachers on the vexed subject of authenticating pupils' work, a coursework guide for parents, and additional regulations for awarding bodies to be used when authenticating coursework. The point that you made about the timing of the ministerial announcement may or may not be valid—I was not at the committee. We know that what used to be called the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales, and its counterparts in England and Northern Ireland, have been working on this subject for a long time and consulting on it heavily, ready for the announcement that was made.

Jeff Cuthbert: I declare an interest as a former employee of the Welsh Joint Education Committee. First Minister, do you agree that this is a crucial issue for awarding bodies and that if the principal awarding body in Wales, the WJEC, did not have the same system of assessments in place as the awarding bodies in other parts of the UK, it could well hinder the WJEC dramatically, as it has as many centres in England as it does in Wales, and it consequently could be seen as having a less rigorous system in place?

The First Minister: It certainly would have been a problem if the three bodies for England, Wales and Northern Ireland were not moving together on authenticating coursework and removing it from the system where it is not possible to authenticate it as being pupils' own work. You are right that the WJEC is not a quango; it is a competitive, not-for-profit business, although I think that its equivalent in Scotland is a quango. Half of

wneud, er bod gwaith wedi'i wneud arno. Mae hynny wedi creu'r sefyllfa a ganlyn: ni chyflwynir y newidiadau hynny tan 2009, felly am ddwy flynedd bydd disgyblion yn gorfod mynd drwy system gwaith cwrs y mae eich Gweinidog wedi'i galw'n llên-ladrad ac nad oes gan y cyhoedd hyder ynddi. Sut yr ydych am sicrhau'r disgyblion hynny sy'n gorfod gwneud y gwaith hwnnw, oherwydd mai dyna'r system arholi yr ydym wedi'i gosod ar eu cyfer, fod yr oriau lawer o waith y byddant yn ei wneud yn werth chweil ac y caiff ei werthfawrogi?

Y Prif Weinidog: Mae mesurau diogelu wedi'u sefydlu ar gyfer dysgwyr cyn y newidiadau yn 2009, sy'n cynnwys canllawiau i athrawon ar fater dadleuol dilysu gwaith disgyblion, canllaw ar waith cwrs i rieni, a rheoliadau ychwanegol i gyrff dyfarnu eu defnyddio wrth ddilysu gwaith cwrs. Efallai fod y pwynt a wnaethoch am amseru'r cyhoeddiad gan y Gweinidog yn un dilys—nid oeddwn yn y pwyllgor. Gwyddom fod yr hyn a elwid yn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, a'r awdurdodau cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, wedi bod yn gweithio ar y mater hwn ers amser maith ac yn ymgynghori'n ddwys ynglŷn ag ef, yn barod am y cyhoeddiad a wnaed.

Jeff Cuthbert: Datganaf fuddiant fel cyn-weithiwr i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru. Brif Weinidog, a gytunwch fod hwn yn fater hollbwysig i gyrff dyfarnu, a phe na bai gan brif gorff dyfarnu Cymru, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, yr un system asesiadau â'r hyn sydd gan y cyrff dyfarnu mewn rhannau eraill o'r DU, y gallai hynny amharu'n fawr ar CBAC, gan fod ganddo gynifer o ganolfannau yn Lloegr ag sydd ganddo yng Nghymru ac, o ganlyniad, gallai rhai farnu bod ei system yn llai trwyadl?

Y Prif Weinidog: Buasai'n sicr o beri anhawster pe na fyddai'r tri chorff dros Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cymryd camau gyda'i gilydd ar ddilysu gwaith cwrs a'i dynnu o'r system os nad oes modd ei ddilysu fel gwaith y disgyblion eu hunain. Yr ydych yn iawn wrth ddweud nad cwango yw CBAC; busnes cystadleuol, di-elw ydyw, er fy mod yn credu mai cwango yw'r corff sydd yn cyfateb iddo yn yr Alban.

the schools and colleges that the WJEC serves are not in Wales, so it is in a highly competitive situation relative to the other examination awarding bodies. That is why we have always proposed to work together with Northern Ireland and England on this issue.

Glyn Davies: A slightly different aspect of the GCSE issue is the relatively poor performance by boys as compared with that of girls. This is a long-standing issue, and I would have anticipated that your Government would have had a strategy to deal with it after such a long period. Can you give us some idea of what that strategy might be, and might it be developed in line with the changes that you are making to the coursework content?

The First Minister: It is coursework that has brought girls on by leaps and bounds to overtake boys. I do not think that there is any doubt about that. The characteristics of boys' performance relative to that of girls, where that is different, are that boys are orientated towards the big-hit, three-hour examination or whatever it is, while girls are orientated towards submitting their coursework in time and doing it properly and so on. Once coursework was accepted as part of the examinations, you saw the original gap between boys and girls—with the girls being ahead—shrinking, then being eliminated, and then existing for science and technology only. Now, girls have overtaken boys in the humanities, and also in the science and technology areas. There are deep-rooted causes in the psychology of adolescent boys and girls, at the ages of 15 to 18, but also in the kind of post-industrial society that has developed. Boys used to believe they were king because the big demand was for mainly male occupations, while now, in the post-industrial society, there is no particular advantage in having big muscles or whatever, and boys are not quite sure of where they stand in competing with girls, and they have simply fallen behind. How to incentivise boys is a difficult issue to try to address. However, I do not think that we want to eliminate coursework for that reason; we only want to change the coursework arrangements to ensure that they are properly authenticated.

Mae hanner yr ysgolion a'r colegau y mae CBAC yn eu gwasanaethu y tu allan i Gymru, felly mae mewn sefyllfa dra chystadleuol o'i gymharu â'r cyrff eraill sy'n arholi a dyfarnu. Dyna pam y bu'n fwriad gennym erioed gydweithio â Gogledd Iwerddon a Lloegr ar y mater hwn.

Glyn Davies: Un agwedd braidd yn wahanol ar fater TGAU yw perfformiad cymharol wael y bechgyn o'i gymharu ag un y merched. Mae hyn yn broblem ers tro byd, a byddwn wedi disgwyl bod strategaeth gan eich Llywodraeth i ddelio ag ef wedi cyfnod mor hir. A allwch roi rhyw syniad inni beth yw'r strategaeth honno, ac a ellid ei datblygu'n unol â'r newidiadau yr ydych yn eu gwneud i gynnwys gwaith cwrs?

Y Prif Weinidog: Gwaith cwrs sydd wedi peri i'r merched gymryd camau breision fel eu bod wedi mynd heibio i'r bechgyn. Nid wyf yn credu bod amheuaeth ynghylch hynny. Yr hyn sydd yn nodweddu perfformiad bechgyn o'i gymharu ag un merched, lle y ceir gwahaniaeth, yw bod bechgyn yn rhoi eu bryd ar yr arholiad pwysig tair awr o hyd, neu beth bynnag ydyw, tra bo merched yn rhoi eu bryd ar gyflwyno'u gwaith cwrs yn brydlon a'i wneud yn iawn ac yn y blaen. Ar ôl derbyn gwaith cwrs yn rhan o'r arholiadau, gwelwyd y bwlch a oedd yn wreiddiol rhwng bechgyn a merched—a'r merched ar y blaen—yn lleihau ac wedyn yn diflannu, ac yn parhau wedyn ym maes technoleg a'r gwyddorau'n unig. Bellach, mae'r merched wedi mynd heibio i'r bechgyn ym maes y dyniaethau, a hefyd ym maes technoleg a'r gwyddorau. Ceir achosion sylfaenol yn seicoleg bechgyn a merched yn eu glasod, rhwng 15 a 18 oed, a hefyd yn y math o gymdeithas ôl-ddiwydiannol sydd wedi datblygu. Arferai bechgyn gredu mai hwy a oedd yn ben gan fod y galw mwyaf am alwedigaethau gwrywaidd, tra na cheir dim mantais benodol yn awr, yn y gymdeithas ôl-ddiwydiannol, o fod â chyhyrau mawr ac yn y blaen, ac nid yw bechgyn yn hollol siŵr o'u lle wrth gystadlu â merched, ac maent wedi colli tir. Pwnc anodd ei drin yw sut i feithrin cymhelliad mewn bechgyn. Fodd bynnag, nid wyf yn credu mai oherwydd hynny yr ydym yn dymuno dileu gwaith cwrs; ein hunig

amcan wrth newid y trefniadau o ran gwaith cwrs yw sicrhau eu bod yn cael eu dilysu'n iawn.

**Darpariaeth Gwasanaethau Cyhoeddus (Abertawe)
The Provision of Public Services (Swansea)**

C8 David Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn Abertawe? OAQ1945(FM)

Y Prif Weinidog: Y datblygiad pwysicaf diweddaraf mewn gwasanaethau cyhoeddus yn Abertawe yw'r cytundeb rhwng y cyrff iechyd lleol ar gael un lleoliad ar gyfer ysbyty newydd yn y ddinas. Gan ddibynnu ar y lleoliad a ddewisir yn y pen draw, bydd o leiaf £250 miliwn o arian cyfalaf cyhoeddus yn cael eu buddsoddi i adeiladu un ysbyty yn Abertawe—hwn fydd yr ysbyty mwyaf modern a phenigamp yng Nghymru.

David Lloyd: Yr oeddwn am fynd ar ôl agwedd feddygol arall yn Abertawe—mae'n amser cyffrous y dyddiau hyn ym myd meddygol Abertawe. A yw eich Llywodraeth yn cefnogi darpariaeth feddygol mewn ysbytai cymunedol ai peidio? Os ydyw, beth ydych am ei wneud ynghylch y bwriad i gau Ysbyty Fairwood?

Y Prif Weinidog: Mae'n dibynnu a yw'r gymuned iechyd leol, sef y cyngor iechyd cymuned sy'n gweithredu ar ran y cleifion yn Abertawe a'r gymuned, yn cytuno â hynny ai peidio. Os nad yw'n cytuno, aiff y mater i apêl at Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Alun Cairns: Fairwood Hospital offers an important and immediate range of services to allow people a short-term gap before going home following serious operations. During the local health board meeting to discuss and consider the issue, the director of social services for Swansea, Jack Straw, voted against the proposal to close Fairwood Hospital. As someone who is responsible for social services in the area, he will have to bear the brunt of the consequences of Fairwood Hospital's closure. Does this not demonstrate a lack of logic and a cohesive approach in terms of the medical services in Swansea because of this administration?

Q8 David Lloyd: Will the First Minister make a statement on the provision of public services in Swansea? OAQ1945(FM)

The First Minister: The most important recent development in public services in Swansea is the agreement between the local health bodies on having one site for the new hospital in the city. Depending upon the location ultimately chosen, at least £250 million in public capital funding will be invested in building one hospital in Swansea—this will be the most modern and excellent hospital in Wales.

David Lloyd: I want to pursue another medical issue in Swansea—it is an exciting time in the medical field in Swansea these days. Does your Government support medical provision in community hospitals or not? If it does, what are you doing about the intention to close Fairwood Hospital?

The First Minister: It depends upon whether the local health community, that is, the community health council that operates on behalf of Swansea and the community, agrees to that or not. If it does not, the matter will go on appeal to Brian Gibbons, the Minister for Health and Social Services.

Alun Cairns: Mae Ysbyty Fairwood yn cynnig amryw o wasanaethau pwysig yn y fan a'r lle er mwyn rhoi seibiant byr i bobl cyn iddynt fynd adref ar ôl cael llawdriniaeth ddifrifol. Yn ystod cyfarfod y bwrdd iechyd lleol a drefnwyd i drafod ac ystyried y mater hwn, pleidleisiodd cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol Abertawe, Jack Straw, yn erbyn y bwriad i gau Ysbyty Fairwood. Fel rhywun sydd yn gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol yn yr ardal, ef fydd yn gorfod dwyn baich y canlyniadau yn sgîl cau Ysbyty Fairwood. Onid yw hyn yn dangos bod diffyg rhesymeg a diffyg dull gweithredu cydlynol yng nghyd-destun y gwasanaethau meddygol yn Abertawe

oherwydd y weinyddiaeth hon?

2.50 p.m.

The First Minister: The finger of blame always points somewhere in the direction of either me or Brian Gibbons, whenever you are speaking, Alun. However, it is an obscure connection between the rest of the question and the finger of blame. I am not responsible for the famous Jack Straw in Swansea or the other one. It is important that we all remember that there is an established procedure when a local health community decides that it wishes to close a hospital, and that is to use the community health council as the trip wire. I do not know whether it has been involved in this process yet and whether it has taken a view. However, I do not want to take a view until we have heard from the community health council because it represents patients' views. As I told Dai earlier, if the community health council decides to oppose the closure, it will then come on appeal to Brian Gibbons as the Minister for Health and Social Services. We need to see that the procedure is properly followed.

Y Prif Weinidog: Byddwch yn gweld bai bob amser arnaf fi neu ar Brian Gibbons, pryd bynnag y byddwch yn siarad, Alun. Fodd bynnag, mae'r cysylltiad rhwng gweddill y cwestiwn a'r beio braidd yn annelwig. Nid wyf yn atebol dros yr enwog Jack Straw yn Abertawe na thros yr un arall. Mae'n bwysig i bob un ohonom gofio bod gweithdrefn sefydledig i'w dilyn pan fydd cymuned iechyd leol yn penderfynu ei bod yn dymuno cau ysbyty, sef defnyddio'r cyngor iechyd cymuned i gychwyn y broses. Ni wn a fu'n ymwneud â'r broses hon eto ac a yw wedi mynegi barn. Fodd bynnag, nid wyf yn dymuno mynegi barn hyd nes y byddwn wedi clywed gan y cyngor iechyd cymuned gan ei fod yn cynrychioli barn y cleifion. Fel y dywedais wrth Dai yn gynharach, os bydd y cyngor iechyd cymuned yn penderfynu gwrthwynebu'r cau, aiff y mater i apêl at Brian Gibbons fel y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhaid inni sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei dilyn yn iawn.

Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol The National Public Health Service

Q9 Gwenda Thomas: Will the First Minister make a statement on the work of the National Public Health Service for Wales?
OAQ1953(FM)

C9 Gwenda Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am waith Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru?
OAQ1953(FM)

The First Minister: The national public health service is a multi-professional organisation established to provide public health expertise, primarily to local health boards, together with a professional microbiological service to the NHS. It is regarded by many organisations as a model of effective arrangements for protecting the health of the people of Wales.

Y Prif Weinidog: Mae'r gwasanaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol yn gorff aml-broffesiwn a sefydlwyd i ddarparu arbenigedd ym maes iechyd cyhoeddus, i fyrddau iechyd lleol yn bennaf, ynghyd â gwasanaeth microbiolegol proffesiynol ar gyfer y GIG. Fe'i hystyrir yn esiampl gan lawer corff o ran ei drefniadau effeithiol i ddiogelu iechyd pobl Cymru.

Gwenda Thomas: Do you agree that recently published health needs assessments made available by the national public health service to all local health boards in Wales will assist them in planning their strategies for health and wellbeing? Do you also agree that the launch of the scheme to eradicate child poverty in Wales by Huw Lewis further

Gwenda Thomas: A ydych yn cytuno y bydd yr asesiadau o anghenion iechyd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac a ddarparwyd gan y gwasanaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol i'r holl fyrddau iechyd lleol yng Nghymru yn gymorth i'r byrddau wrth iddynt gynllunio eu strategaethau ar gyfer iechyd a lles? A ydych yn cytuno hefyd fod lansio'r

emphasises the need and the commitment of the Welsh Assembly Government to remove health inequalities?

The First Minister: That is the issue. The eradication of child poverty is not just an income issue; it is also importantly related to health and educational opportunities. If people suffer from a bad start in life from being of low birth weight or from having other problems in their early years in nursery, it can affect them for the rest of their lives and prevent them from accessing good opportunities later on. The role of the national public health service is to try to ensure that we understand the impact of various forms of disease on children's life chances early on and that the inequalities that can be built into a child's life at that stage can be eradicated.

Rhodri Glyn Thomas: Gallaf eich sicrhau y bydd Plaid Cymru, wrth reswm, yn cefnogi unrhyw ymdrech wirioneddol gan y Llywodraeth i fynd i'r afael â thlodi plant. A wnewch chi esbonio pam, ar ôl saith mlynedd o Lywodraeth Lafur yn y Cynulliad a naw mlynedd o Lywodraeth Lafur yn San Steffan, y mae tlodi plant yn dal i fod ar gynnydd? Pam y mae'n broblem mor fawr? Pam ydych yn gorfod gosod targedau newydd a pham nad ydych wedi mynd i'r afael â'r broblem hon fel blaenoriaeth o'r cychwyn?

Y Prif Weinidog: O safbwynt eich defnydd o'r ymadrodd 'ar gynnydd', yr wyf eisoes wedi dweud hanner dwsin o weithiau'r prynhawn yma—ac, yn anffodus, mae'n rhaid imi ail-ddweud hyn—nad yw tlodi ymhlith plant ar gynnydd; mae'n lleihau ac mae wedi lleihau'n sylweddol. Os na dderbyniwch hynny fel ffaith, teimlaf yn flin drosoch chi, Rhodri Glyn. Oni allwch ddeall bod saeth tuag i fyny yn golygu ei fod ar gynnydd, a saeth tuag i lawr yn golygu ei fod yn lleihau? Yr hyn sy'n digwydd o safbwynt tlodi plant yw bod y saethau'n pwyntio tuag i lawr. Yr oedd y sefyllfa o ran tlodi plant yng Nghymru yn waeth na'r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig, yn gyffredinol. Erbyn hyn, nid yw'r sefyllfa yn waeth; yr ydym wedi dal

cynllun i ddileu tlodi ymhlith plant yng Nghymru gan Huw Lewis yn pwysleisio ymhellach yr angen i ddileu anghydraddoldebau iechyd a'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud hynny?

Y Prif Weinidog: Hynny yw'r peth pwysig. Nid mater sydd yn ymwneud ag incwm yn unig yw dileu tlodi ymhlith plant; mae cysylltiad pwysig rhyngddo a chyfleoedd o ran addysg ac iechyd hefyd. Os yw pobl yn dioddef am eu bod wedi cael cychwyn gwael mewn bywyd drwy fod â phwysau geni isel neu drwy gael problemau eraill yn eu blynyddoedd cynnar yn y feithrinf, gall hynny effeithio arnynt weddill eu hoes a'u rhwystro rhag cael cyfleoedd da yn ddiweddarach. Rôl y gwasanaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol yw ceisio sicrhau ein bod yn deall effaith gwahanol fathau o glefydau ar gyfleoedd bywyd plant yn gynnar a bod modd dileu'r anghydraddoldebau a all ddod yn rhan o fywyd plentyn bryd hynny.

Rhodri Glyn Thomas: I assure you that Plaid Cymru will, of course, support any genuine attempt by the Government to tackle child poverty. Will you explain why, after seven years of Labour Government in the Assembly, and nine years of Labour Government in Westminster, child poverty is still on the increase? Why is it such a significant problem? Why do you have to set new targets, and why have you not tackled this problem as a priority from the start?

The First Minister: From the point of view of your use of the word 'increase', I have already said half a dozen times this afternoon—unfortunately, I have to say it again—child poverty is not on the increase; it is falling and has done so significantly. If you do not accept that as a fact, I feel sorry for you, Rhodri Glyn. Can you not understand that an arrow pointing upwards means that it is increasing, and an arrow pointing downwards means that it is falling? What is happening from the point of view of child poverty is that the arrows are pointing downwards. The situation in terms of child poverty in Wales was worse than that in the United Kingdom, in general. Now, the situation is not worse; we have caught up

i fyny er bod pethau wedi gwella yn y Deyrnas Unedig hefyd. Mae'n bwysig hefyd fod gennym strategaeth, fel y trafodwyd yn y pwyllgor perthnasol y mae Janice yn ei gadeirio. Cyhoeddwyd y targedau a'r cerrig milltir gan Huw Lewis ddoe.

Jonathan Morgan: The cervical cancer vaccine, Gardasil, received its licence last week. As a result, a 13-year-old girl has become the first in England to receive the vaccination. Vaccinations are very much part of the public health agenda in Wales and across the UK. Does the Government have any plans to roll out the vaccine in Wales and are there any budgetary implications to such plans?

The First Minister: You are certainly right that a high rate of vaccination is extremely important in dealing with health inequalities and that it provides a good start in life for children. However, I am not too familiar with the vaccine to which you refer, which is a new one. I did catch a news item on it, but I will ask Brian Gibbons to write to you about that.

despite the fact that matters have also improved in the United Kingdom. It is also important that we have a strategy, as discussed in the relevant committee, which Janice chairs. The targets and milestones were published by Huw Lewis yesterday.

Jonathan Morgan: Trwyddedwyd y brechlyn rhag canser ceg y groth, Gardasil, yr wythnos diwethaf. O ganlyniad i hynny, merch 13 blwydd oed oedd y gyntaf yn Lloegr i gael y brechiad. Mae brechiadau'n rhan bwysig o'r agenda ar iechyd cyhoeddus yng Nghymru a ledled y DU. A oes gan y Llywodraeth unrhyw gynlluniau i gynnig y brechlyn yng Nghymru ac a oes unrhyw oblygiadau cyllidebol i gynlluniau o'r fath?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn sicr yn gywir wrth ddweud ei bod yn bwysig iawn cael cyfradd brechu uchel wrth ddelio ag anghydraddoldebau iechyd a bod hynny'n rhoi cychwyn da mewn bywyd i blant. Fodd bynnag, nid wyf yn gyfarwydd iawn â'r brechlyn y cyfeiriwch ato, sydd yn un newydd. Digwyddais glywed eitem amdano ar y newyddion, ond gofynnaf i Brian Gibbons ysgrifennu atoch ynghylch hynny.

Y Portffolio Iechyd The Health Portfolio

Q10 Helen Mary Jones: What are the Welsh Assembly Government's priorities regarding the health portfolio? OAQ1947(FM)

The First Minister: They remain a combination of preventing ill health; tackling health inequalities; improving access to services through increased capacity and new capital investment; supporting NHS staff; providing high-quality, safe and speedy treatment for patients; and educating and training the next generation of health professionals.

Helen Mary Jones: Thank you. You refer to access to services. I am sure that you agree that a fully fit-for-purpose ambulance service is a vital factor in ensuring that everyone can access services. Will you commit your Government today to fully funding the ambulance service's capital modernisation programme, to ensure that we have an ambulance service upon which we can all

C10 Helen Mary Jones: Beth yw blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer y portffolio iechyd? OAQ1947(FM)

Y Prif Weinidog: Maent yn gyfuniad o hyd o gamau i atal afiechyd; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd; gwella mynediad at wasanaethau drwy greu mwy o gapasiti a buddsoddiadau cyfalaf newydd; cefnogi staff y GIG; darparu triniaeth ddiogel a buan o ansawdd da i gleifion; ac addysgu a hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr iechyd proffesiynol.

Helen Mary Jones: Diolch ichi. Cyfeiriasoch at fynediad at wasanaethau. Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod gwasanaeth ambiwlans cwbl addas i'w ddiben yn ffactor hollbwysig o ran sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at wasanaethau. A wnewch ymrwymo heddiw y bydd eich Llywodraeth yn talu'n llawn am raglen moderneiddio cyfalaf y gwasanaeth ambiwlans, i sicrhau y

rely, and that the front-line staff who do such excellent work have the tools that they need to do the job?

The First Minister: I do not think that I could put it in terms of ‘committing myself’, in advance of being asked by the ambulance service, to writing a blank cheque. However, we are very pleased to have allocated the sum of £16 million two weeks ago. We expect the ambulance service to digest that, and to show how it is using it, we hope, in conjunction with reformed practices on where ambulances are located and so forth. I am sure that we will consider sympathetically any further bids for capital as they come in, following the digestion of the first amount of £16 million.

David Melding: First Minister, will you take this opportunity to welcome the Princess Royal Trust for Carers’ decision to open an office in Wales? It is famous for opening carers’ centres that deal with the wellbeing of carers and the prevention of ill health. Will you ensure that your Government and other public authorities co-operate to the maximum extent with this excellent charity?

The First Minister: Absolutely. Whether we are talking about MacMillan Cancer Relief or, in the area of hospice care, the Marie Curie Holme Tower centre and the George Thomas Hospice that I am familiar with in the Cardiff locality, or the many other hospices serving different parts of Wales, the charitable sector will receive strong support from us, because it provides certain extras that the NHS will probably never be able to provide.

cawn wasanaeth ambiwlans y gall pob un ohonom ddibynnu arno, ac y bydd gan y staff rheng flaen sydd yn gwneud gwaith mor rhagorol yr offer y mae arnynt eu hangen i wneud y gwaith?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn credu y gallwn ateb drwy ddweud fy mod yn ‘ymrwymo’ i ysgrifennu sicc wag, cyn i’r gwasanaeth ambiwlans ofyn imi. Er hynny, yr ydym yn falch iawn ein bod wedi dyrannu’r swm o £16 miliwn bythefnos yn ôl. Yr ydym yn disgwyl i’r gwasanaeth ambiwlans dreulio hwnnw, a dangos sut y mae’n ei ddefnyddio, yr ydym yn gobeithio, ar y cyd ag arferion diwygiedig o ran ble y mae ambiwlansys yn cael eu lleoli ac yn y blaen. Yr wyf yn sicr yr ystyriwn unrhyw geisiadau pellach am gyfalaf gyda chydymdeimlad wrth iddynt ddod i law, ar ôl treulio’r swm cyntaf o £16 miliwn.

David Melding: Brif Weinidog, a wnewch achub ar y cyfle hwn i groesawu penderfyniad Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr i agor swyddfa yng Nghymru? Mae ganddi enw da am agor canolfannau gofalwyr sydd yn delio â lles gofalwyr a chamau i atal afiechyd. A wnewch sicrhau bod eich Llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus eraill yn cydweithredu i’r eithaf â’r elusen ragorol hon?

Y Prif Weinidog: Yn sicr. Pa un a ydym yn sôn am Cymorth Canser MacMillan neu, ym maes gofal mewn hosbis, am ganolfan Holme Tower Marie Curie a Hosbis George Thomas, sef y rhai yr wyf yn gyfarwydd â hwy yng nghylch Caerdydd, neu am y nifer fawr o hosbisau eraill sydd yn gwasanaethu gwahanol rannau o Gymru, bydd y sector elusennol yn cael pob cefnogaeth gennym, gan ei fod yn darparu rhai pethau ychwanegol na fydd y GIG byth yn gallu eu darparu, yn ôl pob tebyg.

Cwpan Ryder 2008 The 2008 Ryder Cup

Q11 Trish Law: Is it the Welsh Assembly Government’s intention to send a delegation to the thirty-seventh Ryder Cup in Louisville, Kentucky, in 2008? OAQ1963(FM)

C11 Trish Law: A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu anfon dirprwyaeth i’r Cwpan Ryder yn Louisville, Kentucky, yn 2008, sef yr ail gystadleuaeth ar bymtheg ar hugain? OAQ1963(FM)

The First Minister: I would expect us to do so, for the same reason that Governor Ernie Fletcher and his delegation from Kentucky were in the K Club in Ireland a couple of weeks ago. Indeed, the event in Ireland provided us with fantastic opportunities to raise Wales' profile as a business and leisure destination on a global stage and to create jobs. To a lesser extent, the event in Kentucky will do the same.

Trish Law: Will the First Minister give an assurance that the Assembly Government will be more prudent with public expenditure for the 2008 trip to America than it was in spending £236,000 to treat 30 delegates to a jaunt in Ireland for this year's Ryder Cup?

The First Minister: It just depends what you think was happening. In this case, I never saw any golf being played. I was meeting with business executives all the time, and one of those meetings resulted in the announcement of 300 new jobs two weeks ago. I hope that some of your constituents will be able to access some of those jobs when the company opens.

John Griffiths: I am sure that we all agree that it is necessary to be prudent in spending public money, but will you confirm that you will continue to decide whether to support overseas and other events on the basis of rational cost-benefit analyses, and that you will not deny Wales important opportunities because of media sensationalism or political point-scoring by the opposition?

The First Minister: Funnily enough, Governor Fletcher of Kentucky said exactly the same to me. He said that he did not want any of his children to go into politics because of the cheap shots that people make. It is so easy for people to have a dig at any expenditure of this kind, regardless of the outputs. This is our Olympic Games. We cannot host the Olympic Games in Wales; this is the equivalent. Ireland cannot host the Olympic Games. This was Ireland's Olympics. It did a good job; we have to try to do better. I hope that the 300 jobs that we

Y Prif Weinidog: Byddwn yn disgwyl inni wneud hynny, am yr un rheswm ag y bu'r Llywodraethwr Ernie Fletcher a'i ddirprwyaeth o Kentucky yn y K Club yn Iwerddon rai wythnosau'n ôl. Yn wir, yr oedd y gystadleuaeth yn Iwerddon yn cynnig cyfleoedd gwych inni dynnu sylw at Gymru fel cyrchfan ar gyfer busnes a hamdden ar lwyfan rhyngwladol ac i greu swyddi. I raddau llai, bydd y gystadleuaeth yn Kentucky yn cynnig cyfleoedd tebyg.

Trish Law: A wnaiff y Prif Weinidog roi sicrwydd y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn fwy darbodus gyda gwariant cyhoeddus ar gyfer y daith i America yn 2008 nag y bu wrth wario £236,000 i dalu am wibdaith i 30 o gynrychiolwyr i Iwerddon ar gyfer cystadleuaeth Cwpan Ryder eleni?

Y Prif Weinidog: Mae'n dibynnu ar yr hyn a oedd yn digwydd yn eich barn chi. Yn yr achos hwn, ni welais chwarae golff. Bûm yn cwrdd â phrif swyddogion busnesau drwy'r amser, ac arweiniodd un o'r cyfarfodydd hynny at y cyhoeddiad am 300 o swyddi newydd bythefnos yn ôl. Yr wyf yn gobeithio y bydd rhai o'ch etholwyr yn gallu cael rhai o'r swyddi hynny pan fydd gwaith y cwmni'n agor.

John Griffiths: Yr wyf yn sicr ein bod i gyd yn cytuno bod angen darbodaeth wrth wario arian cyhoeddus, ond a wnewch gadarnhau y byddwch yn dal i benderfynu a fyddwch yn cefnogi digwyddiadau tramor neu ddigwyddiadau eraill ar sail dadansoddiadau cost a budd rhesymegol, ac na wnewch warafun cyfleoedd pwysig i Gymru oherwydd cyffrogarwch y cyfryngau neu gystadlu gwleidyddol gan y gwrthbleidiau?

Y Prif Weinidog: Yn rhyfedd iawn, dywedodd y Llywodraethwr Fletcher o Kentucky yr un peth yn union wrthyf. Dywedodd nad oedd yn dymuno i ddim un o'i blant fynd yn wleidydd oherwydd y sylwadau salw a wnaiff rhai. Mae mor hawdd i bobl feirniadu unrhyw wariant o'r math hwn, heb ystyried ei ganlyniadau. Dyma ein Gemau Olympaidd ni. Ni allwn gynnal y Gemau Olympaidd yng Nghymru; hyn sydd yn cyfateb iddynt. Ni all Iwerddon gynnal y Gemau Olympaidd. Dyma oedd Gemau Olympaidd Iwerddon. Gwnaeth waith da;

announced last week will be outweighed by hundreds more jobs that will come as a result of an excellent display by the Welsh team at the Ryder Cup.

3.00 p.m.

Laura Anne Jones: The Ryder Cup, which is coming to Wales in 2010, will be fantastic for Wales. Clearly, we need to go to the Ryder Cup competitions in the run-up to 2010 to provide support, to learn, and to promote ourselves. However, was it really necessary to take 30 people with you to Ireland at a cost of £236,000? Will you write to me outlining why those people who went went, what they did while there, and what they achieved? Paying for millionaires to go on junkets does not reflect well on you, the Government, or Wales. The First Minister plus golf seems to equal trouble in your department.

The First Minister: I think that you may be under the impression that we paid for millionaires to go; we did not, and I do not know where you got that from. It is wrong information, so go back and tell the person who told you that that they should not feed you such rubbish that you embarrass yourself standing in the Assembly.

You may not think that we should have had the Ryder Cup in the first place. Once we had decided to host the Ryder Cup, it became our Olympic Games. We cannot host the Olympics or the football World Cup in Wales and those are the only two sporting events that are bigger in media profile than the Ryder Cup. We have to make a success of the Ryder Cup. There were two purposes for going to Ryder Cup Ireland: the first was to see whether there were any lessons that we could learn about infrastructure, logistics, car parking, how to deal with heavy rain and so forth, and the second, to use the opportunity to try to sign off deals with potential investors who will create hundreds of jobs in Wales. The first instalment was the 300 jobs that we announced two weeks ago. I hope that that will not be the last such announcement, and I hope to report back to

rhaid inni geisio gwneud yn well. Gobeithiaf y bydd y 300 o swyddi a gyhoeddassom yr wythnos diwethaf yn cael eu gorbwyso gan gannoedd yn rhagor o swyddi a ddaw o ganlyniad i berfformiad ardderchog gan ddim Cymru yng Nghwpan Ryder.

Laura Anne Jones: Bydd Cwpan Ryder, a ddaw i Gymru yn 2010, yn ffantastig i Gymru. Yn amlwg, mae'n rhaid inni fynd i gystadlaethau Cwpan Ryder yn ystod y cyfnod cyn 2010 i roi cefnogaeth, i ddysgu ac i'n hyrwyddo ein hunain. Serch hynny, a oedd gwir angen mynd â 30 o bobl gyda chi i Iwerddon ar gost o £236,000? A ysgrifennwch ataf i amlinellu pam yr aeth y bobl hynny a aeth, beth a wnaethant tra oeddent yno, a beth a gyflawnwyd ganddynt? Nid yw talu i filiynyddion jolihetio'n adlewyrchu'n dda arnoch chi, ar y Llywodraeth, nac ar Gymru. Mae'n ymddangos bod cyfuniad o'r Prif Weinidog a golff yn golygu trwbl yn eich adran chi.

Y Prif Weinidog: Credaf eich bod dan yr argraff ein bod wedi talu i filiynyddion fynd; ni wnaethom, ac ni wn o ble y cawsoch hynny. Mae'n wybodaeth anghywir, felly ewch yn ôl a dweud wrth y sawl a ddywedodd hynny wrthych na ddylent fwydo sothach o'r fath ichi fel eich bod yn codi cywilydd arnoch eich hun wrth sefyll yn y Cynulliad.

Mae'n bosibl na chredwch y dylem fod wedi cael Cwpan Ryder yn y lle cyntaf. Wedi inni benderfynu cynnal Cwpan Ryder, dyma oedd ein Gemau Olympaidd ni. Ni allwn gynnal y Gemau Olympaidd na Chwpan pêl-droed y Byd yng Nghymru a'r rheini yw'r unig ddau ddigwyddiad chwaraeon sy'n uwch eu proffil yn y cyfryngau na Chwpan Ryder. Rhaid inni sicrhau bod Cwpan Ryder yn llwyddiant. Yr oedd dau ddiben wrth fynd i Gwpan Ryder Iwerddon: y cyntaf oedd er mwyn gweld a oedd unrhyw wersi y gallem eu dysgu am seilwaith, logisteg, parcio ceir, sut i ddelio â glaw trwm ac yn y blaen, a'r ail, er mwyn defnyddio'r cyfle i geisio sicrhau cytundebau gyda darpar fuddsoddwyr a fydd yn creu miloedd o swyddi yng Nghymru. Y rhandaliad cyntaf oedd y 300 o swyddi a gyhoeddassom bythefnos yn ôl. Gobeithiaf nad hwn a fydd y cyhoeddiad olaf o'r fath, a

you regularly on investments made by people whom we met and with whom we progressed negotiations at the K Club.

gobeithiaf adrodd yn ôl ichi'n rheolaidd am fuddsoddiadau a wneir gan bobl y bu inni gyfarfod â hwy a datblygu trafodaethau gyda hwy yn y K Club.

Datganiad Busnes Business Statement

The Deputy Presiding Officer has determined that the following items of subordinate legislation need not be referred to a subject committee for extended consideration:

Mae'r Dirprwy Lywydd wedi penderfynu nad oes angen cyfeirio'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth i bwyllgor pwnc am ystyriaeth estynedig:

the Common Agricultural Policy Single Payment Scheme (Set-aside) (Wales) (Amendment) Regulations 2006

Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) (Diwygio) 2006

the Contaminated Land (Wales) Regulations 2006

Rheoliadau Tir Halog (Cymru) 2006

National Health Service (General Ophthalmic Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2006

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmeg Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2006

the Radioactive Contaminated Land (Modification of Enactments) (Wales) Regulations 2006

Rheoliadau Tir Halog Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006

the Smoke Control Areas (Authorised Fuels) (Wales) Regulations 2006

Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2006

the Smoke Control Areas (Exempted Fireplaces) (Wales) Order 2006

Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2006

the Children (Secure Accommodation) (Amendment) (Wales) Regulations 2006

Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Diwygio) (Cymru) 2006

the Independent Review of Determinations (Adoption) (Wales) Regulations 2006

Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2006

the Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Wales) Regulations 2006

Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2006

The Business Minister (Jane Hutt): There are a few changes to report to this week's business. Following the business statement, the Minister for Enterprise, Innovation and Networks will make a statement on the future investment in Corus. Tomorrow, the Minister for Health and Social Services will make an oral statement on the superbug, Clostridium difficile. Business for the next three weeks is as set out in the draft statement, which should be available to Members on the agenda.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Mae rhai newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Ar ôl y datganiad busnes, bydd y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau yn gwneud datganiad am y buddsoddiad i'r dyfodol yn Corus. Yfory, bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad am yr arch-haint, Clostridium difficile. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i gwelir yn y datganiad

drafft, a ddylai fod ar gael i'r Aelodau ar yr agenda.

Y Llywydd: A oes gwrthwynebiadau i'r datganiad busnes? Gwelaf fod o leiaf 10 gwrthwynebiad, felly gofynnaf i'r Gweinidog gynnig y datganiad busnes yn ffurfiol.

The Presiding Officer: Are there any objections to the business statement? I see that there are at least 10, therefore I ask the Minister to formally propose the business statement.

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigaf fod

the National Assembly for Wales adopts the business statement.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn y datganiad busnes

Rhodri Glyn Thomas: Diolchaf ichi am y datganiad y byddwn yn ei dderbyn heddiw am sefyllfa Corus. Yr ydym yn gwerthfawrogi'r ffaith eich bod wedi cynnig y datganiad hwnnw, sy'n fater o bwys mawr.

Rhodri Glyn Thomas: I thank you for the statement that we will hear later today on the situation at Corus. We appreciate the fact that you have proposed that statement, which is on a matter of great importance.

Fodd bynnag, yr ydym yn anfodlon gyda'r ffaith y byddwn yn cael datganiad ysgrifenedig yn unig ynglŷn â'r rheol gyfreithiol sydd wedi'i sefydlu oherwydd yr achos y mae Cymdeithas Genedlaethol Goruchwylwyr, Dirprwyon a Saethwyr Glofeydd wedi'i ddwyn yn erbyn y Llywodraeth, oherwydd bod gweddwn un o'i haelodau wedi gorfod talu am ofal meddygol a nyrsio. Mae goblygiadau enfawr i'r penderfyniad hwnnw, ac nid yw datganiad ysgrifenedig ar hyn yn ddigon. Byddem yn gwerthfawrogi pe baech yn rhoi ystyriaeth lawn i wneud datganiad llafar, o leiaf, ar y mater hwn, os nad yn cynnal dadl. Mae'r oblygiadau yn fawr i bawb ohonom. Cefais neges y bore yma ynglŷn ag etholwraig sydd â chonsŷm am hyn.

However, we are not happy about the fact that we will have only a written statement on the legal precedent that has been set following the case brought against the Government by the National Association of Colliery Overmen, Deputies and Shotfireders, after the widow of one of its members had to pay for her medical and nursing care. There are huge implications to that judgment, and it will not suffice to have only a written statement on this. We would appreciate it if you would fully consider making an oral statement on this matter, at least, if not consider holding a debate. The implications are grave for every one of us. I received a message only this morning about a constituent of mine who is concerned about this matter.

Byddwn yn pleidleisio yn erbyn y datganiad busnes gan na fydd y setliad ar gyfer llywodraeth leol yn cael ei ddatgelu tan y flwyddyn newydd. Mae hynny'n gwbl annerbyniol i lywodraeth leol ac i ni. Yr ydym yn bendant ein bod am gael y datganiad hwn cyn y Nadolig. Dyna ein sefyllfa ni. A wnewch chi ymatal rhag awgrymu bod y gwrthbleidiau—neu o leiaf y blaid hon—wedi cytuno rywsut i gynnal y datganiad hwnnw ym mis Ionawr? Yr ydym ni o'r farn fod yn rhaid cael y datganiad hwn cyn y Nadolig.

We will vote against the business statement in view of the fact that the local government settlement will not be revealed until the new year. That is totally unacceptable, both to local government and to us. We are adamant that we want this statement before Christmas. That is our position. Will you please refrain from suggesting that the opposition parties—or at least that this party—has somehow agreed for the statement to be timetabled for January? We are firmly of the view that this statement should be held before Christmas.

Lisa Francis: I support everything that

Lisa Francis: Cefnogaf bopeth y mae Rhodri

Rhodri Glyn Thomas has just said about the local government settlement.

Minister, I told you this morning that I was concerned about the claim by NACODS, which was working on behalf of a lady who had been paying her own fees for 24-hour care at a nursing home. NACODS claims that thousands of sick and elderly people in nursing and residential homes throughout the country are wrongly being charged for care. The family of the lady concerned, whom NACODS was representing, began the fight to recover that money two years ago, and it is extremely worrying that cases of incorrect payment take such a long time to be rectified. A written statement on this is just not good enough now that a campaign is being undertaken to expose the inequalities in the system.

When you hear about that kind of inequality, you cannot be surprised to learn that the Welsh Conservative group has also asked for a breakdown of the costs of the trip—sorry, the fact-finding mission—undertaken by the First Minister to Ireland, to learn about the Ryder Cup. We have already heard about the 29 members of Team Wales who went, but I understand that that the Welsh party hosted more than 200 guests, and that the cost, during the tournament, was £236,000. To say that we are raising this issue on the margins of question 11 this afternoon is marginalising the issue and kicking it into the sidings. If you are so sure, First Minister, that your visit to Ireland secured important investment for Wales, you will be happy to give us an oral statement on that this afternoon.

Kirsty Williams: I return to the local government settlement, an issue that I raised with the Business Minister during last week's business statement. Last week, I raised our concern that the debate on the settlement, originally intended to be held in November, had been kicked into January, following the Christmas recess. As someone with much experience of local government, Minister, you should know how difficult it will be for local authorities to plan their budgets only to have a final decision issued from the National Assembly in January. You will also know that local government must go through a plethora of consultations before it sets its

Glyn Thomas newydd ei ddweud am y setliad ar gyfer llywodraeth leol.

Weinidog, dywedais wrthyfch y bore yma fy mod yn bryderus am yr honiad gan NACODS, a oedd yn gweithio ar ran gwraig a fu'n talu ei ffioedd ei hun am ofal 24 awr y dydd mewn cartref nyrsio. Mae NACODS yn honni bod miloedd o bobl oedrannus a gwael mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio ledled y wlad yn gorfod talu, ar gam, am eu gofal. Dechreuodd teulu'r wraig dan sylw, yr oedd NACODS yn ei chynrychioli, y frwydr i adennill yr arian ddwy flynedd yn ôl, ac mae'n peri pryder aruthrol fod achosion o dalu ar gam yn cymryd cymaint o amser i gael eu hunioni. Nid yw datganiad ysgrifenedig am hyn yn ddigon da gan fod ymgyrch yn cael ei chynnal erbyn hyn i ddadlennu'r anghydraddoldebau yn y system.

Pan glywch am y math hwn o anghydraddoldeb, ni allwch synnu o glywed bod grŵp Ceidwadwyr Cymru wedi gofyn hefyd am ddadansoddiad o gostau'r trip—mae'n ddrwg gennyf, y genhadaeth canfod ffeithiau—yr aeth y Prif Weinidog arni i Iwerddon, i ddysgu am Gwpan Ryder. Yr ydym eisoes wedi clywed am y 29 aelod o Dîm Cymru a aeth, ond deallaf fod gan barti Cymru 200 o westeion, a bod y gost, yn ystod y twrnaint, yn £236,000. Mae dweud ein bod yn codi'r mater hwn ar ymylon cwestiwn 11 y prynhawn yma yn ymyleiddio'r mater ac yn ei wthio i'r cyrion. Os ydych mor sicr, Brif Weinidog, fod eich ymweliad ag Iwerddon wedi sicrhau buddsoddiadau pwysig i Gymru, byddwch yn barod i roi datganiad llafar am hyn y prynhawn yma.

Kirsty Williams: Dychwelaf at y setliad ar gyfer llywodraeth leol, mater a godais gyda'r Trefnydd yn ystod datganiad busnes yr wythnos diwethaf. Yr wythnos diwethaf, mynegais ein pryder bod y ddadl am y setliad, y bwriadwyd ei chynnal yn Nhachwedd yn wreiddiol, wedi cael ei gohirio tan Ionawr, ar ôl toriad y Nadolig. Fel rhywun sydd â llawer o brofiad o lywodraeth leol, Weinidog, dylech wybod pa mor anodd y bydd i awdurdodau lleol gynllunio eu cyllidebau a hwythau'n cael penderfyniad terfynol oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol yn Ionawr. Byddwch yn gwybod hefyd fod yn rhaid i lywodraeth leol fynd drwy lu o

budget, whether with local businesses or with budget fora in education. Authorities cannot carry out proper consultation with the people who will be affected by their budgets and spending plans unless we get that final decision to them sooner than your promised date of January. That is potentially storing up huge problems for local authorities. Even if they are able to formulate their budgets, the opportunities for local people to have an input to that budget-planning process and for their voices to be heard will be lost, not because of a lack of will on behalf of local authorities in Wales, but because of the position that you will have put them in.

Carl Sargeant: Minister, could you find time for a statement or a debate on the aerospace industry in Wales, particularly on Airbus and the aerospace industry? Do you agree that it is disappointing that the Conservative MP, John Hayes, made comments today on subsidies for Airbus being problematic, and used typical Boeing language as opposed to supporting investment in Wales? We should ensure that the A350 composite wings come to Wales as opposed to going to Spain or Germany. I would like to hear your comments on that.

I would also like the time to discuss the police and their involvement with the National Assembly for Wales. The police precept is a burning question throughout Wales. Given that some chief constables suggest that policing has nothing to do with the Assembly, I am interested in how you perceive spending in Wales. One example is that of another Conservative colleague of mine from north Wales, who asked for an investigation to be held into Flintshire County Council at a cost of £0.75 million, which came up with no evidence of criminal activity. That was quite disappointing and disgraceful, but typical of that party.

Finally, we would like the time to discuss Tir Mynydd, as it is an important subject that we would all welcome the opportunity to discuss. That would be ideal, because it would be useful to find out why we are

ymgyngoriadau cyn pennu ei chyllideb, boed hynny gyda busnesau lleol neu gyda ffora cyllidebol yn y maes addysg. Ni all awdurdodau gynnal ymgyngoriadau iawn gyda'r bobl y bydd eu cyllidebau a'u cynlluniau gwariant yn effeithio arnynt oni allwn roi ein penderfyniad terfynol iddynt yn gynt na'r dyddiad ym mis Ionawr a addawsoch. Gall hynny esgor ar broblemau aruthrol i awdurdodau lleol. Hyd yn oed os gallant fformiwleiddio eu cyllidebau, bydd y cyfle i bobl leol gyfranogi yn y broses honno o gynllunio'r gyllideb a lleisio'u barn yn cael ei golli, nid oherwydd diffyg ewyllys ar ran awdurdodau lleol yng Nghymru, ond oherwydd y sefyllfa y byddwch wedi eu rhoi ynddi.

Carl Sargeant: Weinidog, a allech gael hyd i amser i gael datganiad neu ddadl am y diwydiant awyrofod yng Nghymru, yn enwedig am Airbus a'r diwydiant awyrofod? Oni chytunwch ei bod yn siomedig bod yr AS Ceidwadol, John Hayes, wedi cyflwyno sylwadau heddiw ynglŷn â bod cymorthdaliadau i Airbus yn broblemus, ac wedi defnyddio iaith sy'n nodweddiadol o Boeing yn hytrach na chefnogi buddsoddi yng Nghymru? Dylem sicrhau bod adenydd cyfansawdd yr A350 yn dod i Gymru yn hytrach nag i Sbaen neu i'r Almaen. Hoffwn glywed eich sylwadau am hynny.

Hoffwn hefyd gael amser i drafod yr heddlu a'u cysylltiad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae praesept yr heddlu yn gwestiwn llog ledled Cymru. O ystyried bod rhai prif gwnstabiliaid yn awgrymu nad oes a wnelo plismona ddim byd â'r Cynulliad, mae gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod beth yw eich barn am wariant yng Nghymru. Un esiampl yw bod cyd-Aelod Ceidwadol arall imi o'r gogledd wedi gofyn am gynnal ymchwiliad i Gyngor Sir y Fflint ar gost o £0.75 miliwn, ymchwiliad a ddaeth i'r casgliad nad oedd dim tystiolaeth bod troseddu wedi digwydd. Yr oedd hyn yn siomedig ac yn warthus iawn, ond yn nodweddiadol o'r blaid honno.

Yn olaf, hoffem gael amser i drafod Tir Mynydd, oherwydd ei fod yn bwnc pwysig y byddem oll yn croesawu'r cyfle i'w drafod. Byddai hynny'n ddelfrydol, oherwydd byddai'n ddefnyddiol canfod pam yr ydym

planning to take money from constituencies such as Wrexham, Blaenau Gwent and my constituency of Alyn and Deeside and to place it in rural areas. It would be interesting to see why my colleagues, Trish Law and John Marek, wish to take that money from their constituencies.

3.10 p.m.

The Business Minister (Jane Hutt): It is always interesting on Tuesday mornings to see how gentle, or how robust, my opposition colleagues are when we start the day, and then, when the numbers come in and we see how their requests can be placed, the gentle may get a bit more strident as the day goes on. However, always, they are exploring and finding ways to turn gentle requests into far more strident requests later in the day. There is something here about politics rather than business, I would say.

Let us look at what has come through today. Suddenly, the settlement for local government is on the agenda, but that is not an issue. Tomorrow, local government will have its provisional statement, Kirsty, and that is what is important to local government. It will have its provisional statement and will know what to expect with regard to the timetable. It also knows that it will have its final settlement when our final budget goes through in December. For the period between the provisional and the final settlements, local government is content and has not come back to ask for anything different. Opposition finance and local government spokespersons know about the timetable. We will come back as soon as that final budget has been settled. That is how it has been; that is how it will be taken forward. Local government is happy with that.

On the recent court case, Lisa, the Minister immediately agreed to issue a written statement, and that is important. He is looking at the funding and commissioning issues that were raised. Of course the court case is important, which is why the Minister is coming back to the Health and Social Services Committee with a ministerial report

yn bwriadu mynd ag arian oddi ar etholaethau megis Wrecsam, Blaenau Gwent a'm hetholaeth i, Alun a Glannau Dyfrdwy a'i roi mewn ardaloedd gwledig. Byddai'n ddi-ddorol gweld pam mae fy nghyd-Aelodau, Trish Law a John Marek, yn dymuno mynd â'r arian hwn oddi ar eu hetholaethau.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Mae bob amser yn ddi-ddorol ar fore Mawrth gweld pa mor addfwyn, neu pa mor rymus, yw fy nghyd-Aelodau yn y gwrthbleidiau ddechrau'r dydd, ac yna, wrth i'r niferoedd ddod i mewn a ninnau'n gweld ym mha drefn y gellir rhoi eu ceisiadau, efallai y bydd yr addfwyn yn mynd ychydig yn fwy croch wrth i'r dydd fynd rhagddo. Fodd bynnag, bob amser, maent yn chwilio am ffyrdd ac yn canfod ffyrdd o droi ceisiadau hynaws yn geisiadau llawer mwy croch yn ddiweddarach yn y dydd. Mae a wnelo hyn fwy â gwleidyddiaeth nag â busnes, yn fy marn i.

Gadewch inni edrych ar beth a ddaeth drwodd heddiw. Yn sydyn, mae'r setliad ar gyfer llywodraeth leol ar yr agenda, ond nid yw hynny'n broblem. Yfory, bydd llywodraeth leol yn cael ei datganiad dros dro, Kirsty, a hynny sy'n bwysig i lywodraeth leol. Bydd yn cael ei datganiad dros dro a bydd yn gwybod beth i'w ddisgwyl o safbwynt yr amserlen. Gŵyr hefyd y bydd yn cael ei setliad terfynol pan fydd ein cyllideb derfynol yn mynd drwodd yn Rhagfyr. Yn ystod y cyfnod rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, mae llywodraeth leol yn fodlon ac ni ddaeth yn ôl i ofyn am ddim byd gwahanol. Mae llefarwyr llywodraeth leol a chyllid y gwrthbleidiau'n gwybod am yr amserlen. Deuwn yn ôl cyn gynted ag y bydd y gyllideb derfynol wedi ei setlo. Dyna sut y mae wedi bod; dyna sut y bwirir ymlaen â hyn. Mae llywodraeth leol yn fodlon ar hynny.

O ran yr achos llys diweddar, Lisa, cytunodd y Gweinidog ar unwaith i gyflwyno datganiad ysgrifenedig, ac mae hynny'n bwysig. Mae'n edrych ar y materion a godwyd o safbwynt comisiynu a chyllido. Wrth gwrs bod yr achos llys yn bwysig, dyna pam mae'r Gweinidog yn dychwelyd at y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau

on it. That shows its significance, and that is where the report should be brought, as regards its outcome and its importance. That will ensure that the opposition and committee members have the opportunity to question and to clarify. We can then ascertain its impact.

The cheap points were certainly played in terms of the lack of confidence in the Chamber and the unwillingness to recognise the importance of the Ryder Cup in 2010. I am astonished, because Laura Anne Jones issued a press statement only a few weeks ago saying how important the Ryder Cup 2010 will be for south-east Wales. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] I rest my case, Lisa—

The Presiding Officer: Order. I cannot hear what the Minister is saying in relation to the Ryder Cup.

Jane Hutt: Thank you. We will see where the Conservatives place themselves when we have our version of the Olympic Games, when the Ryder Cup comes to Wales in 2010.

Some important points were made, and I now turn to Carl Sargeant. There is no question that he puts things onto our planning and business programme that are so important to the people of Wales. Airbus is as important to the people of north-east Wales as the Ryder Cup is to the whole of Wales, so we have to ensure that we stand up, unlike some of your Tory opponents in north-east Wales, who seek to undermine the importance of Airbus, among other issues.

I agree with you, Carl, on the police precept and on what can be regarded as the waste of the £0.75 million spent on investigations that are political in intent and empty of outcome. I rest my case.

Cymdeithasol gydag adroddiad gweinidogol amdano. Mae hynny'n dangos pa mor bwysig ydyw, a dyna lle y dylid cyflwyno'r adroddiad, o safbwynt ei ganlyniad a'i bwysigrwydd. Bydd hynny'n sicrhau bod aelodau'r gwrthbleidiau a'r pwyllgor yn cael y cyfle i godi cwestiynau ac i egluro. Gallwn wedyn weld ei effaith.

Chwaraewyd y pwyntiau siêp yn bendant o safbwynt y diffyg hyder yn y Siambr a'r amharodrwydd i gydnabod pwysigrwydd Cwpan Ryder yn 2010. Fe'm syfrdanwyd, oherwydd bod Laura Anne Jones wedi rhyddhau datganiad i'r wasg ychydig wythnosau'n ôl yn dweud pa mor bwysig y bydd Cwpan Ryder 2010 i'r de-ddwyrain. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Dyna gloi fy nadl, Lisa—

Y Llywydd: Trefn. Ni allaf glywed yr hyn a ddywed y Gweinidog am Gwpan Ryder.

Jane Hutt: Diolch yn fawr. Cawn weld ymhle y bydd y Ceidwadwyr arni pan gawn ein fersiwn ni o'r Gemau Olympaidd, pan ddaw Cwpan Ryder i Gymru yn 2010.

Gwnaed rhai pwyntiau pwysig, ac yn awr trof at Carl Sargeant. Nid oes dim amheuaeth nad yw'n rhoi pethau yn ein rhaglen fusnes a chynllunio sydd mor bwysig i bobl Cymru. Mae Airbus cyn bwysiced i bobl y gogledd-ddwyrain ag ydyw Cwpan Ryder i Gymru gyfan, felly rhaid inni sicrhau ein bod yn sefyll ar ein traed, yn wahanol i rai o'ch gwrthwynebwyr Torïaidd yn y gogledd-ddwyrain, sy'n ceisio tanseilio pwysigrwydd Airbus, ymysg materion eraill.

Cytunaf â chi, Carl, ynghylch praesept yr heddlu ac ynghylch yr hyn y gellir ei ystyried yn wastraff ar £0.75 miliwn, sef yr arian a wariwyd ar ymchwiliadau sydd â diben gwleidyddol a heb ddim canlyniad. Dyna gloi fy nadl.

*Cynnig: O blaid 30, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
Motion: For 30, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bates, Mick
Black, Peter

Butler, Rosemary
 Cairns, Alun
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

Bourne, Nick
 Davies, David
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Francis, Lisa
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Law, Trish
 Lloyd, David
 Marek, John
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

Datganiad am Fuddsoddi yn Corus yn y Dyfodol Statement on the Future Investment in Corus

The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies): The proposed acquisition of Corus by Tata Steel of India is a market-sensitive issue, and it would be improper for me to comment in detail at this delicate stage in the negotiations. The formal papers have yet to be presented to the Corus stakeholders, and Corus estimates that this process will take another three weeks to complete, during which time other parties may express interest. Following this, Corus will hold an extraordinary general meeting at which its shareholders must vote on the Tata proposal.

In August 2005, Corus announced that it would look at external opportunities in low-cost and high-growth countries to further improve its competitive position. Since then, Corus has held talks with a number of parties. On 17 October, Corus confirmed to us that it had received an offer from Tata Steel of 455p per share, valuing Corus at around £4.1 billion. On Friday 20 October, the boards of

Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies): Mae pryniant arfaethedig Corus gan Tata Steel o India yn fater sensitif o ran y farchnad, ac ni fyddai'n briodol imi gyflwyno sylwadau manwl yn ystod y cyfnod anodd hwn yn y trafodaethau. Nid yw'r papurau ffurfiol wedi'u cyflwyno i randdeiliaid Corus eto, ac mae Corus yn amcangyfrif na fydd y broses hon wedi ei chwblhau am dair wythnos arall. Gallai cwmnïau eraill ddangos diddordeb yn ystod y cyfnod hwn. Wedi hyn, bydd Corus yn cynnal cyfarfod cyffredinol arbennig lle y bydd yn rhaid i'w gyfranddeiliaid bleidleisio ar gynnig Tata.

Yn Awst 2005, cyhoeddodd Corus y byddai'n edrych ar gyfleoedd allanol mewn gwledydd cost isel a thwf uchel er mwyn gwella'i sefyllfa gystadleuol. Ers hynny, mae Corus wedi cynnal trafodaethau gyda nifer o wahanol sefydliadau. Ar 17 Hydref, cadarnhaodd Corus wrthym ei fod wedi derbyn cynnig gan Tata Steel o 455c y gyfran, sy'n gwneud Corus yn werth tua £4.1

Corus and Tata Steel announced their agreement on the terms of the proposed acquisition of Corus. The announcement placed emphasis on the commercial judgment of creating the steel group, which, if accepted by the shareholders of Corus, would create the world's fifth largest steel producer, with a total crude steel production of 23.5 million tonnes per year.

Corus and Tata Steel believe that the combination of the two businesses will enable it to compete on a global scale and to make inroads into new and expanding marketplaces. This is a period of great uncertainty for the Corus workforce and their families, and for all those with interests in Corus's extensive operations in Wales. As a Government, we fully understand the worries regarding job security and about the future for UK operations, in particular the Port Talbot plant, which is the subject of much media speculation at present.

Corus is a major employer in Wales and a key contributor to the Welsh economy. We have made these key points to the Secretary of State for Trade and Industry and in discussion with the Corus group managing director, Philippe Varin. In addition, the First Minister has also spoken at length to Phil Dryden, the managing director of Corus Strip Products UK, whose remit includes the Port Talbot and the Llanwern works. At ministerial and official levels we will remain in close communication with the UK Government, the industry and the trades unions. I will make a further statement when matters have reached a conclusion and issues of detail may be more freely discussed.

David Lloyd: Thank you for this statement, Minister, on the proposed acquisition of Corus by Tata Steel of India. I appreciate the market sensitivity of this matter, therefore, I will not dwell, to any degree, on any commercial details. However, as the Minister said, there is much anxiety and worry in the Port Talbot area, with over 3,000 Corus jobs there, and there are 8,000 other steel jobs remaining in Wales at various locations, in Llanwern, Llanelli and in north Wales. As I said, there are over 3,000 Corus jobs in Port

biliwn. Ddydd Gwener, 20 Hydref, cyhoeddodd byrddau Corus a Tata Steel eu bod wedi cytuno ar delerau pryniant arfaethedig Corus. Yr oedd y cyhoeddiad yn rhoi pwyslais ar y penderfyniad masnachol i greu'r grŵp dur, a fyddai, pe bai'n cael ei dderbyn gan gyfranddeiliaid Corus, yn creu'r cynhyrchwr dur mwyaf ond pedwar yn y byd, yn cynhyrchu cyfanswm o 23.5 miliwn o dunelli o ddur crai y flwyddyn.

Cred Corus a Tata Steel y bydd y ddau fusnes hyn gyda'i gilydd yn gallu cystadlu ar raddfa fyd-eang a mynd i mewn i farchnadoedd newydd sy'n ehangu. Mae hwn yn gyfnod o ansicrwydd mawr i weithlu Corus a'u teuluoedd, ac i bawb sydd â buddiannau yn y gwaith mawr sydd gan Corus yng Nghymru. Fel Llywodraeth, yr ydym yn deall yn iawn y pryderon ynglŷn â diogelwch swyddi ac ynglŷn â dyfodol gweithfeydd y DU, yn enwedig y gwaith ym Mhort Talbot, sy'n cael llawer iawn o sylw yn y cyfryngau ar hyn o bryd.

Mae Corus yn gyflogwr mawr yng Nghymru ac yn gyfrannwr allweddol i economi Cymru. Yr ydym wedi cyflwyno'r pwyntiau hyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ac mewn trafodaeth â rheolwr gyfarwyddwr grŵp Corus, Philippe Varin. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Prif Weinidog wedi siarad cryn dipyn â Phil Dryden, rheolwr gyfarwyddwr Corus Strip Products UK, y mae ei gylch gwaith yn cynnwys gweithfeydd Port Talbot a Llan-wern. Ar lefel y Gweinidog a lefel swyddogion byddwn yn parhau i gyfathrebu'n gyson â Llywodraeth y DU, y diwydiant a'r undebau llafur. Byddaf yn gwneud datganiad arall pan fydd y trafodaethau wedi'u cwblhau a phan fydd modd trafod y manylion yn rhwyddach.

David Lloyd: Diolch ichi am y datganiad hwn, Weinidog, ar bryniant arfaethedig Corus gan Tata Steel o India. Yr wyf yn sylweddoli bod y mater hwn yn sensitif o ran y farchnad, felly, nid wyf am fynd ar ôl dim manylion masnachol. Fodd bynnag, fel y dywedodd y Gweinidog, mae llawer o bryder a gofid yn ardal Port Talbot, lle y mae dros 3,000 o swyddi Corus, ac mae 8,000 o swyddi dur eraill yng Nghymru o hyd mewn lleoliadau amrywiol, yn Llan-wern, Llanelli ac yn y gogledd. Fel y dywedais, mae dros

Talbot and about a further 1,500 related jobs in that area, with various sub-contractors and people directly feeding off the huge steelworks that remains in Port Talbot, and so any talk of a takeover naturally engenders worry and anxiety, especially when the senior management of Tata Steel has indicated that it costs twice as much to produce steel in south Wales as in India. Therefore, I am grateful for the statement in terms of it reassuring us about what exactly is happening.

Will the Minister elaborate on what he is doing in the short term with regard to job security for people in Port Talbot, and, in particular, with regard to pensions? What representations has he made and what work has he done on behalf of the steelworkers of Port Talbot? In the long term, we are in a market situation. British Steel used to be Government owned, but these jobs are now very much subject to the whim of the marketplace. In terms of a long-term strategy for the Port Talbot area, what thoughts does the Minister have on a local employment strategy, so that Port Talbot may not have to be so overwhelmingly dependent on these thousands of steel jobs in the future?

Andrew Davies: It is too early to comment, as I said in my statement, on the position. The Corus board has accepted the offer from Tata Steel. However, as I said, that has to go to a shareholders' meeting for agreement, and many Corus employees are shareholders. So, that will be a decision for shareholders within the next few months. I understand that it is unlikely that there will be any major announcements in the short term, even after the shareholders' meeting. Therefore, we will be, as we have been, in close contact with both companies, as well as with the UK Government, the DTI, and Community, which is the appropriate trade union.

3.20 p.m.

It is not a matter for us as Government; as

Yr ydych yn hollol iawn mai dur yw defnydd y dyfodol. Yr oeddwn mewn cinio gwobrwyo a oedd yn cael ei noddi gan Brifysgol Abertawe a'r diwydiant dur, a Corus yn arbennig, yn ddiweddar, ac ynddo gwnaethpwyd y pwynt yn gryf fod dur erbyn hyn, mewn llawer o achosion, oherwydd y cynnydd diweddar mewn cynnyrch petroliwm, yn ateb mwy costeffeithiol i ystod gyfan o gynhyrchion a chymwysiadau y byddai plastig a defnyddiau eraill wedi cael eu defnyddio ar eu cyfer yn y gorffennol. Yr oeddwn yn siarad â'r Athro Brian Wilshire o adran peirianeg ym Mhrifysgol Abertawe, ac yr oedd ef yn gwneud y pwynt hwn yn gryf iawn, fel yr oedd y pennaeth ymchwil a datblygu yn Corus. Yn amlwg, dyna pam y mae ein buddsoddiad yn y sector prifysgolion, yn enwedig mewn adrannau fel yr adran gwyddorau defnyddiau ym Mhrifysgol Abertawe, mor bwysig. Mae Corus, nid ar lefel Cymru yn unig, ond ar lefel y DU, yn ymwybodol o'r gefnogaeth y mae wedi ei chael gennym ni fel Llywodraeth, a chan Jane Davidson fel y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yn arbennig, o ran buddsoddi. Mae hynny'n caniatáu i'r cwmni gynyddu ei allu ym maes ymchwil a datblygu ac archwilio cyfleoedd newydd i ddu mewn cynnyrch a gwasanaethau. Yr ydych yn hollol iawn yn hynny o beth, ond o ran y pwynt ehangach, byddaf yn rhoi gwybod i'r Aelodau am unrhyw ddatblygiadau cyn gynted â phosibl.

Datganiad am yr Adolygiad o Bolisi Gwyddoniaeth Statement on the Review of Science Policy

The First Minister: In responding to this review, I commend the committee, its staff and its witnesses for considering this important topic thoroughly. The Government accepts the committee's main recommendation on the \$64,000 question, namely that the time is now ripe for Wales to have an overarching science policy. That is the principal reason why we also consulted earlier this year on the basis of the document 'A Science Policy for Wales?', on which we received a great deal of useful feedback.

Y Prif Weinidog: Wrth ymateb i'r adolygiad hwn, cymeradwyaf y pwyllgor, ei staff a'i dystion am ystyried y pwnc pwysig hwn mor drylwyr. Mae'r Llywodraeth yn derbyn prif argymhelliad y pwyllgor ynglŷn â'r cwestiwn mawr, sef ei bod yn bryd bellach i Gymru gael polisi gwyddoniaeth cyffredinol. Dyna'r rheswm pennaf pam yr aethom ati i ymgynghori yn gynharach eleni ar sail y ddogfen 'A Science Policy for Wales?', y cawsom lawer iawn o adborth defnyddiol yn ei chylch.

3.50 p.m.

That and the committee's report are important pillars on which I expect to base our definitive science policy later this autumn, which will also complement existing strategic frameworks that the Assembly Government already has in place in areas with a strong relationship with science and technology, such as economic development, higher education, health, and the environment.

The feedback that we received claimed that there was too much emphasis on economic development in our document. Economic development will remain, however, a vital facet of any science policy that will suit Wales. If that was a valid criticism of our policy document, it would also probably be a valid criticism of the committee's document. We were either both right or both wrong.

We will also address the commercialisation of science, education in science and technology, supply and demand in terms of qualified personnel in science-related disciplines, public dialogue on science, as well as the use of science within government in areas such as health and the environment. Our document will set out, as the consultation did, three priority areas, where we believe academic strength and private sector strength are developing in Wales. That is fundamental as regards the committee's report and our consultation document. It is about identifying those win-win areas, where more science research not only provides more quality researchers' job and grants, but also helps to solve government and societal problems.

We agree with the committee that fostering an interest in and passion for science at an early age, and retaining that enthusiasm once captured, is crucial to strengthening our science base in Wales.

On education, we are already reviewing the curriculum for those aged 3 to 16, including that on science. There will be national consultation on that in spring next year. We

Mae hynny ac adroddiad y pwyllgor yn golofnau pwysig y disgwylir seilio ein polisi gwyddoniaeth terfynol arnynt yn ddiweddarach yr hydref hwn, a fydd hefyd yn ategu'r fframweithiau strategol presennol sydd gan Lywodraeth y Cynulliad eisoes mewn meysydd sydd â pherthynas gref â gwyddoniaeth a thechnoleg, fel datblygu economaidd, addysg uwch, iechyd, a'r amgylchedd.

Honnai'r adborth a gawsom fod gormod o bwyslais ar ddatblygu economaidd yn ein dogfen. Fodd bynnag, bydd datblygu economaidd yn parhau'n agwedd hollbwysig ar unrhyw bolisi gwyddoniaeth a fydd yn gweddu i Gymru. Pe bai hynny'n feirniadaeth ddilys ar ein dogfen bolisi, mae'n debyg y byddai'n feirniadaeth ddilys hefyd ar ddogfen y pwyllgor. Un ai yr oeddem ein dau'n gywir neu yr oeddem ein dau'n anghywir.

Rhown sylw hefyd i fasnacheiddio gwyddoniaeth, addysg ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg, y cyflenwad a'r galw o ran personél cymwysedig mewn disgyblaethau perthynol i wyddoniaeth, deialog gyhoeddus am wyddoniaeth, yn ogystal â defnyddio gwyddoniaeth o fewn llywodraeth mewn meysydd fel iechyd a'r amgylchedd. Yr un modd â'r ymgynghoriad, bydd ein dogfen yn nodi tri maes blaenoriaeth, lle y credwn fod cryfder academiaidd a chryfder yn y sector preifat yn datblygu yng Nghymru. Mae hynny'n dyngedfennol o safbwynt adroddiad y pwyllgor a'n dogfen ymgynghori. Mae'n golygu nodi'r meysydd hynny lle'r ydym yn sicr o lwyddo, lle y mae mwy o ymchwil wyddonol nid yn unig yn darparu mwy o grantiau a swyddi da i ymchwilwyr, ond hefyd yn helpu i ddatrys problemau llywodraeth a chymdeithas.

Yr ydym yn cytuno â'r pwyllgor fod meithrin diddordeb mewn gwyddoniaeth ac awch tuag ati yn ifanc, a chadw'r brwdfrydedd hwnnw ar ôl ei enyn, yn hanfodol i gryfhau ein sylfaen ym maes gwyddoniaeth yng Nghymru.

O ran addysg, yr ydym eisoes yn adolygu'r cwricwlwm i'r rhai 3 i 16 oed, gan gynnwys y cwricwlwm gwyddoniaeth. Bydd ymgynghoriad cenedlaethol am hynny yn y

have just introduced several new GCSEs in sciences to suit different aptitudes and abilities. Welsh higher education institutions have developed strong links with schools to show the attractions of studying science, engineering technology and mathematics.

The areas of difference that we have are those where we have a different definition of what constitutes a science policy. The committee advocates a designated chief scientific adviser with an associated advisory council and a department as part of a science policy package. In our view, the formulation of a set of science priorities should come first. Is it necessary to conclude now that the Assembly Government should have a chief scientific adviser? There are many sources of expert advice on science available, including the chief medical officer, the chief scientific adviser in health, the chief environmental scientific adviser and the chief social research officer, among other posts. The Government has just appointed the new ministerial advisory groups in enterprise and education, which include people with science and commercialisation of science expertise to provide independent, external advice to Ministers.

The Higher Education Funding Council for Wales plays a pivotal role in the delivery of science research and teaching in and for Wales, and also contributes by giving important advice to Ministers on the science base in our universities.

The science and technology agenda for Wales has to be considered within a UK science context, as science is not devolved in the main. It is sensible to maintain a close working relationship with equivalent advisers working for the UK Government. The right means to ensure co-ordination at a high level between the different facets of the advisory capacity already available, namely the need for an overarching science policy, is currently under consideration. Strengthening this co-ordination role may address the committee's concerns in this area. The committee's

gwanwyn y flwyddyn nesaf. Yr ydym newydd gyflwyno amryw TGAU newydd yn y gwyddorau i weddu i ddoniau a galluoedd gwahanol. Mae sefydliadau addysg uwch Cymru wedi datblygu cysylltiadau cryf ag ysgolion i dangos atyniadau astudio gwyddoniaeth, technoleg beirianyddol a mathemateg.

Y meysydd lle y mae gwahaniaeth rhyngom yw'r rhai lle y mae gennym ddiffiniad gwahanol o'r hyn sy'n creu polisi gwyddoniaeth. Mae'r pwyllgor o blaid prif ymgynghorydd gwyddonol dynodedig gyda chynghor cyngori cysylltiol ac adran fel rhan o becyn polisi gwyddoniaeth. Yn ein barn ni, ffurfio cyfres o flaenoriaethau gwyddoniaeth ddylai ddod yn gyntaf. A oes rhaid dod i'r casgliad yn awr y dylai fod gan Lywodraeth y Cynulliad brif ymgynghorydd gwyddonol? Mae llawer o ffynonellau o gyngor arbenigol ynghylch gwyddoniaeth ar gael, gan gynnwys y prif swyddog meddygol, y prif gynghorydd gwyddonol ym maes iechyd, y prif gynghorydd gwyddonol amgylcheddol a'r prif swyddog ymchwil cymdeithasol, ymysg swyddi eraill. Mae'r Llywodraeth newydd benodi'r grwpiau newydd i gynghori'r Gweinidogion ynglŷn â menter ac addysg, sy'n cynnwys pobl sydd ag arbenigedd ym maes gwyddoniaeth a masnacheiddio gwyddoniaeth i roi cyngor allanol, annibynnol i Weinidogion.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddarparu ymchwil wyddonol ac addysg wyddonol yng Nghymru ac ar gyfer Cymru, ac mae'n cyfrannu hefyd drwy roi cyngor pwysig i Weinidogion am y sylfaen wyddoniaeth yn ein prifysgolion.

Rhaid ystyried yr agenda ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg i Gymru yng nghyd-destun gwyddoniaeth y DU, gan nad yw gwyddoniaeth gan mwyaf wedi cael ei datganoli. Mae'n synhwyrol cynnal perthynas waith agos â chynghorwyr cyfatebol sy'n gweithio i Lywodraeth y DU. Mae'r cyfrwng iawn i sicrhau cyd-drefnu ar lefel uchel rhwng gwahanol elfennau o'r capasiti cynghori sydd eisoes ar gael, sef yr angen am bolisi gwyddoniaeth cyffredinol, yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Efallai y bydd cryfhau'r rôl gyd-drefnu hon yn mynd i'r

specific proposals for funding programmes have therefore also been rejected as premature. Getting the science policy right should precede any questions around funding.

There has been extensive debate, as described in the committee's report, on Wales's current share of research council grants. We have set out ambitious targets for the capture of research council grants by higher education in Wales. The document 'Reaching Higher' proposes the funding for collaborations to seek to strengthen our higher education sector's ability to win more funding.

Funding from the Science Research Infrastructure Fund, which is non-devolved, is already being provided to the higher education sector in Wales, specifically to invest in research infrastructure. Combined with HEFCW funding, this amounts to over £46 million for the current year and next year.

We will continue to work up our three priority areas, as commended by the committee. A small country such as Wales has to focus down because it cannot do everything with world-class excellence. We have to search for clusters of science expertise that can develop critical mass at European or global levels.

We already significantly encourage and help collaboration between Welsh higher education institutions in terms of science and technology. This involves the Welsh Institute for Cognitive Neuroscience, the Wales Institute for Mathematical and Computational Science and the Aberystwyth/Bangor research and enterprise partnership. The HE sector in Wales is enthusiastic about this approach.

We welcome the committee's recommendation to facilitate collaboration between Welsh universities in terms of science and technology. Indeed, this recommendation is, in effect, a commendation of the help that is already being provided towards assisting

afael â phryderon y pwyllgor yn y maes hwn. Mae cynigion penodol y pwyllgor ar gyfer rhaglenni cyllido wedi cael eu gwrthod hefyd felly fel rhai cynamserol. Dylid sicrhau bod y polisi gwyddoniaeth yn iawn cyn codi cwestiynau ynglŷn â'r cyllid.

Bu trafodaeth helaeth, fel y disgrifir yn adroddiad y pwyllgor, am gyfran gyfredol Cymru o grantiau'r cyngor ymchwil. Yr ydym wedi gosod targedau uchelgeisiol i addysg uwch yng Nghymru i ennill grantiau gan y cyngor ymchwil. Mae'r ddogfen 'Ymgeisio yn Uwch' yn cynnig y cyllid ar gyfer trefniadau cydweithio i geisio cryfhau gallu ein sector addysg uwch i ennill rhagor o gyllid.

Mae cyllid o'r Gronfa Seilwaith Ymchwil Wyddonol, nad yw wedi cael ei datganoli, eisoes yn cael ei ddarparu i'r sector addysg uwch yng Nghymru, yn benodol i'w fuddsoddi mewn seilwaith ymchwil. O'i gyfuno â chyllid CCAUC, mae hyn yn fwy na £46 miliwn ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn nesaf.

Byddwn yn parhau i weithio ar ein tri maes blaenoriaeth, rhywbeth a gymeradwywyd gan y pwyllgor. Rhaid i wlad fach fel Cymru dargedu ei ffocws oherwydd ni all wneud popeth gyda rhagoriaeth fyd-eang. Rhaid inni chwilio am gystyrau o arbenigedd gwyddonol a all ddatblygu mäs critigol ar lefelau Ewropeaidd neu fyd-eang.

Yr ydym eisoes yn annog a helpu cydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch Cymru i raddau sylweddol, o ran gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae hyn yn cynnwys Canolfan Cymru ar gyfer Niwrowyddoniaeth Wybyddol, Canolfan Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadol Cymru a phartneriaeth ymchwil a menter Abertystwyth/Bangor. Mae'r sector AU yng Nghymru yn frwd o blaid y dull gweithredu hwn.

Yr ydym yn croesawu argymhelliad y pwyllgor i hwyluso cydweithredu rhwng prifysgolion Cymru o ran gwyddoniaeth a thechnoleg. Yn wir, mae'r argymhelliad hwn, i bob diben, yn gymeradwyaeth i'r help sy'n cael ei ddarparu eisoes i gynorthwyo cydweithredu rhwng ein sefydliadau addysg

collaboration between our higher education institutions, and between them and the two public sector research establishments and their next door universities, namely the Institute of Grassland and Environmental Research and Aberystwyth university, and the Centre for Alternative Land Use and Bangor university.

Much of the science agenda and funding is not in our gift, but the encouragement of innovation and its exploitation largely is. Funding by SMARTCymru and by regional selective assistance—now repositioned to favour higher-added-value, knowledge-based jobs—supports research and innovation in the private sector to promote long-term scientific and technological development in our key priority areas. Again, current and emerging grant regimes with more focus on innovation, technology and research-related activity partly address the committee's recommendation on the re-targeting of financial support.

International Business Wales and other units in the administration will continue to seek to bring new research-based industries, particularly multi-national companies, into Wales, as recommended. The announcements regarding G24innovations Ltd, Aviza Technology and Inspired Broadcast Networks over the past three weeks are excellent examples. As requested by the committee, we now facilitate overseas trade missions that blend representatives from both business and academia.

This is an exciting period of expansion for science and technology, and the committee's work and our forthcoming science policy document are all part of a strategy to build an exciting science-based future for Wales.

Alun Ffred Jones: Diolch am y datganiad. Credaf ei bod yn deg dweud, er gwaethaf dadleuon y Prif Weinidog, ein bod yn siomedig ei fod yn gwrthod y prif argymhelliad i benodi ymgynghorydd gwyddoniaeth i'r Llywodraeth. Dyna hefyd

uwch, a rhyngddynt hwy a'r ddau sefydliad ymchwil sector cyhoeddus a'r prifysgolion y drws nesaf iddynt, sef y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd a phrifysgol Aberystwyth, a'r Ganolfan Defnydd Tir Amgen a phrifysgol Bangor.

Nid yw llawer o'r agenda a'r cyllid o ran gwyddoniaeth o dan ein rheolaeth ni, ond yn gyffredinol mae modd inni annog arloesi ac annog manteisio ar arloesi. Mae cyllid drwy SMARTCymru a thrwy gymorth rhanbarthol dewisol—sydd wedi'i aildargedu erbyn hyn o blaid swyddi seiliedig ar wybodaeth, sydd â gwerth ychwanegol uwch—yn cefnogi ymchwil ac arloesi yn y sector preifat i hyrwyddo datblygu gwyddonol a thechnolegol hirdymor yn ein meysydd blaenoriaeth allweddol. Eto, mae'r cyfundrefnau grant cyfredol a'r cyfundrefnau sy'n datblygu, sy'n canolbwyntio mwy ar arloesi, technoleg a gweithgarwch yn ymwneud ag ymchwil, yn ymdrin yn rhannol ag argymhelliad y pwyllgor ynglŷn ag aildargedu cymorth ariannol.

Bydd Busnes Rhyngwladol Cymru ac unedau eraill yn y weinyddiaeth yn parhau i geisio dod â diwydiannau newydd seiliedig ar ymchwil, yn enwedig cwmnïau rhyngwladol, i Gymru, fel yr argymhellwyd. Mae'r cyhoeddiadau ynglŷn â G24innovations Ltd, Aviza Technology ac Inspired Broadcast Networks dros y tair wythnos ddiwethaf yn enghreifftiau rhagorol. Fel y gofynnodd y pwyllgor, yr ydym erbyn hyn yn hwyluso teithiau masnach tramor sy'n cyfuno cynrychiolwyr o fyd busnes ac academia.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous o ehangu i wyddoniaeth a thechnoleg, ac mae gwaith y pwyllgor a'n dogfen ni am bolisi gwyddoniaeth sydd ar fin ymddangos i gyd yn rhan o strategaeth i adeiladu dyfodol cyffrous, wedi'i seilio ar wyddoniaeth, i Gymru.

Alun Ffred Jones: Thank you for the statement. I think it fair to say that, in spite of the First Minister's reasons, we are disappointed that he has rejected the principal recommendation of appointing a Government science policy adviser. That was also the

oedd barn y gwyddonwyr mewn cynhadledd a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Dywedodd y Prif Weinidog hefyd mai ef yw'r Gweinidog dros wyddoniaeth yn y Cabinet bellach am ei bod yn swydd mor bwysig. Nid wyf yn siŵr pryd y penderfynodd ar hynny oherwydd nid oes cyfeiriad at y penderfyniad hwnnw ar wefan y Llywodraeth.

O dderbyn bod angen uwchraddio ansawdd yr ymchwil gwyddonol a chynyddu nifer y bobl ifanc sy'n astudio gwyddoniaeth yn ein prifysgolion, beth yw eich strategaeth chi ar gyfer cynyddu niferoedd y disgyblion sy'n dilyn cyrsiau gwyddoniaeth safon Uwch ac yna'n mynd ymlaen i'n prifysgolion, a hynny yn wyneb dadleuon gwyddonwyr, yn y gynhadledd a gynhaliwyd yn ddiweddar, fod angen corff o wyddonwyr i wneud ymchwil 'pur', fel y maent yn ei ddisgrifio? Mae'r farn honno ychydig yn groes i'r hyn yr oeddech chi yn ei ddweud, ac, yn deg, ychydig yn groes i'r hyn sydd yn yr adroddiad. Beth yw'r strategaeth i gynyddu'r niferoedd hynny a gwella ansawdd yr ymchwil, oherwydd bu'r niferoedd yn gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, fel y gwyddom, ac mae hynny'n sicr o fod yn destun pryder i'r dyfodol?

Y Prif Weinidog: O ran y cwynion yn gyntaf, yr ydym wedi pwysleisio lle mae anghytundeb yn hytrach na'r argymhellion yr ydym yn cytuno â hwy oherwydd, yn naturiol, mae angen egluro lle mae'r gwahaniaeth barn. Yr oeddem yn credu bod gormod o strwythurau a dim digon o bwyslais ar flaenoriaethau. Dyna oedd y gwahaniaeth mawr rhwng ein barn ni a'r argymhellion. Mae trafod strwythurau cyn cytuno ar y blaenoriaethau yn rhoi'r cert o flaen y ceffyl. Felly, yr ydym, ac fe fyddwn, yn canolbwyntio ar sut i ddewis y blaenoriaethau ar gyfer Cymru fel gwlad fach, fel y gellid cynyddu nifer y swyddi a gweld ymhle y gall Cymru wneud cyfraniad gan ddatrys ein problemau fel cymdeithas ar yr un pryd, fel bod gennym 'sefyllfa ennill-ennill', i gyfieithu'r ymadrodd Saesneg.

4.00 p.m.

Yr wyf wedi bod yn Weinidog dros

view of the scientists at a conference held recently.

The First Minister also said that he is now the Cabinet Minister with responsibility for science, given that it is such an important job. I do not know when he made that decision, but there is no mention at all of such a decision on the Government's own website.

If you accept that we need to upgrade the quality of science research and increase the number of students studying science at our universities, what then is your strategy to increase the number of students who study science at A-level, so that they go on to our universities, in the face of scientists' arguments, voiced at that conference held recently, that we need a body of scientists to undertake 'pure' research, as they describe it? That opinion slightly contradicts what you were saying and, to be fair, also slightly contradicts what is in this report. What is your strategy for increasing the numbers of students, and for improving the quality of research, because the numbers have been falling over recent years, as we all know, and that is bound to be a cause of concern in the future?

The First Minister: To deal with the complaints first, we have emphasised where there is disagreement between us rather than highlighting all the recommendations that we agree on, because, naturally, we need to explain where there is a difference of opinion. We thought that there were too many structures and not enough emphasis on priorities. That was the main difference between our opinion and the recommendations. Discussing structures before agreeing on priorities is like putting the cart before the horse. Therefore, we are concentrating, and will continue to concentrate, on how to choose the priorities for Wales as a small country, so that we can increase the number of jobs and see where Wales can make a contribution, resolving our social problems at the same time, so that we have a 'win-win situation', as it is called.

I have been Minister with responsibility for

wyddoniaeth ers oesoedd. Ni chofiaf pa bryd y dechreuais ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwnnw. Gan nad yw'r pwnc, sef ymchwil wyddonol, wedi ei ddatganoli, derbyniaf nad oes gennym adran wyddoniaeth. Nid oes pwynt rhoi'r argraff ei fod wedi ei ddatganoli pan nad yw hynny'n wir.

O ran ail hanner eich cwestiwn, sef beth y gallwn ac y bwriadwn ei wneud i gynyddu diddordeb plant ysgol mewn gwyddoniaeth fel bod mwy ohonynt yn astudio pynciau gwyddonol am eu safon Uwch ac yn y brifysgol, ein prif strategaeth yw newid y cwricwlwm. Mae pawb yn derbyn bod y pwnc wedi cael ei ddsygu mewn ffordd sydd wedi peri i bobl golli diddordeb ynddo yn hytrach na'u denu at y pwnc, a hynny ers degawdau bellach. Fodd bynnag, mae newid ar y gweill. Fis yn ôl, newidiwyd cwricwlwm TGAU gwyddoniaeth er mwyn gwneud y pwnc yn fwy deniadol i bobl, fel eu bod yn cadw ymlaen i astudio gwyddoniaeth neu'n arbenigo yn y pwnc yn yr ysgol. Mae rhai pethau penodol ar gael i wneud hynny, fel canolfannau Techniquet yma yn y bae ac yn Wrecsam yn Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae hefyd yn bwysig i'n colegau a'n prifysgolion werthu'r syniad i ysgolion fod gwyddoniaeth yn bwysig ac yn gallu bod yn ddeniadol fel gyrfa.

Alun Cairns: First Minister, to say that I am disappointed with the policies and the points that you have rejected would be an understatement. There is no doubt that the spend on science in Wales is far lower per capita than the spend in England and Scotland. You have given a common thread of excuses for not wanting specific elements within the report. The chief scientist was widely supported by every member of the committee and by almost every witness who came to the committee to say how important it was. The evidence of the Parliamentary Office of Science and Technology was exceptionally important to the deliberations of the committee, and that of the Council for Science and Technology was deemed to be equally important.

The common thread running through your argument is that you do not want that expert objective advice. I think that you are frightened of what you might hear in the

science for ages. I do not recall exactly when I took over that responsibility. Given that scientific research is not a devolved matter, I accept that we do not have a science department. However, there is no point in giving the false impression that it is devolved, when it is not.

On the second half of your questioning, namely what we are doing and intending to do to encourage schoolchildren to take more of an interest in science so that more of them go on to study science subjects for their A-levels and at university, our main strategy is to change the curriculum. Everyone accepts that the subject has been taught in such a way as to cause people to lose interest in it, rather than attracting them to it, and that has been the case for decades now. However, there is a change on the horizon. A month ago, the GCSE science curriculum was changed in order to make the subject more appealing, so that students would continue to study science or specialise in the subject at school. There are some specific things around to do that, such as the Techniquet centres here in the bay and in Wrexham, at the North East Wales Institute of Higher Education. It is also important for our colleges and universities to sell the idea to schools that science is important and is an attractive career prospect.

Alun Cairns: Brif Weinidog, a dweud y lleiaf, yr wyf yn siomedig gyda'r polisïau a'r pwyntiau yr ydych wedi'u gwrthod. Nid oes dim amheuaeth nad yw'r gwario ar wyddoniaeth yng Nghymru'n llawer is y pen na'r gwario yn Lloegr a'r Alban. Yr ydych wedi rhoi edefyn cyffredin o esgusion dros beidio â bod eisiau elfennau penodol o fewn yr adroddiad. Cafodd y prif wyddonydd ei gefnogi'n eang gan bob aelod o'r pwyllgor a chan bron bob tyst a ddaeth i'r pwyllgor i ddweud mor bwysig oedd hyn. Yr oedd tystiolaeth Swyddfa Seneddol Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn eithriadol o bwysig i drafodaethau'r pwyllgor, a barnwyd bod tystiolaeth y Cyngor Gwyddoniaeth a Thechnoleg yr un mor bwysig.

Yr edefyn cyffredin yn eich dadl drwyddi draw yw nad oes arnoch eisiau'r cyngor gwrthrychol arbenigol hwnnw. Credaf fod arnoch ofn yr hyn y gallech ei glywed yn yr

reports. One of the excuses that you offer, First Minister, is that you have access to Sir David King, chief scientific adviser to the UK Government. We have made some inquiries and we do not believe that you have met Sir David King in the last 12 months. Can you confirm whether you have met him to discuss matters relating to Wales over the last 12 months? If you have, how many meetings have you had?

The purpose of the chief scientist would be to co-ordinate policy. You used the excuse that you have the chief medical officer, the chief scientific adviser in health, the chief environmental scientific adviser, and the chief social research officer among others. The purpose of the chief scientist would be to co-ordinate, to bring things together and to drive the science agenda forwards. Let us be frank, First Minister: the level of spend on science in Wales is pitiful. You are the Minister for science, so the buck stops with you, but you are not prepared to accept any objective policy from outside experts who say that, if you do this, it will take us in the right direction. First Minister, you are failing the science agenda in Wales.

The First Minister: Before I come back at you on most of what you said, Alun—which was total rubbish—there is one tiny area on which you and I can skate together on a little bit of thin ice, so let us try to explore that first. You have said that we ought to be co-ordinating scientific research, as have I. We agree on that, and we agree that we should be attempting to co-ordinate better, which is the purpose of having an overarching science policy. We agree that having four different bodies giving scientific advice to me and to other Ministers would leave a gap on the overarching science policy side. We agree with you on that, so there is no point in arguing about it.

The rest of what you said was wildly over the top. Alun, you are a member of the party that goes on and on about not wanting any bureaucrats, any civil servants or any public

adroddiadau. Un o'r esgusion a gynigiwch, Brif Weinidog, yw y gallwch fynd at Syr David King, prif ymgynghorydd gwyddonol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yr ydym wedi gwneud ymholiadau ac nid ydym yn credu eich bod wedi cwrdd â Syr David King yn y 12 mis diwethaf. A allwch gadarnhau a ydych wedi cwrdd ag ef i drafod materion yn ymwneud â Chymru yn ystod y 12 mis diwethaf? Os ydych wedi gwneud hynny, sawl cyfarfod a gawsoch?

Pwrpas y prif wyddonydd fyddai cyd-drefnu polisi. Defnyddiasoch yr esgus bod gennych y prif swyddog meddygol, y prif ymgynghorydd gwyddonol ym maes iechyd, y prif ymgynghorydd gwyddonol amgylcheddol, a'r prif swyddog ymchwil gymdeithasol ymysg eraill. Pwrpas y prif wyddonydd fyddai cyd-drefnu, dod â phethau ynghyd a bwrw ymlaen â'r agenda wyddoniaeth. Gadewch inni siarad yn blaen, Brif Weinidog: mae lefel y gwario ar wyddoniaeth yng Nghymru'n druenus. Chi yw'r Gweinidog dros wyddoniaeth, felly arnoch chi y mae'r cyfrifoldeb, ond nid ydych yn barod i dderbyn dim un polisi gwrthrychol gan arbenigwyr allanol sydd yn dweud, os gwnewch hyn, yr aiff hynny â ni i'r cyfeiriad iawn. Brif Weinidog, yr ydych yn gwneud cam â'r agenda wyddoniaeth yng Nghymru.

Y Prif Weinidog: Cyn imi ddod yn ôl atoch ynglŷn â'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedasoch, Alun—a oedd yn lol hollol—mae un maes bach lle y gallwch chi a mi gydsglefrïo ar damaid bach o iâ tenau, felly gadewch inni geisio ymchwilio i hynny'n gyntaf. Yr ydych chi, fel fi, wedi dweud y dylem gydgysylltu ymchwil wyddonol. Yr ydym yn cytuno ynglŷn â hynny, ac yr ydym yn cytuno y dylem geisio cydgysylltu'n well, sef pwrpas cael polisi gwyddoniaeth cyffredinol. Cytunwn y byddai cael pedwar corff gwahanol yn rhoi cyngor gwyddonol i mi ac i Weinidogion eraill yn gadael bwlch o ran polisi gwyddoniaeth cyffredinol. Cytunwn â chi ynghylch hynny, felly nid oes dim diben dadlau yn ei gylch.

Yr oedd gweddill yr hyn a ddywedasoch ymhell dros ben llestri. Alun, yr ydych yn aelod o'r blaid sydd yn taeru o hyd ac o hyd nad oes eisiau biwrocratiaid, gweision sifil na

expenditure, yet there you are saying that you want more spending, more civil servants, and another department to be set up. If we did that, you would be the first to criticise and say, 'We do not need more civil servants, so why are you increasing the burden on the taxpayer?'. It is rubbish. You should examine what you say to see whether it is consistent with your party's general sales patter in this area, which is against having civil servants, against bureaucratic structures, and against having more public spending.

What we are saying is that we can come back to the structures once we have decided on the science policy priorities, but the structures must follow agreement on science policy priorities. That is why we are concentrating on getting the science policy agreed—and this is the only area on which we differ from the committee—before we start talking about staffing, councils, Ministers for science, departments, advisory councils, and so on. Otherwise, you are back to you saying, 'Why are you having all these structures? Concentrate on the policy'. That is exactly what we are saying; let us concentrate on getting the policy agreed.

I will just add that we have met David King on many occasions, so I do not know where you get that rubbish that you were talking about.

Kirsty Williams: Even if the First Minister has met David King every day for the past year, that would still not excuse what I regard to be the shabby way in which the Government has dealt with this committee's report. I refer back to the Presiding Officer's comments regarding a report on which we had a statement last week. It is a poor way of responding to what involved many hours of work for all committee members, who took this project seriously and who decided that this was an important topic. They could have spent their time doing other things, but they decided that this was important. The way in which we, as an Assembly, deal with the findings of such reports is inadequate, and the hours spent on this particular report by

gwariant cyhoeddus, er hynny dyna chi'n dweud bod arnoch eisiau rhagor o wario, rhagor o weision sifil, a sefydlu adran arall. Pe gwnaem hynny, chi fyddai'r cyntaf i feirniadu a dweud, 'Nid oes arnom angen rhagor o weision sifil, felly pam yr ydych yn cynyddu'r baich ar y trethdalwr?'. Lol yw hynny. Dylech edrych ar yr hyn yr ydych yn ei ddweud i weld a ydyw'n gyson â baldordd cyffredinol eich plaid yn y maes hwn, sydd yn erbyn cael gweision sifil, yn erbyn strwythurau biwrocraidd, ac yn erbyn cynyddu gwariant cyhoeddus.

Yr hyn yr ydym yn ei ddweud yw y gallwn ddod yn ôl at y strwythurau wedi inni benderfynu ar flaenoriaethau'r polisi gwyddoniaeth, ond rhaid i'r strwythurau ddilyn cytundeb ar flaenoriaethau'r polisi gwyddoniaeth. Dyna pam yr ydym yn canolbwyntio ar gael cytundeb ar y polisi gwyddoniaeth—a dyma'r unig faes lle'r ydym yn anghyfynd â'r pwyllgor—cyn dechrau siarad am staffio, cynghorau, Gweinidogion gwyddoniaeth, adrannau, cynghorau ymgynghorol, ac yn y blaen. Fel arall, byddwn yn ôl mewn sefyllfa lle y byddwch yn dweud, 'Pam cael yr holl strwythurau hyn? Canolbwyntiwch ar y polisi'. Dyna'n union beth yr ydym yn ei ddweud; gadewch inni ganolbwyntio ar ddod i gytundeb ar y polisi.

Ni wnaf ond ychwanegu ein bod wedi cyfarfod â David King ar sawl achlysur, felly ni wn o ble y cewch y lol honno yr oeddech yn sôn amdani.

Kirsty Williams: Hyd yn oed os yw'r Prif Weinidog wedi cwrdd â David King bob dydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er hynny ni fyddai'n esgusodi'r modd salw y mae'r Llywodraeth wedi trin adroddiad y pwyllgor hwn yn fy marn i. Cyfeiriai yn ôl at sylwadau'r Llywydd ynglŷn ag adroddiad y cawsom ddatganiad yn ei gylch yr wythnos diwethaf. Mae'n ffordd wael o ymateb i rywbeth a olygodd oriau lawer o waith i holl aelodau'r pwyllgor, a gymerodd y prosiect hwn o ddifrif ac a benderfynodd fod hwn yn bwnc pwysig. Gallent fod wedi treulio'u hamser yn gwneud pethau eraill, ond penderfynasant fod hyn yn bwysig. Mae'r modd yr ydym ni, fel Cynulliad, yn delio â chasgliadau adroddiadau o'r fath yn

committee members deserves more than this cursory statement procedure.

I look forward to May next year, when, hopefully, we can work in a different way, giving true weight to the policy work of committees and to the time spent on them. If we get rid of committees' policy-making procedure, we will be the lesser institution for it. Today is an example of a committee that, across the parties, came to thoughtful conclusions—not rash or airy-fairy ones—which were considered on the basis of a great deal of advice. It is therefore disappointing to see the Government's response. In effect, as outlined in the written statement on 17 October, those recommendations that have been accepted were accepted only because the Welsh Assembly Government was doing them anyway. 'We accept that recommendation, because the Welsh Assembly Government was doing it anyway.' 'We accept the recommendation relating to the Higher Education Funding Council for Wales, because HEFCW was doing it anyway.' 'We accept the recommendation about jobs because we have been getting these kinds of jobs into Wales anyway.'

Alun Cairns: If only it were true.

Kirsty Williams: Exactly. If only it were true, and if only it bore scrutiny—and not just by opposition members in the Chamber. The First Minister is always saying to Alun Cairns or to me, 'Well, you would say that, would you not?', but it is not only opposition members who are critical of the Welsh Assembly Government's record in this area; people out there working in the field are also critical. Eminent scientists are saying that there is a real deficit in what is happening with science in Wales, and with the quality of our scientific institutions. If you compared the quality ratings of departments in all Welsh universities with the ratings of a single university across the border, in Bristol, you would see that we are a long way behind. The First Minister often says that it is the opposition members who are not ambitious for Wales; I would argue that, on this occasion, it is the First Minister who is not

annigonol, ac mae'r oriau a dreuliwyd ar yr adroddiad arbennig hwn gan aelodau'r pwyllgor yn haeddu mwy na'r weithdrefn arwynebol hon o roi datganiad.

Yr wyf yn edrych ymlaen at fis Mai y flwyddyn nesaf, pryd y gallwn weithio mewn ffordd wahanol, gobeithio, gan roi gwir bwys ar waith polisi pwyllgorau a'r amser a dreulir arnynt. Os cawn wared â gweithdrefn y pwyllgorau o lunio polisi, byddwn yn sefydliad llai o'r herwydd. Heddiw dyma enghraifft o bwyllgor, ar draws y pleidiau, a ddaeth i gasgliadau meddylgar—nid rhai byrbwyll na phenchwiban—a ystyriwyd ar sail llawer iawn o gyngor. Siom felly yw gweld ymateb y Llywodraeth. Mewn gwirionedd, fel yr amlinellwyd yn y datganiad ysgrifenedig ar 17 Hydref, cafodd yr argymhellion a dderbyniwyd eu derbyn dim ond am fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu gwneud beth bynnag. 'Derbyniwn yr argymhelliad hwnnw, oherwydd yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud beth bynnag.' 'Derbyniwn yr argymhelliad ynglŷn â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, oherwydd yr oedd y cyngor cyllido'n ei wneud beth bynnag.' 'Derbyniwn yr argymhelliad ynglŷn â swyddi oherwydd yr ydym wedi bod yn cael yn mathau hyn o swyddi i Gymru beth bynnag.'

Alun Cairns: O na bai hynny'n wir.

Kirsty Williams: Yn hollol. O na bai hynny'n wir, ac o na ddaliai i graffu arno—ac nid dim ond gan aelodau'r gwrthbleidiau yn y Siambr. Bydd y Prif Weinidog yn dweud byth a beunydd wrth Alun Cairns neu wrthyf fi, 'Wel, fe fyddech chi'n dweud hynny, oni fyddech?', ond nid aelodau'r gwrthbleidiau'n unig sydd yn feirniadol o record Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes hwn; mae pobl sy'n gweithio ar lawr gwlad yn feirniadol hefyd. Mae gwyddonwyr amlwg yn dweud bod gwir ddiffyg yn yr hyn sy'n digwydd gyda gwyddoniaeth yng Nghymru, a chydag ansawdd ein sefydliadau gwyddonol. Pe cymharech sgoriau ansawdd adrannau ym mhob prifysgol yng Nghymru â sgoriau un brifysgol dros y ffin, ym Mryste, gwelech ein bod ymhell ar ei hôl hi. Dywed y Prif Weinidog yn aml mai aelodau'r gwrthbleidiau sydd yn ddiffygiol o ran uchelgais dros Gymru; byddwn i'n dadlau, ar

being ambitious. The committee spelled out an ambitious programme for Wales to play a real role in this sector. That ambition has been knocked down by the First Minister today.

4.10 p.m.

Compare how the First Minister responded to Alun Cairns on the chief scientific adviser's recommendation with how this has been taken forward in Scotland, with the appointment of Professor Anne Glover. Scotland, too, has chief advisers in the fields of health, environment and rural affairs, but they see the merit of appointing this key, strategic person. They believe that their vision for Scotland as a science nation will be greatly enhanced by that post. What are we doing? We are saying that we do not want it. Why do we not want it? Because the First Minister and his civil servants will agree the policy first, and then appoint the people with the specialist knowledge. Surely that should be the other way around. Surely we need the chief scientific adviser and the advisory council in place to get the policy right before the Welsh Assembly Government gets it wrong, and then employs people to tell it that it is wrong. Surely it would be better to start the other way around and get those key advisers in to help the Government to develop its policy, so that it has the right policy that will take science forward in Wales, unlike what we have here today.

It is a disappointing and inadequate response. I am afraid that all that will happen is that, in years to come, whatever structures we have in the future, whoever takes over from the Enterprise, Innovation and Networks Committee will have to come back to this policy area, because the response this time around will have been inadequate.

The Presiding Officer: Before I call on the First Minister to respond, I am grateful to Kirsty Williams, and I am glad that someone in the Chamber listens to what I say, on occasion. I am sure that you understood that I

yr achlysur hwn, mai'r Prif Weinidog sy'n dangos diffyg uchelgais. Amlinellodd y pwyllgor raglen uchelgeisiol i Gymru gael chwarae rôl wirioneddol yn y sector hwn. Mae'r uchelgais hwnnw wedi'i chwalu gan y Prif Weinidog heddiw.

Cymharwch y modd yr ymatebodd y Prif Weinidog i Alun Cairns ynghylch argymhelliad y prif ymgynghorydd gwyddonol â'r modd yr aed ati ynglŷn â hyn yn yr Alban, gyda phenodi'r Athro Anne Glover. Mae gan yr Alban hefyd brif ymgynghorwyr ym meysydd iechyd, yr amgylchedd a materion gwledig, ond gwelant werth penodi'r unigolyn strategol allweddol hwn. Credant y caiff eu gweledigaeth ar gyfer yr Alban fel cenedl sy'n hybu gwyddoniaeth ei chryfhau'n ddirfawr gan y swydd honno. Beth yr ydym ni'n ei wneud? Yr ydym yn dweud nad oes arnom ei heisiau. Pam nad oes arnom ei heisiau? Oherwydd bod y Prif Weinidog a'i weision sifil am gytuno ar y polisi'n gyntaf, a phenodi'r bobl gyda'r wybodaeth arbenigol wedyn. Siawns nad fel arall y dylai hynny fod. Siawns nad oes angen i'r prif ymgynghorydd gwyddonol a'r cyngor ymgynghorol fod wedi eu sefydlu i sicrhau bod y polisi'n iawn cyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ei gawlio, a chyflogi pobl wedyn i ddweud wrthi ei bod wedi cawlio. Siawns na fyddai'n well dechrau fel arall a phenodi'r ymgynghorwyr allweddol hynny i helpu'r Llywodraeth i ddatblygu ei pholisi, fel bod y polisi iawn ganddi a wnaiff hyrwyddo gwyddoniaeth yng Nghymru, yn wahanol i'r hyn sydd gennym yma heddiw.

Mae'n ymateb siomedig ac annigonol. Mae arnaf ofn mai'r cwbl a ddigwydd yw y bydd yn rhaid i bwy bynnag a gymer yr awenau oddi wrth y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau, yn y blynyddoedd a ddaw, pa strwythurau bynnag fydd gennym yn y dyfodol, ddod yn ôl at y maes polisi hwn, oherwydd bydd yr ymateb y tro hwn wedi bod yn annigonol.

Y Llywydd: Cyn galw ar y Prif Weinidog i ymateb, yr wyf yn ddiolchgar i Kirsty Williams, ac yn falch bod rhywun yn y Siambr yn gwrandao ar yr hyn a ddywedaf, weithiau. Yr wyf yn siŵr eich bod wedi deall

was referring to the process, and the need perhaps for us to review whether a statement was appropriate. Yet again, if I may say so, we have had some fine speeches delivered on what is a statement. Perhaps we should have a proper debate, or a longer debate, at a later stage—but not today.

The First Minister: It is in the Assembly's hands entirely. If people wanted a debate, I would have a debate. I understand that Standing Orders require a statement in response to the committee. It is entirely a matter for the Assembly to decide its own Standing Orders. If Members want to hold debates instead of statements in response to committee reports, I will not stand in their way, not for a second. Any implication that it is me who is resisting this proposal would be way off beam.

On Kirsty Williams's comments, I do not recognise what I said this afternoon from her description. I do not know when she wrote that script—if she wrote it—but it is not relevant to what I said this afternoon. She said that I am inclined to say, 'Oh, Alun Cairns or Kirsty Williams would say that', when it comes to the economic development aspects of this, but that is far from it. I cited three recent examples of research and development-oriented companies coming to Wales partially as a result of the huge changes made in how we deal with applications for assistance through regional selective assistance, smart grants, and so on. There have been huge changes to encourage research and development-related companies to come to Wales. Consider the Aviza announcement that Andrew made a week ago, the G24i announcement for Cardiff, or the Inspired Broadcast Networks announcement. They now deal flexibly with companies where the capital expenditure is not that significant, but we pay a contribution towards salary costs, because you are developing intellectual property instead. We are already doing that.

There is no point in my saying 'Oh, we never thought of that until the committee recommended it'; the fact is that we are

mai cyfeirio at y broses yr oeddwn, a'r angen efallai inni adolygu a oedd datganiad yn briodol. Eto fyth, os caf ddweud hynny, mae areithiau gwych wedi'u traddodi ar rywbeth sydd yn ddatganiad. Hwyrach y dylem gael dadl go iawn, neu ddadl hwy, ryw bryd yn y dyfodol—ond nid heddiw.

Y Prif Weinidog: Y Cynulliad biau penderfynu hynny yn gyfan gwbl. Pe bai pobl yn dymuno cael dadl, byddwn yn fodlon cynnal dadl. Deallaf fod y Rheolau Sefydlog yn gofyn am ddatganiad mewn ymateb i'r pwyllgor. Mater i'r Cynulliad yn gyfan gwbl yw penderfynu ar ei Reolau Sefydlog ei hun. Os oes ar Aelodau eisiau cynnal dadleuon yn lle cael datganiadau mewn ymateb i adroddiadau pwyllgorau, ni wrthwynebam hynny, nid am eiliad. Byddai unrhyw awgrym mai fi sydd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn ymhell o'i le.

O ran sylwadau Kirsty Williams, i mi nid yw ei disgrifiad hi'n cyd-fynd â'r hyn a ddywedais y prynhawn yma. Ni wn pa bryd yr ysgrifennodd y sript honno—os mai hi a'i hysgrifennodd—ond nid yw'n berthnasol i'r hyn a ddywedais y prynhawn yma. Dywedodd fy mod yn dueddol o ddweud, 'O, fe fyddai Alun Cairns neu Kirsty Williams yn dweud hynny', o ran yr agweddau ar hyn sy'n ymwneud â datblygu economaidd, ond mae hynny ymhell o'r gwir. Cyfeiriais at dair enghraifft ddiweddar o gwmnïau ymchwil a datblygu a ddaeth i Gymru yn rhannol o ganlyniad i'r newidiadau enfawr a wnaethpwyd yn y modd y deliwn â cheisiadau am gymorth drwy gymorth rhanbarthol dewisol, grantiau call, ac yn y blaen. Bu newidiadau enfawr i annog cwmnïau ymchwil a datblygu i ddod i Gymru. Ystyriwch y cyhoeddiad am Aviza a wnaeth Andrew wythnos yn ôl, y cyhoeddiad am G24i ar gyfer Caerdydd, neu'r cyhoeddiad am Inspired Broadcast Networks. Erbyn hyn ymdrinnir yn hyblyg â chwmnïau lle nad yw'r gwariant cyfalaf yn sylweddol iawn, ond lle y talwn gyfraniad tuag at gostau cyflogau, oherwydd yr ydych yn datblygu eiddo deallusol yn lle hynny. Yr ydym eisoes yn gwneud hynny.

Nid oes dim diben imi ddweud, 'O, ni wnaethom erioed feddwl am hynny nes i'r pwyllgor ei argymhell'; y ffaith yw ein bod yn

working in parallel with the committee. It does not mean that I am trying to dismiss the committee, but if those changes were made a few years ago, that is a plain matter of fact. I cite examples simply to demonstrate that you are talking tosh. You are seeking to disagree with what we are saying, when the examples show clearly that the committee's mind was working in parallel with the Government's mind. You are just searching for differences.

As I mentioned at the beginning, the \$64,000 question is whether Wales should have an overarching science policy. The committee says 'yes', and we say 'yes'. Why pretend to disagree when there is fundamental agreement on the fundamental question?

Christine Gwyther: Our processes dictate that there should be an oral statement on this matter. I welcome that, and I look forward to any future debates held on this issue. I have not changed my mind significantly on many issues relating to science policy. I welcome the Government's acceptance of some of our recommendations, but I am extremely disappointed that it has rejected some of our key recommendations, particularly those around the appointment of a chief scientist and the setting up of a ministerial advisory group. These recommendations, as other Members have said, were unanimous recommendations of our committee—it does not always happen that way. Importantly, they were welcomed by higher education institutions and by business. They merit a second look. The written statement appeared to write them off, but the oral statement made today hints at the possibility of future consideration of those issues at a later stage. I do not agree that it is necessary to wait, First Minister, but I am hearing from you today that the door, though shut at present, is not bolted. Will you undertake to keep those recommendations under review?

A running theme throughout our evidence sessions was the lack of engagement between academia and business. What appears to be a reluctance by each sector to get involved with

gweithio ochr yn ochr â'r pwyllgor. Nid yw'n golygu fy mod yn ceisio diystyru'r pwyllgor, ond os gwnaethpwyd y newidiadau hynny rai blynyddoedd yn ôl, dyna'r gwir plaen amdani. Yr wyf yn cyfeirio at enghreifftiau er mwyn dangos eich bod yn siarad lol. Yr ydych yn ceisio anghytuno â'r hyn yr ydym yn ei ddweud, tra bo'r enghreifftiau'n dangos yn glir fod y ffordd yr oedd y pwyllgor yn meddwl yn cyd-fynd â'r ffordd yr oedd y Llywodraeth yn meddwl. Dim ond chwilio am wahaniaethau yr ydych.

Fel y soniais ar y dechrau, y cwestiwn tyngedfennol yw a ddylai fod gan Gymru bolisi gwyddoniaeth cyffredinol. 'Dylai,' medd y pwyllgor, a 'dylai,' meddwn ninnau. Pam cogio anghytuno pan fo cytundeb sylfaenol ar y cwestiwn sylfaenol?

Christine Gwyther: Mae ein prosesau'n mynnu y dylid cael datganiad llafar ar y mater hwn. Croesawaf hynny, ac edrychaf ymlaen at unrhyw dadleuon a gynhelir ar y pwnc hwn yn y dyfodol. Nid wyf wedi newid fy meddwl yn sylweddol ar lawer o bynciau yn ymwneud â pholisi gwyddoniaeth. Croesawaf y ffaith bod y Llywodraeth wedi derbyn rhai o'n hargymhellion, ond yr wyf yn dra siomedig eu bod wedi gwrthod rhai o'n hargymhellion allweddol, yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â phenodi prif wyddonydd a sefydlu grŵp cynghori'r Gweinidog. Yr oedd yr argymhellion hyn, fel y dywedodd Aelodau eraill, yn argymhellion unfrydol gan ein pwyllgor—ac nid yw hynny'n digwydd bob tro. Y peth pwysig yw iddynt gael eu croesawu gan sefydliadau addysg uwch a chan fyd busnes. Maent yn haeddu bwrw golwg arnynt eto. Yr oedd y datganiad ysgrifenedig fel petai'n eu diystyru, ond ceir awgrym yn y datganiad llafar heddiw o bosibilrwydd yr ystyrir y materion hyn yn nes ymlaen yn y dyfodol. Nid wyf yn cytuno bod angen aros, Brif Weinidog, ond yr hyn a glywaf gennych heddiw yw nad yw'r drws wedi ei foltio, er ei fod wedi ei gau ar hyn o bryd. A wnewch addo i barhau i adolygu'r argymhellion hynny?

Llynyn arian drwy ein sesiynau tystiolaeth oedd y diffyg ymwneud rhwng academia a byd busnes. Yn ôl ein tystion, diffyg cyfle strwythuredig yn aml yw'r hyn sy'n

the other is, according to our witnesses, often the lack of a structured opportunity, and could be straightened out with the help of government—both the Assembly Government and local government—in sponsoring partnership and collaboration. I do not want to see the issue of dislocation between business and academia, which was honestly highlighted by our witnesses, who represented the sectors involved, ignored in short, medium or long-term strategies. I urge the Government to look positively at action to make collaboration happen.

The First Minister mentioned the issue of whether we should have spent so much time on economic development in our review. Of course, we were bound to do that. I have defended that decision to pure scientists, both privately and publicly, and I am willing to defend that decision again this afternoon. We need to continue the current push on technology transfer, knowledge exploitation and research and development, and I welcome that same recognition from the Welsh Assembly Government, and I seek an assurance from you, First Minister, that that will continue positively.

Finally, when we launched the policy review's findings and recommendations in September, I said that what we were calling for was ambitious, but not impossible. In the main, the Government's formal written response was not that what we are calling for is too ambitious, but that it is inappropriate. It also sounded as if the Government thought that it was misguided. I reject that completely. I understand that whole-scale shifts in funding should follow shifts in policy, and not the other way around, but some of the points that we made that were rejected were on structures to help grow and support a science policy. They were not designed to define a science policy; that was never the intention. However, they can certainly help one to develop. In that spirit, I ask you, First Minister, to keep an open mind on the recommendations that you currently reject. I believe that our review was the start of something, and not the end of it.

ymddangos fel amharodrwydd gan y naill sector i ymwneud â'r llall, a byddai modd unioni hynny gyda help gan lywodraeth—Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol—drwy noddi partneriaeth a chydweithio. Nid wyf am weld problem y diffyg cysylltiad rhwng byd busnes ac academia, y tynnwyd sylw ato yn onest gan ein tystion, a oedd yn cynrychioli'r sectorau dan sylw, yn cael ei anwybyddu mewn strategaethau tymor byr, rhai tymor canolig na hirdymor. Anogaf y Llywodraeth i edrych yn gadarnhaol ar weithredu i beri bod cydweithio'n digwydd.

Soniodd y Prif Weinidog am y cwestiwn a ddylem fod wedi treulio cymaint o amser ar ddatblygu economaidd yn ein hadolygiad. Wrth gwrs, yr oeddem yn gorfod gwneud hynny. Yr wyf wedi amddiffyn y penderfyniad hwnnw i wyddonwyr pur, yn breifat ac yn gyhoeddus, ac yr wyf yn barod i amddiffyn y penderfyniad hwnnw y prynhawn yma eto. Rhaid inni barhau i frwr ymlaen fel yr ydym ar hyn o bryd gyda throsglwyddo technoleg, datblygu gwybodaeth, ac ymchwil a datblygu, ac yr wyf yn croesawu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod hynny, ac yr wyf yn gofyn am sicrwydd gennych, Brif Weinidog, y bydd hynny yn bendant yn parhau.

Yn olaf, pan wnaethom lansio canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad polisi ym mis Medi, dywedais fod yr hyn yr oeddem yn galw amdano yn uchelgeisiol, ond nid yn amhosibl. Prif fyrdwn ymateb ysgrifenedig ffurfiol y Llywodraeth yw nid bod yr hyn y galwn amdano yn rhy uchelgeisiol, ond ei fod yn amhriodol. I bob golwg hefyd yr oedd y Llywodraeth yn tybio ei fod yn gyfeiliornus. Gwrthodaf hynny'n llwyr. Deallaf y dylai newidiadau llwyr mewn cyllido ddilyn newidiadau mewn polisi, yn hytrach nag fel arall, ond yr oedd a wnelo rhai o'r pwyntiau a wnaethom ac a wrthodwyd â strwythurau a fyddai'n fodd o helpu i bolisi gwyddoniaeth dyfu, a'i gefnogi. Nid diffinio polisi gwyddoniaeth oedd eu hamcan; ni fu hynny'n fwrriad erioed. Fodd bynnag, gallant yn sicr helpu un i ddatblygu. Yn yr ysbryd hwnnw, erfyniaf arnoch, Brif Weinidog, i gadw meddwl agored ar yr argymhellion yr ydych ar hyn o bryd yn eu gwrthod. Credaf mai cychwyn rhywbeth, nid ei ddiwedd, oedd ein hadolygiad.

The First Minister: Perhaps there are better ways of putting it than to say that we reject the recommendation of the committee because it is premature. Perhaps the language used was not entirely the best, but we adhere strongly to the view that form follows function, and the function that we believe is difficult to do, but which, nevertheless, has to be done, is to define what we mean by a science policy and then get on to doing it. I am pleased that, in the committee's report, you commend the choice of the three broad areas where we think that we have a win-win potential in developing a science/social science expertise in Wales, namely the low-carbon economy, the health/public health/telematics area and the social and urban regeneration area.

You were right to say that I picked up on the issue of how you are not ashamed, and we are not ashamed, of the same criticism applying to our consultation document as to your committee report, namely that it is too oriented towards the economic-development aspects of science. We must listen to what people are saying outside, but if you are wrong, we are wrong and if we are wrong, you are also wrong. We are either both right or both wrong, but, certainly, we take the same view, which is that the economic-development aspects of science have some primacy here, while not forgetting health, education, which is the main deliverer of science as things stand at the moment, and the environment.

4.20 p.m.

The points that you make about a ministerial advisory group relate to this difference in our definition of what constitutes a science policy. I am sorry that there is a difference, but there is. We believe that to attempt to go for a structure at this stage, before you have determined a science policy, would not be right. If we had gone down that road, we would have been open to the criticism that we were subcontracting the essential ministerial responsibility of determining science policy to an advisory committee, the

Y Prif Weinidog: Efallai fod ffyrdd gwell o'i gyfleu na dweud ein bod yn gwrthod argymhelliad y pwyllgor am ei fod yn gynamserol. Efallai na ddefnyddiwyd yr ieithwedd orau yn hollol, ond glynwn yn gryf at y safbwynt bod y ffurf yn dilyn y swyddogaeth, a'r swyddogaeth sydd yn ein barn ni yn anodd ei chyflawni, ond y mae'n rhaid ei chyflawni, er hynny, yw diffinio'r hyn a olygwn wrth bolisi gwyddoniaeth ac yna bwrw ati i wneud hynny. Yr wyf yn falch eich bod, yn adroddiad y pwyllgor, yn cymeradwyo dewis y tri maes cyffredinol lle y tybiwn fod gennym bosibiliadau sy'n sicr o fod o fudd wrth ddatblygu arbenigedd gwyddoniaeth/gwyddor gymdeithasol yng Nghymru, sef yr economi carbon isel, maes iechyd/iechyd cyhoeddus/telemateg, a maes adfywio cymdeithasol a threfol.

Yr oeddech yn iawn wrth ddweud imi ymdrin â'r pwynt nad oes arnoch gywilydd, na ninnau chwaith, fod ein dogfen ymgynghori ac adroddiad eich pwyllgor wedi cael eu beirniadu am yr un peth, sef gwyro gormod tuag at yr agweddau ar wyddoniaeth sy'n ymwneud â datblygu economaidd. Rhaid inni wrando ar yr hyn y mae pobl y tu allan yn ei ddweud, ond os ydych chi'n anghywir, yr ydym ninnau'n anghywir hefyd, ac os ydym ni'n anghywir, yr ydych chithau hefyd. Naill ai yr ydym ein dau'n gywir, neu ein dau'n anghywir, ond yn sicr yr ydym o'r un farn, sef bod peth blaenoriaeth i'r agweddau ar wyddoniaeth sy'n ymwneud â datblygu edonomaidd yma, ond heb anghofio am iechyd, addysg, sef prif gyfrwng cyflwyno gwyddoniaeth fel y mae pethau ar hyn o bryd, a'r amgylchedd.

Mae a wnelo'r pwyntiau yr ydych yn eu gwneud ynghylch grŵp cynghori'r Gweinidog â'r gwahaniaeth hwn yn y ffordd yr ydym yn diffinio beth yw polisi gwyddoniaeth. Mae'n ddrwg gennyf fod gwahaniaeth, ond felly y mae. Yn ein barn ni, ni fyddai'n iawn ceisio cael strwythur ar hyn o bryd, cyn pennu polisi gwyddoniaeth. Petaem wedi mynd ar hyd y llwybr hwnnw, gellid bod wedi ein beirniadu ein bod yn isgcontractio cyfrifoldeb hanfodol y Gweinidog o bennu polisi gwyddoniaeth i

members of which are not elected. Those members would have been appointed by the Minister, but how would you be sure that you were not passing the buck to them? The buck, as Alun Cairns said earlier, stops with the Minister—and that Minister is me—and, collectively, with the Cabinet. At the same time as saying, ‘We want all this subcontracted to a ministerial advisory group’, he said, ‘The buck stops with you’. You cannot have it both ways. In my opinion, the buck stops with us, and that is why we must take responsibility and we have already appointed a raft of ministerial advisory groups in education and science.

The door is not bolted, of course; if we reject something because it is premature, that means that we will look at it again once we have agreed a science policy. We are now in an exciting period, with huge investment in science at the Institute of Life Sciences in Swansea—an unprecedented £50 million investment—and at the 3D Visualisation Centre in Aberystwyth, and one could refer to many other schemes in Cardiff, Bangor and so on. It is an exciting period and we have to clock all that as a resource for Wales and try to ensure that we get more bang for the buck from that science resource and from what is to come.

Elin Jones: Yr ydych wedi cyfeirio yn eich datganiad at y bartneriaeth ymchwil rhwng Prifysgol Cymru Bangor a Phrifysgol Cymru Aberystwyth, a mae'r rhagolygon yn edrych yn dda o ran y gwaith hwnnw. Yn y Siambur hon, yn y gorffennol, yr ydych wedi datgan cydnabyddiaeth o'r gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd, yr unig sefydliad ymchwil yng Nghymru. A ydych yn cytuno y byddai'n dda gweld IGER a phrifysgolion Bangor ac Aberystwyth yn adeiladu ar eu cryfderau ymchwil ac yn cydweithio er mwyn sicrhau dyfodol ariannol IGER ac, yn bwysicach, diogelu'r gwaith ymchwil pwysig hwn yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Yr wyf wedi bod yn trafod

bwyllgor ymgynghori, nad yw ei aelodau wedi eu hethol. Byddai'r aelodau hynny wedi eu penodi gan y Gweinidog, ond sut y gallech fod yn siŵr nad trosglwyddo'r cyfrifoldeb iddynt hwy y byddech? Fel y dywedodd Alun Cairns yn gynharach, gan y Gweinidog y mae'r cyfrifoldeb—a fi yw'r Gweinidog hwnnw—ac ar y cyd, gan y Cabinet. Yn ogystal â dweud, ‘Yr ydym am i hyn oll gael ei isgontractio i grŵp cynghori'r Gweinidog’, dywedodd, ‘Gennyh chi y mae'r cyfrifoldeb’. Ni allwch ei chael hi y ddwy ffordd. Yn fy marn i, gennym ni y mae'r cyfrifoldeb, a dyna pam y mae'n rhaid inni ei ysgwyddo a'n bod eisoes wedi penodi amryw o grwpiau cynghori'r Gweinidogion ym maes addysg a gwyddoniaeth.

Nid yw'r drws wedi ei folltio, wrth gwrs; os gwrthodwn rywbeth am ei fod yn gynamserol, golyga hynny y byddwn yn edrych arno eto wedi inni gytuno ar bolisi gwyddoniaeth. Yr ydym mewn cyfnod cyffrous yn awr, gyda buddsoddiad enfawr mewn gwyddoniaeth yn y Sefydliad Gwyddorau Bywyd yn Abertawe—buddsoddiad o £50 miliwn na welwyd dim byd o'r fath o'r blaen—a'r Ganolfan Ddelweddu 3D yn Aberystwyth, a hawdd y gallai rhywun gyfeirio at lawer o gynlluniau eraill yng Nghaerdydd, Bangor ac yn y blaen. Mae'n gyfnod cyffrous a rhaid inni nodi hynny oll fel adnodd i Gymru a cheisio gofalu ein bod yn cael gwerth pob ceiniog o'r adnodd gwyddonol hwnnw ac o'r hyn sydd am ddiwydd.

Elin Jones: You referred in your statement to the research partnership between the University of Wales, Bangor and the University of Wales, Aberystwyth, and the prospects for that work are positive. In this Chamber, in the past, you have acknowledged the important work undertaken by the Institute of Grassland and Environmental Research, the only research institution in Wales. Do you agree that it would be good to see IGER and Bangor and Aberystwyth universities building on their research strengths and working together in order to ensure the financial future of IGER, and, more importantly, to safeguard this important research work in Wales?

The First Minister: I have been discussing

y mater hwnnw gyda'r Athro Pollock, sy'n mynd i ymdeol cyn bo hir. Mae ef a'r brifysgol yn rhagweld cydweithrediad agos a chefnogwn hynny. Mae enw i'r cydweithredu hwnnw hyd yn oed—mae'n rhaid ceisio cofio'r acronymau diawledig hyn o hyd. Credaf mai CALU yw enw'r sefydliad newydd—the Centre for Alternative Land Use neu'r Ganolfan Defnydd Tir Amgen—ac mae'n cynnwys Bangor, CEHR Bangor, IGER a phrifysgol Aberystwyth. Y math hwnnw o gydweithrediad sydd wedi bod yn mynd yn ei flaen yn chwyldroadol o gyflym yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ers cyhoeddi 'Ymgeisio yn Uwch'.

Leighton Andrews: I will begin by welcoming the response and by paying tribute to Chris Gwyther for the way in which she has chaired the committee and for drawing together a unanimous report. I welcome the recommendations that you have supported and I certainly think that it is important to get a science policy right, rather than to get one hastily. I also agree with your statement that there is a UK context to the development of science policy, not least because a lot of science policy development stems from departments such as defence, which are not devolved. That has certainly been true about the way in which policies have developed in the United States. Can you assure us that you will consider the recommendations that have been made by the committee, which have been ruled out by the Government at this stage as premature, not because I think that they are necessarily a final blueprint, but because they draw on experience from other parts of the United Kingdom and other parts of Europe, and it is well worth considering those?

The First Minister: I think that we are agreed that what we need in Wales are clusters of scientific expertise, preferably in both public and private sector institutions and companies, which, added together, show every sign of being able to operate at a global, or at least at a European, competitive level. Where we find them, we must nurture them and push them forward so that we get the pay-off from the kind of extra jobs that will emerge in science and research and development and in the way in which the work that they do will contribute to solving

this matter with Professor Pollock, who is to retire shortly. Professor Pollock, and the university, anticipate close collaboration, and we support that. There is a name for that even—one has to try to remember these terrible acronyms all the time. I think that CALU is the name of the new institution—the Centre for Alternative Land Use—and it includes Bangor, CEHR Bangor, IGER and Aberystwyth university. That kind of collaboration has been progressing extremely quickly over the last two years, since the publication of 'Reaching Higher'.

Leighton Andrews: Dechreuaf drwy groesawu'r ymateb a thrwy dalu teyrnged i Chris Gwyther am y ffordd y cadeiriodd y pwyllgor ac am lunio adroddiad unfrydol. Yr wyf yn croesawu'r argymhellion a gefnogwyd gennych a chredaf yn sicr ei bod yn bwysig sicrhau ein bod yn cael polisi gwyddoniaeth iawn, yn hytrach na chael un ar frys. Cytunaf hefyd â'ch datganiad bod cyd-destun o fewn y DU i ddatblygu polisi gwyddoniaeth, ac un o'r prif resymau am hynny yw bod llawer o ddatblygu polisi ym maes gwyddoniaeth yn deillio o adrannau megis amddiffyn, nad ydynt wedi eu datganoli. Mae hynny'n sicr wedi bod yn wir am y modd y datblygwyd polisiâu yn yr Unol Daleithiau. A allwch roi sicrwydd inni y byddwch yn ystyried yr argymhellion a wnaed gan y pwyllgor, a ddiystyrwyd gan y Llywodraeth ar hyn o bryd am eu bod yn gynamserol, nid oherwydd fy mod yn meddwl eu bod o raid yn lasbrint terfynol, ond am eu bod yn tynnu ar brofiad o rannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol a rhannau eraill o Ewrop, a'i bod yn wir yn werth ystyried y rheini?

Y Prif Weinidog: Credaf ein bod yn cytuno mai'r hyn sydd arnom ei angen yng Nghymru yw clystyrau o arbenigedd gwyddonol, gorau'n y byd petaent yn sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, sydd, o'u rhoi at ei gilydd, yn ymddangos yn wir fel pe baent am allu gweithredu ar lefel gystadleuol fyd-eang, neu Ewropeaidd o leiaf. Lle y deawn o hyd iddynt, rhaid inni eu meithrin a'u gyrru ymlaen er mwyn inni gael y fantais sy'n deillio o'r math o swyddi ychwanegol a fydd yn datblygu mewn gwyddoniaeth ac ymchwil a datblygu ac yn y ffordd y bydd y gwaith a

global problems or Welsh problems and anything in between. You are right that Wales has not been strong in defence research and development—the south-west of England and the south-east of England have tended to dominate—although recent developments at EADS Defence and Security Systems Ltd in Newport and General Dynamics United Kingdom Ltd in Oakdale have partially broken through—not so much on the fundamental research and development, but at least on software-type developments. On the broader issue that you mentioned, we have never come across a situation before in which we have a committee developing a subject that goes across many other portfolios—into education, environment and health—while we are doing the same thing in Government at the same time. I hope that there is an object lesson here as to how the committee system and the administration can try to work together in parallel, feeding off each other.

From the statement today, and when we make a subsequent announcement in not too many weeks' time, I hope that we can see how you can blend administration and committee priorities. That does not cut across in any way the right of a committee to decide exactly what it wants to do in an investigation of a subject, and to roam free and far and wide in considering that subject, without having to think about what the Government is doing.

Catherine Thomas: I am sure that you will agree that it is vital that our science graduates have increasing opportunities to work in Wales, so that we can benefit from their knowledge and expertise. With this in mind, do you understand and share my dismay at the threat to the future of the Environment Agency's laboratory in Llanelli, with the potential loss of 40 out of its 60 jobs, many of which are filled by highly-qualified science graduates? Proposals put forward by the National Laboratory Service would result in the Llanelli laboratory being downgraded. Many of the jobs under threat of a high calibre, and neither my constituency nor this nation can afford to lose those jobs to Environment Agency laboratories in England. I am sure that this fact hit home

wnânt yn cyfrannu at ddatrys problemau byd-eang neu broblemau Cymru ac unrhyw beth rhwng y ddau begwn. Yr ydych yn llygad eich lle nad yw Cymru wedi bod yn gryf o ran ymchwil a datblygu ym maes amddiffyn—mae de-orllewin Lloegr a de-ddwyrain Lloegr wedi tueddu i dra-arglwyddiaethu—er bod datblygiadau diweddar yn EADS Defence and Security Systems Ltd yng Nghasnewydd a General Dynamics United Kingdom Ltd yn Oakdale wedi torri drwodd yn rhannol—nid yn gymaint o ran yr ymchwil a datblygu sylfaenol, ond o leiaf o ran datblygiadau'n ymwneud â meddalwedd. O ran y pwnc ehangach a grybwyllwyd gennych, ni welsom erioed o'r blaen sefyllfa lle y mae gennym bwyllgor yn datblygu pwnc sydd yn mynd ar draws llawer portffolio arall—gan gynnwys addysg, yr amgylchedd ac iechyd—a ninnau'n gwneud yr un peth fel Llywodraeth ar yr un pryd. Gobeithio bod gwers yma ynghylch sut y gall y system bwyllgorau a'r weinyddiaeth geisio cydweithio ochr yn ochr, a'r naill a'r llall yn bwydo'i gilydd.

Yn sgîl y datganiad heddiw, a phan fyddwn yn gwneud cyhoeddiad ymhen rhai wythnosau, gobeithio y gallwch weld sut y bydd modd ichi asio blaenoriaethau'r weinyddiaeth a'r pwyllgorau. Nid yw hynny'n amharu o gwbl ar hawl pwyllgor i benderfynu beth yn union y mae am ei wneud wrth ymchwilio i bwnc, ac i fynd i'r priffyrdd a'r caeau wrth ystyried y pwnc hwnnw, heb orfod meddwl am yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud.

Catherine Thomas: Yr wyf yn siŵr y cytunwch ei bod yn hanfodol i'n graddedigion gwyddoniaeth gael mwy o gyfleoedd i weithio yng Nghymru, fel y gallwn elwa o'u gwybodaeth a'u harbenigedd. Gan gadw hyn mewn cof, a ydych yn deall fy loes ac a yw'n loes i chithau o glywed am y bygythiad i ddyfodol labordy Asiantaeth yr Amgylchedd yn Llanelli, gyda'r posibilrwydd y bydd 40 o'i 60 swydd yn cael eu colli, a llawer o'r rhain yn swyddi i raddedigion gwyddoniaeth gyda chymwysterau uchel? Byddai cynigion y Gwasanaeth Labordai Cenedlaethol yn golygu israddio labordy Llanelli. Mae llawer o'r swyddi sydd dan fygythiad yn rhai o'r radd flaenaf, ac ni all f'etholaeth na'r genedl hon fforddio colli'r swyddi hynny i labordai

with the Minister for Environment, Planning and Countryside when he accepted my invitation recently to visit the laboratory in Llanelli and see the magnificent work being done there. First Minister, will you lend your support to the workforce in Llanelli, and to the fight to keep this laboratory there, so that it is not lost to England, but stays where it has been for 50 years, in Llanelli, my constituency?

The First Minister: Yes, I can certainly do that. We will do whatever we can to dissuade whichever decision-making body is proposing to downgrade or close the Llanelli laboratory and transfer its work over the border. That has happened too often in the past 30 to 40 years, leaving us with quite a small science base, and we want that base built back up again.

On the wider issue of the employment of science graduates, we are still, probably, net losers of science graduates. The loss is not as great as it was in previous decades, as science graduates do not automatically think that they have to travel up the M4 or the M56 to centres of large population in the north-west or south-east of England. That still happens a bit, but it happens much less now than it did. However, we have to be an attractive area for science, with good science jobs in the private and public sectors, so that we can form the critical mass and cluster that will make people associate Wales with the word 'science' in a way did not happen previously.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog, yn enwedig am ei sylwadau ar y broses.

Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr. Yr wyf yn sicr bod y ffaith hon wedi gwneud argraff ar y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad pan dderbyniodd fy ngwahoddiad yn ddiweddar i ymweld â'r labordy yn Llanelli a gweld y gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud yno. Brif Weinidog, a wnewch chithau gefnogi'r gweithlu yn Llanelli, a'r frwydr i gadw'r labordy hwn yno, fel nas collir i Loegr, ond y bydd yn aros lle y bu ers 50 mlynedd, yn Llanelli, fy etholaeth?

Y Prif Weinidog: Gwnaf, gallaf wneud hynny yn sicr. Gwnawn beth bynnag a allwn i ddarbwylllo pa gorff bynnag sy'n gwneud y penderfyniadau ac sy'n bwriadu israddio neu gau labordy Llanelli a throsglwyddo ei waith dros y ffin. Mae hynny wedi digwydd yn rhy aml dros y 30 i 40 mlynedd diwethaf, gan beri mai sylfaen wyddoniaeth eithaf bach sydd gennym bellach, ac yr ydym am ailgodi'r sylfaen honno.

O ran mater ehangach cyflogi graddedigion gwyddoniaeth, mae'n debyg mai dal i golli graddedigion gwyddoniaeth yr ydym ar y cyfan. Nid yw'r golled cynddrwg ag yr arferai fod yn y degawdau blaenorol, gan nad yw graddedigion gwyddoniaeth yn credu, heb ystyried, fod rhaid iddynt deithio ar hyd yr M4 neu'r M56 i ganolfannau poblog gogledd-orllewin neu dde-ddwyrain Lloegr. Mae hynny'n digwydd o hyd i raddau, ond mae'n digwydd i raddau llai o lawer bellach nag yr arferai wneud. Fodd bynnag, rhaid inni fod yn ardal ddeniadol i wyddoniaeth, gyda swyddi gwyddonol da yn y sectorau preifat a chyhoeddus, er mwyn inni allu ffurfio'r màs a'r clwstwr critigol a fydd yn gwneud i bobl gysylltu Cymru â'r gair 'gwyddoniaeth' mewn modd nad oedd yn arfer digwydd.

The Presiding Officer: Thank you, First Minister, particularly for your comments on the process.

Cymeradwyo Deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog Rhif 24.25 Approval of Legislation Under Standing Order No. 24.25

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 24.25, ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn.

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 24.25, this motion is not subject to debate.

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 24.25:

1. a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 17 October 2006 on the draft the Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) (Amendment) Regulations 2006; and

b) approves that the Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Cross Compliance) (Wales) (Amendment) Regulations 2006 are made in accordance with:

(i) the draft Order laid in the Table Office on 3 October 2006;

(ii) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 3 October 2006; and

(iii) the memorandum of corrections laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 17 October 2006;

2. a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 17 October 2006 on the draft the Supply of Student Support Information to Governing Bodies (Wales) Regulations 2006; and

b) approves that the Supply of Student Support Information to Governing Bodies (Wales) Regulations 2006 are made in accordance with:

(i) the draft Order laid in the Table Office on 3 October 2006;

(ii) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 3 October 2006; and

(iii) the memorandum of corrections laid in

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 24.25:

1. a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2006; a

b) yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006;

(ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006; a

(iii) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006;

2. a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cyflenwi Gwybodaeth ar gyfer Cymorth i Fyfyrrwyr i Gyrff Llywodraethu (Cymru) 2006; a

b) yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cyflenwi Gwybodaeth ar gyfer Cymorth i Fyfyrrwyr i Gyrff Llywodraethu (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006;

(ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006; a

(iii) y memorandwm cywiriadau a osodwyd

- the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 17 October 2006;*
3. a) *considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 17 October 2006 on the draft the Food (Emergency Control) (Revocation) (Wales) Regulations 2006; and*
- b) *approves that the Food (Emergency Control) (Revocation) (Wales) Regulations 2006 are made in accordance with:*
- (i) *the draft Order laid in the Table Office on 3 October 2006;*
- (ii) *the regulatory appraisal laid in the Table Office on 3 October 2006; and*
- (iii) *the memorandum of corrections laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 17 October 2006;*
4. a) *considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 17 October 2006 on the draft the Plant Health (Import Inspection Fees) (Wales) (No. 2) Regulations 2006; and*
- b) *approves that the Plant Health (Import Inspection Fees) (Wales) (No. 2) Regulations 2006 are made in accordance with:*
- (i) *the draft Order laid in the Table Office on 3 October 2006; and*
- (ii) *the regulatory appraisal laid in the Table Office on 3 October 2006. (NDM3261)*
- yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006;*
3. a) *yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Dirymu) (Cymru) 2006; a*
- b) *yn cymeradwyo bod Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Dirymu) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:*
- (i) *y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006;*
- (ii) *yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006; a*
- (iii) *y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006;*
4. a) *yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006; a*
- b) *yn cymeradwyo bod Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:*
- (i) *y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006; a*
- (ii) *yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006. (NDM3261)*

*Cynnig (NDM3261): O blaid 56, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM3261): For 56, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor

Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Cymeradwyo'r Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuff) (England and Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2006 o dan Reol Sefydlog Rhif 25 adran 3, a Rheolau Sefydlog Rhifau 24.14 a 24.25
Approval of the Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuff) (England and Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2006 under Standing Order No. 25 section 3, and Standing Orders Nos. 24.14 and 24.25

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 24.25, this motion is not subject to debate. **Y Llywydd:** O dan Reol Sefydlog Rhif 24.25, ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn.

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that **Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cynigiau fod

the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 24.14, and Standing Order No. 24.25:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog Rhif 24.14, a Rheol Sefydlog Rhif 24.25:

1. *approves the draft the Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuff) (England and Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2006, a copy of which was laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 17 October 2006; and*

1. *yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, the Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuff) (England and Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2006, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006; a*

2. *notes the explanatory memorandum for this Order laid in Table Office and e-mailed to Assembly Members on 17 October 2006. (NDM3262)*

2. *yn nodi'r memorandwm esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Hydref 2006. (NDM3262)*

*Cynnig (NDM3262): O blaid 56, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM3262): For 56, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael

Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 Isherwood, Mark
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Mewies, Sandy
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

Y Gyllideb Ddrafft The Draft Budget

Motion (NDM3263): to propose that

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 21.4, takes note of the draft budget of the Welsh Assembly Government for the financial years 2007-08, 2008-09 and 2009-10 laid in the Table Office by the Finance Minister and e-mailed to Assembly Members on Tuesday 17 October 2006.

Amendment 1 in the names of Ieuan Wyn Jones, Nick Bourne, Michael German, John Marek and Trish Law. Delete all and replace with:

the National Assembly for Wales declines to

Cynnig (NDM3263): cynnig bod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 21.4, yn nodi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol 2007-08, 2008-09 a 2009-10 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid, ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth 17 Hydref 2006.

Gwelliant 1 yn enwau Ieuan Wyn Jones, Nick Bourne, Michael German, John Marek a Trish Law. Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwrthod

take note of the draft budget for the Welsh Assembly Government for the financial years 2007-08, 2008-09 and 2009-10 laid in the Table Office on 17 October 2006 by the Finance Minister, as it fails to make either adequate provision, or any at all, for the following matters:

nodi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol 2007-08, 2008-09 a 2009-10 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006 gan y Gweinidog Cyllid, gan ei bod yn methu â gwneud darpariaeth ddigonol, neu'n methu â gwneud unrhyw ddarpariaeth o gwbl, ar gyfer y materion a ganlyn:

a) a sum equivalent to the 1 per cent efficiency savings of all schools' delegated budgets which should be returned to the schools;

a) swm cyfwerth â'r arbedion effeithlonrwydd o 1 y cant o holl gyllidebau dirprwyedig ysgolion y dylid ei ddychwelyd i'r ysgolion;

b) the budget of Tir Mynydd to be restored to the level set in 2005-06;

b) adfer cyllideb Tir Mynydd i'r lefel a bennwyd yn 2005-06;

c) closing the higher education funding gap;

c) cau'r bwlch cyllido mewn addysg uwch;

d) an increase in the budget allocated for transport grants;

d) cynnydd yn y gyllideb i'w dyrannu ar gyfer grantiau trafnidiaeth;

e) an increase in the budget allocated to the ambulance service;

e) cynnydd yn y gyllideb i'w dyrannu ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans;

f) an increase in the allowances paid to foster carers;

f) cynnydd yn y lwfansau a delir i ofalwyr maeth;

g) financial assistance to community radio stations;

g) cymorth ariannol i orsafoedd radio cymunedol;

h) financial assistance to local authorities to overcome the difficulties they face over:

h) cymorth ariannol i awdurdodau lleol ar gyfer goresgyn yr anawsterau y maent yn eu hwynebu o ran:

i. landfill sites;

i. safleoedd tirlenwi;

ii. the capital costs of improving care homes;

ii. costau cyfalaf gwella cartrefi gofal;

i) transitional relief to local authorities on the withdrawal of rural rate relief;

i) cymorth trosiannol i awdurdodau lleol yn sgîl diddymu'r rhyddhad ardrethi gwledig;

j) the employment of cognitive behaviour therapists;

j) cyflogi therapyddion ymddygiad gwybyddol;

k) financial assistance to provide for play areas for disabled children;

k) cymorth ariannol i ddarparu mannau chwarae ar gyfer plant anabl;

l) financial assistance to establish refuges for women who suffer domestic violence in those local authority areas where none currently exist;

l) cymorth ariannol i greu llochesi ar gyfer menywod sy'n dioddef trais yn y cartref yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hynny lle nad oes lloches o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd;

m) further financial support for the improvement of rail infrastructure; and

m) cymorth ariannol pellach ar gyfer gwella seilwaith y rheilffyrdd; ac

accordingly, the National Assembly for Wales instructs the Finance Minister to lay a revised draft budget to take full account of the matters set out in (a) to (m) above.

yn unol â hynny, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfarwyddo'r Gweinidog Cyllid i gyflwyno cyllideb ddrafft ddiwygiedig sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r materion a nodir yn (a) i (m) uchod.

Amendment 2 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 2 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

expresses concern that the First Minister and the Finance Minister failed to consult Assembly Members sufficiently in advance of the draft budget to accommodate opposition concerns in that budget.

yn mynegi pryder bod y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyllid wedi methu ag ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad yn ddigon cynnar yn y broses o lunio'r gyllideb ddrafft, a hynny er mwyn rhoi sylw i bryderon y gwrthbleidiau yn y gyllideb honno.

Amendment 3 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 3 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

expresses regret that no provision is made in the budgets for the financial years 2007 to 2010 in relation to Treasury funds over and above Barnett for match-funding purposes for European programmes.

yn gresynu nad oes unrhyw ddarpariaeth yn y cyllidebau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2007 i 2010 o ran arian gan y Trysorlys yn ychwanegol at Barnett, a hynny at ddibenion arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd.

Amendment 4 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 4 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

recognises at last that without a finance committee the budget process lacks transparency and accountability.

yn cydnabod o'r diwedd nad yw'r broses o lunio'r gyllideb, heb bwyllgor cyllid, yn dryloyw ac yn atebol.

Amendment 5 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 5 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

regrets the failure of the Welsh Assembly Government to secure match funding for the convergence programme over and above the block grant from the Treasury.

yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen gydgyfeirio yn ychwanegol at grant bloc y Trysorlys.

Amendment 6 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 6 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

calls on the Welsh Assembly Government to commission independent research into a fair funding formula for Wales to be based on need, and to present the findings of this research to the National Assembly.

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gomisiynu ymchwil annibynnol i fformiwla gyllido deg ar gyfer Cymru a fydd yn seiliedig ar angen, ac i gyflwyno canfyddiadau'r ymchwil hon i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Amendment 7 in the name of Jocelyn Davies.
Add a new point at the end of the motion:

and regrets that, historically, housing has not had the priority in the budget that it deserves from this current Government.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enwau Ieuan Wyn Jones, Nick Bourne, Michael German, John Marek a Trish Law, gwelliannau 2 a 3 yn enw Lisa Francis, a gwelliannau 4, 5, 6 a 7 yn enw Jocelyn Davies.

The Finance Minister (Sue Essex): I propose that

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 21.4, takes note of the draft budget of the Welsh Assembly Government for the financial years 2007-08, 2008-09 and 2009-10 laid in the Table Office by the Finance Minister and e-mailed to Assembly Members on Tuesday 17 October 2006. (NDM3263)

Two years ago, I presented a three-year spending plan to the Assembly, and I am delighted to say that the budget that I present today will achieve the final implementation of that three-year spending plan. It will, in effect, abolish prescription charges, complete a crime-fighting fund of £127 million, fully fund free bus travel for pensioners, the disabled and their carers, fund the absence of top-up fees, fund free breakfasts in more than 607 schools; fund the Knowledge Bank; fund new 20 mph zones and safe routes to school; complete a programme of expenditure of £670 million on school buildings; and fund a programme of £750 million on GP surgeries and hospitals.

4.30 p.m.

Next year, the Assembly's departmental expenditure limit will be at an all-time high, at £14 billion. In just eight Labour years our budget will have almost doubled, and between this financial year and next it will grow by a further 6.2 per cent. That means

Gwelliant 7 yn enw Jocelyn Davies.
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

ac yn gresynu nad yw'r Llywodraeth gyfredol, yn hanesyddol, wedi rhoi lle teilwng yn y gyllideb i'r maes tai.

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the names of Ieuan Wyn Jones, Nick Bourne, Michael German, John Marek and Trish Law, amendments 2 and 3 in the name of Lisa Francis, and amendments 4, 5, 6, and 7 in the name of Jocelyn Davies.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 21.4, yn nodi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol 2007-08, 2008-09 a 2009-10 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid, ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth 17 Hydref 2006. (NDM3263)

Ddwy flynedd yn ôl, cyflwynais gynllun gwario tair blynedd i'r Cynulliad, ac mae'n bleser gennyf ddweud y bydd y gyllideb a gyflwynaf heddiw yn cyrraedd y nod terfynol o ran gweithredu'r cynllun gwario tair blynedd hwnnw. Mewn gwirionedd, bydd yn dileu taliadau presgripsiynau, yn cwblhau cronfa o £127 miliwn i ymladd yn erbyn troseddu, yn talu'n llawn am deithio am ddim ar fysus i bensiywyr, pobl anabl a'u gofalwyr, yn talu am ddiffyg ffioedd atodol, ariannu brechwastau am ddim mewn mwy na 607 o ysgolion; ariannu'r Banc Gwybodaeth; ariannu parthau 20 milltir yr awr newydd a llwybrau diogel i'r ysgol; cwblhau rhaglen gwariant sy'n werth £670 miliwn ar adeiladau ysgolion; ac ariannu rhaglen sy'n werth £750 miliwn ar feddygfydd meddygon teulu ac ysbytai.

Y flwyddyn nesaf, bydd terfynau gwariant adrannol y Cynulliad yn uwch nag erioed, sef £14 biliwn. Mewn dim ond wyth mlynedd o Lywodraeth Lafur bydd ein cyllideb wedi dyblu bron, a rhwng y flwyddyn ariannol hon a'r nesaf bydd yn cynyddu 6.2 y cant arall.

that there is an additional £810 million to improve the quality and delivery of public services in Wales.

Some £736 million of the £810 million was allocated a year ago in last year's budget. So, this money is already earmarked, and organisations have been planning on that basis. The growth for 2007-08, which you agreed last year, includes £31 million extra for adult social care, which is one of our big pressure points, £10 million more for extra care housing, giving an annual investment of £21 million, £22 million for early years and support for children, which is, again, one of our priorities, £12 million for the much-needed 14 to 19 learning pathways, £16 million for better health projects, including food in school and more active lifestyles, £8 million on the waste strategy, £5 million for higher education, under the 'Reaching Higher' agenda, and £5.6 million for children's services, which includes £1 million for increased foster care allowances, which I will come back to later.

Public service organisations are planning their delivery in expectation of this budget provision. I take it that no Member is seeking now to revisit these allocations. Last year, I retained a reserve of £217 million for 2007-08. It was then the second year of our budget plan and I needed a 1.5 per cent reserve to respond to changing circumstances. As a result of the extra pressures identified through my consultation with colleagues and through committees, I am allocating a further element of that reserve. That means that the reserve for 2007-08 will be reduced to £153 million. That is just over 1 per cent of our total budget. I regard this as the necessary contingency to meet any emergency needs that could arise in 2007-08. The contingency reserve is essential, as people need the assurance that, should a crisis emerge, the Assembly Government is in a position to respond. For example, in 2001, we responded to the Corus closures with an unplanned investment of £75 million. We were able to do that because we had a reserve.

Mae hynny'n golygu bod £810 miliwn yn ychwanegol yn cael ei wario i wella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r modd y maent yn cael eu darparu.

Cafodd tua £736 miliwn o'r £810 miliwn ei ddyrannu flwyddyn yn ôl yng nghyllideb y llynedd. Felly, mae'r arian hwn wedi ei glustnodi eisoes, ac mae sefydliadau wedi bod yn cynllunio ar sail hynny. Mae'r twf ar gyfer 2007-08, y cytunasoch arno y llynedd, yn cynnwys £31 miliwn yn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion, sy'n un o'r meysydd lle y mae gennym gryn bwysau, £10 miliwn yn rhagor ar gyfer tai gofal ychwanegol, sy'n golygu buddsoddiad blynyddol o £21 miliwn, £22 miliwn ar gyfer y blynyddoedd cynnar a chymorth i blant, sydd, unwaith eto, yn un o'n blaenoriaethau, £12 miliwn ar gyfer y llwybrau dysgu 14 i 19 oed y mae cymaint o angen amdanynt, £16 miliwn ar gyfer prosiectau gwell iechyd, gan gynnwys bwyd mewn ysgolion a ffyrdd o fyw mwy egnïol, £8 miliwn ar gyfer y strategaeth wastraff, £5 miliwn ar gyfer addysg uwch, o dan yr agenda 'Ymgeisio yn Uwch', a £5.6 miliwn ar gyfer gwasanaethau plant, sy'n cynnwys £1 filiwn ar gyfer cynyddu lwfansau gofal maeth, pwnc y byddaf yn dychwelyd ato yn y man.

Mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn cynllunio eu darpariaeth gan ddisgwyl y ddarpariaeth hon yn y gyllideb. Cymeraf nad oes yr un Aelod am edrych eto ar y dyraniadau hyn. Y llynedd, cedwais gronfa wrth gefn o £217 miliwn ar gyfer 2007-08. Yr oedd ar y pryd yn ail flwyddyn ein cynllun cyllideb ac yr oedd angen cronfa wrth gefn o 1.5 y cant arnaf i ymateb i amgylchiadau wrth iddynt newid. O ganlyniad i'r pwysau ychwanegol a ganfuwyd drwy ymgynghori â'm cyd-Aelodau a thrwy'r pwyllgorau, yr wyf yn dyrannu elfen bellach o'r gronfa honno. Mae hynny'n golygu y bydd y gronfa wrth gefn ar gyfer 2007-08 yn gostwng i £153 miliwn. Mae hynny ychydig dros 1 y cant o gyfanswm ein cyllideb. Hyn yw'r swm wrth gefn sydd ei angen yn fy marn i i ddiwallu unrhyw anghenion brys a allai godi yn 2007-08. Mae'r gronfa wrth gefn yn hanfodol, gan fod angen sicrwydd ar bobl, petai argyfwng yn digwydd, fod Llywodraeth y Cynulliad yn gallu ymateb. Er enghraifft, yn 2001,

ymatebwyd i gau gweithfeydd Corus gyda buddsoddiad heb ei gynllunio o £75 miliwn. Yr oeddem yn gallu gwneud hynny oherwydd bod gennym gronfa wrth gefn.

I have heard reports that some opposition members are describing this reserve as some sort of electioneering slush fund. What an irresponsible and absurd suggestion. This is not a fund set aside for election giveaways. I give my commitment that it will not be used for such purposes. Taking account of the growth already agreed for next year's budget and the need for an appropriate reserve, the further allocations that I have built into the budget amount to £74 million. This amount has been carefully targeted towards meeting pressures that were not covered by previous budget rounds. Before I discuss these further details, I remind Members how I have prepared the budget this year.

Yr wyf wedi clywed adroddiadau bod rhai o aelodau'r gwrthbleidiau'n disgrifio'r gronfa wrth gefn hon fel rhyw fath o gronfa gil-dwrn i ennill pleidleisiau. Am awgrym anghyfrifol a hurt. Nid cronfa sydd wedi ei rhoi o'r neilltu i rannu arian cyn yr etholiad yw hon. Yr wyf yn eich sicrhau na chaiff ei defnyddio at ddibenion o'r fath. Gan gadw'r cynnydd y cytunwyd arno yng nghyllideb y flwyddyn nesaf mewn cof a'r angen am gronfa wrth gefn briodol, mae'r dyraniadau pellach yr wyf wedi eu hymgorffori yn y gyllideb yn £74 miliwn. Mae'r swm hwn wedi ei dargedu'n ofalus i ymateb i'r pwysau nad oeddent yn cael eu cynnwys yng nghylchoedd blaenorol y gyllideb. Cyn imi drafod y manylion hyn ymhellach, hoffwn atgoffa'r Aelodau sut yr wyf wedi paratoi'r gyllideb eleni.

I consulted the committees at the earliest stage, and, to a significant extent, the budget reflects the points raised in Assembly subject committees and, of course, by outside organisations, such as local government. Now that it has been laid, as required in Standing Orders, I will consult the committees again. Clearly, as it is a draft budget, I will consider any representations received. I talked to the opposition finance spokespersons before the summer recess and outlined the resources that would be available and key pressures coming through. I met the leaders with the First Minister recently.

Ymgynghorais â'r pwyllgorau yn ystod y camau cynharaf, ac mae'r gyllideb, i raddau helaeth, yn adlewyrchu'r pwyntiau a wnaethpwyd ym mhwyllgorau pwnc y Cynulliad ac, wrth gwrs, gan sefydliadau allanol, megis llywodraeth leol. Gan ei bod bellach wedi ei chyflwyno, fel sy'n ofynnol yn ôl y Rheolau Sefydlog, ymgynghoraf eto â'r pwyllgorau. Yn amlwg, gan mai cyllideb ddrafft yw hi, byddaf yn ystyried unrhyw sylwadau a dderbyniaf. Cyfarfûm â llefarwyr cyllid y gwrthbleidiau cyn toriad yr haf ac amlinellais yr adnoddau a fyddai ar gael a'r pwysau mwyaf sy'n dod i'r amlwg. Cyfarfûm â'r arweinwyr gyda'r Prif Weinidog yn ddiweddar.

All the points set out in the opposition's first amendment were raised by the opposition leaders in the week before I laid the budget at the meeting to which I have just referred. I have been surprised by how little relation these points bear to the views expressed earlier by Assembly committees, which have strong opposition representation.

Codwyd yr holl bwyntiau a amlinellir yng ngwelliant cyntaf y gwrthbleidiau gan arweinwyr y gwrthbleidiau yn yr wythnos cyn imi gyflwyno'r gyllideb yn y cyfarfod yr wyf newydd gyfeirio ato. Yr wyf wedi synnu wrth weld cyn lleied o debygrwydd sydd rhwng y pwyntiau hyn a'r sylwadau a gyflwynwyd yn gynharach ym mhwyllgorau'r Cynulliad, sy'n cynnwys cynrychiolaeth gref o'r gwrthbleidiau.

Nevertheless, I have given detailed consideration to the points raised by

Er hynny, yr wyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r pwyntiau a godwyd gan arweinwyr y

opposition leaders. In some cases, I amended my budget plans to take account of the issues; in other cases I satisfied myself that the budget already had adequate provision.

Therefore, I am disappointed that the opposition amendment has been tabled in the same form as presented to me a week previously. It was as if no dialogue had taken place and there had been no point to our discussions and my adjustments to the budget plans. I am accused by the opposition of not being a listening Finance Minister, but it is my experience that opposition parties, so far, have been unwilling to hear anything that proves inconvenient to their case.

We need to be realistic. Our budget is limited and it is not possible to have everything that we may wish for. I strongly emphasise that revisiting previous allocations within the £14 billion would destabilise the spending plans of our partners in the NHS and local authorities. That would not be seen as good government.

Returning to the £74 million of extra spending, the proposed new allocations include £5 million for dentistry, £9 million for local health boards, a further £1.5 million into the revenue support grant for foster care allowances—which, along with £1 million makes £2.5 million altogether—£0.5 million to meet the pressures on public services caused by migration and asylum, £2 million for the development of library services, and £1 million for an imaginative development of the Wales coastal path. Education will receive £23 million in new funding, which will deliver the first stages of the much-needed foundation phase and provide an extra £6 million for special educational needs, which will go into the revenue support grant, £7 million for enhanced pay in further education, and £7 million for further improvements to existing school buildings.

Also, importantly, I am responding to the report of the Committee on Equality of Opportunity by providing £1 million to

gwrthbleidiau. Mewn rhai achosion, yr wyf wedi diwygio cynlluniau'r gyllideb er mwyn rhoi sylw i'r pwyntiau hyn; mewn achosion eraill yr wyf yn sicr bod y gyllideb yn cynnwys darpariaeth ddigonol eisoes.

Yr wyf, felly, yn siomedig bod gwelliant y gwrthbleidiau wedi ei gyflwyno yn yr un ffurf â'r un a gyflwynwyd imi wythnos ynghynt. Yr oedd fel pe baem heb siarad o gwbl ac nad oedd dim pwrpas i'n trafodaethau a'm newidiadau i gynlluniau'r gyllideb. Yr wyf yn cael fy nghyhuddo gan y gwrthbleidiau nad wyf yn Weinidog Cyllid sy'n gwrando, ond mae fy mhrofiad, hyd yma, wedi dangos mai'r gwrthbleidiau sy'n amharod i glywed dim byd a all fod yn anghyfleus i'w hachos.

Rhaid inni fod yn realistig. Mae ein cyllideb yn gyfyngedig ac nid oes modd cael popeth yr hoffem ei gael. Yr wyf am bwysleisio'n gryf y byddai ailedrych ar ddyraniadau blaenorol o fewn y £14 biliwn yn ansefydlogi cynlluniau gwario ein partneriaid yn y GIG a'r awdurdodau lleol. Ni fyddai hynny'n cael ei ystyried yn llywodraethu da.

Gan ddod yn ôl at y gwariant ychwanegol o £74 miliwn, mae'r dyraniadau newydd arfaethedig yn cynnwys £5 miliwn ar gyfer deintyddiaeth, £9 miliwn ar gyfer byrddau iechyd lleol, £1.5 miliwn arall i'r grant cynnal refeniw ar gyfer lwfansau gofal maeth—sydd, ynghyd â £1 filiwn yn rhoi cyfanswm o £2.5 miliwn—£0.5 miliwn i ateb y pwysau ar wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu hachosi gan fewnfudo a lloches, £2 filiwn i ddatblygu gwasanaethau llyfrgell, ac £1 filiwn ar gyfer datblygu llwybr arfordir Cymru mewn modd dychmygus. Bydd addysg yn derbyn £23 miliwn o arian newydd, a fydd yn cyflawni camau cyntaf y cyfnod sylfaen y mae cymaint o angen amdano ac yn darparu £6 miliwn yn ychwanegol ar gyfer anghenion addysgol arbennig, a fydd yn mynd i'r grant cynnal refeniw, £7 miliwn ar gyfer codi cyflogau mewn addysg bellach, a £7 miliwn ar gyfer gwelliannau pellach i adeiladau ysgolion sy'n bod eisoes.

Yr wyf hefyd, ac mae hyn yn bwysig, yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal drwy ddarparu £1 filiwn i wella safleoedd i

improve gypsy sites, in response to the Pat Niner report, £1 million to increase the Disabled Facilities Grant, which is always needed, and another £1 million to extend spending on the Wanless extra care housing. I am also providing £2 million in additional funding for the supporting people programme, and an extra £2 million to the Children and Family Court Advisory and Support Service.

In response to a longstanding request from local government, £15 million is being provided each year from 2007-08 for a rolling programme to comprehensively renew, and make capital improvements to, local roads. This has been widely welcomed by local councils and local communities alike.

Considering the content of the budget and the opposition's first amendment, I will start by being positive and saying that there is common ground between us all. Foster care, as was mentioned, and the fact that we have allowances that are, in some cases, at the lower end is important. I know that Brian will consult on these, but I am happy that we should upgrade this money to £2.5 million each year.

There are also calls for more support for community radio. For example, Jane Davidson has been a vocal supporter of local radio in her constituency. We recognise the valuable part that these projects play in establishing and maintaining community identities, as well as providing training opportunities for our young people. We have supported a number of community radio projects in recent years as part of our work to support communities under Edwina Hart's budget. Therefore, I am pleased to announce today an expansion in this support. I am establishing a community radio fund of £0.5 million over the next five years that will provide support in the early stages of these projects. This additional money will meet core costs until the projects have reached maturity and are sustainable in their own right. I hope that the opposition will welcome that.

sipsiwn, mewn ymateb i adroddiad Pat Niner, £1 filiwn i gynyddu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl, rhywbeth y mae angen amdano bob amser, ac £1 filiwn arall i ymestyn gwariant ar dai gofal ychwanegol Wanless. Yr wyf hefyd yn darparu £2 filiwn o arian ychwanegol ar gyfer y rhaglen cefnogi pobl, a £2 filiwn ychwanegol i'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd.

Mewn ymateb i'r cais a wnaethpwyd ers amser gan lywodraeth leol, bydd £15 miliwn yn cael ei ddarparu bob blwyddyn o 2007-08 ar gyfer rhaglen dreigl i adnewyddu ffyrdd lleol yn llwyr, a gwneud gwelliannau cyfalaf iddynt. Mae hyn wedi cael croeso cynnes gan gynghorau lleol a chymunedau lleol fel ei gilydd.

Ar ôl ystyried cynnwys y gyllideb a gwelliant cyntaf y gwrthbleidiau, yr wyf am ddechrau drwy fod yn gadarnhaol a dweud bod cytundeb rhyngom i gyd. Mae gofal maeth, fel y dywedwyd, a'r ffaith bod gennym lwfansau sydd, mewn rhai achosion, yn isel yn bwysig. Gwn y bydd Brian yn ymgynghori ar y rhain, ond yr wyf yn fodlon y dylem gynyddu'r arian hwn i £2.5 miliwn bob blwyddyn.

Mae galwadau hefyd am fwy o gymorth i radio cymunedol. Er enghraifft, mae Jane Davidson wedi bod yn gefnogol iawn i radio cymunedol yn ei hetholaeth. Yr ydym yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae'r prosiectau hyn yn ei wneud drwy sefydlu a chynnal hunaniaeth y cymunedau, yn ogystal â chynnig cyfleoedd hyfforddi i'n pobl ifanc. Yr ydym wedi cefnogi nifer o brosiectau radio cymunedol yn ystod y blynyddoedd diwethaf fel rhan o'n gwaith i gefnogi cymunedau dan gyllideb Edwina Hart. Yr wyf felly'n falch heddiw o gael cyhoeddi cynlluniau i gynyddu'r gefnogaeth hon. Yr wyf yn sefydlu cronfa radio cymunedol o £0.5 miliwn dros y pum mlynedd nesaf a fydd yn darparu cymorth yn ystod camau cynnar y prosiectau hyn. Bydd yr arian ychwanegol hwn yn mynd tuag at gostau craidd hyd nes bydd y prosiectau wedi aeddfedu ac yn gallu sefyll ar eu traed eu hunain. Gobeithiaf y bydd y gwrthbleidiau'n croesawu hynny.

There is a shared recognition that improvements in waste management are essential for Wales' future. Landfill sites are just one element of the waste strategy for which the budget provides £46 million in 2006-07, rising to £59 million in 2008-09. Progress depends crucially on local authorities collaborating in the procurement of waste facilities and we are establishing a £17-million budget to support collaborative procurement, which is just what the subject committee asked for. In the expenditure sub-group report, local authorities asked for an extra £3 million for landfill tax, to which we have responded.

4.40 p.m.

We also share a commitment—which binds us across the Assembly—to making improvements to the ambulance services and giving our backing to the new management, which is creating confidence in the service. The Minister for Health and Social Services has just announced an extra £16 million investment in the ambulance service and I can assure Members that the health budget includes provision for further expenditure on the ambulance service. Once we know the results of the review later this year—and it is important that we wait to see what the review says—and see the supporting business case, we will be in a better position to release the funds to support a thorough and long-term modernisation of the service.

The NHS has made substantial improvements in reducing the numbers of patients waiting for treatment, and that is a credit to everyone involved. We are on course to meet our 2009 target, which is excellent news. Members will recall that we are funding the extra work required to deliver these improvements from end-of-year flexibility and I intend to continue with this approach until the targets have been achieved. I would also like to continue discussions on how Assembly funding, alongside lottery funding, could better support play facilities for the disabled. That is another point that is highlighted in the amendment.

Mae cydnabyddiaeth gyffredinol bod gwelliannau mewn rheoli gwastraff yn hanfodol i ddyfodol Cymru. Un elfen yn unig o'r strategaeth wastraff yw safleoedd tirlenwi sy'n derbyn £46 miliwn o'r gyllideb yn 2006-07, gan godi i £59 miliwn yn 2008-09. Mae cynnydd yn gwbl ddibynol ar gydweithrediad rhwng awdurdodau lleol wrth gaffael cyfleusterau gwastraff ac yr ydym yn sefydlu cyllideb o £17 miliwn i gefnogi caffael ar y cyd, sef yr union beth y mae'r pwyllgor pwnc wedi gofyn amdano. Yn adroddiad yr is-grŵp gwariant, gofynnodd awdurdodau lleol am £3 miliwn ychwanegol ar gyfer treth tirlenwi, ac yr ydym wedi ymateb i hynny.

Mae gennym hefyd ymrwymiad ar y cyd—rhywbeth sy'n gyffredin rhyngom i gyd ar draws y Cynulliad—i wella'r gwasanaethau ambiwlans a rhoi ein cefnogaeth i'r rheolwyr newydd, sy'n ennyn hyder yn y gwasanaeth. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol newydd gyhoeddi buddsoddiad ychwanegol gwerth £16 miliwn yn y gwasanaeth ambiwlans a gallaf sicrhau'r Aelodau fod y gyllideb iechyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwariant pellach ar y gwasanaeth ambiwlans. Cyn gynted ag y byddwn yn gwybod canlyniadau'r arolwg yn ddiweddarach eleni—ac mae'n bwysig inni aros i weld beth fydd gan yr adolygiad i'w ddweud—a gweld yr achos busnes sy'n gefn i hynny, byddwn mewn gwell sefyllfa i ryddhau'r arian i gefnogi'r gwaith o foderneiddio'r gwasanaeth mewn ffordd drylwyr a hirdymor.

Mae'r GIG wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran gostwng nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth, ac mae hynny'n glod i bawb sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth. Yr ydym yn disgwyl cyrraedd ein targed ar gyfer 2009, sy'n newydd ardderchog. Bydd yr Aelodau'n cofio ein bod yn ariannu'r gwaith ychwanegol sydd ei angen i gyflawni'r gwelliannau hyn o'n hyblygrwydd diwedd blwyddyn, ac yr wyf yn bwriadu parhau i wneud hyn nes inni gyflawni'r targedau. Hoffwn hefyd barhau gyda thrafodaethau ynghylch sut y gellid defnyddio arian y Cynulliad, ochr yn ochr ag arian y loteri, yn well i gefnogi cyfleusterau chwarae i'r anabl.

Mae hwn yn bwynt arall sydd wedi ei gynnwys yn y gwelliant.

The opposition refers to cognitive therapy. I understand that such therapies are relevant to many parts of the health and education services. Members will wish to note that the draft budget includes a substantial increase in expenditure on additional learning needs.

Mae'r gwrthbleidiau'n cyfeirio at therapi gwybyddol. Deallaf fod therapiau o'r fath yn berthnasol i nifer o agweddau ar y gwasanaethau iechyd ac addysg. Bydd yr Aelodau am nodi bod y gyllideb ddrafft yn cynnwys cynnydd sylweddol mewn gwariant ar anghenion dysgu ychwanegol.

I take seriously the need for an effective provision of refuges for women who suffer from domestic violence. Local authorities need to collaborate in making such provision but, where there is evidence that the provision is not effective, I, along with the Minister for Social Justice and Regeneration, will consider the action that needs to be taken.

Yr wyf yn cymryd yr angen am ddarpariaeth effeithiol o ran llochesi i fenywod sy'n dioddef trais yn y cartref o ddifrif. Mae angen i awdurdodau lleol gydweithredu i sicrhau darpariaeth o'r fath ond, os oes tystiolaeth nad yw'r ddarpariaeth yn effeithiol, byddaf fi, ynghyd â'r Gweinidog dros Gyflawnder Cymdeithasol ac Adfywio, yn ystyried cymryd y camau sydd angen eu cymryd.

I think that we can all support the fact that the budget provides over £200 million for transport expenditure. The high priority that we give to transport is shared by all parts of this Assembly. Questions are being asked about the balance of priorities within the transport budget. The Assembly committee is the appropriate forum for that debate to take place. Andrew Davies and I will listen with interest to any recommendations from that committee.

Credaf y gallwn i gyd gefnogi'r ffaith bod y gyllideb yn darparu dros £200 miliwn ar gyfer gwariant ar drafnidiaeth. Mae'r flaenoriaeth uchel yr ydym yn ei rhoi i drafnidiaeth yn rhywbeth y mae pob rhan o'r Cynulliad hwn yn cyd-fynd ag ef. Gofynnir cwestiynau am y cydbwysedd rhwng blaenoriaethau yn y gyllideb ar gyfer trafnidiaeth. Pwyllgor y Cynulliad yw'r fforwm priodol i gynnal y ddaidl honno. Bydd Andrew Davies a minnau'n gwrandio gyda diddordeb ar unrhyw argymhellion a wneir gan y pwyllgor hwnnw.

We all want to see a successful Welsh higher education sector meeting the needs of Wales. We are continuing to analyse comparative funding of higher education between Wales and other countries and we will make that information available to Assembly Members as it becomes available. Higher Education Wales issued a press release yesterday calling on us to make changes to the budget. It refers to comparative levels of funding, but at a baseline of 2003-04. That was three years ago. I find it difficult to plan future allocations of funding when you have figures that have come from three years ago, so I do not consider that to be current and compelling evidence of need, in terms of my ability to plan. The figures do not examine the position after the recent changes in student support in Wales or the extra funding that we all—and we all did this as an

Yr ydym i gyd am weld sector addysg uwch llwyddiannus yng Nghymru sy'n diwallu anghenion Cymru. Yr ydym yn parhau i ddadansoddi cyllido cymharol i addysg uwch rhwng Cymru a gwledydd eraill a bydd y wybodaeth honno ar gael i Aelodau'r Cynulliad cyn gynted â phosibl. Cyhoeddodd Addysg Uwch Cymru ddatganiad i'r wasg ddoe yn galw arnom i gyflwyno newidiadau i'r gyllideb. Mae'n cyfeirio at lefelau cymharol o ran cyllido, ond gwneir hynny gyda golwg ar waelodlin 2003-04. Yr oedd hynny dair blynedd yn ôl. Yr wyf yn ei chael yn anodd cynllunio dyraniadau ar gyfer y dyfodol pan fo'r ffigurau'n rhai tair blynedd yn ôl, felly nid wyf o'r farn bod hynny'n dystiolaeth gyfredol nac argyhoeddiadol o angen, o ran fy ngallu i gynllunio. Nid yw'r ffigurau'n ystyried y sefyllfa ar ôl y newidiadau diweddar i gymorth i fyfyrwyr

Assembly—agreed to add to the budget last year or the provision of £10 million for the application of the new fee regime for part-time students. Neither do the headlines refer to the regional comparisons across the United Kingdom, which indicate that, even in 2003-04, Welsh higher education might have been receiving funding at least equivalent to comparable regions outside the south-east of England. Therefore, we need that further work done. We will consider—and I promise to share this—information so that we can find a case to get better comparability.

We all agree that Welsh public services should be ever-more efficient. I have heard no opposition to my expectation that the Welsh public service should make at least a 1 per cent efficiency gain each year. I believe that we also all agree that it is wrong for a local education authority to impose budget cuts on schools in the name of efficiency if it has not done the work with schools to make genuine improvements in organisation.

We have good examples of schools working with local authorities on collaborative procurement, and that is a genuine efficiency gain. Local authorities taking action to remove surplus places in schools is an efficiency gain. However, we cannot allow a lack of transparency to confuse the issue. I, in conjunction with the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills, will write to every local authority, school and local school budget forum to make it even clearer that school budgets must not be adjusted for efficiency unless—and I mean ‘unless’—there is evidence of the specific actions that the local authorities will take with, and the support that they will give to, the schools to give real efficiency benefits.

I believe that we can all agree on the

yng Nghymru na'r arian ychwanegol y cytunasom arno—a gwnaeth pawb ohonom hyn fel Cynulliad—i'w ychwanegu at y gyllideb y llynedd na'r ddarpariaeth o £10 miliwn i gyflwyno'r gyfundrefn ffioedd newydd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser. Nid yw'r penawdau ychwaith yn cyfeirio at y cymariaethau rhanbarthol ar draws y Deyrnas Unedig, sy'n dangos, hyd yn oed yn 2003-04, y gallai addysg uwch yng Nghymru fod yn derbyn arian a oedd o leiaf yn cyfateb i'r hyn yr oedd rhanbarthau tebyg y tu allan i ddeddwyrain Lloegr yn ei gael. Felly, mae angen inni wneud y gwaith pellach hwnnw. Byddwn yn ystyried gwybodaeth—ac yr wyf yn addo rhannu hyn—er mwyn inni allu canfod dadl dros gael gwell cymharedd.

Yr ydym i gyd yn cytuno y dylai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fod yn fwy effeithlon. Nid wyf wedi clywed dim gwrthwynebiad i'r hyn yr wyf yn ei ddisgwyl o ran y dylai'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wneud arbedion effeithlonrwydd sydd o leiaf 1 y cant bob blwyddyn. Credaf ein bod i gyd yn cytuno hefyd ei bod yn anghywir i awdurdod addysg lleol orfodi toriadau yng nghyllidebau ysgolion er mwyn effeithlonrwydd os nad ydynt wedi gweithio gydag ysgolion i wneud gwelliannau gwirioneddol yn y ffordd y maent yn cael eu rhedeg.

Mae gennym enghreifftiau da o ysgolion sy'n gweithio gydag awdurdodau lleol ar gaffael cydweithredol, ac mae hynny'n arbediad effeithlonrwydd gwirioneddol. Mae awdurdodau lleol sy'n cymryd camau i gael gwared ar leoedd dros ben mewn ysgolion yn enghraifft o arbediad effeithlonrwydd. Fodd bynnag, ni allwn ganiatáu i ddiffyg tryloywder ddrysu'r mater. Ar y cyd â'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ysgrifennaf at bob awdurdod lleol, pob ysgol a phob fforwm cyllideb ysgolion lleol i'w gwneud yn gliriach byth na ddylid addasu cyllidebau ysgolion er mwyn effeithlonrwydd oni bai—ac yr wyf yn golygu 'oni bai'—fod tystiolaeth o'r camau penodol a gymer awdurdodau lleol gyda'r ysgolion, a'r cymorth a roddant iddynt, i sicrhau manteision gwirioneddol o ran effeithlonrwydd.

Credaf y gallwn i gyd gytuno ar amcanion y

objectives of the rural development plan and the Government's intention to invest £750 million in those objectives, which, by the way, attracts over £200 million in EU funding. We must not act to put this investment at risk. The proposed budget for Tir Mynydd reflects those objectives and seeks to ensure that there is no risk to future European funding.

The independent mid-term evaluation of the current rural development plan stated:

'a disproportionate share of resources are absorbed by Tir Mynydd'.

It recommended that:

'the total budget of Tir Mynydd be reduced in favour of other schemes'.

Those are not my words, but those of the mid-term evaluation. This scheme does not give good value for money and it rewards upland farmers with higher levels of income than their lowland counterparts.

If Tir Mynydd expenditure were increased, the technicalities of European funding would require an equivalent decrease in other schemes, such as Tir Gofal and Tir Cynnal. That is a consequence of the regulations in which we have to prepare the scheme. We can continue talking about this, but Carwyn will discuss it in committee on Thursday, so in terms of any differing views—and I heard some dissenting voices out there—let us use the committee as the right place in which to explore these details and see where we can get to. We can then continue with this discussion.

The rural rate relief scheme has already been extended for three years beyond the completion of the rural recovery plan. That is a long transition by anyone's standard. Therefore, I am not persuaded that more money should be used to further extend this transition.

The alternative small business and post office rate relief scheme applied throughout Wales has been widely welcomed and we should all

cynllun datblygu gwledig a bwriad y Llywodraeth i fuddsoddi £750 miliwn yn yr amcanion hynny, sydd, gyda llaw, yn denu dros £200 miliwn o arian gan yr UE. Rhaid inni beidio â gwneud dim i beryglu'r buddsoddiad hwnnw. Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer Tir Mynydd yn adlewyrchu'r amcanion hynny ac yn ceisio sicrhau nad oes dim perygl i arian o Ewrop yn y dyfodol.

Nododd y gwerthusiad canol tymor annibynnol o'r cynllun datblygu gwledig cyfredol fod:

cyfran anghymesur o adnoddau'n cael ei defnyddio gan Tir Mynydd.

Argymhellai y dylid:

lleihau cyfanswm cyllideb Tir Mynydd er lles cynlluniau eraill.

Nid fy ngeiriau i yw'r rheini, ond geiriau'r gwerthusiad canol tymor. Nid yw'r cynllun hwn yn rhoi gwerth da am arian ac mae'n gwobrwyo ffermwyr mynydd sydd ag incwm uwch na'u cymheiriaid ar lawr gwlad.

Pe bai'r gwariant ar Tir Mynydd yn cynyddu, byddai'r gofynion technegol sydd ynglŷn ag arian Ewropeaidd yn mynnu gostyngiad cyfatebol mewn cynlluniau eraill, fel Tir Gofal a Thir Cynnal. Mae hynny'n ganlyniad i'r rheoliadau y mae'n rhaid inni eu dilyn wrth baratoi'r cynllun. Gallwn barhau i siarad am hyn, ond bydd Carwyn yn ei drafod yn y pwyllgor ddydd Iau, felly o ran unrhyw wahaniaeth barn—ac fe glywais rai yma'n anghydweld—gadewch inni ddefnyddio'r pwyllgor yn lle priodol i archwilio'r manylion hyn a gweld ble y gallwn gyrraedd. Yna gallwn barhau â'r drafodaeth hon.

Cafodd y cynllun rhyddhad ardrethi gwledig ei ymestyn eisoes am dair blynedd wedi cwblhau'r cynllun adfer cefn gwlad. Mae hynny'n gyfnod pontio hir yn ôl unrhyw ffon fesur. Nid wyf yn argyhoeddedig, felly, y dylid defnyddio rhagor o arian i ymestyn y cyfnod pontio hwn ymhellach.

Cafodd y cynllun amgen i gyflwyno rhyddhad ardrethi i swyddfeydd post a busnesau bach ledled Cymru ei groesawu'n

now wait for the completion of the consultation that is currently taking place on the proposed new scheme.

There is widespread support across the Assembly for investment in improved rail services. In the last year, our support for rail has led to the new Arriva fleet of 175-class trains on the north-south train service and the redeployment of the 158-class trains to other services in Wales. That has made a real improvement.

I am delighted to say that the Welsh Assembly Government opened the Vale of Glamorgan line last year. We are investing £29 million in the Ebbw Vale passenger line, and that reopened line will begin carrying passengers in the summer of 2007; that is a wonderful achievement. The draft budget makes provision of £1.5 million in revenue support for its operations.

We also support feasibility studies for further development of the rail network in Wales. I was the Minister with responsibility for transport for many years, prior to Andrew Davies taking over the role, and, outside Wales, people are enormously envious of what we have achieved in terms of developing and taking Wales forward. We should be proud of what we have done so far.

I do not regard this draft budget as a completed budgetary exercise. There will be more information to take account of, along with further committee scrutiny and further discussion within and across parties. I had hoped that amendment 1 could have been withdrawn in the light of that, so that our further discussions are not fettered by fixed and, in my view, under-informed decisions. The other amendments should also be rejected. There is nothing more to say on match funding, the Barnett formula or on the transparency of the financial process that has not already been said. As for the amendment on housing, our record is clear: this budget makes provision for new housing of over £90 million and almost £250 million for improving housing.

eang a dylem oll aros bellach nes cwblheir yr ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ynghylch y cynllun newydd arfaethedig.

Mae cefnogaeth eang ar draws y Cynulliad i fuddsoddi mewn gwell gwasanaethau rheilffyrdd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein cymorth i'r rheilffyrdd wedi arwain at y fflyd newydd o drenau dosbarth 175 sydd gan Arriva ar y gwasanaeth trên gogledd-de ac adleoli'r trenau dosbarth 158 i wasanaethau eraill yng Nghymru. Mae hynny wedi creu gwir welliant.

Mae'n bleser mawr gennyf ddweud bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi agor rheilffordd Bro Morgannwg y llynedd. Yr ydym yn buddsoddi £29 miliwn yn rheilffordd Glynebwy i deithwyr, a phan fydd y rheilffordd honno'n ailagor bydd yn dechrau cludo teithwyr yn haf 2007; mae hynny'n llwyddiant arbennig. Mae'r gyllideb ddrafft yn darparu £1.5 miliwn o gymorth refeniw ar gyfer ei gweithrediadau.

Yr ydym hefyd yn rhoi cymorth i astudiaethau dichonoldeb ar gyfer datblygu'r rhwydwaith rheilffyrdd ymhellach yng Nghymru. Myfi oedd y Gweinidog oedd â chyfrifoldeb am drafnidiaeth am lawer blwyddyn, cyn i Andrew Davies gymryd y llyw, a'r tu allan i Gymru, mae pobl yn hynod genfigennus o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni o ran datblygu a hybu Cymru. Dylem fod yn falch o'r hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yma.

I mi, nid yw'r gyllideb ddrafft hon yn ymarferiad cyllidebol sydd wedi'i gwblhau. Bydd rhagor o wybodaeth i'w hystyried, ynghyd â chraffu pellach gan y pwyllgor a rhagor o drafodaeth o fewn y pleidiau a rhyngddynt. Yr oeddwn wedi gobeithio y gellid bod wedi tynnu gwelliant 1 yn ôl yng ngoleuni hynny, fel nad yw ein trafodaethau pellach yn cael eu rhwystro gan benderfyniadau diwyro ac, yn fy marn i, rhai nad oes digon o wybodaeth yn sail iddynt. Dylid gwrthod y gwelliannau eraill hefyd. Nid oes dim rhagor i'w ddweud am arian cyfatebol, fformiwla Barnett na thryloywder y broses ariannol nad yw wedi'i ddweud eisoes. O ran y gwelliant ynghylch tai, mae ein record yn glir: mae'r gyllideb hon yn darparu dros £90 miliwn ar gyfer tai newydd a bron £250 miliwn ar gyfer gwella tai.

This budget completes the programme that we set out in 'Wales: A Better Country', which will continue to give Wales a dynamic economy, to provide the best opportunities for our young people to flourish and to provide safe, secure and sustainable communities for all. We have delivered on the commitments that we set before the people of Wales and have respected the sense of trust that they invested in us. I commend this budget for your consideration.

Ieuan Wyn Jones: Cynigiau welliant 1 yn fy enw i ac enwau Nick Bourne, Michael German, John Marek a Trish Law. Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwrthod nodi cyllideb ddrfft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol 2007-08, 2008-09 a 2009-10 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006 gan y Gweinidog Cyllid, gan ei bod yn methu â gwneud darpariaeth ddigonol, neu'n methu â gwneud unrhyw ddarpariaeth o gwbl, ar gyfer y materion a ganlyn:

a) swm cyfwerth â'r arbedion effeithlonrwydd o 1 y cant o holl gyllidebau dirprwyedig ysgolion y dylid ei ddychwelyd i'r ysgolion;

b) adfer cyllideb Tir Mynydd i'r lefel a bennwyd yn 2005-06;

c) cau'r bwlch cyllido mewn addysg uwch;

d) cynnydd yn y gyllideb i'w dyrannu ar gyfer grantiau trafndiaeth;

e) cynnydd yn y gyllideb i'w dyrannu ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans;

f) cynnydd yn y lwfansau a delir i ofalwyr maeth;

g) cymorth ariannol i orsafoedd radio cymunedol;

h) cymorth ariannol i awdurdodau lleol ar gyfer goresgyn yr anawsterau y maent yn eu hwynebu o ran:

i. safleoedd tirlenwi;

Mae'r gyllideb hon yn cwblhau'r rhaglen a gyflwynwyd gennym yn 'Cymru: Gwlad Well', a fydd yn parhau i roi economi ddynamig i Gymru, rhoi'r cyfleoedd gorau i'n pobl ifanc ffynnu a darparu cymunedau diogel a chynaliadwy i bawb. Yr ydym wedi cyflawni'r ymrwymadau a osodwyd gennym gerbron pobl Cymru ac wedi parchu'r ymdeimlad o ymddiriedaeth a oedd ganddynt ynom. Yr wyf yn cymeradwyo'r gyllideb hon ichi ei hystyried.

Ieuan Wyn Jones: I propose amendment 1 in my name and the names of Nick Bourne, Michael German, John Marek and Trish Law. Delete all and replace with:

the National Assembly for Wales declines to take note of the draft budget for the Welsh Assembly Government for the financial years 2007-08, 2008-09 and 2009-10 laid in the Table Office on 17 October 2006 by the Finance Minister, as it fails to make either adequate provision, or any at all, for the following matters:

a) a sum equivalent to the 1 per cent efficiency savings of all schools' delegated budgets which should be returned to the schools;

b) the budget of Tir Mynydd to be restored to the level set in 2005-06;

c) closing the higher education funding gap;

d) an increase in the budget allocated for transport grants;

e) an increase in the budget allocated to the ambulance service;

f) an increase in the allowances paid to foster carers;

g) financial assistance to community radio stations;

h) financial assistance to local authorities to overcome the difficulties they face over:

i. landfill sites;

- ii. costau cyfalaf gwella cartrefi gofal;* *ii. the capital costs of improving care homes;*
- i) cymorth trosiannol i awdurdodau lleol yn sgîl diddymu'r rhyddhad ardrethi gwledig;* *i) transitional relief to local authorities on the withdrawal of rural rate relief;*
- j) cyflogi therapyddion ymddygiad gwybyddol;* *j) the employment of cognitive behaviour therapists;*
- k) cymorth ariannol i ddarparu mannau chwarae ar gyfer plant anabl;* *k) financial assistance to provide for play areas for disabled children;*
- l) cymorth ariannol i greu llochesi ar gyfer menywod sy'n dioddef trais yn y cartref yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hynny lle nad oes lloches o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd;* *l) financial assistance to establish refuges for women who suffer domestic violence in those local authority areas where none currently exist;*
- m) cymorth ariannol pellach ar gyfer gwella seilwaith y rheilffyrdd; ac* *m) further financial support for the improvement of rail infrastructure; and*
- yn unol â hynny, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfarwyddo'r Gweinidog Cyllid i gyflwyno cyllideb ddrafft ddiwygiedig sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r materion a nodir yn (a) i (m) uchod.* *accordingly, the National Assembly for Wales instructs the Finance Minister to lay a revised draft budget to take full account of the matters set out in (a) to (m) above.*

Mae ychydig o ymdeimlad o déjà vu yn y ddadl hon eleni, ond nid oedd rhaid i hynny fod. Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd y Gweinidog. Yr wyf yn cydnabod ei bod wedi treulio llawer o'i hamser yn trafod gwelliant y gwrthbleidiau, a hoffwn ymateb i hynny, ond, yn gyntaf, gwrthodaf y syniad bod y Llywodraeth wedi bod yn agored ynghylch ei thrafodaethau ar y gyllideb. Bu cytundeb clir—yr wyf fi yn ei gofio ac mae eraill yn ei gofio—ar ôl ein trafodaethau y llynedd, ynghylch y ffaith na ddylem gyrraedd sefyllfa lle mae'r drafodaeth yn digwydd mor agos at gyhoeddi'r gyllideb ddrafft. Hoffwn ddweud wrth y Gweinidog, pe bai'r Prif Weinidog a hithau wedi ein gwahodd ni i drafodaethau wythnosau ynghynt, mae'n ddigon posibl y byddai'r drafft heddiw yn ddrafft y byddai'r mwyafrif wedi pleidleisio o'i blaid. Bu'n rhaid i ni gynnig y gwelliant hwn oherwydd amharodrwydd y Llywodraeth i gyfarfod â ni ynghynt.

4.50 p.m.

O ran pwynt cyntaf y Gweinidog ar y gwelliant, ni a ofynnodd am gyfarfod eleni; nid y Llywodraeth a gynigiodd hynny. Ail bwynt y Gweinidog oedd nad yw'r gwelliant

There is a sense of déjà vu in this debate this year, but that did not have to be the case. I listened carefully to what the Minister has said. I acknowledge that she spent a great deal of time discussing the opposition amendment, and I want to respond to that, but, first, I reject the idea that the Government has been open in its discussions on the budget. There was clear agreement—I recall this, and others recall it—following our discussions last year, on the fact that we should not get into a situation where our discussions take place so close to the publication of the draft budget. Minister, if you and the First Minister had invited us to discussions weeks earlier, it is quite possible that the draft today would be a draft that the majority would have voted for. We have been forced to propose this amendment because of the Government's unwillingness to meet with us earlier.

On the Minister's first point on the amendment, we asked for a meeting this year; it was not the Government that offered it. The Minister's second point was that the

yn cydnabod y trafodaethau sydd wedi digwydd rhyngom eisoes. Mae'n amlwg nad yw'r Gweinidog wedi darllen y gwelliant. Fe'i cyfeiriaf yn benodol—a dyfynnaf o'r Gymraeg—at y pwynt sy'n dweud bod cyllideb y Llywodraeth wedi:

'methu â gwneud darpariaeth ddigonol'.

Ni ddywed nad yw'r Llywodraeth wedi ymateb mewn rhai mannau; mae'n dweud nad yw hynny'n ddigonol. Dyna pam mae'r gwelliant hwn yn aros. Egluraf mewn eiliad pam nad yw'n ddigonol mewn meysydd eraill. Yr wyf yn cydnabod bod y Gweinidog wedi symud ymlaen heddiw a bod cyhoeddiadau wedi cael eu gwneud heddiw na fyddent wedi cael eu gwneud oni bai fod y gwelliant hwn wedi cael ei gynnig. Mae hynny hefyd yn amlwg. Felly, hoffwn wneud y pwynt fod y Llywodraeth wedi symud rhywfaint, ond nid yw wedi symud digon. Mae meysydd eraill—a hoffwn gyfeirio at ddau neu dri ohonynt—lle nad oes darpariaeth o gwbl ar gyfer yr hyn yr ydym wedi gofyn amdano; hoffwn drafod hynny.

Bu i'r Gweinidog ddweud ei bod am fod yn bositif. Hoffwn ymateb yn bositif i'r hyn y mae wedi ei gytuno heddiw a'r sylwadau a wnaeth. Ni allwn wneud addewidion ynglŷn â'u derbyn nes ein bod wedi cael cyfle i edrych arnynt yn ofalus. Yr ydym yn croesawu'r hyn a ddywedodd ynghylch gofalwyr maeth, gorsafoddd radio cymunedol, cyfalaf ar gyfer gwella cartrefi gofal, a chyflogi therapyddion ymddygiad gwybyddol, a'i sylwadau ar safleoedd tirlenwi. Felly, derbyniwn ei bod wedi gwneud sylwadau a allai awgrymu bod symudiad wedi digwydd. Gwnaeth sylwadau positif iawn hefyd. Croesawn yr hyn a ddywedodd ynghylch creu llochesi ar gyfer menywod sy'n dioddef trais yn y cartref. Mae'r rheini i gyd yn bositif. Fodd bynnag, mae nifer o faterion eraill lle yr oedd y Gweinidog wedi gwrthod symud un fodfedd, a hoffwn drafod y rheini yn awr.

Yn gyntaf, hoffwn gyfeirio at gyllidebau ysgolion. Nid wyf—a hoffwn bwysleisio hyn—yn deall safbwynt y Llywodraeth ar gyllidebau ysgolion. Mae pawb yr wyf wedi siarad â hwy—ac ni fedraf ddweud fy mod wedi siarad â phob awdurdod yng

amendment does not acknowledge the discussions that have already taken place between us. It is obvious that the Minister has not read the amendment. I refer her specifically—and I quote the Welsh—to the point that states that the Government budget:

'fails to make...adequate provision'.

It does not say that the Government has not responded in some areas; it states that that is not adequate. That is why this amendment stands. I will explain in a second why it is inadequate in other areas. I acknowledge that the Minister has moved on today and that announcements have been made today that would not have been made had this amendment not been proposed. That is also apparent. Therefore, I acknowledge that the Government has moved somewhat, but it has not moved enough. There are other areas—and I would like to refer to two or three of them—where there is no provision whatsoever for what we have requested; I want to discuss that.

The Minister said that she wanted to be positive. I would like to respond positively to what she has agreed today and the comments that she made. We cannot make pledges about accepting them until we have had an opportunity to look at them carefully. We welcome what she said about foster carers, community radio stations, capital for improving care homes, and the employment of cognitive behaviour therapists, and her comments on landfill sites. Therefore, we accept that she has made comments that suggest that there has been movement. She also made some very positive comments. We welcome what she said about refuges for women suffering domestic violence. Those were all positives. However, there are a number of other areas where the Minister has refused to move an inch, and I would like to discuss those now.

First, I would like to refer to school budgets. I do not understand—and I emphasise this—the Government's viewpoint on school budgets. Everyone whom I have spoken to—and I cannot say that I have spoken to every authority in Wales—has responded by saying

Nghymru—wedi ymateb drwy ddweud bod y cwtogiadau o ran arbedion sy'n digwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn golygu erbyn hyn mai'r unig ffordd y gall awdurdodau lleol dorri yn ôl yw drwy dorri yn ôl ar gyllidebau ysgolion yn uniongyrchol. Mae hynny'n digwydd yn fy etholaeth i; mae prifathrawon wedi dweud wrthyf mai dyna mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ei wneud. Mae'r awdurdod lleol, sy'n awdurdod bach iawn, wedi gwneud arbedion o ran ei wasanaethau canolog a'i wasanaethau cefn. Ni all wneud mwy o arbedion. Heriaf y Gweinidog a'r Prif Weinidog i ddweud nad yw hynny'n digwydd mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Beth fydd y canlyniad? Byddwn yn colli athrawon. Yna, bydd niferoedd y plant mewn dosbarthiadau yn cynyddu a bydd addysg ein plant yn dioddef. Nid bwriad arbedion yw sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen ac addysg plant yn dioddef. Felly, yr ydym am ddadlau'r achos o blaid addysg ein plant nes bydd y Llywodraeth yn fodlon derbyn grym y ddadl.

Bu i'r Gweinidog ddweud nad yw'n fodlon ailystyried penderfyniad y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar Tir Mynydd. Mae cwtogiad o £12 miliwn yn y gyllideb eleni, a £2 filiwn yn ychwanegol y flwyddyn nesaf. Gobeithiaf, Lywydd, os bydd Elin Jones yn dal eich llygaid, y caiff gyfle i sôn yn fwy am hyn yn nes ymlaen.

Gwnaf un pwynt cyffredinol, sef ein bod yn sôn am daliadau i ffermwyr sy'n amaethu yn rhai o'r ardaloedd mynyddig mwyaf anodd yng Nghymru, ac mae eu hincwm eisoes yn hynod o isel. Nid yn unig maent yn cael eu hystyried fel ardaloedd anodd yng Nghymru, ond maent wedi eu diffinio fel ardaloedd ffiniol yn Ewrop.

The European Union recognises that farmers in less favoured areas need special help. I do not understand why the Government does not recognise that. I fail to understand how the Minister can interpret the European Court of Auditors report in a different way to how his colleagues in England, Scotland and Northern Ireland have interpreted it. The Department for Environment, Food and Rural Affairs website says that the European Commission intends to publish a paper with

that the efficiency savings that are taking place year on year mean that, now, the only way that local authorities can cut back is to directly cut back on school budgets. That is happening in my constituency; headteachers have told me that that is what the local authority intends to do. The local authority, which is a very small local authority, has made savings in central services and back-office functions. It cannot make any more savings. I challenge the Minister and the First Minister to say that that is not happening in other local authorities in Wales. What will happen as a result? We will lose teachers. Subsequently, school class sizes will increase and our children's education will suffer. The aim of savings is not for front-line services and children's education to suffer. Therefore, we will be arguing the case for our children's education until the Government is willing to accept the strength of that argument.

The Minister said that she is not willing to reconsider the Minister for Environment, Planning and Countryside's decision on Tir Mynydd. There has been a £12 million cut in the budget this year, and there is an additional £2 million cut next year. I hope, Presiding Officer, if Elin Jones catches your eye, that she will have an opportunity to expand upon this later on.

I will make one general point, which is that we are talking about payments to farmers who farm in some of the most difficult mountainous areas in Wales, and their incomes are already extremely low. Not only are these areas considered difficult in Wales, but they have been defined as peripheral areas in Europe.

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn cydnabod bod angen cymorth arbennig ar ffermwyr mewn ardaloedd llai ffafriol. Nid wyf yn deall pam nad yw'r Llywodraeth yn cydnabod hynny. Ni allaf ddeall sut y gall y Gweinidog ddehongli adroddiad Llys Archwilwyr Ewrop yn wahanol i'r ffordd y mae ei gyd-aelodau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi'i ddehongli. Mae gwefan yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn dweud bod y Comisiwn Ewropeaidd yn

new criteria in 2008 for adoption by 2010. In the meantime, the existing provisions in the current rural development plan regulations relating to LFAs remain in force. Therefore, there is no reason whatsoever under European rules why Tir Mynydd should be cut. That is not happening in terms of social and economic payments in England, Scotland or Northern Ireland. One is driven to the conclusion that it is not being done because of European regulations, but because of the way in which the Labour Party treats rural Wales. That is the real reason why Tir Mynydd is being cut.

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): I will make the point that farmers in upland Wales make four times as much profit as those in lowland Wales. It is a matter of fact. I know that you all want to save your seats and that you are scrabbling for farmers' votes, but that is the fact.

Ieuan Wyn Jones: It is not that we want to keep our seats; this is about Carwyn Jones wanting to lead the Labour Party. That is the reason why he is doing this.

There is a fundamental disagreement between us and the Finance Minister on the issue of Tir Mynydd because of the way in which the Government has presented its report. I say to her that I am perfectly happy to share the information that we have received from sources in the European Commission if she is prepared to reveal the Government's sources.

I will briefly refer to the issue of transport. I do not understand why the Minister is so sanguine about the transport situation in Wales. It is a mess because this Government has not invested properly in public transport; that is the reality. I will make it clear that what we want is a proper strategy for public transport in Wales. We want local authorities to be given the flexibility of working with the Assembly Government to develop public transport in Wales. What country worth its salt does not have a proper road between its regions and its capital city? Let us face the issue; we need more leadership from this Government on transport.

bwriadu cyhoeddi papur â meini prawf newydd yn 2008 i'w mabwysiadu erbyn 2010. Yn y cyfamser, mae'r darpariaethau presennol yn rheoliadau'r cynllun datblygu gwledig cyfredol mewn perthynas ag ALIFF yn parhau mewn grym. Nid oes dim rheswm o gwbl felly o dan reolau Ewropeaidd pam y dylid cwtogi Tir Mynydd. Nid yw hynny'n digwydd o ran taliadau cymdeithasol ac economaidd yn Lloegr, yr Alban na Gogledd Iwerddon. Mae rhywun yn dod i'r casgliad nad yw'n cael ei wneud oherwydd rheoliadau Ewropeaidd, ond oherwydd y ffordd y mae'r Blaid Lafur yn trin cefn gwlad Cymru. Dyna'r gwir reswm pam mae Tir Mynydd yn cael ei gwtogi.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Nodaf fod ffermwyr ar ucheldir Cymru yn gwneud cymaint bedair gwaith o elw â'r rhai ar lawr gwlad Cymru. Mae hynny'n ffaith. Gwn eich bod oll am arbed eich seddi a'ch bod yn brwydro am bleidleisiau ffermwyr, ond dyna yw'r gwirionedd.

Ieuan Wyn Jones: Nid am fod arnom eisiau cadw ein seddi yr ydym yn gwneud hyn; mae hyn yn ymwneud â bod ar Carwyn Jones eisiau arwain y Blaid Lafur. Dyna'r rheswm pam mae'n gwneud hyn.

Mae anghytundeb sylfaenol rhyngom a'r Gweinidog Cyllid ynghylch Tir Mynydd oherwydd y ffordd y mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno'i hadroddiad. Dywedaf wrthi fy mod yn berffaith fodlon rhannu'r wybodaeth a gawsom gan ffynonellau yn y Comisiwn Ewropeaidd os yw hithau'n fodlon datgelu ffynonellau'r Llywodraeth.

Cyfeiriaf yn fyr at fater trafndiaeth. Nid wyf yn deall pam mae'r Gweinidog mor hyderus ynghylch y sefyllfa o ran trafndiaeth yng Nghymru. Mae'n llanast gan nad yw'r Llywodraeth hon wedi buddsoddi'n briodol mewn trafndiaeth gyhoeddus; dyna'r gwirionedd. Dywedaf yn glir mai'r hyn sydd arnom ei eisiau yw strategaeth briodol ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Mae arnom eisiau i awdurdodau lleol gael yr hyblygrwydd i weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Pa wlad sy'n werth ei halen sydd heb ffordd briodol yn cysylltu ei rhanbarthau a'i phrifddinas? Gadewch inni

wynebu'r hyn sydd dan sylw; mae angen mwy o arweiniad arnom gan y Llywodraeth hon ynghylch trafnidiaeth.

I have to finish my contribution, but I say to the Government that we recognise that the Minister has made some concessions today, and we accept that, but there are other areas on which the Minister has not moved an inch. We will not be withdrawing the amendment on that basis, as she has requested, because we will, hopefully, be able to enter into meaningful discussions with her. She will accept that we have acted entirely responsibly in the way that we put forward our amendment, because it is our intention that this budget should reflect the priorities of the people of Wales, as well as those of the Assembly Government.

Nick Bourne: I propose the following amendments in the name of Lisa Francis. Amendment 2: Add a new point at the end of the motion:

expresses concern that the First Minister and the Finance Minister failed to consult Assembly Members sufficiently in advance of the draft budget to accommodate opposition concerns in that budget.

I propose amendment 3. Add a new point at the end of the motion:

expresses regret that no provision is made in the budgets for the financial years 2007 to 2010 in relation to Treasury funds over and above Barnett for match-funding purposes for European programmes.

I will start by dealing with the issue of the amendment, which the Finance Minister raised during her contribution. It has been tabled for one simple reason: despite the undertaking last year from the First Minister and the Finance Minister to involve us at an early stage in this budget process and to try to avoid a repeat of last year's situation, that did not happen. Despite the fact that we were clearly available, and had made ourselves available, the only meeting that took place was a few days before the draft budget was tabled.

Mae'n rhaid imi orffen fy nghyfraniad, ond dywedaf wrth y Llywodraeth ein bod yn cydnabod bod y Gweinidog wedi ildio rhywfaint heddiw, a'n bod yn derbyn hynny, ond bod meysydd eraill lle nad yw'r Gweinidog wedi ildio modfedd. Ni fyddwn yn tynnu'r gwelliant hwn yn ôl ar sail hynny, fel y gofynnodd, oherwydd gobeithio y gallwn gael trafodaethau ystyrlon gyda hi. Bydd hi'n derbyn ein bod wedi ymddwyn yn hollol gyfrifol yn y ffordd y cyflwynasom ein gwelliant, oherwydd bwriadwn i'r gyllideb hon adlewyrchu blaenoriaethau pobl Cymru, yn ogystal â rhai Llywodraeth y Cynulliad.

Nick Bourne: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Lisa Francis. Gwelliant 2: Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn mynegi pryder bod y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyllid wedi methu ag ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad yn ddigon cynnar yn y broses o lunio'r gyllideb ddrafft, a hynny er mwyn rhoi sylw i bryderon y gwrthbleidiau yn y gyllideb honno.

Cynigiau welliant 3. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn gresynu nad oes unrhyw ddarpariaeth yn y cyllidebau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2007 i 2010 o ran arian gan y Trysorlys yn ychwanegol at Barnett, a hynny at ddibenion arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd.

Dechreuaf drwy ddelio â mater y gwelliant, a godwyd gan y Gweinidog Cyllid yn ystod ei chyfraniad. Mae wedi'i gyflwyno am un rheswm syml: er gwaethaf yr ymrwymiad y llynedd gan y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyllid i'n cynnwys yn gynnar yn y broses hon o lunio'r gyllideb a cheisio osgoi ailadrodd sefyllfa'r llynedd, ni ddigwyddodd hynny. Er ein bod yn amlwg ar gael, ac wedi sicrhau ein bod ar gael, yr unig gyfarfod a ddigwyddodd oedd hwnnw ychydig ddyddiau cyn cyflwyno'r gyllideb ddrafft.

5.00 p.m.

The Minister said that she made changes to the budget, and that may or may not be true; we did not see the draft budget, so we cannot know whether that was the case. If it was the case, I welcome it, but it was late in the day if those alterations were made. Had the meetings started much earlier, we could have avoided what happened last year, with that cliff-hanger business of having all those meetings, which will, hopefully, happen now so that you can get your final budget. The process worked last year. Similar messages were given out last year by the Minister and the Labour Party, that all these demands were unreasonable and that we were putting the whole process in jeopardy. There was a constructive discussion, and I hope that the same thing happens again. However, let it be clear why the draft budget is up for discussion today, together with amendment 1: it is because the process did not start early enough. The ball was in the Government's court, and it did not pick it up when it should have done.

I will now deal with some of the items that the Finance Minister has dealt with. It is clear that she has moved more today, and I acknowledge that. I welcome what she said about foster carers. I also welcome what she said about community radio. If Jane Davidson was such an effective champion for it, it is surprising that it was not included in the budget in the first place—and she has probably nipped upstairs to write congratulation notes to the opposition parties. However, I welcome what the Minister has said about community radio.

David Davies: The Minister was not described as a 'champion', merely as being very vocal. However, knowing the Minister in question, I am sure that she was very vocal on all the community radio stations that she could get on.

Nick Bourne: I will deal with some of the other positive points that the Minister made. In fairness, there was some movement on issues such as care homes, cognitive

Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi gwneud newidiadau i'r gyllideb, ac efallai fod hynny'n wir neu nad yw'n wir; ni welsom y gyllideb ddrafft, felly ni allwn wybod a ddigwyddodd hynny. Os digwyddodd, fe'i croesawaf, ond yr oedd yn hwyr yn y dydd os gwnaethpwyd y newidiadau hynny. Pe bai'r cyfarfodydd wedi dechrau'n llawer cynt, gallem fod wedi osgoi'r hyn a ddigwyddodd y llynedd, gyda'r busnes munud olaf hwnnw o gael yr holl gyfarfodydd hynny, a fydd, gobeithio, yn digwydd yn awr fel y gallwch gael eich cyllideb derfynol. Gweithiodd y broses y llynedd. Rhoddwyd negeseuon tebyg y llynedd gan y Gweinidog a'r Blaid Lafur, fod yr holl alwadau hyn yn afresymol a'n bod yn peryglu'r holl broses. Cafwyd trafodaeth adeiladol, a gobeithio y digwydd yr un peth eto. Fodd bynnag, dylai fod yn eglur pam mae'r gyllideb ddrafft ger ein bron i'w thrafod heddiw, ynghyd â gwelliant 1: y rheswm yw na ddechreuodd y broses yn ddigon cynnar. Yr oedd gan y Llywodraeth gyfle i yrru'n cwch i'r dŵr, ac ni fanteisiodd ar y cyfle hwnnw pan ddylasai wneud.

Ymdriniaf yn awr â rhai o'r eitemau y mae'r Gweinidog Cyllid wedi delio â hwy. Mae'n amlwg ei bod hi wedi symud mwy heddiw, a chydabyddaf hynny. Croesawaf yr hyn a ddywedodd am ofalwyr maeth. Croesawaf yr hyn a ddywedodd am radio cymunedol hefyd. Os oedd Jane Davidson yn lladmerydd mor effeithiol drosto, mae'n syndod na chafodd ei gynnwys yn y gyllideb yn y lle cyntaf—ac mae'n debyg ei bod hi wedi picio i fyny'r grisiau i ysgrifennu nodiadau llongyfarch at y gwrthbleidiau. Fodd bynnag, croesawaf yr hyn a ddywedodd y Gweinidog am radio cymunedol.

David Davies: Ni ddywedwyd bod y Gweinidog yn 'lladmerydd', dim ond ei bod yn llafar iawn. Fodd bynnag, o adnabod y Gweinidog dan sylw, yr wyf yn siŵr ei bod wedi bod yn llafar iawn ar bob gorsaf radio cymunedol y llwyddodd i fynd arnynt.

Nick Bourne: Deliaf â rhai o'r pwyntiau cadarnhaol eraill a wnaeth y Gweinidog. A bod yn deg, yr oedd rhywfaint o symud ar faterion fel cartrefi gofal, therapiau

therapies, and refuges, which I welcome. That can, no doubt, form part of our future discussions. However, there are some core issues, which I will return to.

First, if this money for ambulances is allocated in the budget, where is it for future years? Looking at the budget, it seems as though all that money is allocated elsewhere, and, as far as I can see, there is no spare money for ambulances in future years. We have gone through it, and it is not at all clear that money is available. If money is available, we can again return to this when the discussions take place.

The Minister has not moved an inch on her position as regards schools. As we all know from dealings in our constituencies, and our constituency postbags, schools are back to the bone. They have cut back, making efficiency savings year on year, and any more will result in cuts to essential services in schools. We now know that these 1 per cent efficiency savings will not be in terms of efficiency, but in terms of essential services to children throughout Wales. Therefore, I hope that the Minister will come back on that with some constructive suggestions as to how we can give some of that 1 per cent back to schools, as that will be necessary this year.

On transport grants, once again, there are clear deficiencies here in public transport and infrastructure, which must be addressed in this budget. We will need to come back to that in discussions.

On farmers, the view from Alyn and Deeside—and from the Minister—is that, somehow, rural Wales does not matter, and that farmers in less favoured areas are somehow akin to East Anglian barley barons with masses of money flowing around. He knows that that is not the case, and that was an ill-judged intervention. These are poor farmers, as the Minister will know, and our amendment seeks to address that.

If there is a European legal issue, which the

gwybyddol, a llochesi, sydd i'w groesawu. Gall hynny, yn ddi-os, ffurfio rhan o'n trafodaethau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae rhai pynciau craidd, y dychwelaf atynt.

Yn gyntaf, os yw'r arian hwn ar gyfer ambiwlansys wedi'i ddyrannu yn y gyllideb, ble y mae'r arian ar gyfer blynyddoedd i ddod? O edrych ar y gyllideb, mae'n ymddangos fel pe bai'r holl arian hwnnw wedi'i ddyrannu i fannau eraill, a hyd y gwelaf, nid oes dim arian dros ben ar gyfer ambiwlansys yn y blynyddoedd i ddod. Yr ydym wedi mynd drwyddi, ac nid yw'n glir o gwbl fod arian ar gael. Os oes arian ar gael, gallwn ddychwelyd at hyn eto pan gynhelir y trafodaethau.

Nid yw'r Gweinidog wedi symud fodfedd o ran ei safbwynt ynglŷn ag ysgolion. Fel y gwyddom i gyd o brofiad yn ein hetholaethau, a gohebiaeth ein hetholwyr, mae'r ysgolion wedi cyrraedd hyd at yr asgwrn. Maent wedi cwtogi, gan wneud arbedion effeithlonrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn, a chanlyniad cwtogi rhagor fydd toriadau mewn gwasanaethau hanfodol yn ein hysgolion. Gwyddom bellach na ddaw'r arbedion effeithlonrwydd hyn o 1 y cant drwy effeithlonrwydd, ond drwy gwtogi gwasanaethau hanfodol i blant ar hyd a lled Cymru. Felly, gobeithio y daw'r Gweinidog yn ôl ar hynny gydag awgrymiadau adeiladol ynghylch sut y gallwn roi rhywfaint o'r 1 y cant hwnnw'n ôl i ysgolion, gan y bydd hynny'n angenrheidiol eleni.

O ran grantiau trafndiaeth, unwaith eto, mae diffygion amlwg yma mewn trafndiaeth gyhoeddus a seilwaith, y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt yn y gyllideb hon. Bydd angen inni ddod yn ôl at hynny yn ein trafodaethau.

O ran ffermwyr, y farn o Alun a Glannau Dyfrdwy—a chan y Gweinidog—yw nad oes ots, rywsut, am gefn gwlad Cymru, a bod ffermwyr mewn ardaloedd llai ffafriol yn debyg rywsut i ffermwyr grawn mawr Dwyrain Anglia a digonedd o arian ganddynt. Gŵyr ef nad yw hynny'n wir, ac yr oedd hwnnw'n ymyriad annoeth. Ffermwyr tlawd yw'r rhain, fel y gŵyr y Gweinidog, ac mae ein gwelliant yn ceisio rhoi sylw i hynny.

Os oes problem o ran cyfraith Ewrop, fel yr

Finance Minister has suggested, I would like to see the evidence for it; we have searched high and low. These schemes run elsewhere in Europe, so why has the European community singled out Wales for special mistreatment? If it has, let us see the evidence, and we can take it to the European Court of Justice. I do not believe it, frankly. Europe is the scapegoat here for a Labour Party decision. You will have to come back to this and draw a line in the sand, as you have tried to do, and say 'We are not going to address that issue', which is what I took the Minister to be saying, and that is foolhardy. This issue must be addressed for the good of farmers throughout Wales. There is also a language issue linked to this, because, if we drive these farmers away from the land, it also puts the Welsh language in jeopardy. That is a side-effect of what would happen.

I return briefly to some issues that overhang from last year, which we also need to look at. One is the funding gap with higher education in England and in Scotland. We are seriously disadvantaged in our higher education sector when compared with England. There is no doubt of that in any comparison that can be made based on any set of figures that I have seen. You undertook to start a process of addressing that funding gap last year. I am not convinced that that has happened, but that was meant to be only a start anyway. That must continue or we are seriously prejudicing our higher education sector in Wales, and that would be to the disadvantage of everyone in Wales for future generations. Similarly, the Graham review of part-time study was set up in last year's budget round. It needed £15 million, but the group is being given only £10 million in this budget. That is not sufficient and we want to address that.

Railways are another overhang from last year. We will want to look at the rolling stock and at the position on the Ebbw Vale, the mid Wales, the Heart of Wales and the Cambrian coast lines. We must come back to

awgrymodd y Gweinidog Cyllid, hoffwn weld y dystiolaeth ar gyfer hynny, gan ein bod wedi chwilio ym mhobman. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu gweithredu mewn rhannau eraill o Ewrop, felly pam mae'r gymuned Ewropeaidd wedi dewis Cymru i'w cham-drin yn arbennig? Os yw wedi gwneud hynny, gadewch inni weld y dystiolaeth, a gallwn fynd â hi i Lys Cyfiawnder Ewrop. Nid wyf yn credu hynny, a dweud y gwir. Mae Ewrop yn fwch dihangol yma am benderfyniad gan y Blaid Lafur. Bydd yn rhaid ichi ddod yn ôl at hyn a thynnu llinell derfyn yn y tywod, fel yr ydych wedi ceisio gwneud, a dweud 'Nid ydym yn mynd i roi sylw i'r mater hwnnw', sef yr hyn y cymerais fod y Gweinidog yn ei ddweud, ac mae hynny'n rhyfygus. Rhaid rhoi sylw i'r mater hwn er lles ffermwyr ledled Cymru. Mae cwestiwn iaith yn gysylltiedig â hyn hefyd, oherwydd os parwn i'r ffermwyr hyn gefnu ar y tir, peryglir yr iaith Gymraeg hefyd. Mae hynny'n sgîl-ffaith i'r hyn a fyddai'n digwydd.

Dychwelaf yn fyr at rai materion sydd yn parhau ers y llynedd, y mae angen inni edrych arnynt hefyd. Un yw'r bwlch ariannu gydag addysg uwch yn Lloegr ac yn yr Alban. Yr ydym dan anfantais ddirifol yn ein sector addysg uwch o'n cymharu â Lloegr. Nid oes dim amheuaeth am hynny yn unrhyw gymhariaeth y gellir ei gwneud ar sail unrhyw set o ffigurau yr wyf fi wedi'u gweld. Addawsoch ddechrau proses o gau'r bwlch ariannu hwnnw y llynedd. Nid wyf wedi fy narbwylllo bod hynny wedi digwydd, ond dim ond dechrau oedd hynny i fod beth bynnag. Rhaid i hynny barhau neu yr ydym yn peryglu ein sector addysg uwch o ddifrif yng Nghymru, a byddai hynny'n andwyol i bawb yng Nghymru am genedlaethau i ddod. Yn yr un modd, sefydlwyd adolygiad Graham o astudiaethau rhan-amser yng nghylch cyllideb y llynedd. Yr oedd angen £15 miliwn arno, ond dim ond £10 miliwn a roddir i'r grŵp yn y gyllideb hon. Nid yw hynny'n ddigon ac mae eisiau rhoi sylw i hynny.

Mae rheilffyrdd yn bwnc arall sy'n parhau ers y llynedd. Bydd arnom eisiau edrych ar y cerbydau ac ar y sefyllfa ar reilffyrdd Glynebwy, canolbarth Cymru, Calon Cymru ac arfordir y Cambrian. Rhaid inni ddod yn ôl

all of them. I understand the Minister saying that subject committees must be involved; of course they do, and we recognise that that is the process. However, we hope that the Minister will accept that, if the Government and the Assembly are to get a final budget, just as last year, a period of constructive engagement must now take place, which has not happened up until now. We have had no engagement, or at least none to talk of. We really must have that if you are to have your final budget before the end of this term.

David Lloyd: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 4: Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn cydnabod o'r diwedd nad yw'r broses o lunio'r gyllideb, heb bwylgor cyllid, yn dryloyw ac yn atebol.

Cynigiau welliant 5. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen gydgyfeirio yn ychwanegol at grant bloc y Trysorlys.

Cynigiau welliant 6. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gomisiynu ymchwil annibynnol i fformiwla gyllido deg ar gyfer Cymru a fydd yn seiliedig ar angen, ac i gyflwyno canfyddiadau'r ymchwil hon i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Cynigiau welliant 7. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

ac yn gresynu at y ffaith nad yw'r Llywodraeth gyfredol, yn hanesyddol, wedi rhoi lle teilwng yn y gyllideb i'r maes tai.

Michael German: I rise with a sense of sadness at having to go through this process again. The opposition amendment 1 before the Government today has been tabled simply because the process that was promised us last year has not been put in place and has not worked. If it was the case that we were to

at bob un ohonynt. Deallaf pan ddywed y Gweinidog fod yn rhaid cynnwys pwyllgorau pwnc; wrth gwrs bod rhaid, a chydabyddwn mai dyna'r broses. Fodd bynnag, gobeithiwn y gwnaiff y Gweinidog dderbyn, os yw'r Llywodraeth a'r Cynulliad i gael cyllideb derfynol, yn union fel y llynedd rhaid cael cyfnod o drafod adeiladol yn awr, rhywbeth nad yw wedi digwydd hyd yma. Nid ydym wedi cael dim rhan yn hyn, neu ddim rhan gwerth sôn amdani beth bynnag. Rhaid inni gael hynny yn wir os ydych am gael eich cyllideb derfynol cyn diwedd y tymor hwn.

David Lloyd: I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 4: Add a new point at the end of the motion:

recognises at last that without a finance committee the budget process lacks transparency and accountability.

I propose amendment 5. Add a new point at the end of the motion:

regrets the failure of the Welsh Assembly Government to secure match funding for the convergence programme over and above the block grant from the Treasury.

I propose amendment 6. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to commission independent research into a fair funding formula for Wales to be based on need, and to present the findings of this research to the National Assembly.

I propose amendment 7. Add a new point at the end of the motion:

and regrets that, historically, housing has not had the priority in the budget that it deserves from this current Government.

Michael German: Codaf gan deimlo'n drist o orfod mynd drwy'r broses hon eto. Mae gwelliant 1 yr wrthblaid sydd gerbron y Llywodraeth heddiw wedi'i gyflwyno oherwydd nad yw'r broses a addawyd inni y llynedd wedi'i gweithredu ac nad yw wedi gweithio. Os oeddem i fod i gael trafodaethau

have discussions prior to the laying of the draft budget, would you not expect to receive the draft budget, or at least an outline of it, so that you could consult and negotiate on it? No such thing has happened. Would it also be the case that you would not expect to be told that every single penny had already been spent, and that there was no room for anything else at all? No, but that is clearly not true, as the Minister has made some concessions today. Last year, the opposition parties rejected the draft budget. In fact, the National Assembly rejected the draft budget and the Government was forced to make concessions. We are now forced to go through the whole process again. Talk about 'Groundhog Day'; it is like a day of repetitions, is it not? Everything is the same—we have the same actors on the same field playing out the same events all over again, in more or less the same way.

You would have thought that a smart, can-do Government would have learned the lessons of last year, that it might be a better idea to take the smarter route, given its position, and remembering that it does not represent a majority in the National Assembly and, ipso facto, does not represent the majority of the people of Wales. That is the fact behind this. This is a budget for the people of Wales and must reflect the needs of the whole of Wales, yet, at present, it does not. The Labour Government did not choose to take the smart path. It did not have to be this way, but this is the path that Labour has chosen. Therefore, you can make all the criticisms that you want, but you cannot criticise the position that we are in today, because it is you who have made it so. It is difficult for the Government to understand that it does not have a divine right to rule in all circumstances, but the arithmetic here is different now, and I want it to recognise that. It cannot announce a budget in which everything has been spent.

There are a number of failings in this budget, and I will address one or two of them. The first is the higher education funding gap. Of course it is the case that Higher Education Wales has sent us information based on earlier figures. That is because we do not have the progressive figures that we were promised last year. In the debate last year, you will remember that we were promised

cyn cyflwyno'r gyllideb ddrafft, oni fyddech yn disgwyl cael y gyllideb ddrafft, neu o leiaf amlinelliad ohoni, fel y gallech ymgynghori a negodi yn ei chylch? Nid oes dim byd o'r fath wedi digwydd. A fyddech hefyd yn disgwyl cael gwybod bod pob un geiniog wedi'i gwario'n barod, ac nad oedd lle i ddim byd arall o gwbl? Na, ond yn amlwg nid yw hynny'n wir, gan fod y Gweinidog wedi gwneud rhai consesiynau heddiw. Y llynedd, gwrthododd y gwrthbleidiau y gyllideb ddrafft. Yn wir, gwrthododd y Cynulliad Cenedlaethol y gyllideb ddrafft a gorfodwyd y Llywodraeth i wneud consesiynau. Yn awr gorfodir ni i fynd drwy'r holl broses eto. Sôn am 'Groundhog Day': mae fel diwrnod o ailadrodd, onid yw? Mae popeth yr un fath—mae gennym yr un actorion ar yr un maes yn ailchwarae'r un digwyddiadau eto, yn yr un ffordd fwy neu lai.

Byddech wedi meddwl y byddai Llywodraeth gall, ymarferol wedi dysgu gwersi'r llynedd, y byddai'n syniad gwell efallai dilyn y llwybr doethach, o gofio'i sefyllfa, ac o gofio nad yw'n cynrychioli mwyafrif yn y Cynulliad Cenedlaethol ac, mae'n dilyn felly, nad yw'n cynrychioli mwyafrif pobl Cymru. Dyna'r ffaith y tu ôl i hyn. Cyllideb ar gyfer pobl Cymru yw hon a rhaid iddi adlewyrchu anghenion Cymru gyfan, ond ar hyn o bryd nid yw'n gwneud hynny. Ni ddewisodd y Llywodraeth Lafur ddilyn y llwybr call. Nid oedd yn rhaid i hyn ddigwydd, ond dyma'r llwybr y mae Llafur wedi'i ddewis. Felly, cewch feirniadu faint a fynnoch, ond ni allwch feirniadu'r sefyllfa yr ydym ynddi heddiw, oherwydd chi a'i gwnaeth felly. Mae'n anodd i'r Llywodraeth ddeall nad oes ganddi hawl ddwyfol i reoli ym mhob amgylchiad, ond mae'r rhifydddeg yma'n wahanol bellach, ac mae arnaf eisiau iddi gydnabod hynny. Ni all gyhoeddi cyllideb lle y mae popeth ynddi wedi'i wario.

Mae nifer o ddiffygion yn y gyllideb hon, a chyfeiriaf at un neu ddau ohonynt. Y cyntaf yw'r bwlch ariannu mewn addysg uwch. Wrth gwrs ei bod yn wir bod Addysg Uwch Cymru wedi anfon gwybodaeth atom yn seiliedig ar ffigurau cynharach. Y rheswm am hynny yw nad yw'r ffigurau cynyddol a addawyd inni y llynedd gennym. Yn y dadl y llynedd, fe gofiwch inni gael addewid y

that we would begin to close the gap—that means that progress would be made year on year. The evidence that we have not seen yet, though we have seen ideas and thoughts coming forward, suggests that that is not the case and that, if anything, we are stationary or perhaps even moving backwards when we need to move forwards. It is therefore right for HEW to raise those concerns, which will come upon us more speedily when the top-up fees cap is abolished and when we will need to make different decisions and consider what happens then. If we have lost the opportunity to close that gap, it will become more difficult for us in future years. All the Government Ministers say that higher education is the key to success—through skills, training and learning—but that is why we do not want our Welsh universities to be funded less well than those in England.

byddem yn dechrau cau'r bwlch—mae hynny'n golygu y ceid cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Awgryma'r dystiolaeth nad ydym wedi ei gweld eto, er ein bod wedi gweld cyflwyno syniadau a meddyliau, nad yw hynny'n digwydd ac, os rhywbeth, ein bod yn sefyll yn yr unfan neu efallai hyd yn oed yn symud yn ôl a ninnau angen symud ymlaen. Mae'n iawn, felly, i AUC godi'r pryderon hynny, a fydd yn ein bwrw'n gyflymach pan ddiddymir y cap ar ffioedd atodol a phan fydd angen gwneud penderfyniadau gwahanol ac ystyried beth fydd yn digwydd wedyn. Os byddwn wedi colli'r cyfle i gau'r bwlch hwnnw, aiff yn anoddach inni yn y blynyddoedd wedi hynny. Dywed Gweinidogion y Llywodraeth i gyd mai addysg uwch yw'r allwedd i lwyddiant—drwy sgiliau, hyfforddi a dysgu—ond dyna pam nad oes arnom eisiau i'n prifysgolion yng Nghymru gael eu hariannu'n llai hael na rhai Lloegr.

5.10 p.m.

In the discussions that we had last year, we were told that the Graham review of part-time students was being put in place and that whatever need was identified would be actioned. You have only to turn to the back page of the review report to see that the review refers to £15 million for part-time students, yet the budget has only £10 million in it.

Yn y trafodaethau a gynhaliwyd gennym y llynedd, dywedwyd wrthym fod adolygiad Graham o fyfyrwyr rhan-amser yn cael ei sefydlu ac y gweithredid ar unrhyw anghenion a ganfyddid. Nid oes rhaid ond troi i dudalen gefn adroddiad yr adolygiad i weld bod yr adolygiad yn cyfeirio at £15 miliwn i fyfyrwyr rhan-amser, ond dim ond £10 miliwn sydd yn y gyllideb.

If schools' budgets represent about a third of local authorities' total budgets, and if Labour says that authorities must not take the money for the 1 per cent efficiency savings from that third but from the remaining two thirds, that means that the rest of local government is being asked to make not just 1 per cent efficiency gains, but nearly 2 per cent. Authorities have to take this opportunity to take the money, and they are not going to be able to pass it on to schools. The reality is that the year-on-year efficiency savings that you are asking local government to make will soon become impossible. It is not just local authorities of one colour, but those of all persuasions that will have to pass on those efficiencies to schools, because they cannot afford to take the extra screw for all the other services that local government provides, such as social services, social care, waste

Os yw cyllidebau ysgolion yn cyfrif am tua thraean cyfanswm cyllidebau awdurdodau lleol, ac os dywed Llafur na chaiff awdurdodau gymryd yr arian ar gyfer yr arbedion effeithlonrwydd o 1 y cant o'r traean hwnnw, ond o'r ddwy ran o dair sydd yn weddill, mae hynny'n golygu bod gofyn i weddill llywodraeth leol wneud arbedion effeithlonrwydd nid o 1 y cant, ond bron 2 y cant. Rhaid i awdurdodau achub y cyfle hwn i gymryd yr arian, ac nid ydynt yn mynd i allu ei basio ymlaen i ysgolion. Y gwir yw y bydd yr arbedion effeithlonrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yr ydych yn gofyn i lywodraeth leol eu gwneud yn mynd yn amhosibl yn fuan. Nid awdurdodau lleol o un lliw yn unig, ond rhai o bob tuedd, fydd yn gorfod pasio'r arbedion effeithlonrwydd hyn ymlaen i ysgolion, am na allant fforddio cymryd y toriad ychwanegol ar gyfer yr holl

collection, road repairs and so on. You must take that upon your heads, because that is what you are asking local government to do. Let me make it perfectly clear. What you are saying today is that the rest of those services must take the hit, because you are not going to take it from schools. The sensible approach, which the amendment suggests, would be to take the 1 per cent savings and give it to schools to improve their services. Let them make the savings and improve their services for themselves; give it back to them to do the work that they do.

On Tir Mynydd, whatever the debate may be and whatever is felt by people in general in the anti-farmer party that is emerging over there—for all sorts of strange reasons and whatever those reasons may be—I ask Labour Members to compare two statements today. The statement from the Welsh Assembly Government says that the European Court of Auditors recommended the cessation of the Tir Mynydd scheme. However, the European Court of Auditors—and you might expect that it would say something else—recommended that,

‘the commission develop, in close collaboration with the Member States, a more appropriate set of indicators for identifying LFAs’.

That is all that it said. There was no mention of Tir Mynydd, let alone Wales, in what the court said. It is clear to me that this is a discreet opportunity for the Welsh Assembly Government to say that it is not interested in rural Wales and it is just prepared to turn its back on it.

Finally, we have talked about fees and higher education, but I would like to say that this is an opportunity for us to revisit the way in which we do our business and how the budget is worked. This is a different point from those that have been made so far, hoping that we will have meaningful discussions and making sure that we come to the right conclusion. This, today, is the biggest power that the National Assembly

wasanaethau eraill y mae llywodraeth leol yn eu darparu, fel gwasanaethau cymdeithasol, gofal cymdeithasol, casglu gwastraff, trwsio ffyrdd ac yn y blaen. Rhaid ichi dderbyn hynny, oherwydd dyna beth yr ydych yn gofyn i lywodraeth leol ei wneud. Gadewch imi wneud y peth yn berffaith glir. Beth yr ydych yn ei ddweud heddiw yw bod yn rhaid i weddill y gwasanaethau hynny gymryd yr ergyd, am nad ydych yn mynd i fynd ag ef oddi ar ysgolion. Y peth call, a awgrymir gan y gwelliant, fyddai cymryd yr arbedion 1 y cant a'u rhoi i ysgolion i wella'u gwasanaethau. Gadewch iddynt wneud yr arbedion a gwella'u gwasanaethau drostynt eu hunain; a rhowch yr arian yn ôl iddynt i wneud y gwaith a wnânt.

O ran Tir Mynydd, beth bynnag fo'r ddadl a beth bynnag a deimlir gan bobl yn gyffredinol yn y blaid wrth-fffermwyr sydd yn datblygu yn y fan acw—am bob math o resymau od a beth bynnag fo'r rhesymau hynny—gofynnaf i Aelodau Llafur gymharu dau ddatganiad heddiw. Dywed y datganiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fod Llys Archwilwyr Ewrop wedi argymhell dod â'r cynllun Tir Mynydd i ben. Fodd bynnag, argymhellodd Llys Archwilwyr Ewrop—a gallech ddisgwyl y byddai'n dweud rhywbeth arall—y dylai

y comisiwn ddatblygu, mewn cydweithrediad agos â'r Aelod Wladwriaethau, set fwy priodol o ddangosyddion ar gyfer pennu ardaloedd llai ffafriol.

Dyna'r cwbl a ddywedodd. Nid oedd cyfeiriad at Tir Mynydd, heb sôn am Gymru, yn yr hyn a ddywedodd y llys. Mae'n amlwg i mi fod hyn yn gyfle cynnil i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddweud nad oes ganddi ddiddordeb yn y Gymru wledig a'i bod yn barod i droi ei chefn arni.

Yn olaf, yr ydym wedi siarad am ffioedd ac addysg uwch, ond hoffwn ddweud bod hyn yn gyfle inni ailedrych ar y modd y gwnawn ein busnes a sut y gweithir y gyllideb. Mae hyn yn bwynt gwahanol i'r rhai a wnaethpwyd hyd yma, gan obeithio y cawn drafodaethau ystyrllon a chan sicrhau y deawn i'r casgliad cywir. Hyn yw'r grym mwyaf sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol heddiw. Mae'n gyllideb o £14 biliwn, a'n tasg yw ei

has. It is a budget of £14 billion and our task is to spend it well. At present, we indulge in a media frenzy for seven days before the budget comes to the Chamber and we then get through the formal debate in two hours; other parliaments around the world devote many days to their budget discussions. Too much of our debating on the budget is done in that way and too little of it is done properly in the Chamber. I welcome the more stringent approach that we will have in the new Assembly. I hope that that will lend some more dignity to the process, as that is what the Assembly and the people of Wales need. They need to feel that, at the end of this process, there is a budget that represents their interests—and Labour must remember that its interests are not the majority interests. That is why the Assembly is determined, and why we will vote in the way that we will, to ensure that the budget represents the whole of the National Assembly. That is what we did last year and I expect that that will be carried on this year. The process seen today is one of Labour's own making.

Lynne Neagle: I would like to thank the Finance Minister for bringing forward a budget that is both responsible in its content and ambitious in its intent. There will, I know, be a broad welcome from colleagues in local government concerning some of the funding increases in vital areas, such as an extra £15 million a year for road repairs, extra provision for special needs education, the near doubling of annual spend on school buildings improvements, and extra allowances for foster carers.

There is pressure on each of these areas in Torfaen, as I am sure there is in other local authorities, and the additional funding will help to create safer and more vibrant communities for our children.

As we enter the last year of Assembly budget commitments, we should reflect on what we have achieved over the lifetime of this administration. The budget commitments that we have made deliver on promises on free school breakfasts, free swimming, free prescriptions, new school buildings, and free bus travel, and we have committed £20 million more than promised to the new crime-fighting fund. None of us on the

gwario'n dda. Ar hyn o bryd, awn yn wyllt ar y cyfryngau am saith diwrnod cyn i'r gyllideb ddod i'r Siambr ac wedyn awn drwy'r ddadl ffurfiol mewn dwy awr; bydd seneddau eraill o gwmpas y byd yn neilltuo dyddiau lawer i'w trafodaethau ar y gyllideb. Gwneir gormod o'n dadlau ar y gyllideb yn y modd hwnnw, a rhy ychydig ohono yn y modd priodol yn y Siambr. Croesawaf y dull mwy llym a fydd gennym yn y Cynulliad newydd. Gobeithiaf y rhydd hynny ychydig mwy o urddas i'r broses, gan mai dyna sydd ei angen ar y Cynulliad ac ar bobl Cymru. Mae arnynt angen teimlo, ar ddiwedd y broses, fod yma gyllideb sydd yn cynrychioli eu buddiannau—a rhaid i Lafur gofio nad buddiannau'r mwyafrif yw ei buddiannau hi. Dyna pam mae'r Cynulliad yn benderfynol, a pham y pleidleisiwn yn y ffordd y gwnawn, er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn cynrychioli'r Cynulliad Cenedlaethol cyfan. Dyna'r hyn a wnaethom y llynedd a disgwyliaf y caiff hynny ei barhau eleni. Proses y mae Llafur ei hun yn gyfrifol amdani yw'r broses a welir heddiw.

Lynne Neagle: Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog Cyllid am gyflwyno cyllideb sydd yn gyfrifol yn ei chynnwys ac yn uchelgeisiol yn ei bwriad. Gwn y ceir croeso eang gan gydweithwyr o fewn llywodraeth leol i rai o'r codiadau yn y cyllid mewn meysydd hanfodol, megis £15 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol ar gyfer atgyweirio ffordd, darpariaeth ychwanegol ar gyfer addysg anghenion arbennig, bron â dyblu'r gwariant blynyddol ar welliannau i adeiladau ysgolion, a lwfansau ychwanegol i ofalwyr maeth.

Mae pwysau ar bob un o'r meysydd hyn yn Nhor-faen, fel sydd mewn awdurdodau lleol eraill yr wyf yn siŵr, a bydd y cyllid ychwanegol yn help i greu cymunedau mwy diogel a bywiog i'n plant.

Wrth inni ddechrau ar flwyddyn olaf ymrwymadau cyllideb y Cynulliad, dylem feddwl am yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni yn ystod oes y weinyddiaeth hon. Mae'r ymrwymadau cyllideb yr ydym wedi eu gwneud yn gwireddu addewidion am frecwest ysgol am ddim, nofio am ddim, presgripsiynau am ddim, adeiladau ysgolion newydd, a theithio am ddim ar fysiau, ac yr ydym wedi ymrwymo i roi £20 miliwn yn

Labour benches are here to claim that these schemes all operate perfectly. Is the free breakfast scheme perfect? It is not. Is it, however, creating a situation better than what came before it? Yes, it is. Thousands of kids are getting a healthy start to their day. I have been to see free breakfast schemes in Torfaen, and you cannot look at the enthusiasm of pupils and staff and say that we are failing. Is it perfect? No. It is better? Yes.

We have succeeded in making Wales a better country. That was Labour's mission for this administration, and it remains our mission for this budget round. We have made Wales a better country through responsible financial management and sound policy, and by ignoring, whenever we can, the grubby, grab-a-grand coalition for vested interests on the other side of the Chamber. They bleat about a lack of consultation, but the speed at which they put out their press release condemning this budget—a budget that will deliver record investment for public services—makes me wonder if they looked at its content at all. Indeed, several of their demands in amendment 1—on improved transport grants, extra money for the ambulance service, more allowances for foster carers, action on landfill and more money for care homes—are already addressed in the Labour budget. Perhaps a period of reflection was required, not knee-jerk reaction.

Before this debate, I looked over my speech from last year, and there are large passages that I was tempted to simply cut and paste, because there are so many parallels with last October. Labour brings forward a responsible budget, only to be greeted by a bed-hopping bonanza from the opposition, leading to an uncensored wish list. I wonder whether Nick Bourne and his cronies have shown their budget response to David Cameron in Westminster—at least the Tories nationally have come clean about their £20 billion of cuts to public services. The Welsh Conservative platform seems to be one of tax

fwy nag a addawyd i'r gronfa newydd i ymladd troseddau. Nid oes neb ohonom yma ar y meinciau Llafur yn honni bod y cynlluniau hyn i gyd yn gweithio'n berffaith. A yw'r cynllun brecwast am ddim yn berffaith? Nac ydyw. A yw, fodd bynnag, yn creu sefyllfa well na'r hyn a'i rhagflaenai? Ydyw, y mae. Mae miloedd o blant yn cael dechrau iach i'w diwrnod. Yr wyf wedi gweld y cynlluniau brecwast am ddim yn Nhor-faen, ac ni allwch edrych ar frwdfrydedd y disgyblion a'r staff a dweud ein bod yn methu. A yw'n berffaith? Nac ydyw. A yw'n well? Ydyw.

Yr ydym wedi llwyddo i wneud Cymru'n wlad well. Dyna oedd cenhadaeth Llafur ar gyfer y weinyddiaeth hon, a dyna ein cenhadaeth o hyd yn y cylch cyllideb hwn. Yr ydym wedi gwneud Cymru'n well gwlad drwy reolaeth ariannol gyfrifol a pholisi cadarn, a thrwy anwybyddu, pa bryd bynnag y gallwn, y cynghrair crafangus, mil fan hyn a mil fan draw o blaid buddiannau breintiedig ar yr ochr arall i'r Siambr. Maent yn brefu am ddiffyg ymgynghori, ond o weld mor gyflym y maent wedi rhyddhau eu datganiad i'r wasg yn condemnio'r gyllideb hon—cyllideb a fydd yn darparu mwy o fuddsoddiad nag erioed i wasanaethau cyhoeddus—mae'n gwneud imi feddwl tybed a ydynt wedi edrych ar ei chynnwys i gyd. Yn wir, mae amryw o'u galwadau yng ngwelliant 1—o ran gwell grantiau trafndiaeth, arian ychwanegol i'r gwasanaeth ambiwlans, mwy o lwfansau i ofalwyr maeth, gweithredu ar dirlenwi a rhagor o arian i gartrefi gofal—eisoed yn cael sylw yng nghyllideb Llafur. Efallai fod angen cyfnod o bwysu a mesur, yn hytrach nag ymateb difeddwl.

Cyn y ddadl hon, edrychais dros fy araith y llynedd, ac mae darnau mawr y cefais fy nhemtio i'w torri a'u gludo, gan fod cynifer o bethau'n cyfateb i'r sefyllfa fis Hydref diwethaf. Mae Llafur yn cyflwyno cyllideb gyfrifol, a honno'n cael ei chyfarch â sbri o gydweilya gan y gwrthbleidiau, yn arwain at restr ddymuniadau nad yw wedi'i chostio. Tybed a yw Nick Bourne a'i ffrindiau wedi dangos eu hymateb i'r gyllideb i David Cameron yn San Steffan—o leiaf mae'r Toriaid yn genedlaethol wedi dweud y gwir am eu toriadau o £20 biliwn i wasanaethau cyhoeddus. Mae'n ymddangos mai'r hyn y

hikes, if they think that they do not need cuts to accommodate their demands.

I wonder whether people in Blaenau Gwent feel that they have an independent Assembly Member today. I urge Trish Law to check the word 'independent' in her dictionary. Does she feel free from a controlling entity today, or has she been railroaded into backing bungs for Tory and nationalist constituents? [Interruption.] You are getting a lot of help from your friends there, Trish. What value should the people of Blaenau Gwent place on the opposition amendment 1? It proposes the continuation of Tir Mynydd, an outdated farming subsidy, which is pilloried by European auditors and, I might add, was partially cut due to last year's budget 'wins' by the opposition. Then there is the extension of foot and mouth disease payments for rural businesses, five years and millions of pounds in compensation later. Labour has proposed a new pro-business scheme to replace rural rate relief—do you know how many businesses that will help in Blaenau Gwent? It is over 1,300. Do you know how many businesses are being helped by the scheme that the independent Member wants to see continued? Twenty-nine. How is demanding the status quo standing up for the people of Blaenau Gwent?

In closing, I offer this advice to the opposition. My party learned the hard way that, before you are ready for grown-up Government, you have to be grown-up in opposition. Nothing that the people of Wales have seen in your conduct over a matter as serious as the budget will persuade them that you are ready for anything other than four more years of sniping from the sidelines.

David Lloyd: I am pleased to be able to contribute to this important debate. I shall confine my remarks to the four Plaid-only amendments.

Amendment 1 is about the need for a finance committee, which looks as though it will come about after next May's elections, and I

mae Ceidwadwyr Cymru'n bwriadu ei wneud yw codi trethi, os ydynt yn meddwl nad oes angen toriadau arnynt i ganiatáu'r hyn y maent yn ei fynnu.

Tybed a yw pobl ym Mlaenau Gwent yn teimlo bod ganddynt Aelod Cynulliad annibynnol yma heddiw? Anogaf Trish Law i edrych yn ei geiriadur i weld beth yw ystyr y gair 'annibynnol'. A yw hi'n teimlo'n rhydd rhag endid sydd am reoli heddiw, ynteu a yw wedi cael ei gwthio i gefnogi llwgrwobrwyon i etholwyr Torïaidd a chenedlaetholgar? [Torri ar draws.] Yr ydych yn cael llawer o help gan eich ffrindiau, Trish. Faint o werth i bobl Blaenau Gwent yw gwelliant 1 yr wrthblaid? Mae'n cynnig parhau Tir Mynydd, cymhorthdal ffermio o'r oes o'r blaen, sy'n cael ei ddilorni gan archwilwyr Ewropeaidd ac a gafodd ei dorri'n rhannol y llynedd, fe allwn ychwanegu, oherwydd yr hyn a 'enillodd' yr wrthblaid yn y gyllideb. Yna mae ymestyn taliadau clwy'r traed a'r genau i fusnesau gwledig, bum mlynedd a miliynau o bunnoedd o iawndal yn ddiweddarach. Mae Llafur wedi cynnig cynllun newydd sy'n bleidiol i fusnesau i ddisodli rhyddhad ardrethi gwledig—a wyddoch faint o fusnesau y bydd hynny'n ei helpu ym Mlaenau Gwent? Dros 1,300. A wyddoch faint o fusnesau sy'n cael help gan y cynllun y mae'r Aelod annibynnol am ei weld yn parhau? Naw ar hugain. Sut y mae sefyll o blaid pobl Blaenau Gwent drwy fynnu'r *status quo*?

Wrth gloi, cynigiau y cyngor hwn i'r wrthblaid. Dysgodd fy mhlaid i ar hyd dyrys daith fod yn rhaid ichi, cyn eich bod yn barod i fod yn Llywodraeth aeddfed, fod yn aeddfed fel gwrthblaid. Ni fydd dim y mae pobl Cymru wedi ei weld yn eich ymddygiad ynghylch mater mor ddifrifol â'r gyllideb yn eu perswadio eich bod yn barod ar gyfer dim byd ond pedair blynedd arall o bigo crach ar y cyrion.

David Lloyd: Yr wyf yn falch o allu cyfrannu at y ddadl bwysig hon. Cyfyngaf fy sylwadau i'r pedwar gwelliant gan y Blaid yn unig.

Mae gwelliant 1 yn sôn am yr angen am bwyllgor cyllid, a gaiff ei sefydlu, yn ôl pob golwg, ar ôl yr etholiadau fis Mai nesaf, ac

echo Mick German's comments about injecting dignity and purpose into the budgetary process, as well as having year-round open and transparent scrutiny of the whole budget process. After next May, obviously, matters will improve, but every Plaid Cymru speech on the budget has included an amendment about establishing a finance committee, so there is no change there. We need that dignity to be restored. We certainly need the year-round planning and open and transparent scrutiny of the whole process.

5.20 p.m.

The second Plaid-only amendment, amendment 5, laments the failure to secure match funding for the convergence programme over and above the block grant from the Treasury. I realise that the Minister was rather dismissive of the Plaid-only amendments, but around £450 million was lost from other portfolios in the last round of European structural funding, and £450 million is a very significant sum in terms of the block allocation that we must live within. That is £450 million that could not be spent on education, on health, on social services or any of the other things that the Welsh block grant dearly needs to be spent on. That is the importance of match funding—or rather the lack of match funding in this draft budget.

We cannot afford to keep appropriating money from basic services in order to draw down European funding. That brings me to another topic that the Minister dismisses out of hand—the need to review the Barnett formula, and the need for a fair funding formula based on need for the people of Wales. We have had this debate many times, and I will happily provide the Minister with evidence of the unfairness of the current funding formula. There are needs-based formulae elsewhere, in local government and in health. The Townsend formula is needs-based. You find that, where there is greater need, there is more money, so you cannot lose out by substituting a population-based formula with a needs-based formula. The Local Government and Public Services Committee saw that arrangement working perfectly when we visited Denmark last year.

ategaf sylwadau Mick German am gyflwyno urddas a phwrpas i broses y gyllideb, yn ogystal â chael craffu agored a thryloyw gydol y flwyddyn ar holl broses y gyllideb. Ar ôl mis Mai nesaf, yn amlwg, bydd pethau'n gwella, ond mae pob araith gan Blaid Cymru am y gyllideb wedi cynnwys gwelliant ynghylch sefydlu pwyllgor cyllid, felly nid oes dim newid yn hynny o beth. Mae angen i'r urddas hwnnw gael ei adfer. Yn sicr mae arnom angen cynllunio a chraffu agored a thryloyw ar y broses gyfan gydol y flwyddyn.

Mae'r ail welliant gan y Blaid yn unig, gwelliant 5, yn gresynu at y methiant i sicrhau arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen gydgyfeirio yn ychwanegol at grant bloc y Trysorlys. Sylweddolaf fod y Gweinidog yn tueddu i wffio'r gwelliannau gan y Blaid yn unig, ond collwyd tua £450 miliwn o bortffolios eraill yn y cylch diwethaf o arian strwythurol o Ewrop, ac mae £450 miliwn yn swm sylweddol iawn o ran y dyraniad bloc y mae'n rhaid inni fyw oddi mewn iddo. Mae hynny'n £450 miliwn na ellid ei wario ar addysg, ar iechyd, ar wasanaethau cymdeithasol na dim un o'r pethau eraill y mae dirfawr angen i grant bloc Cymru gael ei wario arnynt. Dyna sy'n peri bod arian cyfatebol yn bwysig—neu'n hytrach y diffyg arian cyfatebol yn y gyllideb ddrafft hon.

Ni allwn fforddio dal i dynnu arian oddi wrth wasanaethau sylfaenol er mwyn cael arian Ewropeaidd. Daw hynny â mi at bwnc arall y mae'r Gweinidog yn ei wrthod ar ei ben—yr angen i adolygu fformiwla Barnett, a'r angen am fformiwla gyllido deg wedi'i seilio ar angen ar gyfer pobl Cymru. Yr ydym wedi cynnal y ddadl hon droeon, ac yr wyf yn barod iawn i roi tystiolaeth i'r Gweinidog am annhegwch y fformiwla gyllido gyfredol. Mae fformiwlâu seiliedig ar angen mewn mannau eraill, mewn llywodraeth leol ac ym maes iechyd. Mae fformiwla Townsend wedi'i seilio ar angen. Yr ydych yn canfod, lle y mae'r angen mwyaf, fod mwy o arian, felly ni allwch fod ar eich colled o ddisodli fformiwla seiliedig ar boblogaeth â fformiwla seiliedig ar anghenion. Gwelodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y trefniant hwnnw'n gweithio'n

Denmark apportions Greenland's block grant using a needs-based formula that is updated every three years. If Denmark can manage that, why cannot we do it here?

Spending on education and health per head in Wales is now down to the UK average. Let me say that again: the spend here is down to the UK average, despite the fact that our needs, particularly in health, are much greater. That is the effect of the lack of match funding in the block grant and the squeeze of the Barnett formula. That is why we need a fairer funding formula for Wales.

The fourth Plaid-only amendment, amendment 7, concerns housing, which is a vital issue. I lament the lack of priority given to housing in most discussions, other than those in the Social Justice and Regeneration Committee. There is certainly a need for a significant increase in the social housing grant budget line in particular. As a GP, I am well aware that bad housing equals bad health. Life expectancy in Wales is 79 for men and 84 for women, but if you are homeless, you can expect to live to 42. We are not doing anything about that situation so, presumably, everyone can sleep at night. Public housing is an honourable pursuit of Government because of the potentially huge detrimental effect on health.

The political situation is that this is a minority Labour administration. That means working together. Democracy works by the view of the majority, and Labour is still working on the assumption that it is still in the majority. You do not have the majority, and it therefore behoves all Assembly Members to be truly involved in the whole budgetary process year on year, from start to finish, all of us working together for the good of the people of Wales. That is what the people of Wales expect: that every Assembly Member does his or her best for Wales. That is what will be achieved by voting for all of the opposition amendments.

berffaith pan ymwelsom â Denmarc y llynedd. Mae Denmarc yn dosrannu grant bloc yr Ynys Las drwy ddefnyddio fformiwla seiliedig ar angen sy'n cael ei diweddarau bob tair blynedd. Os gall Denmarc wneud hynny, pam na allwn ni ei wneud yma?

Mae'r gwariant ar addysg ac iechyd y pen yng Nghymru wedi gostwng i gyfartaledd y DU erbyn hyn. Gadewch imi ddweud hynny eto: mae'r gwariant wedi gostwng i gyfartaledd y DU, er bod ein hanghenion, ym maes iechyd yn arbennig, yn llawer mwy. Dyna effaith y diffyg arian cyfatebol yn y grant bloc a'r ffordd y mae fformiwla Barnett yn gwasgu. Dyna pam mae angen fformiwla gyllido decach arnom i Gymru.

Mae'r pedwerydd gwelliant gan y Blaid yn unig, gwelliant 7, yn ymwneud â thai, sy'n fater hollbwysig. Yr wyf yn gresynu at y diffyg blaenoriaeth a roddir i dai yn y rhan fwyaf o drafodaethau, ac eithrio'r rhai yn y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Yn sicr, mae angen cynnydd sylweddol yn llinell y gyllideb ar gyfer y grant tai cymdeithasol yn arbennig. Fel meddyg teulu, yr wyf yn ymwybodol iawn bod tai gwael yn golygu iechyd gwael. Mae'r disgwyliad oes yng Nghymru yn 79 i ddynion ac 84 i fenywod, ond os ydych yn ddigartref, gallwch ddisgwyl byw hyd at 42. Nid ydym yn gwneud dim am y sefyllfa honno, felly, mae'n debyg bod pawb yn gallu cysgu'r nos. Mae tai cyhoeddus yn rhywbeth y mae'n anrhydeddus i Lywodraeth fynd yn ei glych oherwydd yr effaith andwyol enfawr y mae'n bosibl i dai gwael ei chael ar iechyd.

Y sefyllfa wleidyddol yw mai gweinyddiaeth Lafur leiafrifol yw hon. Mae hynny'n golygu gweithio gyda'n gilydd. Mae democratiaeth yn gweithio yn ôl barn y mwyafrif, ac mae Llafur yn dal i weithio ar y rhagdybiaeth ei bod yn dal mewn mwyafrif. Nid yw'r mwyafrif gennych, felly mae gofyn i holl Aelodau'r Cynulliad fod â rhan wirioneddol yn holl broses y gyllideb o flwyddyn i flwyddyn, o'r dechrau i'r diwedd, pawb ohonom yn gweithio gyda'n gilydd er lles pobl Cymru. Dyna'r hyn y mae pobl Cymru yn ei ddisgwyl: fod pob Aelod Cynulliad yn gwneud ei orau neu ei gorau dros Gymru. Dyna a gyflawnir drwy bleidleisio o blaid holl welliannau'r gwrthbleidiau.

Lorraine Barrett: What a wish list we have today. It is a real ragtag and bobtail list from a ragtag and bobtail opposition. I have heard it before. How much would this wish list cost us? I do not know, and I suspect that the opposition does not know either. To begin with, amendment 1 asks for more money for Tir Mynydd. How much money, and where will it come from? I do not know. Perhaps it will come from projects in Blaenau Gwent, Wrexham or even Splott.

Ieuan Wyn Jones: Will you give way?

Lorraine Barrett: I do not have time.

The Presiding Officer: She has only just started.

Lorraine Barrett: I am sure that the people of Blaenau Gwent and Splott have a lot of sympathy for Tir Mynydd.

You ask for an increased budget for transport grants. By how much? We do not know. You ask for an increased budget for the ambulance service. By how much? We do not know. You ask for an increase in the allowances paid to foster carers. By how much? You do not tell us. You ask for financial assistance for community radio stations. How much financial assistance? You do not tell us. You ask for financial assistance for councils. How much financial assistance? We do not know. You ask for more money for councils for rural rate relief. How much are you asking for? We do not know. Again, I am sure that people in Blaenau Gwent and Splott would like that one.

You ask for more cognitive behaviour therapists. That is fine, but how many are you asking for? Are you asking for two or 200, and what will it cost? We do not know. Women's refuges are much needed, as we all know, but how much money is involved in your proposal? We have no idea. More money for rail infrastructure is requested, but how much does the opposition want to spend?

We can all come up with a wish list to benefit

Lorraine Barrett: Am restr ddymuniadau sydd gennym heddiw. Mae'n restr geiniog a dimai go iawn gan wrthbleidiau ceiniog a dimai. Yr wyf wedi ei chlywed o'r blaen. Faint y byddai'r restr ddymuniadau hon yn ei gostio inni? Ni wn, ac yr wyf yn amau na wŷr y gwrthbleidiau ychwaith. I ddechrau, mae gwelliant 1 yn gofyn am ragor o arian ar gyfer Tir Mynydd. Faint o arian, ac o ble y daw? Ni wn. Efallai y bydd yn dod oddi wrth brosiectau ym Mlaenau Gwent, Wrecsam neu hyd yn oed Sblot.

Ieuan Wyn Jones: A wnewch ildio?

Lorraine Barrett: Nid oes gennyf amser.

Y Llywydd: Newydd ddechrau y mae.

Lorraine Barrett: Yr wyf yn siŵr bod gan bobl Blaenau Gwent a Sblot lawer o gydymdeimlad â Tir Mynydd.

Yr ydych wedi gofyn am fwy o gyllideb i grantiau trafndiaeth. Faint rhagor? Ni wyddom. Yr ydych yn gofyn am fwy o gyllideb i'r gwasanaeth ambiwlans. Faint rhagor? Ni wyddom. Yr ydych yn gofyn am gynnydd yn y lwfansau a delir i ofalwyr maeth. Faint rhagor? Nid ydych yn dweud wrthym. Gofynnwch am gymorth ariannol i orsafoedd radio cymunedol. Faint o gymorth ariannol? Nid ydych yn dweud wrthym. Gofynnwch am gymorth ariannol i gynghorau. Faint o gymorth ariannol? Nid ydym yn gwybod. Gofynnwch am ragor o arian i gynghorau ar gyfer rhyddhad ardrethi gwledig. Am faint yr ydych yn gofyn? Ni wyddom. Eto, yr wyf yn siŵr y byddai pobl ym Mlaenau Gwent a Sblot yn hoffi hynny.

Gofynnwch am ragor o therapyddion ymddygiad gwybyddol. Mae hynny'n iawn, ond am faint yr ydych yn gofyn? A ydych yn gofyn am ddau ynteu 200, a beth fydd y gost? Nid ydym yn gwybod. Mae gwir angen llochesi i fenywod, fel y gŵyr pawb ohonom, ond faint o arian y mae eich cynnig yn ei olygu? Nid oes gennym syniad. Gofynnir am ragor o arian i'r seilwaith rheilffyrdd, ond faint y mae'r gwrthbleidiau am ei wario?

Gallwn i gyd feddwl am restr ddymuniadau

our constituencies, and that is what this is. It is a list of amendments to get more money targeted at certain constituencies in Wales. We are serious about the whole of Wales, and this is a serious draft budget that the Minister has put before us today. We have a ragtag and bobtail opposition living in cloud-cuckoo-land.

Brynle Williams: The Welsh Assembly Government has made numerous statements about why it wanted to cut the Tir Mynydd budget so drastically. Ministers have cited a European auditors' report, which was critical of less favoured areas schemes, as we have heard. We have been told that continuing with Tir Mynydd jeopardises some £200 million of EC funding, and the Minister drew attention a few minutes ago to the astronomical profit that we farmers are making. Rather than raising the incomes of lowland farmers, who earn an average of £8,100 a year—these are your figures, Minister—your priority is reducing the income of upland farmers from £16,400 to below the average industrial wage.

The Ministers must provide comprehensive justification for their plans, because many of the statements to date are not borne out by the facts.

Let us go back to the 2003 report by the European Court of Auditors, which recommended reviewing the less favoured areas classification, improving the monitoring of the scheme to identify and correct overcompensation, defining good agricultural practices, and evaluating and monitoring a scheme as a whole. Where in this report did it say that Tir Mynydd was unsustainable or that it jeopardised future funding, as Ministers have stated? What it did do, however, was to highlight problems with the scheme and outline what the commission and the member states should do about them. Surely, if so much weight attached to this report, instead of cutting the Tir Mynydd budget, the Minister should have been improving the administration and monitoring of this scheme. It is worth remembering that this is a scheme that the Minister was responsible for creating in the

er budd ein cymunedau, a dyna yw hyn. Rhestr o welliannau ydyw i sicrhau bod rhagor o arian yn cael ei dargedu at rai etholaethau yng Nghymru. Yr ydym ni o ddifrif ynghylch Cymru gyfan, ac mae'r gyllideb ddrafft y mae'r Gweinidog wedi ei chyflwyno inni heddiw yn un sydd o ddifrif. Mae gennym wrthbleidiau ceiniog a dimai â'u pennau yn y cymylau.

Brynle Williams: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud nifer o ddatganiadau ynghylch pam yr oedd am dorri cyllideb Tir Mynydd mor llym. Mae Gweinidogion wedi cyfeirio at adroddiad gan archwilwyr Ewropeaidd, a oedd yn feirniadol o gynlluniau'r ardaloedd llai ffafriol, fel yr ydym wedi clywed. Dywedwyd wrthym fod parhau â Tir Mynydd yn peryglu rhyw £200 miliwn o arian CE, a thynnodd y Gweinidog sylw ychydig funudau'n ôl at yr elw enfawr y mae ffermwyr yn ei wneud. Yn hytrach na chodi incwm ffermwyr llawr gwlad, sydd ar gyfartaledd yn ennill £8,100 y flwyddyn—eich ffigurau chi yw'r rhain, Weiniidog—eich blaenoriaeth yw lleihau incwm ffermwyr mynydd o £16,400 i lai na'r cyflog diwydiannol cyfartalog.

Rhaid i'r Gweinidogion roi cyfiawnhad cynhwysfawr dros eu cynlluniau, oherwydd nid yw'r ffeithiau'n cadarnhau llawer o'r datganiadau hyd yma.

Gadewch inni fynd yn ôl at adroddiad 2003 gan Lys Archwilwyr Ewrop, a oedd yn argymhell adolygu'r dosbarthiad ardaloedd llai ffafriol, gwella'r monitro ar y cynllun i ganfod a chywiro achosion o ordalu iawndal, diffinio arferion amaethyddol da, a gwerthuso a monitro'r cynllun yn ei gyfanrwydd. Ble yn yr adroddiad hwn y dywedid bod Tir Mynydd yn anghynaliadwy neu ei fod yn peryglu cyllid ar gyfer y dyfodol, fel y mae'r Gweinidogion wedi datgan? Yr hyn a wnaeth, fodd bynnag, oedd tynnu sylw at broblemau gyda'r cynllun ac amlinellu beth y dylai'r comisiwn a'r aelod-wladwriaethau ei wneud yn eu cylch. Os oes cymaint o bwys yn cael ei roi ar yr adroddiad hwn, oni ddylai'r Gweinidog, yn hytrach na thorri cyllideb Tir Mynydd, fod wedi bod yn gwella gweinyddiaeth y cynllun a'r monitro arno? Mae'n werth cofio mai cynllun yr oedd y Gweinidog yn gyfrifol am ei greu yn y lle

first place.

Secondly, if EU funding is at risk if the 2005 Tir Mynydd funding is continued, surely this will be the case for the whole of Europe? However, no other European state is cutting LFA support before 2008. England, Scotland and Northern Ireland are all continuing their LFA schemes. Wales alone has jumped the gun and cut prematurely. Slashing the Tir Mynydd budget flies in the face of sustainability.

5.30 p.m.

It threatens the very survival of traditional Welsh-language communities and risks large swathes of the countryside being abandoned. These are precisely the reasons why the EU provides much of its funding for rural development in the first place. Only last week, in the press, EU Commissioner Mariann Fischer Boel warned that if agri-support schemes are removed, large tracts of land across the EU will be abandoned and the environment will suffer.

That is why the Welsh Conservatives will not support the draft environment, planning and countryside budget. Ministers must explain why they want to prematurely cut the scheme against the advice of the Royal Society for the Protection of Birds, the Countryside Council for Wales, farmers unions, the national park authorities and the Wales Tourist Board. Why, Minister, are you alone slashing this budget?

cyntaf yw hwn.

Yn ail, os yw cyllid yr UE mewn perygl os bydd cyllid Tir Mynydd 2005 yn parhau, onid yw hynny'n wir i Ewrop gyfan? Fodd bynnag, nid oes dim un wladwriaeth Ewropeaidd arall yn torri'r cymorth i'r ardaloedd llai ffafriol cyn 2008. Mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gyd yn parhau â'u cynlluniau ardaloedd llai ffafriol. Cymru yn unig sydd wedi achub y blaen a thori'n gynamserol. Mae torri cyllideb Tir Mynydd yn mynd yn groes i gynaliadwyedd.

Mae'n bygwth bodolaeth cymunedau Cymraeg traddodiadol ac yn creu'r perygl y bydd cefnu ar rannau helaeth o gefn gwlad. Dyma'r union resymau pam mae'r UE yn darparu llawer o'i gyllid ar gyfer datblygu gwledig yn y lle cyntaf. Mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, yn y wasg, rhybuddiodd y Comisiynydd Mariann Fischer Boel y bydd tiroedd eang ledled yr UE yn cael eu gadael, os ceir gwared ar gynlluniau cymorth amaethyddol, ac y bydd yr amgylchedd yn dioddef.

Dyna pam na wnaiff Ceidwadwyr Cymru gefnogi'r gyllideb ddrafft ar gyfer yr amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad. Rhaid i Weinidogion esbonio pam maent yn dymuno atal y cynllun cyn pryd yn groes i gyngor y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, undebau'r ffermwyr, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a Bwrdd Croeso Cymru. Pam, Weinidog, mai dim ond chi sy'n torri'r gyllideb hon?

Cynnig Trefniadol Procedural Motion

The Presiding Officer: To allow the debate to continue, I have allowed the Business Minister to propose a procedural motion.

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

the National Assembly, under Standing Order No. 6.21, extends today's Plenary meeting for one hour.

Y Llywydd: A oes 10 Aelod o blaid y cynnig? Gwelaf fod. Galwaf bleidlais.

Y Llywydd: Er mwyn caniatáu i'r ddadl barhau, yr wyf wedi caniatáu i'r Trefnydd gynnig cynnig trefniadol.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiau fod

y Cynulliad Cenedlaethol, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.21, yn ychwanegu awr at hyd y Cyfarfod Llawn heddiw.

The Presiding Officer: Are there 10 Members in favour of the motion? I see that

there are. I call a vote.

Cynnig: O blaid 55, Ymatal 1, Yn erbyn 1.

Motion: For 55, Abstain 1, Against 1.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Marek, John
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelod canlynol yn erbyn:
The following Member voted against:

James, Irene

Ymataliodd yr Aelod canlynol:
The following Member abstained:

Bates, Mick

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Y Gyllideb Ddrafft: Parhad The Draft Budget: Continued

Leighton Andrews: I welcome the budget that the Finance Minister has put before us. This completes a three-year spending round and a programme of long-term Labour investment for the people of Wales. I welcome a budget that completes the abolition of prescription charges, that underpins our commitment to free transport for elderly and disabled people and to free breakfasts and that supports Safe Routes to Schools, more school capital, and more investment in GP surgeries, as is happening in Ynysir and other places in my constituency, and in hospitals such as the new Llwynypia Hospital.

As representatives from GTFM are here tonight at my invitation, I welcome the announcement of money for community radio and congratulate my colleague, the Assembly Member for Pontypridd, on the campaigning that she has done over many months to get support for community radio stations.

I also welcome something that seemed to be missing from the speeches of the leaders of the opposition parties, namely the announcement that the Finance Minister made a month or so ago about the business rates scheme, which is much fairer and more equitable than the scheme currently in place. I did not notice a word of welcome from the leader of the opposition or the leaders of the Conservatives and the Liberal Democrats for that new, fairer, more equitable scheme. Before the new scheme comes into practice, only 13 businesses in Rhondda Cynon Taf qualify under the existing scheme. However, under the new scheme, 3,000 businesses will qualify. That is a significant change and evidence of a fairer and more equitable scheme. Many other parts of Wales, such as Blaenau Gwent and Wrexham, will benefit from a fairer and more equitable scheme. What are opposition members' responses to

Leighton Andrews: Croesawaf y gyllideb y mae'r Gweinidog Cyllid wedi'i rhoi ger ein bron. Mae hyn yn cwblhau cylch gwariant tair blynedd a rhaglen o fuddsoddi hirdymor gan Lafur er mwyn pobl Cymru. Croesawaf gyllideb sy'n cwblhau'r diddymu ar daliadau presgripsiwn, sy'n ategu ein hymrwymiad i gludiant am ddim i bobl oeddrannus ac anabl ac i frecwast am ddim ac sy'n cynorthwyo Llwybrau Diogel i Ysgolion, yn rhoi mwy o gyfalaf i ysgolion, ac yn buddsoddi rhagor ym meddygfeydd meddygon teulu, fel y gwelir yn Ynys-hir ac mewn mannau eraill yn fy etholaeth, ac mewn ysbytai megis yr ysbyty newydd, Ysbyty Llwynypia.

Gan fod cynrychiolwyr GTFM yma heno wedi iddynt gael eu gwahodd gennyf, croesawaf y cyhoeddiad am arian ar gyfer radio cymunedol a llongyfarchaf fy nghyd-Aelod, yr Aelod Cynulliad dros Bontypridd, ar ei hymgyrchu dros fisoedd lawer i gael cymorth ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol.

Yr wyf hefyd yn croesawu rhywbeth a oedd yn eisiau, i bob golwg, yn areithiau arweinwyr y gwrthbleidiau, sef y cyhoeddiad a wnaeth y Gweinidog Cyllid ryw fis yn ôl ynghylch y cynllun ardrethi busnes, sydd yn llawer tecach ac yn fwy cyfiawn na'r cynllun sydd ar waith ar hyn o bryd. Ni chlywais yr un gair o groeso gan arweinydd yr wrthblaid nac arweinwyr y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol i'r cynllun newydd hwnnw sydd yn decach ac yn fwy cyfiawn. Cyn rhoi'r cynllun newydd ar waith, dim ond 13 busnes yn Rhondda Cynon Taf sydd yn gymwys dan y cynllun presennol. Fodd bynnag, dan y cynllun newydd, bydd 3,000 o fusnesau'n gymwys. Mae hynny'n newid sylweddol ac yn dyst bod y cynllun yn decach a mwy cyfiawn. Bydd llawer o rannau eraill o Gymru, fel Blaenau Gwent a Wrecsam, yn elwa o gynllun tecach a mwy cyfiawn. Beth yw ymateb aelodau'r

that today? They do not welcome it.

John Marek: In terms of this scheme, Wrexham is currently getting £2.6 million, which will go down to £0.6 million. Get your facts right. Wrexham is going to lose £2 million out of this.

Leighton Andrews: My understanding is that more businesses will benefit. We have not heard a word from the opposition on this proposal, because the opposition wants to propose to take money away from—*[Interruption.]* More businesses will benefit. The opposition wants to take money away from authorities that will benefit and spread it around those that have benefited in the past.

Therefore, today we will be looking carefully at those who will be voting to take money away from Rhondda Cynon Taf and from Blaenau Gwent. We will look carefully at those who vote to take money away from those communities.

Alun Cairns: Will you give way?

Leighton Andrews: No, I have taken one intervention; I will take another later.

We have already seen the opposition parties in this Assembly coming together in an informal coalition, and we are seeing that today. We are starting to see the beginning of the coalition that they will want to try to form after the next election.

Janet Ryder *rose—*

The Presiding Officer: Order. This debate is becoming extremely disorderly.

Leighton Andrews: I looked at the opposition's amendment 1 and heard it described by the Member for Wrexham on Sunday as a 'shopping list'. I suppose that that was almost honest; it is certainly not an alternative budget. My colleague, Lorraine Barrett, described it as a 'wish list'. Describing it as a shopping list perhaps gives it too much dignity. It is more like an order from a take-away. Trish Law has looked at

gwrthbleidiau i hynny heddiw? Nid ydynt yn ei groesawu.

John Marek: Dan y cynllun hwn, mae Wrecsam yn cael £2.6 miliwn ar hyn o bryd, a bydd hynny'n gostwng i £0.6 miliwn. Gofalwch fod eich ffeithiau'n gywir. Bydd Wrecsam yn colli £2 filiwn oherwydd hyn.

Leighton Andrews: Yn ôl yr hyn yr wyf yn ei ddeall, bydd mwy o fusnesau ar eu hennill. Ni chlywsom yr un gair gan y gwrthbleidiau am y cynnig hwn, gan fod y gwrthbleidiau'n dymuno mynd ag arian oddi ar—*[Torri ar draws.]* Bydd mwy o fusnesau ar eu hennill. Mae'r gwrthbleidiau'n dymuno mynd ag arian oddi ar awdurdodau a fydd yn elwa a'i wasgaru ymysg y rhai sydd wedi elwa yn y gorffennol.

Felly, heddiw byddwn yn edrych yn ofalus ar y rhai a fydd yn pleidleisio dros fynd ag arian oddi ar Rondda Cynon Taf ac oddi ar Flaenau Gwent. Edrychwn yn ofalus ar y rhai sydd yn pleidleisio dros fynd ag arian oddi ar y cymunedau hynny.

Alun Cairns: A ildiwch?

Leighton Andrews: Na wnaf, yr wyf wedi derbyn un ymyriad; derbynïaf un arall yn ddiweddarach.

Yr ydym eisoes wedi gweld y gwrthbleidiau yn y Cynulliad hwn yn dod at ei gilydd ar ffurf clymblaid anffurfiol, ac yr ydym yn gweld hynny heddiw. Yr ydym yn dechrau gweld cychwyn y glymblaid y byddant am geisio'i ffurfio ar ôl yr etholiad nesaf.

Janet Ryder *a gododd—*

Y Llywydd: Trefn. Mae'r ddadl hon yn mynd yn afreolus dros ben.

Leighton Andrews: Edrychais ar welliant 1 y gwrthbleidiau a chlywais ei ddisgrifio gan yr Aelod dros Wrecsam ddydd Sul fel 'rhestr siopa'. Tybiaf fod hynny'n onest bron; nid yw'n gyllideb amgen, yn sicr. Fe'i disgrifiwyd gan fy nghyd-Aelod, Lorraine Barrett, fel 'rhestr ddymuniadau'. Efallai fod ei galw'n rhestr siopa'n rhoi gormod o urddas iddi. Mae'n debycach i archeb i siop prydau parod. Mae Trish Law wedi edrych ar y

the menu and decided to have numbers 32 and 47. John Marek is a bit greedier—he wants numbers 49, 50 and 51; well, he has had his chips. This is a take-away order that will never be delivered; the people of Wales will see to that.

We know, from the way that votes go in the Assembly, that Plaid Cymru votes with the Tories more than it votes with Labour. The coalition is already in place and there is a clear choice at the next election. The choice will be: continued long-term investment with Labour or a Tory-led coalition.

Jenny Randerson: As a Cardiff resident, I have battled against Labour arrogance for decades. It never ceases to amaze me. I am certainly not disappointed by Labour arrogance this time. Its arrogance is not just a case of thinking that it can overcome the rules of arithmetic—despite the reminder given by the Blaenau Gwent by-election earlier this year—but that it can overcome the democratic will of the people of Wales, the vast majority of whom did not vote Labour.

After the shambles of last year's budget, when the Government seemed surprised that we dared to propose amendments, Labour has done it again. The Minister referred to a meeting with finance spokespeople before the recess. I look towards my fellow finance spokespeople and I say that if that is called consultation, I am willing to buy her a dictionary. It was in fact a question of her sitting down and saying, 'I am very hard-up this year'. We said that we realised that there were not oodles of money, which of course is why the amendment is couched in those terms—because we live in the real world and we realise that there has to be negotiation, even if the Labour Party does not realise this. That amendment is the basis for some negotiation.

I know about the budget process from being on the other side of the fence. I know that, in practice, by the beginning of September, the Finance Minister has hammered out, with her

fwydlen ac wedi penderfynu cael rhifau 32 a 47. Mae John Marek ychydig yn fwy barus—mae'n dymuno cael rhifau 49, 50 a 51; wel, mae hi ar ben arno. Archeb yw hon na chaiff byth ei chyflenwi; bydd pobl Cymru'n sicrhau hynny.

Gwyddom ar sail canlyniadau'r pleidleisiau yn y Cynulliad fod Plaid Cymru yn pleidleisio'n amlach gyda'r Torïaid nag y mae gyda Llafur. Mae'r glymblaid wedi'i sefydlu eisoes a cheir dewis clir yn yr etholiad nesaf. Y dewis fydd: buddsoddi hirdymor parhaus gyda Llafur neu glymblaid dan arweiniad y Torïaid.

Jenny Randerson: Fel un o drigolion Caerdydd, yr wyf wedi brwydro yn erbyn trahauster Llafur ers degawdau. Byddaf yn synnu ato drwy'r amser. Yn sicr, nid wyf wedi fy siomi gan drahauster Llafur y tro hwn. Mae ei thrahauster yn fwy na thybio y gall drechu rheolau rhifydddeg—er gwaethaf y proc i'r cof a gafodd gan is-etholiad Blaenau Gwent yn gynharach eleni—gan ei bod yn credu hefyd y gall drechu ewyllys democrataidd pobl Cymru, yr oedd y mwyafrif helaeth ohonynt heb bleidleisio dros Lafur.

Wedi llanastr y gyllideb y llynedd, pan ymddangosai fod y Llywodraeth yn synnu ein bod yn meiddio cynnig gwelliannau, mae Llafur wedi gwneud yr un peth drachefn. Cyfeiriodd y Gweinidog at gyfarfod gyda llefarwyr cyllid cyn y toriad. Edrychaf i gyfeiriad fy nghyd-lefarwyr cyllid a dywedaf, os mai hynny yw'r hyn a elwir yn ymgynghori, fy mod yn barod i brynu geiriadur iddi. Yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd oedd ei bod wedi eistedd ac wedi dweud, 'Mae'n fain iawn arnaf eleni'. Dywedasom ein bod yn sylweddoli nad oedd llawer iawn iawn o arian, a hynny, wrth gwrs, yw'r rheswm dros eirio'r gwelliant felly—am ein bod yn byw yn y byd go iawn ac yn sylweddoli bod rhaid wrth negodi, hyd yn oed os nad yw'r Blaid Lafur yn sylweddoli hynny. Y gwelliant hwnnw yw'r man cychwyn i negodi.

Gwn am broses y gyllideb ar ôl bod ar yr ochr arall i'r clawdd. Yr wyf yn gwybod mai'r hyn sy'n digwydd yw y bydd y Gweinidog Cyllid, erbyn dechrau Medi, wedi

fellow Cabinet colleagues, the bare bones and most of the detail of the draft budget statement. They know roughly what they will get, give or take a small amount of negotiation. That is the point at which she should have sat down with the opposition spokespeople, with the leaders of the other parties—forming the majority in this Assembly—and negotiated in a sane and sensible manner. Instead, we have this farce that does the Assembly no good and certainly does the Labour Party no good. The Labour Party thinks that it is being extremely clever—that it has us over some sort of a barrel and that by allocating all the money before it starts to negotiate, it will dare us to disappoint someone by suggesting that we move some money around. I am sorry, but we have not risen to that bait. We have taken a much more mature approach by suggesting, in broad terms, where we would like the money to go. That is a much more grown-up way of approaching things. When the Minister says that she shares some things with us, it is a great pity that she does not share them with us properly and earlier on.

The Presiding Officer: Order. Are you giving way to Lynne Neagle?

Jenny Randerson: Yes.

5.40 p.m.

Lynne Neagle: It is not a question of daring you to take money away from someone. The reality is that if you want money for this wish list, you will have to take money away from someone. In my experience, it will be from the Valleys communities that you take money, as evidenced by the fact that everyone is fighting for Tir Mynydd. When will you face up to the reality of what you are doing?

Jenny Randerson: As the Assembly Member who represents the only constituency in Wales with no farm in it, I can say that Tir Mynydd leaves me fairly untouched. However, there are a number of other issues on that wish list, as I believe you called it earlier, which would greatly benefit your constituency—issues such as cognitive therapists, play areas for disabled children, and a great deal more for transport. Let us

cytuno, gyda'i chyd-Weinidogion yn y Cabinet, ar hanfodion datganiad y gyllideb ddrafft a'r rhan fwyaf o'r manylion sydd ynddo. Maent yn gwybod yn fras faint a gânt, heblaw ychydig o negodi. Dyna pryd y dylai fod wedi eistedd gyda llefarwyr y gwrthbleidiau, gydag arweinwyr y pleidiau eraill—sydd yn ffurfio'r mwyafrif yn y Cynulliad hwn—a negodi'n gall ac yn synhwyrol. Yn lle hynny, cawn y ffars hon nad yw'n gwneud dim lles i'r Cynulliad nac, yn sicr, i'r Blaid Lafur. Mae'r Blaid Lafur yn credu ei bod yn glyfar iawn—ein bod ar ei thrugaredd mewn rhyw fodd ac y bydd, drwy ddyrannu'r holl arian cyn dechrau negodi, yn ein herio i siomi rhywun drwy awgrymu y dylem symud ychydig arian o gwmpas. Mae'n ddrwg gennyf, ond nid ydym wedi llyncu'r abwyd hwnnw. Yr ydym wedi dilyn cwrs llawer aeddfetach drwy awgrymu, yn gyffredinol, i ble y carem weld yr arian yn mynd. Mae hynny'n ddull gweithredu llawer mwy aeddfed. Er bod y Gweinidog yn dweud ei bod yn rhannu rhai pethau gyda ni, mae'n drueni mawr nad yw'n eu rhannu gyda ni'n iawn ac yn gynharach.

Y Llywydd: Trefn. A ildwch i Lynne Neagle?

Jenny Randerson: Ildiaf.

Lynne Neagle: Nid mater o'ch herio i fynd ag arian oddi ar rywun ydyw. Y gwir yw, os ydych am gael arian ar gyfer y rhestr ddymuniadau hon, y bydd yn rhaid ichi fynd ag arian oddi ar rywun. Yn fy mhrofiad i, oddi ar gymunedau'r Cymoedd yr ewch ag arian, fel y mae'r ffaith bod pawb yn ymladd o blaid cynllun Tir Mynydd yn dangos. Pa bryd yr wynebwech yr hyn yr ydych yn ei wneud mewn gwirionedd?

Jenny Randerson: Fel yr Aelod Cynulliad sydd yn cynrychioli'r unig etholaeth yng Nghymru sydd heb fferm, gallaf ddweud nad yw cynllun Tir Mynydd yn mennu fawr ddim arnaf. Er hynny, mae sawl mater arall ar y rhestr ddymuniadau honno, fel y'i galwasoch yn gynharach, yr wyf yn credu, a fyddai o fudd mawr i'ch etholaeth—materion fel therapyddion gwybyddol, mannau chwarae i blant anabl, a llawer iawn mwy ar gyfer

live in the real world and realise that your constituency suffers from the same problems as many other constituencies in Wales.

I will, briefly, say something about the health budget, as I am my party's health spokesperson. I am concerned that the ambulance service says that it needs £20 million, but that it has been given only £16 million over two years. That is clearly inadequate. When will the Government give the ambulance service the resources it needs? Is it so arrogant that it does not recognise an elephant sitting in its sitting room? I am concerned by other things in the health budget, such as the £15 million transferred from the Wanless review. Is the Government renegeing on its commitment to Wanless recommendations, or is it that recent consultation has sent it back to the drawing board, because it does not understand the meaning of true consultation?

Finally, I question the Government on the lack of recognition of the plight of local authorities in terms of services for the elderly. The adult social care budget sees no increase, despite the acknowledged problems coming from local authorities of all colours. Next year, we will have a far more rigorous and robust system, and it is about time too. I say to those here today, and to anyone still listening out there, that the message to the people of Wales is that Labour's brinkmanship is bad for public services. It is not good for the voluntary sector nor for local government, which will have to wait much longer to know the results of the budget and to know how much money they will get next year, because of this stupid exercise in brinkmanship that the Government has gone in for again this year.

Karen Sinclair: Thank you, Minister, for your opening statement and for the draft budget that you have presented to the Assembly today. The proposals, as they stand, outline a clear and unambiguous programme of investment for Wales that is faithful to the values of social justice and equality, upon which this Labour Assembly

trafnidiaeth. Gadewch inni fyw yn y byd go iawn a sylweddoli bod eich etholaeth yn dioddef gan yr un problemau â llawer o etholaethau eraill yng Nghymru.

Dywedaf air, yn fyr, am y gyllideb iechyd, gan mai myfi yw llefarydd fy mhlaid ar iechyd. Yr wyf yn bryderus bod y gwasanaeth ambiwlans yn dweud bod arno angen £20 miliwn, ond na roddwyd ond £16 miliwn iddo dros ddwy flynedd. Mae'n amlwg nad yw hynny'n ddigonol. Pa bryd y gwnaiff y Llywodraeth roi i'r gwasanaeth ambiwlans yr adnoddau y mae arno eu hangen? A yw mor drahaus fel nad yw'n adnabod eliffant sydd yn eistedd yn ei pharlwr? Yr wyf yn bryderus ynghylch pethau eraill yn y gyllideb iechyd, fel y £15 miliwn a drosglwyddwyd oddi wrth adolygiad Wanless. A yw'r Llywodraeth yn troi ei chefn ar ei hymrwymiad i weithredu argymhellion Wanless, ynteu ai'r hyn a ddigwyddodd yw bod yr ymgynghori diweddar wedi peri iddi ailfeddwl, am nad yw'n deall gwir ystyr ymgynghori?

Yn olaf, holaf y Llywodraeth ynghylch y diffyg cydnabyddiaeth i drafferthion awdurdodau lleol ym maes gwasanaethau i'r henoed. Nid oes dim cynnydd yng nghyllideb gofal cymdeithasol i oedolion, er gwaethaf y problemau cydnabyddedig mewn awdurdodau lleol o bob lliw gwleidyddol. Y flwyddyn nesaf, bydd gennym system fwy cadarn a thrwyadl o lawer, ac mae'n hen bryd ei chael. Dywedaf wrth y rhai sydd yma heddiw, ac wrth unrhyw un sydd yn dal i wrando y tu allan, mai'r neges i bobl Cymru yw bod y dibynfentro gan Lafur yn beth drwg i wasanaethau cyhoeddus. Nid yw'n lles i'r sector gwirfoddol nac i lywodraeth leol, a fydd yn gorfod aros yn hwy o lawer i gael gwybod am ganlyniadau'r gyllideb a faint o arian a gânt y flwyddyn nesaf, oherwydd y dibynfentro gwirion hwn gan y Llywodraeth eto eleni.

Karen Sinclair: Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad agoriadol ac am y gyllideb ddrafft a gyflwynasoch i'r Cynulliad heddiw. Mae'r cynigion, fel y maent, yn amlinellu rhaglen glir a diamwys o fuddsoddi er mwyn Cymru sydd yn driw i werthoedd cyfiawnder cymdeithasol a chydaddoldeb, yr etholwyd y Llywodraeth Lafur hon ar eu sail yn 2003.

Government was elected back in 2003.

The draft budget sets out an additional £74 million of investment for our key public services on top of the commitments that have been made thus far. I particularly welcome the extra £13 million that has been allocated to improve social services. I have lobbied very hard on this. This budget also makes available an extra £9 million of new money for the health service, an additional £15 million for local authorities to improve the road networks, and £8 million for local authorities to expand provision for children with special educational needs and to fund foster-care allowances.

The Government proposes an additional increase in the funding available for vital public services that will benefit everyone. The opposition parties, by the same token, merely propose in their amendments an uncoded shopping list of demands that represent no coherent common thread, no definable political belief and which certainly do not contain a vision for a new Wales. The amendment calling for extra resources to be made available for local authorities to overcome the difficulties of landfill is mere posturing by John Marek. I want to see the landfill in Johnstown removed; of course I do.

Eleanor Burnham: Will you take an intervention?

Karen Sinclair: Not at the moment, Eleanor.

Blocking this budget and delaying millions of pounds of investment for better roads, more doctors and increased investment to fight crime and to tackle the important issues of neighbourhood renewal across Wales, is simply not the way to do it. If I thought that John cared about his constituency more than he cared about his own press coverage, I would take the proposed amendment more seriously. I will tell you exactly what I mean by that: John has made great play of funding for the railway link from Wrexham to London in the papers, but has he written to Andrew Davies, or has he spoken to him, on

Mae'r gyllideb ddrafft yn cyflwyno £74 miliwn o fuddsoddiadau ychwanegol ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol ar ben yr ymrwymadau a wnaed hyd yma. Croesawaf yn benodol y £13 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i wella gwasanaethau cymdeithasol. Yr wyf wedi llobio'n ddygn iawn ynghylch hyn. Mae'r gyllideb hon hefyd yn darparu £9 milwn yn ychwanegol o arian newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd, £15 miliwn ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol i wella'r rhwydweithiau ffyrdd, ac £8 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig ac i ariannu lwfansau gofal maeth.

Mae'r Llywodraeth yn cynnig cynnydd ychwanegol yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig y bydd pawb yn elwa ohono. Yn wyneb hynny, y cwbl a wnaiff y gwrthbleidiau yn eu gwelliannau yw cynnig rhestr siopa o alwadau sydd heb eu costio nad ydynt yn amlygu dim un thema gyffredin a chydlynol, dim un gred wleidyddol bendant ac sydd yn sicr heb ddim gweledigaeth ar gyfer Cymru newydd. Nid yw'r gwelliant sydd yn galw am ddarparu adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol i ddatrys anawsterau o ran tirlenwi'n ddim mwy nag ymagweddu gan John Marek. Yr wyf am weld symud y safle tirlenwi o Johnstown; ydwyf wrth gwrs.

Eleanor Burnham: A wnewch dderbyn ymyriad?

Karen Sinclair: Nid ar hyn o bryd, Eleanor.

Ni chyflawnir dim drwy rwystro'r gyllideb hon ac atal miliynau o bunnoedd o fuddsoddi i gael gwell ffyrdd, rhagor o feddygon a mwy o fuddsoddi i ymladd yn erbyn troseddau a mynd i'r afael â'r materion pwysig sydd yn ymwneud ag adnewyddu cymdogaethau ledled Cymru. Pe credwn fod John yn poeni mwy am ei etholaeth nag am y sylw a gaiff ef ei hun yn y wasg, byddwn yn fwy parod i gymryd y gwelliant a gynigir o ddifrif. Dywedaf wrthyh beth yn union yr wyf yn ei olygu wrth hynny: mae John wedi rhoi cryn sylw i'r cyllid ar gyfer y cyswllt rheilffordd o Wrecsam i Lundain yn y papurau, ond a yw

this matter? The answer is 'no'.

wedi ysgrifennu at Andrew Davies, neu wedi siarad ag ef, ynglŷn â'r mater hwn? Yr ateb yw 'nac ydyw'.

John Marek: Will you give way on that point?

John Marek: A wnewch ildio ar y pwynt hwnnw?

Karen Sinclair: You may want to wait until I have made a few more points, John. [*Laughter.*] You get only one intervention.

Karen Sinclair: Efallai yr hoffech aros nes imi wneud ychydig o bwyntiau eraill, John. [*Chwerthin.*] Dim ond un ymyriad sy'n cael ei ganiatáu.

John Marek: I have written to Andrew Davies; ask him.

John Marek: Yr wyf wedi ysgrifennu at Andrew Davies; gofynnwch iddo.

Karen Sinclair: I have checked.

Karen Sinclair: Yr wyf wedi holi.

On landfill and the plight of people in Johnstown, which we all care about, has John Marek written to Carwyn Jones? The answer is actually 'yes': there was one letter in July 2005, in which he asked for comments about a letter that he had received from someone else. There has been no more correspondence. Has John spoken to him? Has he requested a meeting? No, he has not.

O ran safleoedd tirlenwi a'r hyn sy'n digwydd i bobl Johnstown, rhywbeth yr ydym i gyd yn poeni amdano, a yw John Marek wedi ysgrifennu at Carwyn Jones? Yr ateb a dweud y gwir yw 'do': cafwyd un llythyr ym mis Gorffennaf 2005, lle y gofynnodd am sylwadau ar lythyr yr oedd wedi ei dderbyn oddi wrth rywun arall. Ni fu rhagor o ohebiaeth. A yw John wedi siarad ag ef? A yw wedi gofyn am gyfarfod? Naddo, nid yw wedi gwneud hynny.

*Daeth Glyn Davies i'r Gadair am 5.46 p.m.
Glyn Davies took the Chair at 5.46 p.m.*

I could say the same about the rural rate relief, but I will not, because the answer from Sue's office about correspondence is still 'no'. The refusal of John Marek and the opposition to constructively engage with the Government over important issues in north-east Wales simply proves that this is a stunt and a shopping list, designed only to give the Government a bloody nose. The people of Wrexham and the people of north Wales will see through this, and see it for what it is.

Gallwn ddweud yr un peth am y rhyddhad ardrethi gwledig, ond nid wyf am wneud hynny, oherwydd mai 'na' yw'r ateb o hyd o swyddfa Sue ynglŷn â gohebiaeth. Mae penderfyniad John Marek a'r gwrthbleidiau i wrthod cael trafodaeth adeiladol gyda'r Llywodraeth ynglŷn â materion pwysig yn y gogledd-ddwyrain yn dangos mai gêm a rhestr siopa yw hyn i gyd, a'r unig nod yw rhoi hergwd i'r Llywodraeth. Bydd pobl Wrecsam a phobl gogledd Cymru'n gweld beth yw diben hyn, ac yn gweld beth ydyw mewn gwirionedd.

Janet Ryder: I am sure that people will judge that little election address from Karen Sinclair for what it is. It is interesting to hear the Labour Party go on, year after year, about how much it is doing for Wales and about all the new policies that it is bringing forward, and about all the things that it is developing. It is interesting to hear Karen say that Labour is developing policies that benefit everyone,

Janet Ryder: Yr wyf yn siŵr y bydd pobl yn sylweddoli beth oedd yr araith etholiadol fach honno gan Karen Sinclair. Mae'n ddiddorol gwrando ar y Blaid Lafur, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn traethu am faint y mae'n ei wneud i Gymru ac am yr holl bolisiau newydd y mae'n eu cyflwyno, ac am yr holl bethau y mae'n eu datblygu. Mae'n ddiddorol clywed Karen yn dweud bod Llafur yn

because, the last time that I looked, schools affect the vast majority of people in Wales, whether they are children, parents, or grandchildren. However, what none of the Labour representatives today have said is why they are prepared to cut school budgets by 1 per cent year on year. Those cuts are having a devastating effect.

We heard from Sue today that £23 million goes into education, and some of that goes into the foundation phase. However, the headteacher of one Denbighshire school is reported as saying that the 1 per cent cut that that school had to find last year equated to £4,500, which means that it had to lose the classroom assistant who was helping to develop the foundation phase. Making those schools make those cuts is counter effective. Another Denbighshire headteacher says that he has only 25 computers, none of which are up to the national standard and, because of the cuts that he had to make last year, he cannot replace them, although they are braking down systematically. In the end, he will end up with an empty IT room. Those cuts are having a drastic effect.

However that is put right, it has to be put right, because school budgets cannot take that year-on-year cut. If the Government returns the money to schools, I hope that it gives that money back to the headteachers with the freedom for them to use it. Have some faith in your headteachers—they know what their schools need. Allow them to use that money as they want to. Do not distribute it on a mechanism under the raising attainment and individual standards in education in Wales initiative, or anything like that; distribute it fairly, and give headteachers the freedom that they need.

The other issue is the timing of this debate. The Minister has been in many partnership meetings with local government when they have complained about being told very late in the year about their local government settlement. You are in complete control of

datblygu polisïau sydd o fudd i bawb, oherwydd, y tro diwethaf yr edrychais, mae ysgolion yn effeithio ar fwyafrif llethol pobl Cymru, boed hwy'n blant, rhieni, neu wyrion. Fodd bynnag, yr hyn nad oes yr un o gynrychiolwyr Llafur wedi ei esbonio inni heddiw yw pam maent yn barod i dorri 1 y cant o gyllidebau ysgol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r toriadau hyn yn cael effaith niweidiol iawn.

Clywsom Sue'n dweud heddiw fod £23 miliwn yn mynd at addysg, a bod peth o hynny'n mynd at y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, dywedir bod pennaeth un ysgol yn sir Ddinbych wedi dweud bod yr 1 y cant o doriad yr oedd yn rhaid i'r ysgol ddod o hyd iddo y llynedd yn cyfateb i £4,500, sy'n golygu ei bod wedi colli'r cymhorthydd dosbarth a oedd yn cynorthwyo i ddatblygu'r cyfnod sylfaen. Mae gorfodi'r ysgolion hyn i wneud y toriadau hyn yn wrthgynhyrchiol. Dywed pennaeth arall o sir Ddinbych mai dim ond 25 o gyfrifiaduron sydd ganddo, ac nad oes yr un ohonynt yn cyrraedd y safon genedlaethol ac, oherwydd y toriadau y bu'n rhaid iddo eu gwneud y llynedd, ni all gael rhai newydd yn eu lle, er eu bod yn torri'n gyson. Yn y pen draw, ystafell TG wag fydd ganddo yn y diwedd. Mae'r toriadau hyn yn cael effaith ddifrifol iawn.

Sut bynnag yr eir ati i unioni hynny, rhaid ei unioni, oherwydd ni all cyllidebau ysgolion ddygymod â'r toriadau hynny flwyddyn ar ôl blwyddyn. Os bydd y Llywodraeth yn rhoi'r arian yn ôl i ysgolion, gobeithiaf y bydd yn rhoi'r arian yn ôl i'r penaethiaid ynghyd â rhyddid iddynt i'w wario. Dangoswch ychydig o ffydd yn eich penaethiaid—hwy sy'n gwybod beth sydd ei angen ar eu hysgolion. Gadewch iddynt wario'r arian fel y mynnant. Peidiwch â'i ddsbarthu trwy fecanwaith o dan y fenter codi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion yng Nghymru, na dim byd felly; dosbarthwch yr arian yn deg, a rhowch y rhyddid sydd ei angen ar bennaethiaid i wneud hynny.

Y peth arall pwysig yw amseriad y ddadl hon. Mae'r Gweinidog wedi bod mewn nifer o gyfarfodydd partneriaeth gyda llywodraeth leol lle y buont yn cwyno eu bod yn cael gwybod am eu setliad llywodraeth leol yn hwyr iawn yn y flwyddyn. Mae gennyh

this timetable—many Members have said that you have set the timetable from the beginning. This year again, local government will not know what their local revenue settlement is before Christmas. It will be after Christmas before they know according to the timetable set by you, the Labour Party. The effect for schools, which should be told by their local authority by the end of January what their budget is, is that they will not know how much money they will get, because local government does not know. Therefore, you will be creating even more problems for local government. When schools complain, you will be able to hold your hands up again and say, ‘I am sorry, it is not me; it is those nasty people in local government who are causing it’.

The other issue is money for higher education, touched upon by many Members. Last year, opposition parties expected the Government to deliver systematically on this funding. Why are we still waiting for your report? Why are we still waiting to hear what you think that funding gap is? Why will you not come forward with that report, publish it openly, and tell us what you think that historical funding gap is, so that we can have a debate on that figure? We have been waiting a year for a report that has not materialised. Before we see your figures, it is hard for anyone to start putting that money back in. However, that money must be put back in, because, unless our higher education sector is funded properly, it will fail. That, again, will be down to the bad management of a Labour Government. It is bad timetabling and bad management. These are all things that you can take control of, but have not. Despite everything that Karen says, people will make a judgment in May on what they think of you.

5.50 p.m.

Jeff Cuthbert: My constituents will continue to benefit greatly from Labour’s draft budget, and I am proud to support it today. I am proud to welcome a budget that has almost doubled since 1999 to over £14 billion in the

reolaeth lwyr dros yr amserlen hon—dywed llawer o Aelodau eich bod wedi pennu’r amserlen o’r cychwyn cyntaf. Eleni eto, ni fydd llywodraeth leol yn gwybod beth fydd eu setliad refeniw cyn y Nadolig. Yn ôl yr amserlen sydd wedi ei phennu gennych chi, y Blaid Lafur, bydd y Nadolig wedi mynd heibio cyn y byddant yn gwybod. Effaith hynny ar ysgolion, a ddylai gael eu hysbysu gan eu hawdurdod lleol erbyn diwedd Ionawr beth fydd eu cyllideb, yw na fyddant yn cael gwybod faint o arian y byddant yn ei gael, oherwydd nad yw llywodraeth leol yn gwybod. Felly, byddwch yn creu mwy fyth o broblemau i lywodraeth leol. Pan fydd ysgolion yn cwyno, byddwch yn gallu codi’ch dwylo eto a dweud, ‘Mae’n ddrwg gennyf, nid wyf fi ar fai; y bobl gas yn yr awdurdod lleol sy’n gyfrifol’.

Y mater arall yw arian ar gyfer addysg uwch, rhywbeth y mae nifer o Aelodau wedi ei grybwyll. Y llynedd, yr oedd y gwrthbleidiau’n disgwyl i’r Llywodraeth ddarparu’r arian hwn yn systematig. Pam yr ydym yn dal i aros am eich adroddiad? Pam yr ydym yn dal i aros i glywed beth yw’r bwlch cyllido yn eich barn chi? Pam na chyflwynwch yr adroddiad hwnnw, ei gyhoeddi’n agored, a dweud wrthym faint yw’r bwlch cyllido hanesyddol yn eich barn chi, er mwyn ein galluogi i gael dadl ar y ffigur hwnnw? Yr ydym wedi bod yn aros ers blwyddyn am adroddiad nad yw wedi ymddangos. Hyd nes y cawn weld eich ffigurau, mae’n anodd i neb ddechrau rhoi’r arian hwnnw’n ôl. Fodd bynnag, rhaid rhoi’r arian hwnnw’n ôl, oherwydd, os na chaiff ein sector addysg uwch ei ariannu’n ddigonol, bydd yn methu. Bydd hynny, eto, yn ganlyniad rheoli gwael gan Lywodraeth Lafur. Mae’n amserlennu gwael a rheoli gwael. Mae’r rhain i gyd yn bethau y gallwch eu rheoli, ond nid ydych wedi gwneud hynny. Er gwaethaf popeth a ddywedodd Karen, bydd pobl yn cael dweud yr hyn y maent yn ei feddwl amdanoch ym mis Mai.

Jeff Cuthbert: Bydd fy etholwyr yn parhau i elwa’n fawr o gyllideb ddrafft y Blaid Lafur, ac yr wyf yn falch o’i chefnogi heddiw, Yr wyf yn falch o gael croesawu cyllideb sydd wedi dyblu bron ers 1999 i dros £14 biliwn

next financial year. It is a budget that is designed to improve our nation's health, and boost educational opportunities. These plans deliver on the trust placed in Welsh Labour in 2003. My constituents will benefit from free bus travel for the over 60s, free swimming, free prescriptions by May 2007, free school breakfasts, the reintroduction of free school milk, and strong investment in early years' education and the 14-19 learning pathways. These are just a few of the Assembly Government's Wales-wide policies that are making a real difference to communities in my constituency and nationwide.

As chair of the Objective 1 programme monitoring committee, I am proud that the Assembly Government has secured a further round of European funding for west Wales and the Valleys. The new strategic approach to programme implementation will allow for an additional £1.2 billion to be invested in jobs and skills. The Labour Government has ensured, as it did before, that Wales is to get more for every person living here than the next two regions in the table—Northern Ireland and the north-east of England.

Furthermore, this budget values learning for our children, young people and adults, and the additional resources made available will enable the historic investment in long-term success to continue. An additional £22 million investment in early years provision is welcome. This budget also delivers an additional £12 million for 14-19 learning, which will continue to help deliver parity of esteem between academic and vocational education, which is so important to our young people.

Furthermore, the additional £76 million of investment in key issues made available this year will enable a further £15 million of capital investment in local roads. This will enable work to commence on the Bargoed regeneration scheme in my constituency. There is also an additional £1.5 million in revenue funding for the long-awaited Ebbw Vale railway line, and the financial allocation

yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'n gyllideb sydd â'r nod o wella iechyd ein cenedl, a hybu cyfleoedd addysgol. Mae'r cynlluniau hyn yn gwireddu'r ymddiriedaeth a ddangoswyd yn Llafur Cymru yn 2003. Bydd fy etholwyr yn elwa o docynnau bws am ddim i bobl dros 60 oed, nofio am ddim, presgripsiynau am ddim erbyn Mai 2007, brechwast am ddim mewn ysgolion, ailgyflwyno llaeth am ddim mewn ysgolion, a buddsoddiad sylweddol yn addysg y blynyddoedd cynnar a'r llwybrau dysgu 14-19. Dim ond rhai o bolisiau Cymru gyfan Llywodraeth y Cynulliad sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymunedau yn fy etholaeth a thrwy Gymru gyfan yw'r rhain.

Fel cadeirydd pwyllgor monitro rhaglen Amcan 1, yr wyf yn falch bod Llywodraeth y Cynulliad wedi sicrhau cylch arall o arian Ewropeaidd ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Bydd y dull strategol newydd o weithredu'r rhaglen yn caniatáu i £1.2 biliwn yn ychwanegol gael ei fuddsoddi mewn swyddi a sgiliau. Mae'r Llywodraeth Lafur wedi sicrhau, fel y gwnaeth o'r blaen, y bydd Cymru'n derbyn mwy o arian ar gyfer pawb sy'n byw yma na'r ddau ranbarth nesaf yn y tabl—Gogledd Iwerddon a gogledd-ddwyrain Lloegr.

Hefyd, mae'r gyllideb hon yn rhoi pwyslais ar werth dysgu i'n plant, ein pobl ifanc a'n hoedolion, a bydd yr adnoddau ychwanegol a fydd ar gael yn galluogi'r buddsoddiad hanesyddol mewn llwyddiant hirdymor i barhau. Mae buddsoddiad ychwanegol o £22 miliwn mewn darpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn rhywbeth i'w groesawu. Mae'r gyllideb hefyd yn darparu £12 miliwn ychwanegol ar gyfer dysgu 14-19 oed, a fydd yn parhau i helpu i sicrhau parch cydradd at addysg academaidd a galwedigaethol, sydd mor bwysig i'n pobl ifanc.

Hefyd, mae'r £76 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol mewn meysydd allweddol a fydd ar gael eleni'n galluogi buddsoddiad cyfalaf ychwanegol o £15 miliwn mewn ffyrdd lleol. Bydd hyn yn galluogi'r gwaith i ddechrau ar gynllun adfywio Bargoed yn fy etholaeth. Ceir £1.5 miliwn ychwanegol hefyd mewn cyllid refeniw ar gyfer lein hirddisgwyliedig Glynwby, a'r dyraniad ariannol a fydd yn

that will allow for the building of the new £130 million local general hospital for the Caerphilly borough at Ystrad Mynach.

This budget builds on the strong foundation of economic stability, it advances a modern framework of efficient public services, and encourages a dynamic economy, driven by investments in jobs and skills, while securing record investment in education and health. These key investments are in sharp contrast to the shabby shopping list provided by the opposition parties for pet projects in their constituencies, with short-term gain in mind, rather than long-term, evidence-based investment. They have failed to say where they will get the additional millions of pounds to pay for this shopping list. It would have to come from public services, but the opposition parties refuse to tell us which ones. Undoubtedly, it will come from communities in places such as Wrexham, and from Valleys constituencies such as Blaenau Gwent.

Labour's budget is a budget for the many and not the few—in stark contrast to the opportunism of opposition members.

Jonathan Morgan: Lorraine Barrett said that we were living in cloud-cuckoo-land. Having listened to her contribution, and some of the earlier contributions about the Tir Mynydd scheme, I conclude that we are certainly living in the twilight zone. At one point, I got the distinct impression that the Minister for farming was telling us that he was not too keen on certain types of farmers. Whatever next? Is the Minister for health going to say that he does not like certain types of doctors and nurses? This Government really seems to be losing the plot. There is no doubt that, over the next couple of months, Ministers will tell people how this budget is good for public services in the health service in Wales. There is no doubt that, as a Government, you have put extra money into the health service. There is no disputing that; the dispute is whether that money has been spent in the most effective manner.

caniatáu i'r ysbyty cyffredinol lleol newydd gwerth £130 miliwn ar gyfer bwrdeistref Caerffili gael ei adeiladu yn Ystrad Mynach.

Mae'r gyllideb hon yn adeiladu ar sylfaen gadarn sefydlogrwydd economaidd, mae'n hybu fframwaith modern o wasanaethau cyhoeddus effeithlon, ac mae'n annog economi ddynamig, sy'n cael ei hysgogi gan fuddsoddiadau mewn swyddi a sgiliau, gan sicrhau'r buddsoddiad mwyaf erioed mewn addysg ac iechyd. Mae'r buddsoddiadau allweddol hyn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r rhestr siopa ddiddim a roddwyd gerbron gan y gwrthbleidiau ar gyfer prosiectau a fyddai'n boblogaidd yn eu hetholaethau, gyda golwg ar enillion tymor byr, yn hytrach na buddsoddiad hirdymor, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Nid ydynt wedi dweud o ble y daw'r miliynau o bunnoedd ychwanegol i dalu am eu rhestr siopa. Byddai'n rhaid i'r arian ddod o wasanaethau cyhoeddus, ond mae'r gwrthbleidiau'n gwrthod dweud wrthym pa rai fyddai'n gorfod dioddef. Yn ddi-os, bydd yr arian yn dod o gymunedau mewn mannau fel Wrecsam, ac o etholaethau'r Cymoedd megis Blaenau Gwent.

Cyllideb ar gyfer y lliaws yn hytrach na'r ychydig rai yw cyllideb Llafur—sy'n gwbl groes i ymdrechion aelodau'r gwrthbleidiau i geisio elwa ar y sefyllfa.

Jonathan Morgan: Dywedodd Lorraine Barrett ein bod â'n pennau yn y cymylau. Ar ôl gwrando ar ei chyfraniad, a rhai o'r cyfraniadau cynharach ar y cynllun Tir Mynydd, yr wyf wedi dod i'r casgliad ein bod yn sicr yn byw yn nhir neb. Ar un adeg, cefais yr argraff bod y Gweinidog dros ffermio'n dweud wrthym nad oedd yn rhy hoff o rai mathau o ffermwyr. Beth nesaf? A yw'r Gweinidog dros iechyd yn mynd i ddweud nad yw'n hoffi rhai mathau o feddygon a nyrsys? Ymddengys fod y Llywodraeth hon yn dechrau drysu. Dros y ddeufis nesaf, nid oes amheuaeth na fydd Gweinidogion yn dweud wrth bobl ym mha ffordd y mae'r gyllideb hon yn llesol i wasanaethau cyhoeddus yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Nid oes amheuaeth nad ydych, fel Llywodraeth, wedi rhoi arian ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd. Ni ellir gwadu hynny; ond y ddadl yw a yw'r arian

hwnnw wedi cael ei wario yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Many of us will welcome the £16 million allocated to the ambulance service, for there is no doubt that many ambulances need to be replaced and there is dire need in the short term to replace the stock of ambulances that are more than five years of age. We have supported that, but there is real concern on this side of the Chamber, and on the Plaid and independent benches, that sufficient money is not being allocated in the health budget to address the concerns being raised by the Welsh Ambulance Services NHS Trust.

I am sure that the Minister for health will point out in the weeks to come that more than £300 million has been allocated to the capital budget line of the health budget. That figure is not new; in fact, it was in the budget that we considered last year. What is new and what has transpired in the intervening 12 months is that additional financial pressures are being put on the ambulance service that would not have been anticipated when those indicative plans were drawn up more than 12 months ago. That £300 million allocated to local health boards and trusts for their capital budget line has, no doubt, already been allocated to certain projects. Projects will be, and have been, drawn up by NHS trusts and local health boards in order to put bids in for that money. Therefore, it is not at all clear where the so-called support to the ambulance service is in that £300 million, if it is there at all. The Assembly Government seems to be playing a game of hide and seek. I cannot see it. I know for a fact that the Minister for health will not be able to tell me what capacity there is in that £300 million over and above that which is likely to be allocated to LHBs and trusts to be put into the ambulance service. We are right to be concerned and we are right to raise this as a specific issue and area for negotiation.

The auditor general is due to report, probably in November, on his inquiry, and there is no doubt that that will raise a huge number of

Bydd llawer ohonom yn croesawu'r £16 miliwn sydd wedi'i ddyrannu i'r gwasanaeth ambiwlans, oherwydd nid oes amheuaeth nad oes angen ambiwlansys newydd ac yn y tymor byr mae dirfawr angen adnewyddu'r ambiwlansys hynny sydd dros bum mlwydd oed. Yr ydym wedi cefnogi hynny, ond mae pryder gwirioneddol ar yr ochr hon i'r Siambr, ac ar feinciau Plaid a'r annibynwyr, nad oes digon o arian yn cael ei ddyrannu yn y gyllideb iechyd i roi sylw i'r pryderon sy'n cael eu mynegi gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.

Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog dros iechyd yn dweud yn ystod yr wythnosau nesaf fod dros £30 miliwn wedi ei ddyrannu i linell gwariant cyfalaf y gyllideb iechyd. Nid yw'r ffigur hwnnw'n un newydd; a dweud y gwir yr oedd yn y gyllideb y buom yn ei hystyried y llynedd. Yr hyn sy'n newydd a'r hyn a ddaeth i'r amlwg yn y 12 mis dilynol yw bod pwysau ariannol ychwanegol yn cael eu rhoi ar y gwasanaeth ambiwlans na fyddent wedi cael eu rhagweld pan luniwyd y cynlluniau dangosol hynny dros 12 mis yn ôl. Yn ddi-os, mae'r £300 miliwn a ddyrannwyd i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau ar gyfer eu llinell gwariant cyfalaf wedi ei ddyrannu eisoes i brosiectau penodol. Bydd prosiectau'n cael eu llunio, ac mae rhai wedi eu llunio, gan ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd lleol er mwyn cyflwyno ceisiadau ar gyfer yr arian hwnnw. Felly, nid yw'n eglur o gwbl lle y mae'r cymorth honedig i'r gwasanaeth ambiwlans o fewn y £300 miliwn hwnnw, os yw yno o gwbl. Ymddengys fod y Cynulliad yn chwarae mig. Ni allaf ei weld. Gwn i sicrwydd na fydd y Gweinidog dros iechyd yn gallu dweud wrthyf faint o arian yn y £300 miliwn hwnnw yn ychwanegol at yr hyn sy'n debygol o gael ei ddyrannu i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau sy'n debygol o gael ei roi i'r gwasanaeth ambiwlans. Mae'n iawn inni fod yn bryderus ac mae'n iawn inni godi hyn fel mater penodol a maes lle y mae angen negodi.

Bydd yr archwiliwr cyffredinol yn cyhoeddi ei adroddiad cyn hir, ym mis Tachwedd, mae'n debyg, ar ei ymchwiliad, ac nid oes

concerns that will need to be addressed by the Assembly Government and will require additional funding. There could be further capital issues, not just on vehicles but on other forms of equipment, such as satellite navigation, which will need to be addressed quickly. There will need to be capacity in the budget to deal with that. It is not just capital; there could also be staffing or revenue issues that will need to be addressed. Even if you do not think that you need to be certain, as opposition members, we need to be certain that this Assembly budget can respond to those pressures.

Earlier on, the Finance Minister said that NHS trusts were working to meet the Assembly Government's targets, but I can tell you now that the targets that you have set for 2009 will not be met, if we remain in the current direction of travel. NHS trusts are telling us that they cannot even commit to meeting the 2006 targets on in-patient and out-patient appointments, let alone attempting to meet the 2009 targets that you have set. There are substantial financial pressures, not just in terms of the targets set through the service and financial framework, but also in the changes to medical professionals' contracts to meet the commitments of 'Agenda for Change'. You have set additional targets, but we also know of additional medicines coming on stream. Earlier, I referred to the problem that will occur quite soon with regard to financing the vaccine for cervical cancer. I do not see any capacity in this budget to allow for these sorts of changes and improvements. I, for one, do not doubt that you have put extra money into the health budget and that you will claim credit for extra cash, but you have little to show for it.

Irene James: Due to the lack of time, I will focus on the amendments, but I want to say to Rhodri Glyn Thomas first, following his comments on *Dragon's Eye*, that I am delighted that he intends to overhaul his political outlook completely and support

amheuaeth na fydd yn codi nifer enfawr o bryderon y bydd rhaid i Lywodraeth y Cynulliad roi sylw iddynt ac a fydd angen arian ychwanegol. Efallai y bydd rhagor o ofynion cyfalaf, ac nid ar gerbydau yn unig, ond ar fathau eraill o offer, megis systemau llywio lloeren, materion y bydd rhaid mynd i'r afael â hwy ar fyrder. Bydd rhaid cael adnoddau yn y gyllideb i ddelio â hynny. Mae'n golygu mwy na chyfalaf yn unig; mae'n bosibl y bydd materion staff neu refeniw y bydd rhaid eu datrys. Hyd yn oed os nad ydych yn credu bod rhaid ichi fod yn sicr, fel aelodau'r gwrthbleidiau, rhaid inni fod yn sicr y gall y gyllideb hon ymateb i'r pwysau hynny.

Yn gynharach, dywedodd y Gweinidog Cyllid fod ymddiriedolaethau'r GIG yn gweithio i gyflawni targedau Llywodraeth y Cynulliad, ond gallaf ddweud wrthyh yn awr na fydd y targedau yr ydych wedi eu pennu ar gyfer 2009 yn cael eu cyflawni, os byddwn yn parhau i ddilyn yr un trywydd ag yr ydym yn ei ddilyn yn awr. Dywed ymddiriedolaethau'r GIG na allant hyd yn oed ymrwymo i gyflawni targedau 2006 ar apwyntiadau cleifion mewnol ac allanol, heb sôn am geisio cyflawni'r targedau a bennwyd gennych ar gyfer 2009. Mae pwysau ariannol sylweddol arnynt, nid yn unig o ran y targedau a bennwyd drwy'r fframwaith gwasanaeth a chyllid, ond hefyd yn y newidiadau i gontractau gweithwyr meddygol proffesiynol i gyflawni ymrwymadau'r 'Agenda ar gyfer Newid'. Yr ydych wedi pennu targedau ychwanegol, ond gwyddom hefyd am feddyginiaethau newydd a gaiff eu cyflwyno. Yn gynharach, cyfeiriais at y broblem a ddaw i'r amlwg cyn hir o ran ariannu'r brechlyn ar gyfer canser ceg y groth. Ni welaf ddim adnoddau yn y gyllideb hon sy'n caniatáu newidiadau a gwelliannau o'r fath. Nid wyf yn amau nad ydych wedi rhoi arian ychwanegol i'r gyllideb iechyd ac na fyddwch yn hawlio'r clod am yr arian ychwanegol, ond nid oes fawr ddim wedi deillio o hynny.

Irene James: Oherwydd prinder amser, yr wyf am ganolbwyntio ar y gwelliannau, ond hoffwn ddweud wrth Rhodri Glyn Thomas yn gyntaf, yn sgîl ei sylwadau ar *Dragon's Eye*, fy mod wrth fy modd ei fod yn bwriadu newid ei safbwynt gwleidyddol yn llwyr a

Welsh Labour. All that he has to do now to cement his new-found political principles is renege on his party's narrow nationalism, embrace the values of the people of Wales, embrace social justice, equality, opportunity, and vote Labour.

chefnogi Llafur Cymru. Yr unig beth sy'n rhaid iddo ei wneud yn awr i gadarnhau ei egwyddorion gwleidyddol newydd sbon yw cefnu ar genedlaetholdeb cul ei blaid, a derbyn gwerthoedd pobl Cymru, derbyn cyfiawnder cymdeithasol, cyfle cyfartal, a phleidleisio dros Lafur.

6.00 p.m.

Eleanor Burnham: Irene, will you take an intervention?

Eleanor Burnham: Irene, a wnewch dderbyn ymyriad?

Irene James: No, I will not. Sorry, Eleanor.

Irene James: Na wnaf. Mae'n ddrwg gennyf, Eleanor.

Eleanor Burnham: I am not doing very well this afternoon.

Eleanor Burnham: Nid wyf yn gwneud yn dda iawn y prynhawn yma.

Irene James: No, you are not.

Irene James: Nac ydych wir.

I wish that Rhodri Glyn was in the Chamber to hear this, but even the longest journey begins with the first step. Here he comes, but he is too late.

Byddai'n dda gennyf petai Rhodri Glyn yn y Siambr i glywed hyn, ond mae'r siwrnai hwyaf yn cychwyn gyda'r cam cyntaf. Mae'n dod yn awr, ond mae'n rhy hwyr.

I am surprised by the apparent intentions of the Member for Blaenau Gwent, who would turn her back on the poorest people in Wales and risk the £1.5 million that has been set aside in the budget to support the operation of an hourly passenger service between Ebbw Vale and Cardiff, she would trade away millions of pounds of investment in Wales's poorest areas, including hers, so that the Tories can buy up rural votes. She would also today sacrifice the trust of the people who put her here, and sacrifice a budget that puts first the vulnerable, the needy, the disempowered and the disenfranchised to protect core Tory votes and to help to redeliver a vicious Tory legacy on the people of the Gwent Valleys. It is shameful that that Member can sit there and dance to a Tory tune after local people firmly slammed the front door in Tory faces only weeks ago.

Yr wyf yn synnu at fwriad ymddangosiadol yr Aelod dros Flaenau Gwent, sydd am droi ei chefn ar bobl dlotaf Cymru a pheryglu'r £1.5 miliwn a neilltuwyd yn y gyllideb i gefnogi rhedeg y gwasanaeth bob awr i deithwyr rhwng Glynebwy a Chaerdydd; wrth fargeinio mae am golli gwerth miliynau o bunnoedd o fuddsoddiad yn ardaloedd tlotaf Cymru, gan gynnwys ei rhai hi, fel y gall y Torïaid brynu pleidleisiau yng nghefn gwlad. Hefyd byddai heddiw'n aberthu ymddiriedaeth y bobl a'i rhoes yma, ac yn aberthu cyllideb sydd yn rhoi blaenoriaeth i'r bregus, yr anghenus, y di-rym a'r difreintiau er mwyn amddiffyn pleidleisiau craidd y Torïaid a helpu i ailgyflwyno Torïaeth gïaidd i bobl Cymoedd Gwent. Mae'n gywilyddus bod yr Aelod hwnnw'n gallu eistedd yna a dawnsio i diwn y Torïaid wedi i bobl leol gau'r drws yn glep yn wynebau'r Torïaid rai wythnosau'n ôl.

The Tories have unveiled their policy plans, and, yes, they involve tax cuts and public spending cuts—the same old Tory cuts. They call it 'No turning back'; I call it a simple plain warning to the people of Wales. Yet, in blatant staggering hypocrisy, they make extra budget demands in the Chamber. We expect

Mae'r Torïaid wedi datgelu eu cynlluniau polisi, ac, ydynt, maent yn golygu torri trethi a thorri gwariant cyhoeddus—yr un hen doriadau Torïaidd. 'Dim troi'n ôl' yw eu henw ar hyn: fy enw i arno yw rhybudd syml a phlaen i bobl Cymru. Ac eto, yn hollol wynebgaled o ragrithiol, dyma hwy'n

no less. Let us be as plain as the Tories are on cuts. The Member for Blaenau Gwent will today vote in favour of amendments that divert much-needed money from our most deprived communities to curry Tory favour. I hope that she can face the people of the Gwent Valleys and tell them that their sustained poverty is a worthy sacrifice, because a financial windfall is directed at rural Wales—for the few, not the many.

cyflwyno galwadau ychwanegol ar y gyllideb yn y Siambr. Nid ydym yn disgwyl dim llai. Gadewch inni fod mor blaen â'r Torïaid ynghylch toriadau. Bydd Aelod Blaenau Gwent yn pleidleisio heddiw o blaid gwelliannau sydd yn mynd ag arian y mae angen mawr amdano o'n cymunedau mwyaf difreintiedig er mwyn plesio'r Torïaid. Gobeithio y gall wynebu pobl Cymoedd Gwent a dweud wrthynt fod eu tlodi cyson yn werth yr aberth, am fod arian mawr yn cael ei gyfeirio at y Gymru wledig—ar gyfer yr ychydig rai, nid ar gyfer y lliaws.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 6.02 p.m.
The Presiding Officer took the Chair at 6.02 p.m.*

The amendments do not ask for more investment in the Communities First or Flying Start programmes. They do not ask for money to tackle child poverty or to breathe new life and opportunities into our poorest areas for the poorest people. They represent Tory values, which destroyed all our communities in every corner of Wales over 18 desperate years. I say to the Member for Blaenau Gwent that the people trusted you, they voted for you, and, if you support these amendments, you have not listened to them. The people of Blaenau Gwent now have their worst nightmare: a Tory under the banner of an independent.

Peter Black: I wanted to concentrate on the education proposals in the budget, but, before I do, I just want to reflect briefly on Jeff Cuthbert's speech—and I see that he is now leaving the Chamber. Jeff stood up and gave us a massive list of things that the budget was achieving, a great deal of which related to his constituency or to the constituencies of other Labour Members. He then accused us of coming up with a shabby shopping list. Any budget negotiation or debate is essentially a discussion about different shopping lists, and the outcome of any budget is whichever shopping list you come up with. No doubt, if the amendments are passed today, there will be further negotiation to produce a different sort of shopping list. However, I do not believe that there is anything shabby about wanting better-resourced schools and universities or improved transport links and an improved ambulance service. Those are my personal priorities for this budget.

Nid yw'r gwelliannau yn gofyn am fwy o fuddsoddi yn rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf na Dechrau'n Deg. Nid ydynt yn gofyn am fwy o arian i fynd i'r afael â thlodi ymhlith plant nac i adnewyddu ein hardaloedd tlotaf ar gyfer y bobl dlotaf a rhoi cyfleoedd newydd iddynt. Maent yn cynrychioli gwerthoedd Torïaidd, a ddinistriodd ein holl gymunedau yng Nghymru benbaladr dros 18 o flynyddoedd blin. Dywedaf wrth Aelod Blaenau Gwent i'r bobl ymddiried ynoch, pleidleisio drosoch, ac, os cefnogwch y gwelliannau hyn, nad ydych wedi gwrando arnynt. Mae pobl Blaenau Gwent yn awr yn wynebu eu hunllef waethaf: Tori dan faner annibynnol.

Peter Black: Yr oeddwn am ganolbwyntio ar y cynigion addysg yn y gyllideb, ond cyn gwneud, carwn droi'n ôl am ennyd at araith Jeff Cuthbert—a gwelaf ei fod yn awr yn gadael y Siambr. Cododd Jeff a rhoi inni restr hirfaith o lwyddiannau'r gyllideb, a llawer iawn o'r rheini'n ymwneud â'i etholaeth ef neu etholaethau Aelodau Llafur eraill. Yna, cyhuddodd ni o gynhyrchu rhestr siopa siabi. Mae unrhyw drafodaeth neu ddadl am y gyllideb yn ei hanfod yn drafodaeth am wahanol restrau siopa, a chanlyniad unrhyw gyllideb yw pa restr siopa bynnag a fydd gennych. Yn ddiamau, os derbynnir y gwelliannau heddiw, bydd rhagor o drafod i gynhyrchu math gwahanol o restr siopa. Fodd bynnag, ni chredaf fod dim byd siabi ynghylch bod eisiau ysgolion a phrifysgolion sydd â gwell adnoddau neu well cysylltiadau trafniadaeth a gwell gwasanaeth ambiwlans. Y rheini yw fy mlaenoriaethau personol i ar gyfer y gyllideb hon.

Jeff Cuthbert: That is fair enough, in one sense, but will you accept that the projects that I referred to in my constituency are part of a Wales-wide analysis of places in need, which has come through a consideration of deprived communities across Wales? Will you tell us how much money you would take from other budgets to pay for the extra costs of your priorities? Will you give us that information?

Peter Black: Jeff, all the items on our list are up for negotiation and discussion, and, until you reach an agreement on which you can secure a majority in the Chamber, it is difficult to say what will be approved and what the cost will be. However, I will say that all the priorities on our list fit with the general aspirations of this budget. In many instances, we want to do things better or slightly differently, but the general thrust of the budget has our overall support. We tabled our amendments because, on certain issues, such as the treatment of schools and universities, and the inadequate investment in ambulances, we think that you could do better. That is what this is about: we are trying to get a better budget that can command majority support in the Chamber. The Government has not sought to do that; it has proposed a budget knowing that it does not have a majority, yet deciding to plough on regardless for its own reasons.

I now want to say something good about this budget: I welcome the extra £7 million being put towards school buildings. It is important that we put a lot more money towards school buildings. However, as we all know, the PricewaterhouseCoopers report commissioned by the Welsh Local Government Association identified a £749 million shortfall. While it is probably true that the Labour manifesto pledge to commit £560 million over four years will be met, the other commitment to make all schools fit for purpose by 2010 will not. Although it is probably impossible to use this budget to try to get anywhere near achieving that target, when we discuss budgets in the third Assembly, we must work hard with local government and other partners to start setting realistic targets for getting our schools fit for

Jeff Cuthbert: Digon teg, ar un ystyr, ond a wnewch dderbyn bod y prosiectau y cyfeiriais atynt yn f'etholaeth yn rhan o ddatblygiad drwy Gymru gyfan o fannau mewn angen, a ddatblygodd drwy ystyried cymunedau difreintiedig ledled Cymru? A ddywedwch wrthym faint o arian y byddech yn ei dynnu o gyllidebau eraill i dalu am gostau ychwanegol eich blaenoriaethau? A rowch y wybodaeth honno inni?

Peter Black: Jeff, mae pob un o'r eitemau ar ein rhestr yn destun negodi a thrafod, a hyd nes ichi ddod i gytundeb y gallwch gael mwyafrif arno yn y Siambr, mae'n anodd dweud beth fydd y gost. Fodd bynnag, dywedaf fod yr holl flaenoriaethau ar ein rhestr yn gydnaws â dyheadau cyffredinol y gyllideb hon. Mewn llawer achos, yr ydym am wneud pethau yn well neu fymryn yn wahanol, ond yr ydym yn cefnogi nod cyffredinol y gyllideb. Cyflwynasom ein gwelliannau oherwydd ein bod, ar rai materion megis y driniaeth a gaiff ysgolion a phrifysgolion, a'r buddsoddi annigonol mewn ambiwlansys, yn credu y gallwch wneud yn well. Dyna beth yw hyn: yr ydym yn ceisio cael gwell cyllideb a fydd yn derbyn cefnogaeth y mwyafrif yn y Siambr. Ni cheisiodd y Llywodraeth wneud hynny; cynigiodd gyllideb gan wybod nad oes ganddi fwyaf, ond gan benderfynu serch hynny ei bod am ddal ati doed a ddelo am ei rhesymau ei hun.

Yr wyf yn awr am ddweud rhywbeth da am y gyllideb hon: croesawaf y £7 miliwn ychwanegol a roddir tuag at adeiladau ysgolion. Mae'n bwysig inni roi llawer mwy o arian tuag at adeiladau ysgolion. Fodd bynnag, fel y gwyddom oll, canfu adroddiad PricewaterhouseCoopers a gomisiynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddiffyg o £749 miliwn. Er ei bod yn wir, mae'n debyg, y cyflawnir addewid y maniffesto Llafur i ymrwymo i roi £560 miliwn dros bedair blynedd, ni chyflawnir yr addewid arall i wneud pob ysgol yn addas i'w diben erbyn 2010. Er ei bod yn ôl pob tebyg yn amhosibl defnyddio'r gyllideb hon i geisio ymgynraedd at gyflawni'r targed hwnnw, pan fyddwn yn trafod cyllidebau yn y trydydd Cynulliad, rhaid inni weithio'n galed gyda llywodraeth leol a phartneriaid eraill i geisio

purpose. Despite all the extra money going into that budget, it seems that we are treading water, and whoever is at fault, be it the Assembly Government or local government, we need a common purpose and a common approach on which everyone can agree to try to achieve that aim.

On higher education, Mike German and others referred to the promise made back in June or July 2005 to try to bridge the funding gap between England and Wales. We need to do that because we must build a knowledge-based economy. We need to ensure that students who go to universities in Wales get the same level of support and investment as they would get if they attended universities in England. However, we are still waiting for the official Government figures on how much that will cost. Yes, we have a Higher Education Wales briefing that says that the gap is as much as £16 million to £24 million per annum, and, yes, it is probably wider than that by now, but the point made by Higher Education Wales is very relevant. If we do not seriously start to address that issue soon, we will be caught up in negotiations on the review of student tuition fees and the possible lifting of the cap in 2009. Additional costs will result, which will mean that the whole idea of bridging that gap will be lost in the negotiations. That is why it is important that we make a substantive start in this budget, and that is why I would hope that our amendments will succeed.

On schools, we have held back £33 million in the current year because of the Gershon cuts, but it is all very well saying that it is down to the local councils, and that they should not pass on the cuts but make efficiency savings, but, if you do not give councils the money to do the job, then they have little choice about what they can do. They face rising costs and rising demands, and so do schools. Unless you pass the money to councils, they cannot invest it in the schools. That requires our urgent attention. If we do not invest in our schools and in our future, in the pupils who go to those schools, and if we force councils to make those cuts by holding the money

dechrau gosod targedau realistig ar gyfer sicrhau bod ein hysgolion yn addas i'w diben. Er gwaetha'r holl arian ychwanegol sydd yn mynd i'r gyllideb honno, aros yn ein hunfan yr ydym, a phwy bynnag sydd ar fai, boed yn Llywodraeth y Cynulliad neu lywodraeth leol, mae arnom angen nod cyffredin ac agwedd gyffredin y gall pawb gytuno arnynt er mwyn ceisio cyrraedd y nod hwnnw.

O ran addysg uwch, cyfeiriodd Mike German ac eraill at yr addewid a wnaed ym mis Mehefin neu Orffennaf 2005 i geisio pontio'r blwch cyllido rhwng Cymru a Lloegr. Rhaid inni wneud hynny am fod rhaid inni adeiladu economi seiliedig ar wybodaeth. Rhaid inni ofalu y caiff myfyrwyr sy'n mynd i brifysgolion yng Nghymru yr un lefel o gefnogaeth a buddsoddiad ag a gaent petaent yn mynd i brifysgolion yn Lloegr. Fodd bynnag, yr ydym yn dal i ddisgwyl am ffigurau swyddogol y Llywodraeth ar gost hynny. Oes, mae gennym bapur briffio gan Addysg Uwch Cymru sy'n dweud bod y bwch yn gymaint â £16 miliwn i £24 miliwn y flwyddyn, ac ydyw, mae'n debyg ei fod yn fwy na hynny erbyn hyn, ond mae'r pwynt a wnaed gan Addysg Uwch Cymru yn hynod berthnasol. Os na ddechreuwn fynd i'r afael o ddifrif â'r pwnc yn fuan, byddwn yng nghanol y trafodaethau ynghylch adolygu ffioedd dysgu myfyrwyr, a'r posibilrwydd o godi'r cap yn 2009. Bydd costau ychwanegol yn deillio o hynny, a fydd yn golygu y collir yr holl syniad o bontio'r bwch yn y trafodaethau. Dyna pam mae'n bwysig inni ddechrau o ddifrif yn y gyllideb hon, a dyna pam y byddwn i'n gobeithio y bydd ein gwelliannau'n llwyddo.

O ran ysgolion, yr ydym wedi cadw £33 miliwn yn ôl yn y flwyddyn bresennol oherwydd toriadau Gershon, ond hawdd iawn dweud mai mater i'r cynghorau lleol yw hyn, ac na ddylent drosglwyddo'r toriadau ond yn hytrach wneud arbedion effeithlonrwydd, ond os na rowch yr arian i gynghorau wneud y gwaith, yna nid oes ganddynt fawr o ddewis ynghylch yr hyn y gallant ei wneud. Oni fyddwch yn trosglwyddo'r arian i'r cynghorau, ni allant ei fuddsoddi yn yr ysgolion. Mae hyn yn galw am sylw brys gennym. Oni fyddwn yn buddsoddi yn ein hysgolion ac yn ein dyfodol, yn y disgyblion a fydd yn mynd i'r ysgolion hynny, ac os

back instead of allowing them to reinvest it, we will be as responsible for the outcomes as local councils.

gorfodwn gynghorau i wneud toriadau drwy ddal yr arian yn ôl yn hytrach na chaniatáu iddynt ei ailfuddsoddi, byddwn mor gyfrifol â'r cynghorau lleol am y canlyniadau.

6.10 p.m.

Elin Jones: Yr wyf yn bwriadu cyfyngu fy sylwadau y prynhawn yma at y rhan honno o'r gwelliant sy'n cyfeirio at Tir Mynydd.

Elin Jones: I intend to restrict my comments this afternoon to that part of the amendment that refers to Tir Mynydd.

Mae'n werth atgoffa ein hunain pahan yr ydym yn cael y drafodaeth hon am Tir Mynydd yn y gyllideb hon ar yr adeg hon eleni. Y rheswm, wrth gwrs, yw am nad oeddem yn gwybod yr amser hwn y llynedd am fwriad y Gweinidog i dorri £12 miliwn o gyllideb Tir Mynydd—yr oedd hi'n fis Mai arno cyn iddo gyhoeddi'r bwriad hwnnw, sef ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol. Ers hynny, yr wyf wedi bod yn ceisio cael atebion i'r cwestiwn, 'I ble mae'r £12 miliwn wedi mynd eleni?', ac yr ydym wedi cael sawl rheswm gwahanol gan y Gweinidog erbyn hyn.

It is worth reminding ourselves why we are even having this discussion on Tir Mynydd in this budget at this time this year. The reason, of course, is because, this time last year, we did not know about the Minister's intention to cut £12 million from the Tir Mynydd budget—it was May this year before he announced that intention, which was after the start of the financial year. Since then, I have been seeking answers to the question, 'Where has that £12 million gone this year?', and, by now, we have been given several different reasons by the Minister.

Yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, dywedodd y Gweinidog fod arian Tir Mynydd wedi'i gollu oherwydd twf mewn cyllidebau eraill megis Tir Gofal a Tir Cynnal. Fodd bynnag, ychydig funudau wedyn, dywedodd nad oedd unrhyw arian Tir Mynydd yn mynd at Tir Cynnal na Tir Gofal. Yn flaenorol yn y Siambr, dywedodd y Gweinidog fod arian Tir Mynydd wedi'i gollu rhwng cyllideb ddrafft y llynedd a'r gyllideb derfynol. Collwyd £1.3 miliwn a gwyddom am hynny, ond mae hynny ymhell o fod yn £12 miliwn. Ar ambell foment wan, mae'r Gweinidog wedi dweud yn y pwyllgor fod arian Tir Mynydd wedi'i gollu i ariannu ffioedd myfyrwyr ac wedi mynd i bortffolios eraill. Efallai fod y Gweinidog a llawer o bobl wedi dechrau alaru arnaf yn gofyn yr un cwestiwn dro ar ôl tro, ond i ble mae'r £12 miliwn ar gyfer Tir Mynydd wedi mynd? Pe caem un ateb clir gan y Gweinidog, yn hytrach na chasgliad o atebion sy'n gwrthdweud ei gilydd—o fewn yr un frawddeg, weithiau—efallai y byddwn i ac eraill yn barod i beidio â gofyn yr un cwestiwn.

In the last meeting of the Environment, Planning and Countryside Committee, the Minister said that the Tir Mynydd money was being lost because of the growth in other budgets, such as Tir Gofal and Tir Cynnal. However, just a few minutes later, he said that that none of the Tir Mynydd money had gone into Tir Cynnal or Tir Gofal. Previously in the Chamber, the Minister said that Tir Mynydd money was lost between last year's draft budget and the final budget. A sum of £1.3 million was lost, and we know about that, but that is still far from being £12 million. In a few weak moments, the Minister has told the committee that the Tir Mynydd money was lost in order to finance student fees, and had gone to other portfolios. Perhaps the Minister and many other people have tired hearing me asking the same question time and again, but where has the £12 million gone from the Tir Mynydd budget? If we had one clear answer from the Minister, rather than an assortment of contradicting answers—sometimes even within the same sentence—perhaps I, and others, would be prepared to stop asking the same question.

Mae adfer cyllideb Tir Mynydd ar gyfer y

Restoring the Tir Mynydd budget for next

flwyddyn nesaf yn flaenoriaeth i fwyafrif o aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Pleidleisiwyd ar hynny cyn yr haf. Mae'n siomedig—er nad yn syndod—nad yw'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad na'r Gweinidog Cyllid wedi cytuno i hyn.

Yn ei adroddiad i'r pwyllgor ar ddydd Iau, mae'r Gweinidog dros amaeth yn rhoi dau reswm paham y mae'n gwrthod cynyddu cyllideb Tir Mynydd. Yn gyntaf, dywed y byddai hynny'n peryglu cynllun datblygu gwledig nesaf y Cynulliad a chynllun datblygu gwledig Cymru. Nid wyf yn gallu deall y rheswm hwnnw, am ei fod yn gwbl amlwg y bydd cynllun ar gyfer ariannu amaethyddiaeth mewn tiroedd llai ffafriol yn rhan o gynllun datblygu gwledig Lloegr, yr Alban, a'r rhan fwyaf o aelod-wladwriaethau Ewrop. Felly, synnaf fod hynny'n rheswm i beryglu cynllun datblygu gwledig Cymru.

Yn ail, dywed y Gweinidog mai dim ond cymorth incwm i ffermwyr yw Tir Mynydd. Derbyniaf fod Tir Mynydd yn cael ei gyfiawnhau yn rhannol fel cymorth sosioeconomaidd, a bu i'r Gweinidog ei hun, wrth gyflwyno'r cynllun hwn ryw bum mlynedd yn ôl, gydnabod bod Tir Mynydd yn daliad sosioeconomaidd ac yr oedd yn gweld gwerth i hynny bryd hynny. Wrth dorri ar draws Ieuan Wyn Jones yn gynharach, dywedodd y Gweinidog fod incwm y pen ffermwyr mewn ardaloedd llai ffafriol yn uwch nag incwm ffermwyr yr iseldir.

Huw Lewis: I am sorry to break into your flow, Elin, but listening to the opposition parties this afternoon, I am beginning to wonder whether we are discussing a budget for the whole of Wales or a budget for farmers. At some point during her contribution, I invite Elin to say something to my constituents, perhaps.

Elin Jones: Dywedais y byddwn yn cyfyngu fy sylwadau y prynhawn yma at Tir Mynydd, fel llefarydd Plaid Cymru ar yr amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad. Mae'n fater sy'n bwysig i ffermwyr sy'n cael arian Tir Mynydd yn eich etholaeth chi, fel y mae i ffermwyr sy'n ei gael yn fy etholaeth i.

year is a priority for most members of the Environment, Planning and Countryside Committee. This matter was voted on before the summer. It was disappointing—though no surprise—to learn that neither the Minister for Environment, Planning and Countryside nor the Finance Minister agreed to that.

In his Minister's report to the committee this Thursday, the Minister for agriculture will give two reasons why he refuses to increase the Tir Mynydd budget. First, he says that that would endanger the Assembly's next rural development plan and Wales's rural development plan. I cannot understand that reason, as it is perfectly clear that a scheme to finance agriculture in less favoured areas forms part of the rural development plans of England, Scotland and the majority of European member states. Therefore, I am surprised that that is reason enough to jeopardise Wales's rural development plan.

Secondly, the Minister says that Tir Mynydd is nothing but income support for farmers. I accept that Tir Mynydd is partly justified as socioeconomic support, and the Minister himself, when presenting the scheme some five years ago, acknowledged that Tir Mynydd was a socioeconomic payment, and he saw the value in that at the time. In interrupting Ieuan Wyn Jones earlier, the Minister said that farmers' per capita income in less favoured areas was higher than that of farmers in lowland areas.

Huw Lewis: Mae'n ddrwg gennyf dorri ar eich traws, Elin, ond o wrando ar y gwrthbleidiau y prynhawn yma, yr wyf yn dechrau meddwl ai trafod cyllideb i Gymru gyfan ynteu cyllideb i ffermwyr yr ydym. Rywbryd yn ystod ei chyfraniad, gwahoddaf Elin i ddweud rhywbeth wrth fy etholwyr i, efallai.

Elin Jones: I said that I would restrict my comments this afternoon to Tir Mynydd, given that I am Plaid Cymru's spokesperson on the environment, planning and countryside. This matter is important to farmers who receive Tir Mynydd money in your constituency as it is for those in mine.

Cyfeiriodd y Gweinidog at y ffaith fod The Minister referred to the fact that the

lefelau incwm ffermwyr tir llai ffafriol yn uwch na lefelau incwm ffermwyr tir isel, ac yr wyf yn cydnabod bod hynny'n wir. Fodd bynnag, rhaid cofio bod y ddwy lefel incwm yn is nag incwm cyfartaledd Cymru. Felly, nid oes dim byd i ymhyfrydu ynddo yn incwm y ddwy set o ffermwyr.

Felly, y pwynt i'w gofio yw nad yw'n bosibl talu cyfraniadau ariannol i ffermwyr y tu allan i diroedd llai ffafriol yn ôl rheolau Ewrop. Daw hynny â ni at y ddaidl y cyfeiriodd Brynle Williams ati. Mae'r farn wedi'i thafllu atom lawer gwaith bod adroddiad Llys Archwilwyr Ewrop yn 2003 wedi cyfeirio yn benodol at Tir Mynydd. Nid oedd hynny'n wir. Edrychodd yr adroddiad ar ba dir, a faint o dir, mewn aelod-wladwriaethau a oedd yn gymwys fel tir llai ffafriol, ar hyd a lled Ewrop. Nid oedd yn cyfeirio at Gymru ac nid oedd yn cyfeirio at Tir Mynydd. Mae'n gwbl gamarweiniol dweud bod yn rhaid inni ostwng ein cyllideb Tir Mynydd oherwydd yr adroddiad hwnnw. Penderfyniad gwleidyddol gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, wedi'i gefnogi gan y Gweinidog Cyllid, yw torri cyllideb Tir Mynydd. Nid oes rheswm arall dros hynny, ond mae'n bosibl y bydd mwyafrif democrataidd y Cynulliad yn gwrthod y farn honno heddiw.

The Presiding Officer: I call Trish Law and then John Marek. I need to call the Minister at just after 6.20 pm.

